



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>




This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

COFIANT
DAFYDD ROLANT

2/-

24

Handwritten signature



600085803U

1122.f.1



COFIANT

Y DIWEDDAR

DAFYDD ROLANT Y BALA,

YN NGHYDA

DETHOLION O'I BREGETHAU.

GAN Y PARCHEDIGION

OWEN JONES, B.A., A ROBERT THOMAS,
LLIDIARDAU.

WREXHAM:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDwyD GAN R. HUGHES AND SON.



RHAGY MADRODD.

AR annogaeth y Cyfarfod Misol yn unig yr ymgymersais i ag ysgrifenu fy rhan o'r llyfr hwn. Ni buaswn mor ffol a'i ysgrifenu wrth fy mympwy fy hun, am y gwyddwn nas gallwn wneyd cyfiawnder â'r gwrth-ddrych; a chan na fynai y Cyfarfod Misol fy nghymeryd yn esgusodol, nid oeddwn mor anufudd fel ag i nacâu. Ond yr oeddwn yn disgwyl y cawswn bob cymhorth gan y brodyr a'm hanogodd yn y Cyfarfod mor unfrydol, ond yn hyn fe'm siomwyd i raddau pell, gydag ychydig o eithriadau anrhydeddus. Yr unig gymhorth a dderbyniais gan y rhan luosocaf, llawer o ba rai oedd yn ei adnabod yn dda, ac yn gydnabyddus iawn ag ef, oedd y cwestiwn—"Pa bryd y mae Cofiant Dafydd Rolant yn dwad allan?" Cyhoeddwyd hysbysiad, a daeth cymaint ag *un* attebiad, a hwnw oddiwrth weinidog parchus o enwad arall. Fel rhwng pobpeth yr oeddwn yn digaloni, trwy feddwl nad oedd ar ei frodyr awydd am Gofiant am dano. Trwy arfer llawer o ddiwydrwydd a dyfalbarhad, ac ysgrifenu yn bersonol at hwn a'r llall, nes yr oeddwn yn mron a diflasu ar y gwaith, llwyddwyd o'r diwedd i gasglu sylwedd y tudalennau canlynol. Derbynied y rhai a roddasant unrhyw gymhorth i mi mewn hanesion a dywediadau, yn enwedig y ddau frawd a anfonodd y cofnodion o'i bregethau, fy niolchgarwch mwyaf gwresog.

Nid yn aml y mae neb o'i enwogrwydd ef wedi gadael can lleied o ddefnyddiau yn ei law ei hun i fod yn sylfaen cofiant. Ac heblaw hynny, ni bum i mewn cymaint o gydnabyddiaeth ag ef fel y gallwn wneyd cyfiawnder ag ef. Gadewais yr ardal bron yn gwbl parnad oeddwn ond prin wedi agoryd fy llygaid i ddechreu sylwi ar ei neillduolion fel dyn, Cristion a phregethwr. Ac o 1853 ni chlywais ef yn pregethu ond anaml; ac nid oeddwn wedi ei glywed o gwbl er ys blynyddoedd—pum mlynedd yr wy'n meddwl—cyn ei farwolaeth; ac nid oeddwn wedi cofnodi dim am dano nac a ddywedodd erioed. Fel y gellir gweled fod fy anfanteision i at y gorchwyl yn fawr. Ond er hyn oll, gwneis a allwn i beri iddo “wedi marw lefaru eto.”

Y mae yn ddiau fod yma lawer o'r hyn a eilw rhai yn gyffredin a diangenrhaid, a llawer a eilw eraill yn ddichwaeth yn y llyfr. Ond gan mai y pethau hyn a dderbyniwyd fel defnyddiau oddiwrth ei hen gyfoedion a'i gyfeillion, meddyliais mai trwy eu cyhoeddi fel eu cafwyd y cyfarfyddid teimlad cyffredinol y wlad oreu, Ac ni chadwyd yn ol ond ychydig o'r dywediadau mwyaf anghoeth. Yr oedd yn dda gan bawb weled Dafydd Rolant, a gobeithiwyf y bydd yn dda ganddynt weled ei Gofiant, ac na welant yma ddim ond sydd yn deilwng o hono ef ei hun yn mhlith ei ddywediadau.

Os oes rhywun ag sydd yn cymeradwyo cyhoeddiad yr hanesion a'r dywediadau hyn o'i eiddo, a chanddynt rai cyffelyb, nad ydynt wedi eu rhoddi i mewn yma, am na dderbyniwyd hwynt,—rhag iddynt syrthio i ebar-gofiant, ymrwymaf, ond iddynt ddyfod i'm llaw y cant ym^ddangos eto mewn rhyw ffurf.

Ymddiriedodd fy nghyd ysgrifenydd ei ran i'm gofal ; rhoddais yr hanesion oedd yn ei ysgrif ef yn y fan a dybiwn oedd eu lle priodol yn yr hanes, y rhai a adwaenir wrth y [] sydd yn eu hamgau, er y gellid oddiar eu rhagoriaeth eu hadnabod hebddynt. Cynyrch ei ysgrifell ef ydyw Pennod VII. yn gwbl, ac y mae yr oll fel y daeth o'i law ef, oddieithr yn unig eu bod wedi eu hail-drefnu.

Cawsom gryn lawer o hanesion am rai o'i gydffordd-olion ; ac es barnem nad oeddynt yn argraffedig o'r blaen, cymerwyd y cyfleusdra hwn i'w cadw rhag cael eu hanghofio.

OWEN JONES.

BALA.
Tachwedd, 1863.

CYNNWYSIAD.

	TUDAL.
RHAGYMDRODD	3

PENNOD I.

Ei Ie Genedigol—Ei Rieni—Ei symudiad i Gwmtlylo—Darluniad o'r Cwmtlylo—Ei argyhoeddiad—Ei hoffder o ddarllen y Beibl, gweddio, a phregethu yn y dirgel—Y Seiat Bach—Ei dderbyniad at yr Ordinhad—Yn gweddio yn gyhoeddus—Yn cynnal cyfarfodydd ar hyd y tai	9
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---

PENNOD II.

Y mae yn dechreu pregethu—Ei ddigalondid—Ei lwyddiant—Ei hunanymwadiad—Ei gymeriad fel pregethwr pan y dechreuodd—"Y Milgi Cryf"—Ei daith gyda Mr. Elias a'i dyben	23
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----

PENNOD III.

Yr Ysgol Sabbothol—Yr Ysgol Ddyddiol—Mari Lewis—Rhisiart Owen—Richard Jones—Mr. Davies, Fronheulog—Mr. Hughes o Wrecsam—Hanesion am dano	54
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----

PENNOD IV.

Y mae yn priodi—Yn myned i fyw i Drawsfynydd—Yn myned ar daith i'r Deheudir gydag Evan Ffowc—Yn symud i'r Llidiardau, Waen y Bala, lle yr erys ar hyd ei oes—Ei ordeiniad	72
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----

PENNOD V.

Ei Berson—Yn y Cyfarfod Gweddi—Yn treulio diwrnod, yn darllen, myfyrio, ac ysgrifenu—Yn y Cyfarfod Eglwysig—Yn y Cyfarfod Dirwestol—Yn y Ffair—Yn y Cyfarfod Gwleidyddol—Yn nghwmni brodyr o Enwadau eraill—Yn y Cyfarfod Misol—Yn cychwyn i'w gyhoeddiad—Ar gefn ei geffyl—Ar hyd y ffordd—Yn y Tŷ—Yn y Pulpud—Yn cyfranu yr Ordinhad—Yn newid ei geffyl	78
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----

PENNOD VI.

	TUDAL
Braslun o'i hanes hyd ddiwedd ei oes—Ei Afiechyd—Ei farwolaeth —A'i gladdedigaeth	114

PENNOD VII.

Dafydd Rolant fel <i>Dyn</i> ; yn gyfaill cywir a ffyddlon, call a medrus, siriol, a thalent ganddo i ddyddanu—Fel <i>Cristion</i> —Ac fel <i>Pregethur</i>	123
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----

PENNOD VIII.

Lloffion o'i ddywediadau	140
------------------------------------	-----

PENNOD IX.

COFNODION O'I BREGETHAU.

PREGETH I.—“Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu, gan fod arnaf chwant i'm dattod a bod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw.”—PHIL. 1. 23.	157
PREGETH II.—“Y neb a guddio ei bechodau ni lwydda; ond y neb a'u haddefo ac a'u gadawo, a gaiff drugaredd.”—DIAR. 28. 18.	158
PREGETH III.—“Ond pwy bynnag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd.”—IOAN iv. 14.	161
PREGETH IV.—“Am hyny efe a ddichon yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.”—HEB. vii. 25.	162
PREGETH V.—“I'r man yr aeth y rhagflaenor drosom ni, sef Iesu, yr hwn a wnaethpwyd yn Archoffeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec.”—HEB. vi. 20.	166
PREGETH VI.—“Ac a gobaith iachawdwriaeth yn lle helm.”— 1 THESS. v. 8.	169
PREGETH VII.—“Pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw.”—1 IOAN v. 5.	171
PREGETH VIII.—“Yr hwn er nas gwelsoch yr ydych yn ei garu; yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn ei weled ond yn credu, yr ydych yn mawr lawenhau a llawenydd annhracthadwy a gogonedd- ne.”—1 PETE i. 8.	173

	TUDAL.
PREGETH IX.—“Ac at Iesu, cyfryngwr y testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn llefaru pethau gwell na'r eiddo Abel.”—HEB. xii. 24.	178
PREGETH X.—“Os gwneir hyn yn y pren ir, pa beth a wneir yn y crin.”—LUC xxiii. 31.	179
PREGETH XI.—“A gŵr fydd yn ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymhestl; megys afonydd dyfroedd mewn sychdir, megys cysgod craig fawr mewn tir sychedig.”—ESAIAH xxxii. 2.	181
PREGETH XII.—“Y cyfiawn a ddeil ei ffordd, a'r glân ei ddwyllaw a chwanega gryfder.”—JOB xvii. 9.	182
PREGETH XIII.—“Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a sych-ed am gyfiawnder; canys hwy a ddiwellir.”—MAT. v. 6.	167
PREGETH XIV.—“Ac nid hynny yn unig eithr gorfoleddu yr ydym hefyd yn Nuw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y derbyniasom y cymmod.”—RHUF viii. 11.	194
PREGETH XV.—“A'th gynghor y'm harweini, ac wedi hynny y'm cymmeri i ogoniant.”—PSALM lxxiii. 24.	199
PREGETH XVI.—“Atto ef y deuir; a chywilyddir pawb a ddigiant wrtho.”—ESAIAH xlv. 24.	208

HANES BYWYD Y PARCH DAVID ROWLAND.

PENNOD I.

EI LE GENEDIGOL—EI RIENI—EI SYMUDIAD I GWMTYLO—DARLUNIAD O'R
CWMTYLO—EI ARGYHOEDDIAD—EI HOFFDER O DDARLLEN Y BEIBL,
GWEDDIO A PHREGETHU YN Y DIRGEL—Y SEIAT BACH—EI DDERBYN-
IAD AT YR ORDINHAD—YN GWEDDIO YN GYHOEDDUS—YN CYNNAL
CYFARFODYDD AR HYD Y TAL.

Nis gallwn fod yn sicr am y diwrnod ar ba un y ganwyd David Rowland—neu fel y gelwid ef yn fwyaf cyffredinol Dafydd Rolant—ond gwyddom yn sicr iddo gael ei fedyddio Mehefin 11, 1795, yn Eglwys y plwyf, yn Llanycil. Ei fedyddiad yn unig sydd wedi ei gofrestru, ac ni waeth i ni heb fyned i ddyfalu pa bryd cyn hyny y ganwyd ef, gan nad oes un rheol unffurf wedi ei gosod gyda golwg ar yr oedran i weinyddu bedydd, fel oedd gan yr Iuddewon i weinyddu enwaediad, ond pawb yn bedyddio eu plant fel y byddai fwyaf cyfleus iddynt, ac fel y gwelont yn dda eu hunain. Gan hyny, gadawn i'n darllenwyr ffurfio eu dychymyg eu hunain, os mynant, am y *dydd* y ganwyd ef; gan mai ein dyledswydd ni mewn gwaith fel hyn, ydyw gweithio ar ffeithiau, ac nid rhoddi lle i'n dychymygion ein hunain. Ond hwyrach mai nid anmhriodol a fyddai i ni nodi yma rai cyfeiliornadau y geill rhai yn ein swydd ni gael eu harwain iddynt. Hysbysir ni gan un o'i gyfoedion yn benderfynol mai yn mis Ionawr, 1796, y ganwyd ef, sef tua haner blwyddyn ar ol ei fedyddiad, yr hyn nid yw yn debygol iawn, fel y gwel y darlennydd ystyriol. Dywed un arall o'i gyfoedion yr

arferai Dafydd Rolant ei hun ddyweyd mai yn Ngwyl Pedr, tua Gorphenaf y 10fed, y byddai yn cael ei flwydd, neu tua mis yn ddiweddarach na'r pryd y bedyddiasid ef; yr hyn sydd yn peri i ni led dybied na wyddai ef ei hun pa faint yn gywir oedd ei oedran, na pha bryd y cai ei flwydd. Amgylchiad pwysig yn mywyd dyn ydyw ei enedigaeth, a dylai ymholi pa bryd y digwyddodd mor gynted ag y byddo modd, a chadw y dyddiad hwn mewn cof, pa ddyddiau bynag ereill a anghofir, rhag y digwydd iddo ddyfod yn enwog ryw dro, a pheri trafferth i neb chwilio am dano, ac wedi'r cwbl methu ei gael.

Hwyrach y dylem yma ddweyd gair am ei rieni. [Mab ydoedd efe i David Rowland, a elwid Dafydd Rolant y *Trumpeter*, gan mai efe a fyddai yn seinio y *Trumpet* ar ddyddiau y brawdlysoedd, yn mhrif ddinasoedd Meirion.] Nis gwyddom ddim o'i achau ef. Ei fam ydoedd Jane Roberts, merch Cwmtlylo, ffermdŷ yn mhlwyf Llanuwchllyn. Meddyliai un wrthym, iddi hi, yr hon oedd yn aelod gyda'r Methodistiaid yn y Bala, fyned allan o'r eglwys i briodi; ond hysbysir ni yn ddi-amheuol gan un arall i'w dad ymuno â'r eglwys cyn priodi, wedi ei argyhoeddiad o dan weinidogaeth y Parch. Peter Williams, a'i fod ef yn grefyddwr selog pan y priododd, er iddo ar ol hyny adael yr eglwys. Ac ar ol hyny, arferai ymffrostio pan "yn ei ddiod," yr hyn a ddigwyddai weithiau, iddo ef fagu dau bregethwr (gan gyfeirio at ei fab ei hun, ac at ei nai, fab chwaer, y diweddar Barch. John Peters, Bala, yr hwn a fagwyd ganddo) tra yr oedd pregethwyr yn methu a magu yr un o'u meibion yn bregethwr. Bu ef fyw i gyrhaedd oedran teg, a threuliodd ei flynyddau olaf gyda'i fab yn y Pentre, ac yno y bu farw.—Am ei fam, parhaodd hi yn gristion cywir hyd ddydd ei marwolaeth.

[Lle genedigol Dafydd Rolant oedd dinas y Bala. Yr oedd saith o ddinasoedd mawrion ac enwog yn dadl-

eu yn frwd â'u gilydd, a phob un o'r saith yn honi yn gadarn mai ynddi hi y ganwyd Homer, y bardd Groeg-aidd enwog; pa esgus na pha rheswm oedd gan gynifer o honynt i honi y fath beth, ni welais ac ni chlywais i neb erioed yn dywedyd. Ond gallasai fod yn amheus yn mhen y deng mlynedd ar hugain eto, ar ol claddu yr hen bobl oll sydd yn cofio hyny, yn mha un o ddau le, yn gystal ag yn mha amser, y ganwyd y gŵr hwn, sef y Bala ai Cwmtlylo. Ond y mae yn sicr wrth ei gofnodi yn awr, mai y Bala oedd ei le genedigol ef, ac mai yno y magwyd ef gan ei fam ei hun, nes oedd efe tua phedair blwydd oed, pan y bu ei fam farw; a dygwyd ef prydawn dydd ei chladdedigath, gan ei nain i'r Cwmtlylo i'w fagu; ac yno yr arosodd efe bellach nes y dechreuodd bregethu.]

Yma eto yr ydym yn cael mantais i weled beth mor ansicr i ymddiried ynddo ydyw traddodiad. Dywed rhai o'i gydoeswyr mai dwy flwydd, eraill mai tair blwydd oed, oedd pan y bu ei fam farw. Ond dywed eraill, ei fod yn hŷn na hyny; a deallwn y dywedai ef ei hun mai pedair oed oedd yn myned i Gwmtlylo; ac y mae y ffaith mai yn ysgil ei nain yr aeth yno yn peri ini feddwl nad oedd yn llai na phedair oed. Dywedai ei hun hefyd, ei fod yn cofio rhai pethau yn dda cyn ei symudiad, yn gystal a'r symudiad ei hun. Cofiai ei hun ar lŷn ei fam yn Nghapel y Bala, ar amser gweinyddiad swpper yr Arglwydd; a meddyliai wrth weled Mr. Charles yn rhoddi y bara i'r bobl, ei fod yn rhanu siwgr gwyn iddynt: a diamheu ei fod yn teimlo yn bur ddig wrtho am beidio a rhoddi dim iddo ef. Hefyd, dywedir i ni ei fod yn pregethu cyn ymadael o'r Bala. Nid yw yn hawdd i ni gredu ei fod yn pregethu cyn bod yn ddwy flwydd oed; [ond pe dywedwn i ei fod yn pregethu cyn bod yn bedair oed, ac o hyny yn mlaen hyd nes y dechreuodd efe o ddifrif, ni byddai yn ormod o dreth ar reswm neb i'w gredu. Oblegid y

mae yr hanesion yn dywedyd fod amryw o'r rhai a gyrhaeddasant gryn lwyddiant a defnyddioldeb fel gweindogion yr efengyl, yn chwanog iawn, yn mabandod eu hoes, i ddynwarded pregethu.] Felly gwelwn iddo gyrhaedd Cwmtlylo, ei gartref newydd, tua'r flwyddyn 1799, tua blwyddyn cyn dechreu y ganrif bresenol.

Efallai y goddef y darllenydd i ni yma roddi darluniad byr o'i gartref newydd. Os bydd i deithiwr ar ei ffordd o'r Bala i Ddolgelleu, yn union ar ol gadael o'i ol y drydedd garreg filldir o'r Bala, edrych tua'r gogledd-orllewin, ar hyd y dyffryn trwy ba un y rhed yr afon Lafar, yr hon y mae y ffordd yn ei chroesi tua chanllath yn mlaen,—y mae yn edrych yn union yn nghyfeiriad y Cwmtlylo, yr hwn sydd tua thair milldir o'r fan y saif yr edrychyd arno. Ac os teimla ar ei galon gael gweled y fan, nid rhaid iddo ond dilyn yr afon yna hyd nes y byddo wedi gadael Capel y Parc tua haner milldir o'r tu ol iddo, a throi y pryd hwnw ar ei aswy gyda'r ffrwd sydd yno yn cymysgu ei dyfroedd gyda'r Lafar,—yr hon tra yn unig a elwir wrth yr enw yr "Afon Dylo," ond sydd pan y cyferfydd â'i mwy, yn colli ei henw, ac yn colli ei hunan yn ei chryfach,—a dilyn y Dylo bob cam, nes cyn hir, wedi iddi droelli tipyn i gael o hyd i agoriad cul i ymwthio trwyddo i ymarllwys ei dyfroedd o gwbl, gan ymddolenu gyda'i llwybr hi,—daw i olwg tyddyn, yr hwn sydd yn gwneyd i fyny yr oll o'r pantle sydd o'i flaen. Enw y tyddyn yna ydyw Cwmtlylo. Aed ymlaen am dipyn yn nes i'r mynydd du cribog, daw at y tŷ sydd ar y tyddyn, yr hwn sydd yn nghesail y mynydd mewn lle unig, heb olwg i'w chael o hono ar un tŷ cymydogol, er nad yw y pellder yn fawr ar ddê neu ar aswy, cyn y deuir o hyd i dai. Nis gwyddom pwy, neu pa beth oedd y Tylo a roddodd ei enw ar y Cwm, yr Afon a'r Fron yn y gymydogoeth hon; digon tebyg mai rhyw hen sant Cymreig ydoedd. Deallwn i'r teulu hwn fyned yno i

ddechreu, tua chant a haner o flynyddoedd yn ol; y pryd hyny nid oedd yno onid cae neu ddau, y gweddill oll yn wyllt a diamaethiad, ond yn awr y mae yn dydd-yn mawr; a drwg genym ddweyd fod y teulu hwn wedi ymadael oddiyno y flwyddyn hon (1863), a dyeithriad wedi dod i breswyllo ynddo. Ond nesawn yn mlaen at y tŷ; y mae yn edrych tua'r dê; yno y mae trum yn gwanu rhyngddo a'r Trawsgoed, ac yn y pellder y mae'r Aran i'w gweled yn ymgodi tua'r cymylau. O'r tu ol y mae cefnen yn ei gysgodi rhag gwynt oer y gogledd. I'r gogledd y mae Moel-yr-ymenyn, neu Foel Maesmathew, yn codi ei chrib ddu serth i'r golwg; a'r tu cefn i hon eto, y mae mynyddoedd yr Arenig. Edrychwn tua'r gorllewin, a'r gogledd-orllewin, nid oes ond mynydd i'w weled, neu yn hytrach ffridd, heb ddim yn gwahaniaethu rhyngddi a mynydd o ran ei natur, ond yn unig fod gwâl wedi ei chodi o'i chylch draw yn y pellder; fel, yn mhen tua chan llath o dalcen y tŷ, dyma ni ynghanol grug, brwyn, crowwellt, rhedyn, eithyn, corsydd a cherrig. Yn y cyfeiriad yma—yn rhywle rhwng y gogledd a'r gorllewin—y mae y Llechwedd-erwent [garw-wynt?] a Gordderw y Trawsgoed. Ar y drum y tu cefn i'r tŷ y mae beudŷ, a elwir y Beudŷ-uchaf; ac yn union o flaen y tŷ, yr ochr arall i'r Dylo, y mae beudŷ arall a thô brwyn arno, a elwid y “Beudŷ-y-tu-hwnt-i'r-nant”—tua thri lled cae o'r tŷ. Wrth edrych tua'r de-ddwyrain y mae rhanau uchaf Cwm-Glan-Llafar yn y golwg; ond yr oedd y caddug a'r niwl mor dew yr unig waith y buom ni yno fel nas gallem ganfod y cwbl sydd i'w weled yn y cyfeiriad yma. Gwelwn oddiallan mai un o'r hen dai “hen *ffasiwn*” ydyw y tŷ, nid ydyw yn uchel, ond y mae llofft arno. Mae y tô yn rhy isel i'r ffenestri fod odditano, nes yr oedd yn rhaid iddynt fod yn y tô, neu beidio a bod yno o gwbl. Ond trown i gael golwg arno o'r tu mewn. Isel ydyw oddimewn, fel y gallesid casglu oddiallan. Yn

wir ni thâl hi ddim i wneyd amaethdai yn y parthau uchel hyn o'r wlad yn rhyw agos iawn i'r cymylau, gan ruthredd y gwyntoedd. Y mae y tŷ yn aml er ei wneyd yn isel, yn myned yn fyrach o'i gorn, neu yn colli ei benwisg mewn un noswaith, "gan faint yw grym y storm." Y mae yn rhaid i ddyn, os bydd yn weddol o dal, naill ai tynu ei benwisg, neu ynte fod yn dra gostyngedig, os ydyw am fyned i mewn. Eir i mewn yn y pen gorllewinol; y mae y grisiau i'r llofft yn dilyn y mur ar y dde, tua'r dwyrain; yn y pen dwyreiniol, y mae yr ystafell oreu, yr hon sydd rîs neu ddwy yn îs na'r gegin. Y mae y tŷ a phob peth ynddo, meddir, yn gymhwys yr un fath ag oedd pan yr aeth y pregethwr bach o'r Bala yno gyntaf. Dyma y wlad, a dyma y tŷ lle y treuliodd Dafydd Rolant ei flynyddoedd boreuol.

Hwyrach fod ambell un yn barod i ddweyd fod rhyw orfanylrwydd fel hyn yn y darluniad hwn o'r lle y dygwyd ef i fynu ynddo, yn dra amherthynasol i'r pwnc. Ond goddefer i ni ddweyd, os ydym wedi ei wneyd yn lled gywir a chyflawn, y mae yn sicr o fod yn berthynasol. Ein rheswm dros ein manylrwydd yn ceisio rhoddi darluniad o'r llanerch hon o'r ddaear ydyw, ein bod yn barnu fod gan y lle y dygwyd Dafydd Rolant i fynu ynddo ddylanwad mawr yn ffurfiad ei ddull o feddwl a thraethu. Y mae lle y bydd dyn fyw ynddo yn ei ieuenctyd, yn sicr o roddi ei argraff ar y dyn dros weddill ei oes.

Ond i droi oddiwrt h y lle, at y gwrthddrych a fagwyd ynddo. Rhyw dryblith lled gymysglyd ydyw y defnyddiau sydd genym mewn llaw, i roddi ei hanes am y pymtheg neu un mlynedd ar bymtheg nesaf. Nid oes genym na dydd, na mis, na blwyddyn i'w roddi wrth ddim a ddywedwn. Ond ceisiwn roddi y crynodeb taclusaf a chywiraf ag a allom o hono.

Nid oes genym nemawr o'i hanes bydol yn y tymhor hwn, ond yn unig ei fod yn byw, ac yn gweithio fel yr

oedd meibion amaethwyr yn gyffredin yn gwneyd. Ond ymddengys ei fod yn cael ei ystyried gan ei gyfoedion yn fachgen hardd iawn ei fuchedd erioed, er ei fod o duedd braidd ddiridus, ond yr oedd ei ddirid yn hollol ar ei ben ei hun; pan y chwareuai, ni chwareuai fel plant eraill. Ac er y byddai yn mynychu moddion gras, ac yn dra hoff o bethau crefyddol er yn foreu iawn, ymddengys yr arferai efe ei hun edrych ar ryw adeg neillduol, fel y pryd y teimlodd ryw argraffiadau dwys iawn ar ei feddwl. Nis gwyddom pa bryd y digwyddodd hyn, ond dywedir mai fel y canlyn y bu:—

Un Sabboth yr oedd yn gwneyd yr hyn a alwai efe yn 'chwareu,' gyda phlant drwg eraill, yn yr helm fawn, wrth dalcen tŷ y Tŷ-cerrig-isaf, lle yr arferid cynnal moddion y pryd hwnw, tra yr oedd yr hybarch Dafydd Cadwalad yn pregethu oddimewn; dywedir mai myned yno a wnaeth i hel clapiau mawn i fyned i mewn i'r tŷ i luchio y bobl â hwy. Ond cyrhaeddodd rhyw air a ddywedai y pregethwr glust y bachgen drwg, trwy y mur a'r cwbl, ac nid ei glust yn unig ond ei galon hefyd; fe'i hargyhoeddwyd ac fe'i sobrwyd yn fawr. Ac o'r Sabboth hwnw y byddai efe yn cyfrif dechreuad ei fywyd crefyddol. Ciliai oddiwrth ei hen gyfeillion wedi hyn, ac ymwasgai yn nes â'r dysgyblion. Edrychai ar Dafydd Cadwalad fel ei dad yn y ffydd. Meddyliai yn fawr o hono, a siaradai yn y dull mwyaf parchus am dano bob amser hyd ddiwedd ei oes.

Y gorchwylion a gyflawnai yn benaf ar y tyddyn oeddynt bugeilio y defaid, ac edrych ar ol y gwartheg. Yn yr haf treuliai lawer iawn o amser yn y mynyddoedd gyda'r defaid; ac yn y gauaf, byddai yn aml iawn tua'r beudai. Ond yr oedd yn gallu gwneyd rhywbeth heblaw hyny. "Cadwai ei galon yn dra diesgeulus," ynghanol y cwbl, ac ymarferai â'r moddion goreu i ddiwyllio ei galon. Darllennai lawer ar ei Feibl, gweddiai lawer yn y dirgel, a phregethai lawer i'r defaid, y

gwartheg, y cerrig, a'r grug. Yr ydym yn cael hanes am dano yn pregethu *cyn* ei argyhoeddiad ar y Sabbath a nodwyd, ond ni chlywsom am dano fel un hynod am ddarllen ei Feibl, neu ei fod yn gweddio cyn hyny. Ond yr oedd y *tri* pheth hyn yn canlyn eu gilydd ynddo ar ol ei argyhoeddiad. Byddai ganddo Feibl, ac "allor" neu bulpud, yn mha le bynag y digwyddai i wrthddrychau ei ofal fod. Os gyda'r defaid, byddent yn y mynyddoedd; os gyda'r gwartheg, byddent yn y beudai. Yr oedd ganddo dreiglen o wair dan ei draed, ac astellen i ddal y Beibl a'r llyfr hymnau, yn nghornel y "Beudŷ-uchaf" ar hyd yr amseroedd. Wrth ei weled, gofynai ei ewythr, David Roberts, iddo, "Beth ydyw hwn sydd genyt ti, Deio?—y mae yn debyg iawn i bulpud." Byddai ganddo Feibl yn mhob un o'r beudai; cadwai hwynt ar y walbentydd, neu yn nhyllau y muriau: ac yno y byddai yn darllen, yn dysgu ei Feibl, ac yn pregethu a'i holl egni. Soniai ar ol hyny am ryw hen fuwch y pregethodd lawer iddi. Yn fuan ar ol ei argyhoeddiad, penododd ar le pwrpasol i neillduo iddo i weddio—sef y beudŷ bychan, tô brwyn, yr ochr draw i'r nant, yn ymyl Cwmtylô; a llawer gwaith y bu yno, hyd nes y deuai rhyw un i'w geisio; methai ddod oddi-yno; a gwyddai y teulu yn eithaf da i ba le i fyned i chwilio am dano pan y byddai ei eisieu.

Yn yr haf drachefn, yn y mynydd gyda'r defaid y treuliai lawer o'i amser. Cododd allor i bregethu arni yn Mlaen-cerrig-brithion, Llechwedd-Erwent. Bu yno yn pregethu am amryw flynyddoedd; byddai ei Feibl yn cael ei gadw yno yr haf pan yn bugeilio defaid, mewn rhyw guddfa neillduol. Ond canfyddodd rhywun y Beibl yn y guddfa, a lladrataodd ef oddiyno; ni wyddis pa un ai o ryw ddirieidi drwg, ai o erledigaeth, ai ynte gyda rhyw ddyben arall y gwnaed y weithred. Ond mewn canlyniad i hyn, symudodd ei allor pregethu i ben Gordderw y Trawsgoed, a bu yno ar

ryw glopa yn pregethu bob cyfle a gai am hir amser ; ac yr oedd llawer o bobl wrth deithio y ffordd islaw yn ei glywed o dro i dro yn pregethu. Gallem dybied oddiwrth hyn, fod ei lais y pryd hwn mor glir ag y bu byth wedi hyny.

Pregethai unwaith ar ben lluwchfa eira, ac wrth adrodd yr hanes, dywedai :—“Mi fyddwn i yn arfer a gwneyd fy nyledswydd gyda'r defaid bob amser cyn y dechreuwn bregethu. Ryw dro yr oeddwn i wedi hel y defaid i'w lle o'r tu ucha' i mi ; ac mi eis i ben lluwchfa o eira, a'm cefn ar y graig, a'm hwyneb tua ffridd y Trawsgoed, fel yr oeddwn i uwchben y dyrfa i gyd—y cerrig, y grug, a'r cwbl ; a dyna oedd fy nhestun i y tro hwnw 'Oherwydd paham, frodyr sanctaidd, cyfranogion o'r galwedigaeth nefol, ystyriwch Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu.' (Heb. iii. 3.) Ac yr oeddwn i yn dweyd mai y swydd fwyaf dan yr hen oruchwyliaeth oedd Archoffeiriad, ac mai y swydd fwyaf dan yr Efengyl oedd Apostol. Yr oeddwn i yn meddwl nad oedd neb yn fy nghlywed i ; ond mi eis i lawr i'r ffordd ; ac erbyn i mi fyned yno, mi welwn ôl traed rhywun wedi bod yn troi ac yn troi yn yr eira ; mi ddilynais yr ôl bob cam i Cwmtlylo, a phwy oedd yno yn eistedd yn y cornel, ond Siôn o'r Rafel, wedi dweyd fy hanes i gyd.”

Gallem dybied ei bod yn ddifyr iawn arno yr adeg yma, pan y treuliai ei amser wyneb yn wyneb â natur yn ei gwylltineb a'i mawredd, heb arni ôl bysedd celfyddyd,—ac mewn cymdeithas bersonol gyda Duw natur. A diamheu genym oddiwrth yr hyn a ddywedai ei hun, y buasai efe yn hoffi y neillduedd hwn yn wastadol. Unwaith cyd-deithiai un gydag ef o Brynllin i'w gartref, yn Waun y Bala, ar foreu dydd Llun ; ar eu taith daethant heibio i amaethdŷ a elwir y Tŵrmaen—lle unig yn nghanol y mynydd, yr amaethdŷ cyntaf a geir wedi croesi y mynydd o Gwm-pen-nant-

lliw i Gwm-yr-Allt-lwyd—pan wrth y lle hwn cymerodd yr ymddyddan canlynol le rhyngddynt:—

DAFYDD ROLANT. Dyma y lle y buaswn i yn *leicio* byw wel di.

CYDYMAITH. Beth a wnaethech yn byw yn y fan yma?

D. R. Gael i mi gael pregethu a gweddio gyda'r defaid, yn y brwyn a'r anialwch yma, fel yr oedd Ioan Fedyddiwr er's talwm yn y diffeithwch.

CYD. Beth ddarfu eich rhwystro i ddyfod yma?

D. R. Jinny (ei wraig); ni ddoi hi ddim yma am *gount* yn y byd.

CYD. Sut y buasai yn well genych fod mewn lle uchel fel hyn, nac mewn lle is?

D. R. Bu gorfod i mi ar ol dyfod i'r Waun acw fyned tua L'erpwl, Manchester, a'r trefydd mawr yna; y lle casa yn y byd gen i fyn'd iddyn' nhw. Ni chafodd yr ysbryd drwg erioed ddim dylanwad arnaf fi, nes i mi ddechreu myn'd i lawr tua'r trefydd mawr yna.

CYD. A ydyw yn cael dylanwad mawr arnoch yrwan?

D. R. Y mae yn cael dylanwad mwy o lawer arnaf nag oedd o yn ei gael yr amser hono, pan yr oeddwn ar hyd rhyw ddiffeithwch fel hyn. Yr ydwyf fi yn meddwl na chawsai fo ddim craff byth arnaf pe buaswn i yn byw yn y Tŵr-maen.

Bu yr unigedd yr oedd ynddo ar hyd bronydd yr Arenig yn fanteisiol iddo i ddarllen a dysgu llawer ar ei Feibl, a thrwy hyny ddyfod yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau; cafodd ei barotoi i fod yn "dduwinydd da" trwy ddyfod fel hyn yn "ysgrythyrwr da."

Pregethai, nid yn unig yn y beudai ac ar hyd y mynyddoedd, ond hefyd ar rai amgylchiadau yn y tŷ gartref. Byddai pan yn ieuanc yn aros gartref gyda'i nain, i fod yn gwmni gyda hi i warchod pan y byddai y gweddill o'r teulu wedi myned i'r capel ar nos Sab-

bothau. Ac i wneyd yr hen wraig yn ddyddan nes y deuent adref, esgynai ddwy ris neu dair o risiau y llofft, cymerai ei destun a phregethai yno. Byddai yn cymeryd pregethau Daniel Rowlands, Llangeitho, ac yn eu darllen, fel pe buasai yn eu pregethu i'r hen wraig. A rhai gweithiau ni wnai ond cymeryd arno mai Rowlands a ddarllenai, a thraddodai bregeth o'i waith ei hun, a gofynai iddi ar ol darfod—"Sut yr ydych chi yn ei leicio fo, nain?" "O, ni bu erioed ei *sort* o, machgen i," fyddai ateb yr hen wraig yn ei diniweidrwydd i'r bachgen dirieidus.

Dyna sylwedd yr oll a glywsom ni am dano fel pregethwr yn ystod y blynyddoedd cyntaf ar ol ei symudiad i Cwmtlylo, hyd nes y dechreuodd o ddifrif. Ond yr hyn a gymerodd le y tu ol i'r llen megys oedd hyn; a'r hyn a fuasai i raddau mawr yn anwybyddus, oni buasai iddo ef hun weled yn dda godi cŵr y llen, a hysbysu hwn a'r llall ar ol hynny, yr hyn a gymerasai le o'r golwg. Ond yr oedd y ffaith y byddai yn pregethu ac yn gweddio yn y dirgel yn hysbys i lawer. Yn bresenol gadawn ei fywyd yn y dirgel, ac edrychwn ar ei fywyd cyhoeddus yr adeg yma.

[Yr oedd ei air ef fel oracl yn y Parc cyn iddo ddechreu pregethu, a dywedir fod ei fuchedd yn ddifeius cyn iddo ymuno â'r eglwys, pan oedd efe yn las-lanc, ac yr oeddynt yn ei ddisgwyl i'r eglwys gryn amser cyn iddo ddyfod am fod ei fywyd mor ddiargyhoedd, a'i fod ef yn wrandawr mor wastadol; a pha beth bynag a ddywedai Deio Cwmtlylo, fel y gelwid ef, yr oedd hyn i gael sefyll fel pe buasai efe yn oracl; ac nid tywyllwch yr amseroedd a barai hyn yn ddiamheu, ond ffraethineb ac arabedd y dyn.]

Fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd addoliad yn cael ei gynnal yn y Tŷ-cerrig-isaf, lle yr oedd Cadwalad Morris, ewythr iddo, yn byw. Nid oedd plant crefyddwyr gyda'r Methodistiaid y pryd hwn yn cael caniatâd

i ddod i'w cynulliadau eglwysig, ond byddai y bachgen hwn yn rhyw ddianc yno yn nghysgod yr hen wraig dduwiol, Betty o'r Ty'n-ddol. Ond yr oedd yn rhy ieuanc y pryd hwn i gael derbyniad ganddynt i'r frawd-oliaeth; a byddai rhai o'r hen bobl yn dywedyd, "Beth a wna rhyw hogyn fel hyn yn dod atom ni." Ond teimlai y fath ddyddordeb yn eu pethau, fel y diangai ac y llithrai yno er eu gwaethaf ynghysgod yr hen chwaer grefyddol.

Ond os nad oedd y plant a'r bobl ieuainc yn cael dod i gynulliad eglwysig yr hen bobl, nid oedd y bugeiliaid yn gadael ŵyn y praidd yn ddiymgeledd. Ffurfiwyd 'seiat bach' i'r plant na chaent ddyfod i'r 'seiat fawr.' Dywedir i ni mai i hon dechreuodd efe fyned. Yr oedd Betty, Ty'n-ddol, yn ei anog i ddod i hon, "O," meddai, "nid oes achos cymhell neb i ddyfod i'r seiat." Hysbysir ni hefyd fod ynddo, pan yn bur ieuanc, duedd braidd at yr Annibynwyr; yr oedd yno was yn Cwmtlylo yn tueddu atynt, yr hwn a fyddai yn ei gyflenwi â rhesymau; ond yr unig reswm a glywsom ni a ddygai yn mlaen oedd ei fod yn meddwl fod eu dull hwy o weinyddu swpper yr Arglwydd yn fwy ysgrythyrol na dull y Methodistiaid. Meddyliwn braidd fod hyn wedi bod cyn ei argyhoeddiad, ond nid ydym yn sicr; yr ydym yn ei osod yn y fan y cawsom ef gan ein hysbysydd.—Ond yr oedd yno amryw o'r hen frodyr yn gofalu am ymborth i'r plant yn y seiat bach. Yr oedd William Williams, Rafel, a Morris ei frawd, Edward Roberts, Ty'n-ddol, a William, Plasmadog, yn edrych ar eu hol fel blaenoriaid. Byddai pethau pur ryfedd yn digwydd yn y cyfarfodydd hyn rai gweithiau; nid anfynych y byddai yno dipyn o awel. Gwelwyd yr hen Fetty, Ty'n-ddol, rai gweithiau, pan yr â'i i weddi ar ddiwedd y cyfarfod, ar ei gliniau wrth y tan yn gorfoleddu yn hyfryd. Yr oedd Dafydd Rolant yn fachgen pur wyl-aid a sobr, ond nid oedd dim byd neillduol iawn ynddo

hyd nes y dechreuodd weddio yn gyhoeddus. Nid ydym yn gwybod pa faint oedd ei oedran pan y symudwyd ef o'r seiat bach i'r seiat fawr, y mae yn debyg nad oedd ond pur ieuanc. Ac wedi ei dderbyn at yr ordinhad, yn gyflawn aelod, gan yr eglwys yn y Parc bu am rai misoedd cyn y gallai anturio yn mlaen at y bwrdd. Yr oedd holl gymunwyr Penllyn y pryd hwnw yn arfer âg ymgynull yn y Bala bob Sabboth pen mis; ac arferai ef ei hun wrth dderbyn rhai at yr ordinhad ddweyd, pa fodd y bu arno ef ar ol ei dderbyn. "Yr oeddwn i," meddai, "wedi fy nerbyn at yr ordinhad yn y Parc; ond eto pan yr awn i i'r Bala, methwn fyned yn mlaen i gyfranogi o swpper yr Arglwydd; a methu yr oeddwn i o hyd, nes un tro, pan yr oedd Ebenezer Morris yno, y dywedai, 'Os wyt yn gweled dy hun yn haeddu dy grogi, dere'n mlaen,' a theimplais mai arnaf fi yr oedd o yn galw. Yr oedd yno rai yn methu deall y geiriau, ac yn clywed y gweinidog yn defnyddio geiriau rhy arw; nid oeddynt yn gwybod iddynt hwy erioed wneyd dim a barai iddynt deimlo eu bod yn haeddu eu crogi. Ond mi ddeallais i, ac yn mlaen a fi wed'yn ar draws y meinciau i gofio am yr hwn oedd wedi marw i gael trefn i mi gael y cortyn oddiam fy ngwddf." A'r tro diweddaf yr oedd yn y Bala yn gweinyddu yr ordinhad cyfeiriai at hyn, a dangosai un o'r colofnau sydd yn cynnal y *gallery*, a dywedai, "Wrth y polyn haiarn acw yr oeddwn i yn sefyll pan y dywedodd Ebenezer Morris felly." Y tro diweddaf y clywsom ni ef yn adrodd hyn, yn un o'r cyfarfodydd eglwysig diweddaf y bu yn y Llidiardau, methai a dal, ond torodd allan i wyllo yn hidl.

Ni wyddom pa un ai cyn ai wedi ei ddwyn at yr ordinhad y dechreuodd efe weddio yn gyhoeddus. Ond hysbysir ni mai yn y seiat bach y gwnaeth gyntaf, ac yn y dull canlynol y gwnai:—Yr oedd yn hen gapel y Parc fwrdd ysgwar, byddai yntau pan yn myned i weddi

yn myned o dan y bwrdd yn ei ddwbl ar draws y ffon groes; yr oedd arno ormod o yswildod i fod yn y golwg. Bu am gryn amser yn gwneyd felly; o dipyn i beth daeth yn fwy amlwg, hyf, a gwrol, ac âi ef a chyfaill iddo tua'r un oedran ag ef yma ac acw i gadw cyfarfodydd gweddi ar hyd y tai yn yr ardal. Gweddiai yn hynod, yn hynotach cyn dechreu pregethu nag y clywyd ef byth wedi hyny. Yr oedd pawb yn meddwl mai pregethwr a fyddai. "Y tro cyntaf y clywais ef yn gweddio," medd y Parch. Robert Roberts, Parc, "mewn cyfarfod gweddi, oedd yn Cystyllen-bach, tua dechreu y gauaf. Nid oedd y cyfarfod wedi ei gyhoeddi, ond ychydig ag oedd wedi eu gwahodd oedd yn cael myned iddo, o ba rai yr oeddwn i yn un. Yr oedd y pedwar oedd yn gweddio yn ddynion ieuainc y pryd hyny; y tri brawd oedd yn ei gadw heblaw Dafydd Owens, oeddynt John Williams, John Thomas, a David Rogers, y rhai sydd yn fyw, a'r rhai a alwyd i fod yn flaenoriaid. Yr oedd y cyfarfod mwyaf hynod fel y teimlwn i a phawb oedd ynddo. Hynod y son oedd am dano fel gweddiwr o'r noswaith hono hyd oni ddechreuodd bregethu. Cyfarfod o ddewisiad y bobl ieuainc oedd hwn; yr oedd ef y pryd hwn yn cymhell y cyfarfodydd hyn yn mlaen, ac yr oedd ei yswildod wedi diflanu i ryw raddau. Unwaith, ar ol taer gymhell gweddiodd ar derfyn y cyfarfod eglwysig ond ni weddiodd yno ond am tua munyd o amser, nid oedd ei weddi ond tua'r un hyd a'r pader." Dygodd y cyfarfodydd gweddi y cymerai ran ynddynt ef i fwy o sylw a chyhoeddusrwydd; yn gymaint felly, fel y darfu i rai o'i gyfeillion, wrth weled y cymhwysderau oedd ynddo, ei anog i ddod i fwy o gyhoeddusrwydd eto; ac yn y bennod nesaf rhoddwn hanes ei symudiad yn mlaen ynghyd a'r effeithiau.

PENNOD II.

CYNNWYSIAD:—Y MAE YN DECHREU PREGETHU—EI DDIGALONDDID—EI LWYDDIANT—ZI HUNANYMWADIAD—EI GYMERIAD FEL PREGETHWYR PAN Y DECHREUODD—“Y MILGI CRYF”—EI DAITH GYDA MR. ELIAS A'I DYBEN.

WEDI bod fel hyn yn myned o gwmpas i gynnal cyfarfodydd am ryw dymhor, un noswaith cynnaliwyd cyfarfod gweddi mewn amaethdŷ, o'r enw y Llwyn-mawrisaf; ac wrth ddychwelyd o'r cyfarfod yma y darfu i un o'i gyfoedion son wrtho gyntaf erioed, a oedd arno ddim awydd dechreu pregethu, pan yn ymadael â'u gilydd—un tua'r Tŷ-du, a'r llall tua Cwmtlylo. Nis gallem wneyd yn well yma na dweyd yr hanes yn ngeiriau ein hysbysydd ei hun, Mr. John Thomas, Ceunant, yr hwn sydd yn flaenor yn y Parc:—

“Y peth a'm cymhellodd i yn benaf i ofyn hyn iddo oedd, fod ei ddull o weddio yn debycach i bregethu nac i weddio; yr oedd yn hoff iawn o gyffwrdd ag adnodau yn ei weddi; a byddai ynddi fwy o athrawiaeth nac o ddeisyfiadau. Dyna wnaeth i mi feddwl ei bod hi ynddo fo. Yr oedd yn synu am dipyn wedi i mi ofyn iddo; ond cyn ymadael, dywedai, ‘A wnei di ofyn i dy dad [Thomas Roberts, Tŷ-du] a gaf fi ddweyd tipyn nos Sul nesaf?’ ‘Gwnaf fi,’ meddwn innau, ac ychwanegais ‘hwyrach y byddi di yn pregethu ryw-dro mewn *Sassiwn*.’ Ond yr oedd yn bur ysmala ganddo glywed hyn. Nid wyf yn cofio nemawr yn ychwaneg o'r siarad a fu y noswaith hono. Aethum adref, a dywedais y newydd a'r genadwri wrth fy nhad. Ni chysgodd fy nhad yr un hunell y noswaith hono, gan

lawenydd ac ofn, a phobpeth, wrth feddwl am hyn. Y Sul canlynol, pan oedd o tua deunaw oed, yr oedd ysgol yn y capel y boreu; gwnaethom gyfarfod athrawon ar y diwedd, a dywedais innau y genadwri wrth y blaenoriaid a'r athrawon, ac aethum dros y siarad a fu rhyngwyf a Dafydd y noswaith hono. Y penderfyniad a wnawd, oedd iddo gael darllen pennod yn nechreu y cyfarfod gweddi y nos Sul hwnw, a dweyd tipyn oddiwrthi os gwnai. Felly fu: trwy ddirfawr gymhell ufuddhäodd. Y bennod a ddarllenodd ac y gwnaeth sylw arni oedd 2 Pedr ii., gan gymeryd y nawfed adnod fel testun, 'Yr Arglwydd a fedr wared y rhai duwiol rhag profedigaeth, a chadw y rhai anghyfiawn i ddydd y farn i'w poeni.' Ni wnaeth fawr o sylw ar ddim o'r bennod ond yr adnod hon yn unig, a phregethodd yn rhyfeddol iawn, fel pe buasai wrthi er ys tair blynedd. Ar y rîs isaf yn ngrisiau y pulpud y gwnaeth hyn."

Dywed un arall mai y penill a roddodd allan cyn dechreu oedd—

"Mae brodyr imi aeth yn mlaen
Trwy rwystrau fwy na'r rha'n,
Wrth gadw'u golwg ar y gŵr
Fu'n gwisgo'r goron ddrain."

A hysbysir ni yn mhellach, mai clôs pen glin oedd ganddo,—bod golwg hynod o wladaidd arno,—a bod gwyn pen uchaf ei hosan yn y golwg! Y mae yn debyg na chymerodd fawr o drafferth i ymbincio cyn myned i'r capel. Nid oedd ei waith yn cymeryd *adnod* pryd y rhoddwyd *pennod* iddo, ac yn pregethu yn lle esbonio ond yr hyn a wnaed gan eraill o'i flaen ac ar ei ol. Ac nid ydyw yn beth i synu yn gymaint o'i herwydd ei fod yn pregethu y waith gyntaf mor rhyfeddol, pan ystyriom mai nid tair blynedd na dwywaith tair y bu yn ymarfer â phregethu i'r grug a'r cerrig, y gwartheg a'r defaid, cyn y cafodd gyfle a galwad i bregethu i ddynion. Y mae yn debyg mai yr un athrawiaeth

a ga'i y naill gynulleidfa a'r llall, ond bod yr effaith dipyn yn wahanol; a diau mai i'r ffaith ei fod yn pregethu llawer yn y dirgel yr ydym i briodoli ei fod mor athrawiaethol wrth weddio; er, feallai, nad oedd ond ychydig yn gwybod am ei ymarferiadau dirgelaidd.

"Rywbryd yn niwedd y flwyddyn," medd yr un gŵr, "gryn dipyn cyn y gwyliau y pregethodd y bregeth hon—yr hon oedd y bregeth gyntaf, yn gyhoeddus, erioed. Nid wyf yn sicr a bregethodd efe wedi hynny cyn y Nadolig; yr wyf yn meddwl braidd iddo wneyd, yn Bryn-moel ryw noswaith. Arferid a chadw moddion yn y capel ddydd Nadolig y pryd hwnw. Anogodd rhai o'r hen flaenoriaid ef i ddweyd dipyn y nos. Yr oedd rhyw nifer o honom yn nhŷ Betty, Tŷ'n-ddol, cyn dechreu yr oedfa, ac yr oedd yntau gyda ni; ond cyn amser dechreu, mi biciodd allan o'r tŷ yn ddirgelaidd; ac fel yr oedd yr amser yn nesu yr oeddym yn myned yn anesmwyth, eisieu ei weled yn dyfod yn ol. Ond nid oedd hanes am dano yn dyfod, ac i'r capel yr aed i gadw cyfarfod gweddi. Felly fu,—cadwyd cyfarfod gweddi; ac ar y diwedd yr oeddym yn bur bryderus yn ei gylch. Gwelwyd ef yn myned i fyny gyda'r afon Lafar, ac aeth pedwar o honom, bob yn ddau, yn nghyfeiriad Cwmtlylo, i chwilio am dano, rhag bod rhyw ddrwg wedi digwydd iddo. Pan gyrhaeddodd y ddau gyntaf i Gwmtlylo, cauai ei nain ei dwrn arnynt, a pharai iddynt beidio cadw dim trwst na chodi cynhwrf, fod Deio wedi dod adref, ac wedi myned yn syth i'w wely; felly ni welsant hwy mo hono ef ei hun." Hysbysa cefnder iddo, yr hwn oedd yn gwarchod gyda'i nain, ac oedd yn bresenol pan y daeth Deio i mewn, i'w nain ofyn iddo, wrth ei weled yn dod adref yn bur gynar,—yn gynt o beth nac y dylasai—"I beth y doist ti adref yrwan, Deio bach?" I'r hyn yr atebai yntau, "*Misio* cael amser i ddarllen yr oeddwn i;"—ac yn syth ag ef i'w wely. Cyn hir daeth yr ymchwilyr

yno i ymofyn am dano ; ond cyn gynted ag y deallasant iddo gyrhaedd adref yn ddiogel, aethant yn ol mor fuan ag yr oedd modd i hysbysu y cyfeillion pryderus yn y Parc ei fod ar gael. "Ond," â ein hysbysydd blaenorol yn mlaen, yr hwn oedd yn un o'r ddau ymchwiliwr diweddaf, "aeth William Williams, Rafel, a minnau ar eu hol ; yr oeddym yn bur agos atynt. Mi gefais i ganwyll, ac mi eis at y gwely i'r llofft ato i siarad ag ef. 'Wel, Deio bach,' meddwn i wrtho 'ai yn y fan yma yr wyt ti ? Yr oeddwn i yn disgwyl yn fawr y buasit ti yn dod i'r capel i bregethu i ni heno.' 'O,' meddai yntau, 'ni welwch chwi byth mo honof fi yn y pulpud yn ychwaneg.' Yno yr oedd, ar wastad ei gefn yn ei wely, a'i lygaid fel wedi cymysgu, yn edrych yn wirion iawn. Wedi hyny dechreuodd ddweyd tipyn o'i hanes o'r capel adref y noswaith hono. Yr oedd yn noswaith rewlyd iawn. Dywedodd ei fod wedi gorwedd ar y ddaear yn rhywle ; aeth i weddio mae yn debyg ; ni wyddai dros ba hyd y bu yno, ond pan y cyfododd, yr oedd y cerrig yn codi gyda'i ddillad, wedi rhewi yn *sound* wrthynt ; yr oedd wedi hurtio tipyn, oblegid dywedai ei fod ar ol iddo godi oddiar y ddaear ac edrych, 'yn gweled y ser i gyd yn rhedeg o chwith.' "

Nis gallwn ddweyd na dirnad yr ymdrech y bu ynddo y noswaith hono. Y mae yn amlwg ei fod mewn ryw deimladau o ran ei feddwl ag oedd yn peri iddo fod yn ddideimlad o ran ei gorff i'r oerni mawr y rhaid ei fod ynddo. Buasai yn dda genym allu dweyd ychwaneg am y tro yma, a threiddio yn mhellach i'w ddirgelion, ond nis gallwn,—y mae yn rhaid i ni ymfodloni ar hyn, gan mai dyma y cwbl a hysbyswyd i ni. Ond gallwn dybied mai trallod neu iselder meddwl, ac nid rhyw bêr-lewyg o fwynhad a barodd hyn ; a diau fod hyn yn rhan o'r parotöad a gafodd i'w gymhwyso i'r gwaith mawr oedd ganddo o'i flaen.

Hwyrach y byddai yn well i ni, cyn myned yn

mhellach, benderfynu y flwyddyn y dechreuodd efe bregethu ynddi, os yw hyny yn ddichonadwy. Nid peth difyr ydyw darllen mwy nag ysgrifenu hanes dyn, heb ddyddiad na blwyddiad wrth ddim a ddigwyddodd iddo ond ei fedyddiad. Tuag at benderfynu hyn dywedai un oedd yn byw yn yr un tŷ ag ef yr amser hwnw, "O Galangauaf i ddiwedd y flwyddyn 1815 y dechreuodd efe bregethu. Yr oedd 1816—1818 yn flynyddoedd drudion iawn, a dywedai wrthyf yn fuan wedi dechreu pregethu, 'Peth rhyfedd iawn os na bydd ein haner ni wedi ll'wgu'—gan gyfeirio at y prinder mawr. Rhaid mai 18 neu 19 mlwydd oedd ei oedran pan yn dechreu." Arferai ef ei hun ddweyd, "Yr oeddwn i yn meddwl aros heb ddechreu pregethu hyd nes y byddwn i yn ddeg-ar-hugain oed—yr un oed ag Iesu Grist. Ond ni chawn i ddim llonydd gan Siôn, Tŷ-du; ni chysgai ef ddim nes cael genyf ddechreu; ac felly dechreuais pan yn ddeunaw oed." Dywedai yn fynych iddo ddechreu pan yn 18. Gall y darllenydd ddweyd ynddo ei hun, "Wel dyna y pwnc yna wedi ei benderfynu, a hyny oddiar yr awdurdod uchaf, sicraf, a chywiraf—ei eiriau ef ei hun. Ychwaneger 18 at 1795, y flwyddyn y bedyddiwyd ef, a chawn iddo ddechreu yn 1813, tua dechreu y gauaf." Gellir tybied, ar yr olwg gyntaf, fod hyn yn gywir; ond dywed ei gydoeswr mai 1815 y dechreuodd, ac y mae y Parch. R. Roberts, Parc, yn sicrhau y flwyddyn fel y canlyn:—"Dechreuodd Richard Jones, Bala, bregethu, yn Nhrawsfynydd, yn mis Mawrth, a dechreuodd Dafydd Rolant yn niwedd yr un flwyddyn. Dechreuodd Richard Jones y Mawrth cyntaf ar ol marwolaeth Mr. Charles o'r Bala, yr hyn a gymerodd le yn Hydref, 1814, felly dechreuodd Dafydd Rolant yn niwedd y flwyddyn 1815." Y mae hwn eto yn ymresymiad cadarn iawn, a chawn yr un dystiolaeth gan ddau yn annibynol ar eu gilydd. Y casgliad yr wyf fi yn dod iddo ydyw mai yn niwedd

y flwyddyn 1815 y dechreuodd, fel y gwelir yn amlwg oddiwrth ranau eraill o'r hanes, fod Mr. Charles wedi marw cyn iddo ddechreu; ac y mae yn debyg iawn na wyddai efe ei hun pa bryd y ganwyd ef, nac o ganlyniad pa beth oedd ei oedran pan y dechreuodd. Ac yn lle dywedyd iddo ddechreu pan yn 18 oed, rhaid i ni ddweyd ei fod yn 20 a throsodd.

Cyfarfyddwn âg anhawsder hefyd gyda golwg ar y noswaith y diangodd rhag pregethu. Gellid tybied oddiwrth a ysgrifenyd o enau un o'r ymchwilwyr mai ar nos Nadolig y digwyddodd; ac mai dyma yr ail waith iddo bregethu yn Nghapel y Parc. Tra y dywed un o'r ddau gyntaf mai ar nos Sabbath y diangodd, a hyny yn mhen rhyw dymhor ar ol pregethu y tro cyntaf, ac iddo bregethu y Nadolig cyntaf ar ol iddo ddechreu, yn y Trawsgoed y boreu, ac yn y Parc am ddau, ar Gal. iv. 4, yr hwn oedd yn destun digon priodol ar ddydd Nadolig. Dywed yr un oedd yn gwarchod gartref mai ar nos Sabbath y digwyddodd hyn: a sylwed y darllenydd ar yr hyn a ddywedai ar ei wely ar ol dianc—"Ni welwch chwi byth mo honof fi *yn y pulpud yn ychwaneg*"—yr hyn a led awgrymai iddo fod yn y pulpud yn pregethu; ond cawn mai ar yr isaf o risiau y pulpud y pregethai y waith gyntaf, fel y gellir casglu iddo bregethu yn y pulpud rai gweithiau cyn dianc. Ac nid oedd y Nadolig yn disgyn ar y Sul y flwyddyn hono am ei fod ar y Sul y flwyddyn o'r blaen. Tueddir ni i gredu mai ar y Sul y digwyddodd, am fod y tystiolaethau yn amlach. Ond pan ystyriom fod yn agos i haner can' mlynedd wedi myned heibio er y digwyddiad hwn, ac nad oes gan ei hen gyfoedion ond eu cof, heb ddim byd yn ysgrifedig i'w cynorthwyo, nid rhyfedd fod tipyn o anghysondeb yn ymddangos yn awr ac yn y man.

Dyna ni wedi cael ei hanes yn dechreu pregethu; ond ni chlywsom air o son am y Cyfarfod Misol mewn cysylltiad â hyny. Ni wyddom pa un a anfonwyd

brodyr yno i'w holi, ac a roddwyd iddo ryw gylch penodol "i arfer ei ddawn" ynddo, ai ynte pregethu a wnaeth fel y cymhellid ef gan y brodyr gartref yn unig, a myned oddiamgylch i'r ardaloedd cymydogathol fel y byddai galwad am dano, heb i Gyfarfod Misol wneyd un sylw ar ei achos. Y mae hyn oll yn y niwl. Aeth un brawd i ymweled âg ef yn ei gystudd olaf wedi iddo gael ei gornelu yn ei dŷ, er ei fod eto yn eithaf siricl; anogodd ef i ysgrifenu tipyn o'i hanes ei hun pan yn dechreu gyda chrefydd, ac yn dechreu pregethu, fod ganddo hamdden gysurus i wneyd hyny yr amser hono; y byddai yn dda gan lawer ei weled ar ol hyny ryw dro; atebodd yntau, "Dyn anwyl, beth wnaef fi yn ysgrifenu?" Ond gallwn ni sydd yn ysgrifenu hyn, ddweyd y buasai yn arbed llawer o drafferth i ni; ac er i ni gymeryd trafferth yr ydym yn methu cael sicrwydd am lawer peth y buasai ychydig eiriau o'i enau ef ei hun yn taflu goleuni clir arno ar unwaith.

Ond pa fodd bynag am y Cyfarfod Misol i bregethu yr aeth—a phregethu yn nodedig y byddai hefyd. Byddai yn cael ei alw i bregethu mewn tai annedd yma a thraw. [Gwnaeth yr hen feddyg, Thomas Jones o'r Trawsgoed, gytundeb âg ef, am iddo ddyfod i bregethu i'w dŷ ef unwaith yn y mis ar nosweithiau gwaith, pan y byddai y lleuad yn llawn, fel y caffai pawb oleuni i fyned i'w cartrefleoedd, ac efe a fu yn myned yno bob mis oni byddai efe oddicartref tra y bu yr hen feddyg byw.] Pregethai hefyd yn y Glyn, ac yn ardal y Glyn, ac yn Llanuwchllyn, y rhai oedd yn yr un daith Sabbath a'r Parc y pryd hwnw.

"Yr oedd tuedd ynddo," medd Mr. John Thomas, "i fod a'i feddwl yn isel y pryd hwnw: yr oedd ei feddwl ar lawr yn lân yn y dechreu; ond pan y cai dipyn o hwyl wrth bregethu byddai ar y lan yn eithaf siriol. Yn achos iselder ei feddwl yr oedd yn rhaid i mi fyn'd gydag ef ar y cyntaf. Bum gydag ef fel cyfaill

a chydymaith iddo, i godi tipyn ar ei feddwl amryw weithiau, nes yr aeth y bobl i ddweyd mai clochydd Dafydd Rolant oeddwn i. Ni bum yn mbhellach gydag ef na'r Glyn a Llanuwchllyn, er i mi feddwl myned can belled a'r Dyffryn un tro. Y tro cyntaf i mi fyn'd hefo fo oedd i'r Pentrepïod, Llangower. Pregethodd yno nos Sadwrn, ar y geiriau—"Er mwyn Sion ni thawaf." Yr oedd yn y Glyn boreu Sul, yn Llanuwchllyn am ddau, ac yn y Parc y nos. Yr oedd arnaf ofn iddo ddianc bob tro y collwn olwg arno; ond nid oedd achos; ni wnaeth un ymgais i ddianc y Sul hwnw. Yr oedd rhyw ddiwygiad, tebyg i'r un a fu yn ddiweddar, toc, ond nid yn union ar ol iddo ddechreu; a byddai llawer iawn—dyrfaoedd o bobl yn ei ddilyn, fel y dilynid Iesu Grist gynt. Bum i yn byw yn ardal y Glyn wedi hyny. Y pryd hwnw daeth i'r Glyn ar foreu Sabboth, aeth haid o honom ninnau o'r Glyn gydag ef i Lanuwchllyn am ddau, ac i'r Parc y nos. Aethom yn ol trwy y Bala, ac yr oeddym yn canu rhyw benillion ar hyd y ffordd, ar y dôn 'Mentra Gwen.' Aethom i'r Fachddeiliog wrth fyned heibio, a chynnaliasom gyfarfod gweddi yno ganol nos, yna aethom bawb i'w fan."

Dywedir i ni i'r awen syrthio arno ryw bryd pan oedd yn bur ieuanc; a chlywsom un o'r penillion a gyfansoddodd, o'r hyn lleiaf a roddir iddo ef; a chan ei fod ar hyd "Mentra Gwen," gallai mai ei benillion ef a genid y noswaith uchod; rhoddwn ef i lawr yma:—

"Gwirionedd glân ei hanfod
 Yn y cnawd, yn y cnawd;
 Gwirionedd pob rhyw gysgod
 Yn y cnawd,
 Gwirionedd yr addewid
 A'r holl brophwydi hefyd,
 Goleuni gras y bywyd
 Yn y cnawd, yn y cnawd,
 Yr anchwiliadwy olud
 Yn y cnawd."

Gwelsom yn ysgiifenedig yn mhlith ei bregethau cyntaf benillion ar yr un mesur, y cenid llawer arnynt, medd y rhai sydd yn cofio, yr un adeg a'r penill uchod rhoddwn ddechreu rhai o honynt yma :—

“ Mae cylch y prynedigaeth
Ydyw'n wir, ydyw'n wir,
'R un hyd a lled â'r arfaeth,
Ydyw'n wir, &c.”

“ Yr etholedig deulu,
Hyn sydd wir,
Yn unig gâdd eu prynu,
Hyn sydd wir, &c.”

Buasem yn rhoddi y ddau ganlynol yn gyflawn, oni buasai bod arnom ofn iddynt lithro i mewn i'n llyfrau hymnau—

“ O deuwch gyda'r eglwys,
Cyn y farn ;
I ddrws y gorlan gymhwys,
Cyn y farn, &c.”

“ Mae cynhwrf yn mhyrth Sion,
Dewch i'r daith ;
'Madewch â'r annuwiolion,
Dewch i'r daith ;
Mae 'r faner fawr i fyny,
A'r *drum* mewn hwyl yn canu,
&c., &c.”

Y mae yn debyg, gan nad pwy yw yr awdwr neu yr awdwyr, y cenid llawer ar y penillion hyn tua'r adeg hono.

Meddyliem mai y tro cyntaf y bu yn Pentrepïod y cymerodd y digwyddiad canlynol le, er nad yw yr un a roddodd yr hanes uchod yn cofio dim am hyn : clywsom ef gan un oedd yn bresenol. Dywedir i ni ei fod yn eistedd rhwng Richard Prichard o'r Graienyn, ac un

arall, yn ymyl Gwen Dafydd, hen wraig y tŷ, yr hon oedd yn iŷail. Cyn hir, dywedai yr hen wraig wrth yr un a eisteddai yn ei hymyl, ond yn ddiagon uchel i'w nesaf ato ghwed, "Ni ddaw Deio, Cwmtyio, ddim yma heno i chwi, y mae nhw yn dweyd ei fod yn ddiagon pell o'i go." "Os oeddwn i o nghof o'r biseu" meddai, ef ei hun wrth adroddi hyn, "ni eis yn ddiagonwaith gwaeth o nghof wrth ei chlywed hi; a niwvthau yn ei phwtian hi i geisio ganddi dewi." Ond daeth yr amser i ddechreu; arweiniodd Richard Pritchard o'i i ryw gornel, ac yn gymwynasgar rhoddiodd fenthyg ei vs-gwyddau i wasanaethu am y tro yn lle pulpu, i ddai y Beibl a'r llyfr hymnau, yr hyn nid oedd yn beth anghyffredin y pryd hwnw pan y pregethid mewn tŷ annedd, os na ddefnyddir yr un ddyfais mewn manau yn y dyddiau presenol. Dywedai wed'yn nad oedd yn gweled yr un llewyrch; aeth i chwilio am ei destun, a methai ei gael, ond o'r diwedd dechreuodd bregethu ar y geiriau, "Er mwyn Sion ni thawaf." Cafodd hwyl dda iawn, a chynyrchodd yr hwyl yuddo ef hwyl yu y gwranda-wyr hefyd, nes yu y man y dechreuasant waeddi, gorfoleddu, a neidio. Toc, wrth neidio, daethant i gyffyrddiad a'r llestri oedd ar y sillfoedd, tadwyd hwy i lawr nes yr oeddynt yn chwilfrw; tarawodd rhai wrth y pot llaeth cadw oedd ar ryw faine, dyua hwnw i lawr, torodd yn deilchion, a chollwyd y llaeth wrth gwrs, nes yr oedd y llawr yu un llanastr cymysgedig o lestri tor-edig a llaeth, a'r bobl yu neidio ac yu yndrybaeddu yu y tryblith—ni bu erioed y fath ffwudwr; a'r hen wraig yn gwaeddi (nid yn gorfoleddu) ei goreu yu y cornel— "Gwaeddweh a neidiweh faint a fynuoch chwi, y garsiwn, ond peidiweh a thori y llestri, wnewech chwi!" Arferai ei hun ddweyd ar ol y tro hwn, "Os oeddwn i o ngho' cyn dechreu, yr oedden' nhw yu waeth o'u coiau cyn y diwedd." Dywedir i ni hefyd, mai "Mewn siaced wlanan fraith,—rhipiau cochion, duon, a gwyuion" y pre-

gethodd y tro hwn, ac mai mewn cyffelyb wisg y gwnaeth ar y Sabboth canlynol.

Dro arall, pregethai ar ol hyn yn y Graienyn, cartref R. Prichard, yr hon oedd yr ail waith iddo bregethu yn ei glyw. Ond daeth un o'i ffitiau isel arno ar ol yr oedfa hon, a dywedodd yn ei ddigalondid, "Ni phregethaf fi ddim yn ychwaneg." "Taw, da di," meddai R. P. yn ol, "oni chlywais i di yn dweyd yn Pentre-ïod, 'Er mwyn Sion ni thawaf.'" Fel hyn, wrth gael aml i hwb gan hwn a'r llall, aeth yn mlaen er gwaetha ei brudd-der a'i iselder ysbryd. Ar ol ei glywed y tro hwn dywedodd yr hen ŵr craff, "Mi fydd Deio, Cwmtulo, yn bregethwr *Sassiwn* cyn pen pedair blynedd." A dywedir i'r brophwydoliaeth droi yn wir; cyn pen yr amser hwnw, yr oedd yn pregethu yn Nghymanfa Llangeitho, ar Deut. xxxiii. 25, "Haiarn a phres fydd dan dy esgid di; a megys dy ddyddiau y bydd dy nerth," ac yr oedd effeithiau grymus yn dilyn. Yn bur fuan ar ol dechreu, aeth Penllyn yn rhy gyfyng i'ldo, aeth cyn belled a'r Dyffryn, a dywedai ar ol dychwelyd oddiyno, "Yr oedd mor hawdd i mi bregethu ag anadlu."

Ond er ei fod yn pregethu yn y tai a'r capelydd cymydogoethol, nid oedd yn foddllawn ar un cyfrif i bregethu yn y tŷ gartref, yn Cwmtulo. Yr oedd ar ei nain eisieu anghyffredin ei glywed ef, ond nacâi am hir amser ag ufuddhau. Yr oedd yr hen William, Plasmadog, yn curo ei gefn, ac yn dywedyd, "Na wir pregetha i dy nain, pregetha i dy nain, Deio, bach." O'r diwedd cydsyniodd i wneyd er ei bod yn galed iawn arno i feddwl pregethu gartref. Yr oedd yn y *parlwr* nes y daeth y bobl yn nghyd, ac wedi iddi ddod yn amser dechreu daeth i'r gegin, a safai ar risiau y llofft. "Yr oedd Evan, Maesmathew," meddai ef ei hun wrth adr-odd hyn, "yn fy ymyl yn poeri trwy ei ddanedd o hyd yn ddibaid, ac oni buasai ei bod yn galed iawn arnaf,

mi fuaswn yn chwerthin dros bob man. Ac yr oedd Siân, gwraig Llywelyn, Tŷ-draw, Cwmtŷlo, yn gwaeddi yn y cornel, 'Duw gwyn! Duw gwyn!' dros y tŷ. Yr oedd yn dda i mi ei bod mor sobr arnaf." A'r noswaith hono wedi myned adref, holl waith Llywelyn a Siân wedi bod yn gwrandaw arno oedd son am y bregeth, a synu ei fod wedi pregethu cystal "Y mae o yn llawer iawn gwell pregethwr na'r Ffowciaid yna," meddai yr hen Siân. "Pwy ddiolch iddo," meddai Llywelyn, "nid ydyw fo yn gwneyd dim byd ond dyfeisio yn y beudŷ-uchaf yna, o'r bore gwyn dan nos."

Yr oedd ar ei dad yn y ffydd, Dafydd Cadwalad, ysfa fawr am ei glywed yn pregethu, gan gymaint y son am dano; ni wyddai yn iawn beth i feddwl o hono. Ond yr oedd ar y pregethwr ieuanc ei ofn ef garw; ni fynai er dim bregethu yn ei glyw. Deallodd yr hen batriarch hyn, a chlywodd ei fod i bregethu mewn tŷ heb fod yn mhell o'r Bala un noswaith—yr Hendre-du feallai, neu y Bryn-moel: aeth yno, a llechodd mewn rhyw gornel dywell allan o olwg y pregethwr, rhag i'w bresenoldeb ei ddrysu a dwyn magl iddo; ac fel hyn cafodd ei glywed ef i fantais, a byth wedi hynny bu yn galonddid a chefnogaeth iddo, yr oedd ganddo feddyliau mawr am dano, ac amddiffynai ef yn wyneb pob ymosodiad a wneid arno.

Aeth yn fuan yn boblogaidd iawn; a gallwn roddi hyn i lawr fel ffaith, na chododd yr un pregethwr yn Sir Feirionydd er dechreuad Methodistiaeth, mor boblogaidd ag ef yn ei ddechreuad. Ni bu erioed braidd y fath gyrchu ar ol pregethwr ag a fyddai ar ei ol ef. Pan y gofynwyd i un gwalch, "Pa bryd y mae gŵyl y gwirioniaid?" Ei atebiad oedd, "Pan y bydd Deio, Cwmtŷlo, yn pregethu yn y capel yma." Ac nid rhyfedd fod cymaint yn dylifo ar ei ol, yr oedd rhyw ddylanwadau grymus iawn yn dilyn ei weinidogaeth. Unwaith yr oedd Cyfarfod Misol yn y Bala a gofynodd y

cyfeillion yn y Sarnau a ddeuai efe yno i bregethu y nos o flaen Cyfarfod y Bala; addawodd yntau fyned. Y noson hono, yr oedd y gwrandawyr yn bur anaml yn y Bala, ond yn y Sarnau yr oeddynt yn methu cael lle. Clywyd hyn gan y brodyr yn y Bala, a galwyd ef i gyfrif dranoeth, a rhoddent hi yn bur erwin iddo, "am ei fod," meddynt, "yn codi *opposition* i'r Corff;" yntau yn bur edifeiriol a addawai na wnai y fath beth ond hyny. Ar ol myned allan, gofynodd i rywun yn ei ddiniweidrwydd, "A ydyw *opposition* yn rhyw bechod mawr iawn?" Nid oedd wedi cael digon o addysg y pryd hwnw i ddeall gair Saesoneg mor fawr a hwn.

Aeth gyda Dafydd Cadwalad unwaith i Gyfarfod Misol yn mhen Gorllewinol y Sir, tua'r Gwynfryn, neu y Dyffryn: nid oedd wedi cael caniatâd Cyfarfod Misol i bregethu o gwbl, gallem dybied; ond yr oedd y son am dano, os nad oedd efe ei hun cyn hyn, wedi cyrhaedd yno. Cyhoeddwyd mewn un cyfarfod fod Dafydd Rolant a rhyw un arall i bregethu; gofynai yntau i Dafydd Cadwalad, "Pwy ydyw y Dafydd Rolant yna sydd yn myned i bregethu?" "Wel, Deio bach," atebai yntau "wyt ti ddim yn ei adnabod o?—on'd tydi dy hun ydyw o!"—a phregethodd yno. Yr oedd yno un hen frawd neu ddau yn edrych yn bur gilwgus arno fo, ac yn gofyn mewn gwawd, "Pa beth ydyw rhyw hogyn fel hyn sydd yn cael ei roi i bregethu yn y Cyfarfod Misol, na wŷr neb yn y byd pwy ydyw o."

Fe'i derbyniwyd yn aelod rheolaidd o'r Cyfarfod Misol ryw dro, ond ni wyddom pa pryd. Ar ol ysgrifenu hyd yma yr hysbyswyd ni, mai o dan law y Parch. John Roberts, Llangwm, y bu yn cael ei arholi ar ei dderbyniad i'r frawdoliaeth Fisol; a dywedir mai trwm a chaled a fu arno. Tynodd yr arholydd ef trwy y mieri a'r drain; ac yn goron ar y cripio, y crafu, a'r clwyfo, gwnaeth y sylw canlynol wrtho, "Pe buasai dy enw yn *Daniel Rowlands*, mi fuasai rhyw obaith o honot; ond

gan mai *Dafydd* Rowland ydwyf, ni wn i ddim beth i'w feddwl o honot." Mor gadarn yr ymresymiad!!

Unwaith, trwy daerineb rhyw gyfeillion, aeth i bregethu dros y terfynau gosodedig gan y Cyfarfod Misol. Ac yn y cyfarfod canlynol, yr hwn a gynnelid yn yr Ysphyty, yr oedd un o'r hen frodyr fyddai yn gwylio y terfynau wedi clywed, ac yr oedd yn benderfynol o'i alw i gyfrif am symud dros yr hen derfyn yr hwn a osododd y tadau. Dyma yr adeg wedi dyfod i dynu y fflangell fawr allan; dechreuodd y fflangellwr a churo ar y pregethwyr ieuainc yn ddirugaredd, yn ol ei arfer. Dywedodd mor noeth fel y teimlai *Dafydd* Rolant i'r byw oddiwrth ei eiriau, ac feallai mai efe oedd yr unig un euog o'r trosedd; a deallai pawb, ac yn eu plith D. Cadwalad, mai ato ef y cyfeiriai y fflangellwr, a theimlai drosto gyda theimlad tad; a'r cyfleusdra cyntaf a gafodd, dywedodd wrth y fflangellwr, "Beth sydd arnoch druan? A oes arnoch ofn i'r bachgen fyned yn well pregethwr na chwi? Nid rhaid i chwi ddim, oblegyd y mae o *wedi myn'd* heibio i chwi eisoes o ddigon." Dywedodd wrth ei ewythr Cwmtlylo, ar ol y wers yma, nad âi i bregethu mwy.

Rhywbryd ar ol dechreu myned oddiamgylch i bregethu, ac wedi rhoddi ei gyhoeddiadau i fyned i'r fan yma a'r fan draw, dywedai nad âi i bregethu; nacâi fyned i'w gyhoeddiadau er undyn,—nid anhebyg mai mewn canlyniad i'r fflangellu uchod; yr oedd un o'i ffitiau isel wedi dod arno; meddyliai mai ei ddyledswydd oedd aros gartref, ac nad oedd wedi ei fwriadu i fyned i bregethu. Clywodd D. Cadwalad hyn, ac annogwyd ef gan rai o'r cyfeillion yn y Bala i fyned i ymddyddan âg ef, i geisio ei ddarbwylo i fyned. Un diwrnod fel yr oedd efe yn sefyll wrth ddrws un o'r beudai, efe a welai yr hen batriarch yn dyfod tuag ato, a'i ffon yn ei law. "Mi feddyliais yn union," meddai ei hun wrth ddweyd yr hanes, "am Eliseus, ac mi ddiengais i'r dafnod, a' stwffiais dros fy mhen i'r gwellt. Ond yr oedd

ei lygaid craff o wedi fy ngweled i cyn i mi fyn'd o'r golwg. Daeth at y beudŷ, ond yr oedd yn methu a gweled dim tebyg i mi yn unlle. Toc, gwaeddodd, 'Deio, lle yr wyt ti?' Nid atebais i ddim iddo, er fy mod yn ei glywed o'r goreu. Gofynodd i rywun oedd yn agos, 'A welsoch chwi mo Deio Rolant yma?' 'Y mae o hefo'r gwartheg,' meddai hwnw. 'Mae o yma,' meddai yntau, 'mi gwelais i fo wrth y beudŷ yma,' tra yr oeddwn innau yn ceisio attal fy ngwynt, ac yr oedd arnaf fi ei ofn o nes oeddwn i yn crynu. Toc, mi ddaeth i fynu i'r daflod, a dechreuodd a phrocio yn y gwellt â'i ffon: o'r diwedd cafodd hyd i mi, ac mi ddywedodd wrthyf fi, 'Wel, Deio bach, beth yr wyt ti yn diengyd rhagof *fi*? Yr unig neges sydd genyf ydyw dyfod i geisio dy berswadio di i fyned i dy gyhoeddiadau, y mae nhw yn dweyd dy fod yn nacâu myn'd.' Dywedais innau, na fedrwn i ddim myn'd, nad oeddwn i ddim wedi fy ngalw. 'Wel,' meddai yntau, 'y mae Mr. Llwyd, Plas-yn-dre', John Evans, a minnau, wedi bod yn gwneyd *committee* ar dy achos di, ac yr ydym ni yn crefu arnat ti fyn'd.' Dywedais innau nad oeddwn i yn *ffit* yn wir i fyn'd. 'Os nad wyt ti yn *ffit*, arnom ni mae y bai am dy yru di; nyni a gymerwn dy bechodau arnom ein hunain, Deio bach; na, yn wir, dôs di i dy gyhoeddiadau.' Yr oeddwn yn rhydd byth wed'yn; ac ni themlais i ddim awydd peidio myned i'm cyhoeddiadau ar ol hyn o gwbl; yr oeddwn yn meddwl fod y cyfrifoldeb yn aros arnynt hwy; ac arnynt hwy y mae y bai fy mod i yn pregethu hyd heddyw, os nad ydwyf wedi fy nghalw."

Yr oedd golwg ieuengaidd a gwylaidd iawn arno ar ei gychwyniad. Clywsom ei fod yn pregethu mewn tŷ anedd yn nhueddau Penmachno, ac estynodd gŵr y tŷ iddo "Lyfr Taith y Pererin" a "Drych y Prif Oes-oedd" wedi eu rhwymo ynghyd, yn lle Beibl. Y mae yn debyg mai yn amryfus y gwnaed hyn, ac nid am

nad oedd yno Feibl yn y tŷ; yr oedd yntau yn rhy wylaidd i ofyn am y Beibl yn ei le; a'r llyfr hwn fu ganddo hyd ddiwedd yr oedfa. Adroddodd bennod o'r Beibl yn y dechreu o'i gof, a'i destun yr un modd, fel na wybu neb hyd y diwedd am y camgymeriad.

Yr oedd yr olwg ar ei berson hefyd pan yn dechreu pregethu yn hynod o wladaidd, fel y gallwn farnu i raddau oddiwrth a ddywedwyd eisoes. Yr oedd ei wallt yn fawr iawn, ac yn llaes yn ei lygaid; a'r olwg arno pan yn pregethu unwaith y fath, fel y dywedai un hen frawd, "Pe cawn i wellaif, a gafael yn mhen y bachgen acw, mi gâi ei ôl o fod arno fo." Lled gyffredin, neu yn hytrach *an-nghyffredin* i'r pulpud oedd ei wisg hefyd. Yr oedd yn cael ei ystyried yn fwy gwladaidd na'r cyffredin yn yr oes hono, pan yr oedd pawb yn fwy gwladaidd nag y maent yn awr. Dywed un chwaer fel y canlyn ar hyn:—"Yn lled fuan ar ol dechreu myned o gwmpas, daeth i Gwmprysor, yn agos i Drawsfynydd; yr oedd yn lletya yn Nantbudr, cartref yr un a fu wedi hyny yn briod iddo. Yr oedd yr olwg ar ei wallt mawr a'i *goat* lwyd, wladaidd, yn fwy nac y gallasai 'Jinny,' y ferch, ddal; fel yr oedd yn dda ganddi gael rhyw gornel i chwerthin,—ond ar yr un pryd yr oedd yn hynod o awyddus i wasanaethu arno, ac ymdrechai gasglu digon o wroldeb i fod yn lled sobr yn ngwydd y pregethwr ieuanc; ond yn methu ymattal heb chwerthin yr ydoedd er gwneyd ymdrech deg. Yr oedd ef y pryd hwnw yn dra difrifol, a dywedai ynddo ei hun wrth weled ei hysgafnder hi, 'Fe ddaw yn wasgfa arnat tithau yn rhywle.' Yn mhen blynyddoedd lawer ar ol hyn y dechreuodd cyfeillach neillduol rhyngddo ef a Jinny. Ac nid rhyw *flash* ar ddechreuad ei weinidogaeth yn unig oedd y gwladeidd-dra a'r gostynggeidd-rwydd yma, ond yr oedd yn aros i fesur mawr ynddo ar hyd ei oes."

"Clywais ef yn dweyd," ysgrifena un brawd atom,

“iddo ddechreu pregethu ryw gynifer o flynyddoe^{si yn} cyn y diwygiad mawr a dorodd allan yn Meddgelert.” Gwelwn yn “Hanes Methodistiaeth” (Cyf. I., tudal. 269, 270) mai yn y flwyddyn 1817 y bu hyn; felly yr oedd efe yn pregethu er ys yn agos i ddwy flynedd pan y torodd hwnw allan. Nis gwyddom a fu efe yn Meddgelert tua'r adeg hon ai peidio; ond clywsom iddo ef a'r hen Edmund o'r Filldir-gerrig, fod tua Maentwrog oddeutu yr amser yma, a dywedai y bobl, “Y mae yr hen ddyn yma o'i go' yn sicr ddigon, os nad ydyw y bachgen sydd hefo fo o'i go' hefyd.” “Gellid meddwl,” ysgrifena yr un gŵr ymlaen, “ei fod yn ŵr ieuanc dirodres a golwg obeithiol arno cyn hynny; ond y diwygiad hwnw yn ddiamheu a gyneuodd dân yn ei fynwes, a fu yn aros yn farwor tanllyd yno trwy yr holl flynyddoedd wedi hynny heb oeri. Fe gyfododd o'r diwygiad hwnw weinidogion enwog iawn, y rhai yr oedd rhyw ddylanwad nefol yn canlyn eu gweinidogaeth y tuhwnt i bawb eraill. Yn eu plith yr oedd y Parchedigion John Jones, Talsarn; Cadwaladr Owen, Dolyddelen; Daniel Jones, Llandegai; Moses Jones, Ysgoldy; Morris Roberts, Brynllin, ac eraill. Yr oedd rhai o honynt wedi dechreu pregethu, fel y brawd Dafydd Rolant, cyn i'r ymweliad ddechreu; ond derbyniasant gyfran helaeth o hono, nes bod yr enneiniad ar eu gweinidogaeth yn anghyffredin o hynny allan.”

Bu ei weinidogaeth yn foddion troedigaeth i luoedd yn Cwmprysor, Trawsfynydd, Cwm-yr-Allt-lwyd, a chymoedd Llanfachreth. Torodd diwygiad nerthol iawn, t^hwyddo ef yn benaf, yn y cymoedd hyn. Cyn hyn nid oedd yno ond ychydig iawn o grefyddwyr, ond mewn ychydig amser, daeth yno ugeiniau lawer os nad cannoedd at grefydd. “Yr ydwyf yn cofio,” medd yr un chwaer ag a grybwyllwyd yn barod wrthym, “am un Sabbath yn neillduol, er ys pedair neu bum mlynedd a dengain yn oi. Yr oeddwn i, a lliaws o rai eraill yn

nad

wy
p

69

PENNOD II.

foreu y Sabboth crybwylledig o cefn, yn mhlwyf Trawsfynydd, i egethu. Yr oedd ef yn ddigon rdded â ni yn droednoeth-goes-ymni oll o'r bron yn ddigrefydd; ddifrifol iawn yn Can-y-cefn, yr hon a'n gorfododd ninnau i fod yn ddifrifol yn gwrandaw y boreu hwn. Am ddau o'r gloch, cawsom bregeth ganddo yn ysgubor Buarth-yr-ê;—pregeth rymus ac argyhoeddiadol iawn oedd hon. Yr oedd yn effeithio felly i raddau pell ar y gynulleidfa; yr oedd y rhan fwyaf yn gwaeddi yn gyffrous. Dyma y tro cyntaf i lawer a honynt ddeall fod ganddynt eneidiau, fel y cyfaddefent ar ol hyny, ac yn eu plith yr oedd y Parch. Morris Roberts, gynt o Frynllin, ond yn awr o'r America; yr hwn a edrychai ar Dafydd Rolant fel ei *dad*, ac ar Dafydd Cadwalad fel ei *daid* yn y ffydd, ac yr oeddynt yn hynod o hoff o'u gilydd yn wastad; a degau eraill heblaw ef, a argyhoeddwyd yn yr oedfa hono, y rhai a fuont yn grefyddwyr da ar hyd eu hoes. Aethom i Llanfachreth at y nos, a chryfhau yr oedd y cynhyrfiadau yno. Dyna y Sabboth y dechreuodd y diwygiad mawr a fu yn Nhrawsfynydd a Llanfachreth, ac efe a gafodd y fraint o fod yn offeryn i'w gychwyn yn y lleoedd uchod yn arbenig. A chan nad oedd gan y Methodistiaid y pryd hwnw un lle i gynnal cyfarfodydd eglwysig yn yr ardal-oedd hyn, ymunai y dychweledigion â'r eglwys gyda'r Annibynwyr; cwynai yntau wrth hyn, a dywedai nad âi efe ddim i bysgota heb yr un cawell byth ond hyny." Ar Sabboth yn y flwyddyn 1818 y digwyddodd hyn. Bu yn foddion i ddychwelyd llawer iawn o bechaduriaid o gyfeiliorni eu ffyrdd er yn foreu. Dywedai y diweddar William Ellis, Maentwrog, am dano, ei fod yn dda iawn am droi i'r gorlan er pan ydoedd ef yn cofio.

[Efe a fu yn foddion i dori y *coetio* a'r *pitchio* i lawr yn hollol yn nghymoedd Llanfachreth. Ac mi a glyw-

1818

ais ddynion sydd yn cofio yn adrodd, y byddai yn anhawdd gan lawer yn awr goelio gymaint o lanciau y cymoedd a'r glynoedd o amgylch Llanfachreth a ymgasglent at eu gilydd i'r glynoedd encil a dirgel ar y Sabbothau, i ymosod ac i ymroddi o ddifrif a'u holl egni i'r chwaryddiaethau hyn. Yr oedd y cymoedd a'r glynoedd encil hyn yn fwy o'r golwg, a thrwy hyn yn fwy anwaraid. A hyfryd ydyw cofio ac adfyfyrion pa beth a wnaeth Duw, a hynny trwy ffolineb pregethu.

[Yr oedd Syr Robert Vaughan o Nanney, y Marchog, yn ymddyddan rywbryd â rhai o'r cyfeillion, ac yn dywedyd gyda syndod diarebol, wrth weled bagad o bobl yr ardaloedd cylchynol yn dilyn Dafydd Rolant o gapel i gapel, "Onid yw yr holl yroedd pobl hyn yn ffol ac yn ynfyd iawn fod yn canlyn bachgen Dafydd Rolant y *Trumpeter*, yma trwy y dydd?" Y mae yn ymddangos nad oedd yr hen Farchog wedi talu digon o sylw i ddiarebion y doethaf o feibion dynion, yr hwn sydd yn dysgu ac yn datgan mai "Gwell yw bachgen tlawd a doeth, na brenin hen ac ynfyd;" i.e. na *brenin*, chwaethach Marchog y Sir. Ond y mae yr hen Farchog wedi newid ei feddwl a'i farn wedi newid byd, os na wnaeth efe cyn hynny; a gobeithio ei fod wedi ei newid cyn hynny; ond nid oes a wnelwyf fi a dywedyd ychwaneg ar hyn pa fodd bynag.

[Yr oedd yn gyfaill mawr i Thomas Jones o'r Trawsgoed, sef yr hen feddyg enwog a fyddai yn adferu gwallgofiaid i'w synwyrâu. Clywais ef yn adrodd ymddyddan a fu rhyngddynt unwaith, yn fuan ar ol iddo ddechreu pregethu. Y pwnc yr oeddynt yn ymddyddan arno y tro hwn oedd "Gwallgofiaid":—

DAFYDD ROLANT. A ydych chiwi yn meddwl Thomas Jones, y bydd pobl dduwiol yn colli eu synwyrâu weithiau?

THOMAS JONES. O byddant, Deio bach, cyn aml-ed a phobl eraill am wn i.

D. R. A fyddant hwy yn rhegu ac yn dweyd geiriau drwg?

T. J. Byddant yn rhyw fath o regu weithiau, yn bur debyg fel pe buasai *parrots* yn gwneyd.

D. R. Pa fodd y gwyddoch chwi ddim rhagor rhwng duwiol ac annuwiol felly?

T. J. Wel, mi ddywedaf i ti;—nid oes dim mymryn o awdurdod yn rhegu na thyngu y bobl dduwiol sydd yn ddyfod yma. Y rhegwr salaf a glywaist ti erioed â dy glustiau oedd hwn a hwn.

D. R. A oedd awdurdod yn rhegu hwn a hwn? (Gan enwi un arall a adwaenai.)

T. J. *Oedd, awdurdod o'r pydew diwaelod.*

Ond nid wyf fi yn meddwl sicrhau ei fod ef yn awdurdod dyogel i'w gredu yn ddiamheuol ar y pwnc amheus hwn; ac eto nid dim niwaid, ond graddau o ddifyrwch, oedd cael ei farn yntau ar y pwnc.

[Bryd arall pan welodd yr hen feddyg ef wrth y gorlan yn brysur gyda'r cwmni, yn cneifio y defaid â'i holl egni, dywedodd wrtho, "Wyddost ti beth, Deio, gartref yn trwsio y rhwyd y dylasit ti fod yn awr, neu ynte yn ei thaenu mewn rhyw gynulleidfa; mi allasent wneuthur hebot ti yn eithaf da gyda'r cneifio yma." Dyn a synwyr maith oedd yr hen feddyg. Yr oedd efe yn ymwybodol mai "efengylu yn mysg y cenedloedd" oedd yr alwedigaeth y galwyd Deio iddi. Nid oedd yn aelod gyda'r un enwad o grefyddwyr], ond yr oedd yn Galfin o ran ei farn, a dywedai wrth Dafydd Rolant, "Dal di i bregethu yr athrawiaeth Galфинаidd, Deio bach, nid oes yr un athrawiaeth arall a *suitia* ddyn yn y *shape* sydd arno ar ol codwm Eden."

[Clywais ef yn adrodd ei fod wedi bod mewn cryn benbleth gyda'i nain yn nechreu ei oes weinidogaethol;

yr hon, fel y crybwyllwyd eisoes, a'i magodd ar ol marwolaeth ei fam. Pan ydoedd efe wedi dyfod adref yn lled flin unwaith o daith bell, a'r tâl a dderbyniasai heb fod, yn nhyb yr hen wraig, yn ddigonol am y llafur, dywedodd wrtho: "Wyddost ti beth, Deio, yr ydwyf fi wedi meddwl am y peth cyn heddyw, ac fe ddylit tithau hefyd feddwl am dano,—y mae yn rhaid i ti fyned i'r Cyfarfod Misol, a dywedyd wrthynt fod yn rhaid iddynt benu cyflog go dda i ti am deithio a baeddu fel hyn. Pa beth a elli di ddisgwyl ei gael ganddynt hwy wedi i ti ddifetha dy *frest*, a chael yr anwyd, a cholli dy iechyd; yn awr y mae i ti edrych ati; ac onid âi di, mi af fi at flaenoriaid y Parc yna, ac a ddywedaf wrthynt, na chei di ddim myned oddiyma ddim yn ychwaneg oni phenodant gyflog go dda i ti."—Wel, wel,

"Maughan am goed a minnau a'm gân,"

medd Dewi Wyn gynt, coffa da *am dano; yn lled debyg yr oedd hi yma; yr hen wraig am y gyflog ac yntau am achub dynion; a chryn drafferth a gafodd yn ei darbwyllo i roddi y fath amcan i fynu. A pha ddyben a fuasai iddi fyned at flaenoriaid y Parc, mi allasai efe fyned wedi hyny i'r Llidiardau, neu Dal-y-bont, neu y capelydd cymydogathol. Nid oedd yr hen wraig, yr wyf yn tybio, yn aelod eglwysig yn unlle, ond yr oedd hi, yn ol a glywais, yn lled foesol a bucheddol; ac er hyny heb ddeall natur yr efengyl yn dda hyd hyny o'i hoes, a dywedyd y lleiaf.*

* Ar ol i hyn gael ei ysgrifenu, deallwn fod amryw o rai a ddylasant fod yn gwybod yn dda yn meddwl fod ei nain yn hen wraig grefyddol, ac y byddai yn myned i'r Bala bob Sul pen mis, a "Deio bach" wrth ei 'sgil: y mae yn ffaith y gwnai hyn; ond ni wyddis i sicrwydd ei bod yn cymuno wedi myned yno, er ei fod yn bur debygol y gwnai. Hwyrach mai y peth tebycaf ydyw, mai yr hen *Siân*, gwraig *Llewelyn*, Tydraw, Cymtylo, y dylid ei ddarllen yn yr adran uchod, yn lle *ei nain*. Yr oedd *Siân* yn perthyn i'w nain, os nad oedd yn chwaer iddi; ac yr oedd, meddir i ni, yn gyfryw un ag y gellid disgwyl sylwadau fel yr uchod oddiwrthi, pryd nad oedd ei nain. Ac yr oedd, fel y gwelwyd o'r blaen, yn teimlo cryn ddyddordeb yn y pregethwr ieuanc a'i lwyddiant fel pregethwr—pahan na chai deimlo yr un fath tuag at ei amgylchiadau tvmhorol hefyd?

[Yn fuan ar ol dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus yr oedd efe yn pregethu ar nos Sabboth, mewn ardal yn Sir Feirionydd, nes oedd y dorf wedi myned i neidio a moliannu Duw. Ac wrth weled cymaint o arddeliad ar y pregethwr, daeth ato ryw hen frawd brwdfrydig a'i enw yn Siôn, i ddymuno arno ddyfod i'w dŷ ef nos dranoeth i roddi pregeth ar ryw achos nodedig iawn, naill ai pregeth angladdol rhyw frawd duwiol a hoff, neu ryw amgylchiad arbenig arall. Dywedai yntau fod yn rhaid iddo ef fyned adref at ei waith, onidê y cai efe ddrwg. Ond ni chymerai Siôn mo'i nacâu, yr oedd efe yn barnu yr amgylchiad mor arbenig. "O na," meddai, "mi dalaf fi i ti, ac yna ni chai di ddim drwg." I gefnogi a grymuso ei holl anogaethau, efe a ddywedai yn fynych, "Yr wyf fi yn sier o dalu i ti—nid wyf fi yn meddwl i ti ddyfod heb dalu i ti;" a chan amled y soniai efe am "dalu" fel y gallesid tybio y talasai efe gryn hanner penadur am y bregeth hono, boed a fyno am wed'yn; "a rhwng addewid Siôn ac ysfa am bregethu," meddai ei hun, "cymerais fy mherswadio, arosais gydag ef, a phregethais, a chefais oedfa lewyrchus dros ben. Daeth yr hen ddyn i'm danfon i y noswaith hono wedi i'r cwbl fyned trosodd, i gychwyn tua chartref, ac wrth ffarfelio mi ddywedodd yr hen frawd withyf fi, 'Aros, Deio bach, gael i mi dalu i ti'; a thyna fo yn myned i'w bwrs wrth oleu'r lleuad, ac yn pigo oddiyno y swm arbenigol o chwe' cheiniog, ac yn ei roddi i minau am bregethu." Daliwr tyrchod daear oedd y dyn. Ie, dylaswn ddweyd eu bod wedi cadw cyfarfod eglwysig ar ol y bregeth; ac mor effeithiol fu y bregeth fel y daeth tri-ar-ddeg o bobl i'r cyfarfod eglwysig na buont erioed yno o'r blaen. Ond wrth gofio am yr holl addaw mawr a'r tâl bychan gwnaeth Dafydd Rolant y sylw canlynol:—"Yr oedd o yn cael ceiniog y twrch am ddal tyrchod, ond nid oedd efe wedi talu dimai y pen i mi am ddal dynion trwy yr efengyl;" ac fe welwn nad

oeddynt yn ddimai y pen o un ddimai. Y mae yn dda fod yr egwyddor wirfoddol yn gryfach yn nghalonau miloedd o'r Cymry nac ynddo ef, onidê byddai yn wanach nac yw hi. Ond didwyll yw dywedyd fod ychwaneg na deugain mlynedd er hyny.]

Dywedai iddo fod yn myned o Gwentylo i ochr y Dylife, yn Sir Drefaldwyn, peidder o dri ugain milldir rhwng myned a dychwelyd, ac na chafodd am ei daith a'i wasanaeth ar ddiwedd y Saboth ond *chwech o bres*; "Ond," meddai, "nid ce blwn i yn *hidio* draen, yr oedd arwyddion amlwg fod Duw wedi bendithio fy llafur i fod er ischawdwriaeth i bechaduriaid."

[Ac i goron y cwm, nodwn un engraifft arall o'i luman-ymwadiad a'i flyddlondeb yn ngwaith y weinidogaeth. Daeth hen flaenwr flyddion o Goris ato yn Nghyfarfod Misol y Dyffryn un tro, a dywedai wrtho, "Mi fuasai yn dda iawn genyf fi i chwí ddyfod acw, i Goris, ond nid oes genyf fi ddim wylch i dlyn i chwí ddyfod mor bell, yr ydym ni mor dlawd acw, ni fedrwn eich cydnabed yn deilwng." "Wel," meddai yntau, "gan mai felly y mae hi, mi ddol fi acw am ddim." Rhoddodd ei gyhoeddiad, ac aeth yno yn yr adeg; ac ar y Saboth honw tanodd yn ddiwygiad anghyffredin yno; nid oedd yr achos ond gwan yno o'r blaen, ond parhâodd i gynyddu o hyny hyd yn awr. Dywedai ef mai dyna y Sul y cafodd efe fwyaf o dâl ermod. Os oeddynt hwy yn rhy wan i dalu o'r le gafodd dâl; ac oni buasai bod ambeu un o'r *stamp* yma ni buasai Methodistiaeth y peth ydyw yn awr.]

Hwyta h mai nid amser ydych chi gan y darllenydd fyddad i ta, cyn myned yn mbeliach, gwisgo rhyw amlinelliad o'i nodwedd fel progethwr pan y dechreuodd. Ymdrechwn roddi rhyw frascan, gan hyabysu hyn, nad oes genym ni ddim i'w wneyd ond cyfleu mewn ychydig o riau yr hyn a glywom pan y risu sydd yn ei gofio yn dechreu.

Ymddengys y byddai ar y dechreu yn arfer a defnyddio cryn lawer o ddywediadau Peter Williams a Gurnal, ac o "Eiriadur" Mr. Charles; ac nid âi i'r drafferth o'u cydnabod fel dywediadau eraill; ond yr oedd rhai o'i wrandawyr wedi eu darllen, ac yn gwybod wrth iddo bregethu o ba le yr oedd wedi eu cymeryd. Arferai fyned i'r Tŷ'n-ddol cyn y moddion yn wastad, a dyna lle y byddai yn brysur iawn cyn y *society* yn darllen Beibl Samuel Clark oedd yno, ac yn troi at y cyfeiriadau, yr hyn a wnaï yn ddiamheu i ymbaroti at y pulpud.

Prif arddull ei bregethau ar y cyntaf oedd eu bod yn hynod o athrawiaethol; yr oeddynt yn hollol anhebyg i'r hyn oeddynt yn mhen tipyn wedi hyny; gymaint oedd y gwahaniaeth fel mai o'r braidd y buasai neb yn meddwl mai yr un dyn ydoedd. Heblaw ei fod i ryw fesur yn cerdded "ar ffyn baglau," yr oedd arno ormod o ofn hefyd y pryd hwnw i fod yn rhydd, fel nad ymddangosodd yn "efe ei hun" ar y cyntaf. Ond fel yr oedd yn magu eofndra, ac yn enill tipyn o hunanymddiried, daeth bob yn ronyn wrth ymarfer, yn "efe ei hun," yr hyn a fu byth wedi hyny. Ar ol hyn y dechreuodd y ffraethebau a'r dywediadau digrif ac arabawl amlhau, y rhai a barent iddo wahaniaethu cymaint oddiwrth bawb eraill.

Byddai y bobl, a rhai pur gywir ydyw y bobl yn aml, yn arfer a dywedyd hefyd, ei fod nid yn unig yn defnyddio ymadroddion a phethau pobl eraill, ond ei fod yn arfer dull, ystumiau, a llais rhywun heblaw yr eiddo ei hun. Dywedid yr ymdebygai i'w dad yn y ffydd, Dafydd Cadwalad, ar y dechreu, yn ei ymadroddion ac yn ei ddull o draddodi. Hwyrach iddo wneyd hyny dros ryw dymhor; peth digon naturiol i ddyn ieuanc dibrofiad ydyw ymdebygoli i'r neb y byddo ganddo feddyliau uchel am dano, er nad ydyw yn beth doeth. Ond pan y daeth yn dipyn mwy synwryol a phrofiadol

gadawodd hyny heibio yn llwyr yn y pulpud ; ond pa bryd bynag yr adroddai hanesyn am Dafydd Cadwalad, neu ryw ddywediad o'i eiddo, arferai hyd ddiwedd ei oes, ei efelychu cystal ag y medrai ; ni wyddom a oedd yn efelychiad lled berffaith ai peidio, gan na chlywsom y gwreiddiol erioed. Byddai yn hoff iawn hefyd o ddynwared eraill heblaw Dafydd Cadwalad.

Yr ydym yn cael lle i gredu oddiwrth y testunau y pregethai arnynt, yn gystal ag oddiwrth yr effeithiau, ac oddiwrth yr hyn a ddywed ei gyfoedion sydd yn cofio hyny, mai taranllyd ofnadwy a fu ei weinidogaeth am dymhor, " Gwae y rhai esmwyth arnynt yn Sion," — " Oherwydd bod digofaint, gochel, &c.," — " Yr hwn y mae ei wyntyll yn ei law, &c.," — " Am hyny byddwch chwithau barod," — " Y cynhauaf yw diwedd y byd," a llawer o rai cyffelyb oedd ei destunau. Fel y mae yn rhesymol i ni feddwl, os oedd efe yn pregethu o ddifrif ar y fath destunau, a'i holl galon a'i holl enaid yn y gwaith, fel y mae genym bob lle i gredu ei fod, — nad oedd ryfedd yn y byd fod pechaduriaid yn cael eu hargyhoeddi trwy ei weinidogaeth. Ond yr oedd *Boanerges* ac *Evangelius* yn llefaru trwyddo yn eu tro ; cyfranogai i fesur mawr o ysbryd y ddau ar hyd ei oes.

Ond os oedd ganddo destunau taranllyd, yr oedd ganddo y pryd hwnw, neu pan oedd yn bur ieuanc, destunau gwahanol, o ran eu hymddangosiad o'r hyn lleiaf, — testunau a fuasent yn debycach o gynyrchu gwên ac ysgafnder, yn hytrach na ddifrifwch a sobriwydd, ond y mae yn ddiau fod yr athrawiaeth a bregethai oddiwrth y testunau hyny o duedd wahanol.

Yn mhlith y rhai hyn, yr oedd un testun na chlywsom am neb yn pregethu arno ond efe, sef Diar. xxx. 29—31, " Y mae tri pheth a rodiant yn hardd, i.e, pedwar peth a rodiant yn weddus ; llew cryf, yr hwn ni thry yn ol er neb ; milgi cryf yn ei feingefn, a bwch a brenin, yr hwn ni chyfyd neb yn ei erbyn." Ni wyddom

a oedd yr oll o'r adnodau hyn o dan ei sylw fel testun ai peidio; ychydig a glywsom o son am y llew, na'r bwch, na'r brenin, ond yn unig am y "milgi cryf yn ei feingefn." Cyfarfyddodd y bregeth hon â llawer o erledigaeth. Gwaharddodd rhywun mewn Cyfarfod Misol unwaith iddo bregethu pregeth "y milgi." Ond dywedodd Dafydd Cadwalad, yr hwn oedd wedi ei glywed yn ei phregethu, wrtho am beidio talu dim sylw i'r hyn a ddywedwyd. A'r Sabboth cyntaf ar ol y Cyfarfod Misol, dyna "y milgi" allan fel o'r blaen, a bu arddeliad anarferol ar yr addysgiadau oedd ganddo oddiwrth hyny.

Ond codwyd yr achos i lŷs uwch; gan nad oedd y Cyfarfod Misol yn gallu ei ddystewi cymerodd y Gymdeithasfa y pwnc mewn llaw. Un o'r pynciau yr ym-driniwyd yn eu cylch mewn cyfarfod neillduol yn Nghymdeithasfa Llanrwst, oedd na ddylai pregethwyr ieuainc ddim cymeryd testunau cyfriniol (*mystical*) a digrif, i bregethu arnynt. Siaradodd John Elias yn danllyd yn eu herbyn, a dywedai, "Cymerwch destunau priodol; y mae digon o destynau i'w cael ag athrawiaeth ynddynt, heb fyned at y fath destunau â hyn." Yr oedd yntau yn gwrando, ac yn teimlo mai at "y milgi cryf" yr oedd pob ergyd yn cyfeirio, ac mai efe yn benaf oedd dan yr ordd. Ond noson y Gymdeithasfa yr oedd ef a Richard Jones o'r Wern, i fod yn Mhenmachno. Dywedai ei brofiad yn hynod o ddigalon wrth Richard Jones, "Mi wn i o'r goreu," meddai, "mai fi oedd gan Elias mewn golwg pan yn siarad am y testunau yma; ni wn i yn y byd beth a wnaif fi." "Na *hidiwch* mono fo Dafydd bach," meddai ei gyfaill i'w galonogi, "ni fedr ef ddim pregethu ar destyn fel yna, a hyny a wŷr o; ond gyrwch chwi arni, a pharhewch i ollwng yr hen 'filgi' tra y pery efe i ddal ambell un i chwi." Yr oedd yn isel a digalon cyn hyn, ond cododd hynyma ei galon, a llonodd drwyddo.

Yr oedd unwaith yn cyd-letya yn un o drefydd mawrion Lloegr, gyda phregethwr arall. Yr oeddynt i bregethu un noswaith, pob un yn ei fan, a gwyddai y llall mai dyma y testun yr oedd efe am bregethu arno, ac edliwiai ei destun iddo yn ddibaid, gan ymbleseru yn ei *blagio* a'i *dormentio*. Aethant bob un i'w fan, ac ar ol pregethu dychwelasant eto i'r un llety. Dechreuodd y naill holi y llall am ei lwyddiant, "Pa fath oedfa a gawsoch chwi?" gofynai ef. "Yn wir oedfa galed iawn a gefais i," oedd yr ateb. "A arosodd yno ryw un yn y *Society*?" "Naddo, yn wir, neb;" atebai ei gyfaill yn ddigalon. Yna gofynai ei gyfaill iddo ef, "Pa fath oedfa a gawsoch chwi, Dafydd Rolant?" Atebai yntau, "Mi ollyngais i 'y milgi cryf' ar ei hol nhw, ac mi ddaliodd un-ar-bymtheg." Bu gorfod tewi a gwawdio y testun y noswaith hono wed'yn.

Ond os oedd tipyn o wawdiaeth gyfrinachol,—os oedd y Cyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa,—llysoedd uchaf y Corff, yn methu ei attal i bregethu ar y testun yma, fe gafwyd o'r diwedd yr hyn a lwyddodd, er mai nid gyda'r amcan a'r dyben hwnw; a gallwn dybied mai rhai llai eu dawn nac Elias, a llai eu hawdurdod nag aelodau Cyfarfod Misol a fuont yn offerynau i wneyd y gorchestwaith hwn. Ac fel hyn y dygwyddodd;—pregethodd hi unwaith mewn rhyw fan yn Sir Feirionydd, yr ydym yn meddwl mai yn Nhrawsfynydd, neu yn y daith hono; ac fel y byddai yn arferol, aeth yn orfoledd mawr—meibion a merched yn neidio ac yn gwaeddi. Yr oedd y gorfoleddwyr wrthi ar hyd y daith o'r naill gapel i'r llall, o'i flaen ac o'i ol, a diolch am y testun yr oedd llawer o honynt; ond yr oedd yno un yn uwch o'i ysgwyddau i fynu fel gwaeddwyr na neb o'r dorf yn digwydd bod yn lled agos ato, a gwaeddai yn groch nes yr oedd y creigiau yn adsain, "Diolch, diolch, am y milgi cryf yn ei *fein-ge-fan*," gan roddi pwyslais dwys ar y gair olaf bob sill o hono ar ei phen ei hun. Nes wrth ei

glywed ef ac eraill, y dechreuodd y pregethwr ag ystyr-ied, daeth i deimlo yn yswil ; a dywedai bod arno ormod cywilydd pregethu ar y testun yna byth wedi hyny.

Yr oedd yn bur hoff o son am y bregeth hon—y gwrthwynebiadau a gafodd, a'r llwyddiant a'i dilynodd ; ond nid oedd modd cael ganddo ddweyd dim o'r bregeth. Gwnaeth llawer yr ymgais, ond ni chlywsom am neb wedi llwyddo ond William Ellis, Maentwrog. Arweiniodd efe ef i son am dani, a holodd ef nes tynu y bregeth i gyd i'r golwg. Gofynnodd un gweinidog iddo unwaith, wrth iddo son am y bregeth, "Beth oedd y 'milgi cryf' genych chwi, Dafydd Rolant?" "O," atebai yntau, "yr oedd yn rhywbeth a allai *ddal*." Ac i brofi gwirionedd yr atebiad yna, clywsom i un blaenor yn Sir Fflint, wrth ei dderbyn i'r Cyfarfod Misol, pan yn cael ei holi pa beth oedd wedi troi ei feddwl at grefydd, pan y daeth ati gyntaf, roddi yr atebiad canlynol,—“Y milgi cryf y soniai Dafydd Rolant am dano, a'm daliodd i yn yr oedfa hono. Os cefais grefydd o gwbl, dyna y pryd y'i cefais.” Buom yn chwilio yn mhlith ei bregethau ysgrifedig am nodiadau o honi, ond methasom a chael un crip am dani. Buom yn holi hefyd y rhai a'i clywsant yn ei phregethu, pa beth oedd “y milgi cryf” ganddo, ond methasom a chael braidd neb yn dywedyd yr un peth. Dywedai un mai y ddeddf oedd : arall, mai yr Ysbryd Glân : arall, mai yr Arglwydd yn nghymhelliadau ei Ysbryd, fod y gwrandawyr yn dianc rhag y pregethwr, ond ei fod ef yn gallu dod o hyd iddynt : tra y dywed rhai fod yr oll yma yn dod i mewn ganddo, ac mai pregeth go annhrefnus ydoedd : ond clywsom un a'i clywodd yn dweyd mai Iesu Grist fel Gwardwr oedd “y milgi cryf” ganddo, ac y mae genym gymaint o ymddiried yn ei gof a'i farn ag yn yr eiddo nemawr un o'i gyfoedion ; a chadarnawyd hyn gan un arall a'i clywodd. Ond gadawn ni ar hyn ; gadawn i'r darlennydd bigo ei ddewis, neu chwilio am

un mwy priodol os gall na'r un o'r rhai'n, neu ynte cymered hwy oll. Bu ganddo bregeth a "myn'd" mawr gyda hi ar y gair "*Shiboleth*." Ond dyna y cwbl a glywsom ni am hon.

Ni bu yn enwog erioed fel dadleuwr; ond anfonwyd i ni hanes un ddadl y cymerodd ran ynddi. Cyn hir ar ol iddo ddechreu pregethu, pan yr oedd diwygiad pur gyffrous yn y Parc, daeth gweinidog gyda'r Bedyddwyr yno o'r Dê i bregethu; yr oedd wedi bod yno droion o'r blaen. Y tro hwn aeth yn ddadl frwd yn Tŷ'n-ddol, ar ol yr oedfa, ar "Fedydd." Yr oedd yno lawer yn cymeryd rhan ynddi ar y dechreu; ond cauwyd geneuau y lliaws yn fuan; ond daliodd Morris Williams, Rafel, a Deio, Cwmtlylo, ato wedi i bawb eraill dewi; a buont yn dadleu am oriau. O'r diwedd pwysent mor drwm ar ei wynt nes iddo fyned allan o'i dymer dda, a bu yn gas iawn wrth y pregethwr ieuanc; dywedai, "*Tydi*, bregethu—beth fedri *di*—rhyw hogyn gwirion fel *tydi*, bregethu, &c." Gwelwn iddo fyned yn mhell oddiwrth ei bwnc; ond daeth ato eilwaith, ac wedi darfod rhesymu, trôdd i brophwydo a dywedodd, "Mi fyddant yn eu bedyddio nhw yn *lotiau* yn y Llyn Tegid yna cyn hir—a ddowch chwi hefo ni, Betty?" "Naddof fi yn wir ddim hefo chwi." Atebai hithau, "Yr oeddwn i yn amheu," meddai Dafydd Rolant wrth adrodd yr hanes, "pan y clywais i fo mor frwnt, nad oedd o ddim yn dduwiol, er ei fod yn pregethu yn hyfryd iawn yn y capel ychydig cyn hyny." Ni bu yno wedi hyny.

Yn nechreu y flwyddyn 1819, bu ar daith gyda Mr. Elias can belled âg Aberystwyth, i'r Gymdeithasfa a gynnelid yno. Hon y mae yn debyg oedd ei daith gyntaf. Wrth ddychwelyd, daethant i'r Bala erbyn y Sabboth, y 14eg o Chwefror. Dechreuodd ef yr oedfa a phregethai Mr. Elias. Yr oedd Dafydd Rolant, fel y crybwyllwyd, yn hoff iawn o'r mesur a elwir "*Mentra Gwen*;" yr oedd "myn'd" garw ar y mesur y pryd

PENNOD II.

Nid oedd chwaeth y Cymry at gerddoriaeth grefydaol mor uchel a phur yr amser hwnw âg ydyw yn awr. Ar y daith hon arferai *ledio* penillion ar yr hyd hwnw yn fynych; yr oedd Elias wedi hoffi rhai o'r penillion yn fawr; ac ar ol y bregeth yn y Bala y Sul uchod, gan feddwl ei fod yn medru un o honynt yn ddigon da, dechreuodd roddi allan y penill hwnw,

“Mae efengyl gras yn tywynu,
Mawr yw'r fraint, &c.”

Ond methodd a myned yn mlaen, a bu gorfod iddo droi at ei gyfaill oedd yn eistedd o'r tu ol iddo, i ofyn iddo ef ei orphen yn ei le, yr hyn a wnaeth. Ar ol hyn, aeth gydag Elias o'r Bala mor bell a'r Wyddgrug, i'r Gymdeithasfa. Dywedai mai yr hyn a bregethai Elias ar y daith yma, oedd sylwedd ei draethawd ar “Gyfiawnhad pechadur.”

Dywedir i ni mai un dyben yn ei anfoniad ef i'r daith hon, oedd “i Elias gael cyfle i gribo tipyn ar ei wallt o,” neu mewn iaith fwy eglur, gael iddo ddysgu ymddwyn yn dipyn mwy boneddigaidd, a dysgu tipyn o *fanners*. Yr oedd cryn angen am hyn. Ond dylem ddweyd mai arno ef ei hun yr oedd y bai am hyny; yr oedd ei ewythr a'i fodryb, gyda'r rhai y'i dygwyd i fynu, ynghyda'u meibion, yn gwybod pa fodd i ymddwyn yn eithaf da yn mha gwmmi bynag y byddent; dywedir i ni eu bod, ac ystyried y rhan uchel o'r wlad y trigent ynddo, mor berffaith yn hyn â neb yn y wlad y pryd hwnw; ond methent er pob ymgais a chael gan Deio wneyd dim yr un fath a neb arall. Byddai yn ddiarebol o ddilun, i nodi un enghraifft, gyda'i gyllell a'i fforch; nid oedd modd cael ganddo ymaflyd ynddynt o dde. Tybiwn oddiwrth yr hyn a ddywedwyd i ni, y cydiai âg un law yn y fforch, fel y gwna y tyllwr cerrig yn ei ebill pan yn tyllu;—ymaflai yn dŷn ynddi a daliai hi bob amser yn syth ar ei phen; tra y byddai y

llaw arall mewn ffwdan gyda'r gyllell yn hacio y cig, yn debyg fel pe buasai yn llifio. Gallesid meddwl wrth edrych arno, mai gorchwyl caled iawn oedd gwneyd yr ymborth yn dameidiau cymhwys i'r genau. Gan mai fel hyn yr oedd pethau yn bod, nid rhyfedd iddynt ei roddi i ofal rhywun a allai ei ddysgu i ddod yn fwy boneddigaidd yn ei ddull a'i arferion. A pha gynllun gwell a allasid ei gael na Mr. Elias?—a diau i'r daith hon adael ei hol arno, oblegyd ni welsom ni ddim erioed a dynai ein sylw ynddo mewn dim fel hyn, er pan adwaenem ni ef. Dywedai ei hun, “Nid oeddwn i yn gwybod pa fodd i gymaint a sychu fy ngwyneb, cyn i mi fyned hefo Elias. Mi fyddwn i yn cymeryd y llian, yn ei wneyd o yn swbach, ac yn ei wlychu i gyd wrth ymsychu; ond byddai Mr. Elias yn cymeryd un gornel yn unig i'r llian, ac yn dweyd wrthyf finau, ‘Fel hyn y dylech chwi wneyd, mi wna y tro i eraill ar ein hol ni fel hyn, ond wedi i chwi wlychu y llian i gyd fel yna rhaid iddynt ei olchi, ac felly mi fyddwn yn rhoddi trafferth afreidiol i'r gwragedd caredig yma sydd yn cymeryd cymaint o drafferth gyda ni.’”

Dywedir i ni iddo efelychu Elias, nid yn unig yn ei ddull o ymsychu, ac o drin arfau bwyta, &c., ond hefyd iddo debygu iddo mewn rhai pethau wrth bregethu dros ryw dymhor. Y mae yn debyg mai pethau dibwys a efelychai ynddo, fel y gwna efelychwyr yn gyffredin—y llais, y pesychiad, rhyw ystum gorfforol, y dull o nodi y penau, neu rywbeth o'r fath. Nid ydym yn gwybod yn sicr pa bethau oeddynt, ond y ffaith ydyw, fod rhai wrth ei wrando yn pregethu ar ol hyn, am ryw dymhor, yn myn'd i feddwl yn naturiol am Elias, yr hyn ni wnaent cyn y daith hon. Ond nid hir y bu heb ddod i'w arddull ei hun yn berffaith wedi hyny. Y mae yn debyg mai cyn y daith hon yr oedd Elias wedi bod yn ei fflangellu am bregethu ar “y milgi cryf.”

[Yn fuan ar ol dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus yr oedd efe yn pregethu ar nos Sabboth, mewn ardal yn Sir Feirionydd, nes oedd y dorf wedi myned i neidio a moliannu Duw. Ac wrth weled cymaint o arddeliad ar y pregethwr, daeth ato ryw hen frawd brwdfrydig a'i enw yn Siôn, i ddymuno arno ddyfod i'w dŷ ef nos dranoeth i roddi pregeth ar ryw achos nodedig iawn, naill ai pregeth angladdol rhyw frawd duwiol a hoff, neu ryw amgylchiad arbenig arall. Dywedai yntau fod yn rhaid iddo ef fyned adref at ei waith, onidê y cai efe ddrwg. Ond ni chymerai Siôn mo'i nacâu, yr oedd efe yn barnu yr amgylchiad mor arbenig. "O na," meddai, "mi dalaf fi i ti, ac yna ni chai di ddim drwg." I gefnogi a grymuso ei holl anogaethau, efe a ddywedai yn fynych, "Yr wyf fi yn sicr o dalu i ti—nid wyf fi yn meddwl i ti ddyfod heb dalu i ti;" a chan amled y soniai efe am "dalu" fel y gallesid tybio y talasai efe gryn hanner penadur am y bregeth hono, boed a fyno am wed'yn; "a rhwng addewid Siôn ac ysfa am bregethu," meddai ei hun, "cymerais fy mherswadio, arosais gydag ef, a phregethais, a chefais oedfa lewyrchus dros ben. Daeth yr hen ddyn i'm danfon i y noswaith hono wedi i'r cwbl fyned trosodd, i gychwyn tua chartref, ac wrth ffarwelio mi ddywedodd yr hen frawd withyf fi, 'Aros, Deio bach, gael i mi dalu i ti'; a thyna fo yn myned i'w bwrs wrth oleu'r lleuad, ac yn pigo oddiyno y swm arbenigol o chwe' cheiniog, ac yn ei roddi i minau am bregethu." Daliwr tyrchod daear oedd y dyn. Ie, dylaswn ddweyd eu bod wedi cadw cyfarfod eglwysig ar ol y bregeth; ac mor effeithiol fu y bregeth fel y daeth tri-ar-ddeg o bobl i'r cyfarfod eglwysig na buont erioed yno o'r blaen. Ond wrth gofio am yr holl addaw mawr a'r tâl bychan gwnaeth Dafydd Rolant y sylw canlynol:—"Yr oedd o yn cael ceiniog y twrch am ddal tyrchod, ond nid oedd efe wedi talu dimai y pen i mi am ddal dynion trwy yr efengyl;" ac fe welwn nad

oeddynt yn ddimai y pen o un ddimai. Y mae yn dda fod yr egwyddor wirfoddol yn gryfach yn nghalonau miloedd o'r Cymry nac ynddo ef, onidê byddai yn wanach nac yw hi. Ond didwyll yw dywedyd fod ychwaneg na deugain mlynedd er hyny.]

Dywedai iddo fod yn myned o Cwmtlylo i ochr y Dylife, yn Sir Drefaldwyn, pellder o dri ugain milldir rhwng myned a dychwelyd, ac na chafodd am ei daith a'i wasanaeth ar ddiwedd y Sabboth ond *chwech o bres*; "Ond," meddai, "nid oeddwn i yn *hidio* draen, yr oedd arwyddion amlwg fod Duw wedi bendithio fy llafur i fod er iachawdwriaeth i bechaduriaid."

[Ac i goroni y cwbl, nodwn un engraifft arall o'i hunan-ymwadiad a'i ffyddlondeb yn ngwaith y weinidogaeth. Daeth hen flaenor ffyddlon o Goris ato yn Nghyfarfod Misol y Dyffryn un tro, a dywedai wrtho, "Mi fuasai yn dda iawn genyf fi i chwi ddyfod acw, i Goris, ond nid oes genyf fi ddim wyneb i ofyn i chwi ddyfod mor bell, yr ydym ni mor dlawd acw, ni fedrwn eich cydnabod yn deilwng." "Wel," meddai yntau, "gan mai felly y mae hi, mi ddof fi acw am ddim." Rhoddodd ei gyhoeddiad, ac aeth yno yn yr adeg; ac ar y Sabboth hwnw taniodd yn ddiwygiad anghyffredin yno; nid oedd yr achos ond gwan yno o'r blaen, ond parhâodd i gynyddu o hyny hyd yn awr. Dywedai ef mai dyna y Sul y cafodd efe fwyaf o dâl erioed. Os oeddynt hwy yn rhy wan i dalu iddo fe gafodd dâl: ac oni buasai bod ambell un o'r *stamp* yma ni buasai Methodistiaeth y peth ydyw yn awr.]

Hwyrach mai nid annerbyniol gan y darllenydd fyddai i ni, cyn myned yn mhellach, geisio rhoi rhyw amlinelliad o'i nodwedd fel pregethwr pan y dechreuodd. Ymdrechwn roddi rhyw fraslun, gan hysbysu hyn, nad oes genym ni ddim i'w wneyd ond cyfleu mewn ychydig eiriau yr hyn a glywsom gan y rhai sydd yn ei gofio pan yn dechreu.

Ymddengys y byddai ar y dechreu yn arfer a defnyddio cryn lawer o ddywediadau Peter Williams a Gurnal, ac o "Eiriadur" Mr. Charles; ac nid âi i'r drafferth o'u cydnabod fel dywediadau eraill; ond yr oedd rhai o'i wrandawyr wedi eu darllen, ac yn gwybod wrth iddo bregethu o ba le yr oedd wedi eu cymeryd. Arferai fyned i'r Tŷ'n-ddol cyn y moddion yn wastad, a dyna lle y byddai yn brysur iawn cyn y *society* yn darllen Beibl Samuel Clark oedd yno, ac yn troi at y cyfeiriadau, yr hyn a wnaï yn ddiamheu i ymbaroti at y pulpud.

Prif arddull ei bregethau ar y cyntaf oedd eu bod yn hynod o athrawiaethol; yr oeddynt yn hollol anhebyg i'r hyn oeddynt yn mhen tipyn wedi hyny; gymaint oedd y gwahaniaeth fel mai o'r braidd y buasai neb yn meddwl mai yr un dyn ydoedd. Heblaw ei fod i ryw fesur yn cerdded "ar ffyn baglau," yr oedd arno ormod o ofn hefyd y pryd hwnw i fod yn rhydd, fel nad ymddangosodd yn "efe ei hun" ar y cyntaf. Ond fel yr oedd yn magu eofndra, ac yn enill tipyn o hunanymddiried, daeth bob yn ronyn wrth ymarfer, yn "efe ei hun," yr hyn a fu byth wedi hyny. Ar ol hyn y dechreuodd y ffraethebau a'r dywediadau digrif ac arabawl amlhau, y rhai a barent iddo wahaniaethu cymaint oddiwrth bawb eraill.

Byddai y bobl, a rhai pur gywir ydyw y bobl yn aml, yn arfer a dywedyd hefyd, ei fod nid yn unig yn defnyddio ymadroddion a phethau pobl eraill, ond ei fod yn arfer dull, ystumiau, a llais rhywun heblaw yr eiddo ei hun. Dywedid yr ymdebygai i'w dad yn y ffydd, Dafydd Cadwalad, ar y dechreu, yn ei ymadroddion ac yn ei ddull o draddodi. Hwyrach iddo wneyd hyny dros ryw dymhor; peth digon naturiol i ddyn ieuan dibrofiad ydyw ymdebygoli i'r neb y byddo ganddo feddyliau uchel am dano, er nad ydyw yn beth doeth. Ond pan y daeth yn dipyn mwy synwrol a phrofiadol

gadawodd hyny heibio yn llwyr yn y pulpud ; ond pa bryd bynag yr adroddai hanesyn am Dafydd Cadwalad, neu ryw ddywediad o'i eiddo, arferai hyd ddiwedd ei oes, ei efelychu cystal ag y medrai ; ni wyddom a oedd yn efelychiad lled berffaith ai peidio, gan na chlywsom y gwreiddiol erioed. Byddai yn hoff iawn hefyd o ddynwared eraill heblaw Dafydd Cadwalad.

Yr ydym yn cael lle i gredu oddiwrth y testunau y pregethai arnynt, yn gystal ag oddiwrth yr effeithiau, ac oddiwrth yr hyn a ddywed ei gyfoedion sydd yn cofio hyny, mai taranllyd ofnadwy a fu ei weinidogaeth am dymhor, "Gwae y rhai esmwyth arnynt yn Sion,"—"Oherwydd bod digofaint, gochel, &c.,"—"Yr hwn y mae ei wyntyll yn ei law, &c.,"—"Am hyny byddwch chwithau barod,"—"Y cynhauaf yw diwedd y byd," a llawer o rai cyffelyb oedd ei destunau. Fel y mae yn rhesymol i ni feddwl, os oedd efe yn pregethu o ddifrif ar y fath destunau, a'i holl galon a'i holl enaid yn y gwaith, fel y mae genym bob lle i gredu ei fod,—nad oedd ryfedd yn y byd fod pechaduriaid yn cael eu har-gyhoeddi trwy ei weinidogaeth. Ond yr oedd *Boanerges* ac *Evangelius* yn llefaru trwyddo yn eu tro ; cyfranogai i fesur mawr o ysbryd y ddau ar hyd ei oes.

Ond os oedd ganddo destunau taranllyd, yr oedd ganddo y pryd hwnw, neu pan oedd yn bur ieuanc, destunau gwahanol, o ran eu hymddangosiad o'r hyn lleiaf,—testunau a fuasent yn debycach o gynyrchu gwên ac ysgafnder, yn hytrach na ddifrifwch a sobriwydd, ond y mae yn ddiau fod yr athrawiaeth a bregethai oddiwrth y testunau hyny o duedd wahanol.

Yn mhllith y rhai hyn, yr oedd un testun na chlywsom am neb yn pregethu arno ond efe, sef Diar. xxx. 29—31, "Y mae tri pheth a rodiant yn hardd, i.e, pedwar peth a rodiant yn weddus ; llew cryf, yr hwn ni thry yn ol er neb ; milgi cryf yn ei feingefn, a bwch a brenin, yr hwn ni chyfyd neb yn ei erbyn." Ni wyddom

a oedd yr oll o'r adnodau hyn o dan ei sylw fel testun ai peidio; ychydig a glywsom o son am y llew, na'r bwch, na'r brenin, ond yn unig am y "milgi cryf yn ei feingefn." Cyfarfyddodd y bregeth hon â llawer o erledigaeth. Gwaharddodd rhywun mewn Cyfarfod Misol unwaith iddo bregethu pregeth "y milgi." Ond dywedodd Dafydd Cadwalad, yr hwn oedd wedi ei glywed yn ei phregethu, wrtho am beidio talu dim sylw i'r hyn a ddywedwyd. A'r Sabboth cyntaf ar ol y Cyfarfod Misol, dyna "y milgi" allan fel o'r blaen, a bu arddeliad anarferol ar yr addysgiadau oedd ganddo oddiwrth hyny.

Ond codwyd yr achos i lŷs uwch; gan nad oedd y Cyfarfod Misol yn gallu ei ddystewi cymerodd y Gymdeithasfa y pwnc mewn llaw. Un o'r pynciau yr ym-driniwyd yn eu cylch mewn cyfarfod neillduol yn Nghymdeithasfa Llanrwst, oedd na ddylai pregethwyr ieuainc ddim cymeryd testunau cyfriniol (*mystical*) a digrif, i bregethu arnynt. Siaradodd John Elias yn danllyd yn eu herbyn, a dywedai, "Cymerwch destunau priodol; y mae digon o destynau i'w cael ag athrawiaeth ynddynt, heb fyned at y fath destunau â hyn." Yr oedd yntau yn gwrando, ac yn teimlo mai at "y milgi cryf" yr oedd pob ergyd yn cyfeirio, ac mai efe yn benaf oedd dan yr ordd. Ond noson y Gymdeithasfa yr oedd ef a Richard Jones o'r Wern, i fod yn Mhenmachno. Dywedai ei brofiad yn hynod o ddigalon wrth Richard Jones, "Mi wn i o'r goreu," meddai, "mai fi oedd gan Elias mewn golwg pan yn siarad am y testunau yma; ni wn i yn y byd beth a wnaif fi." "Na *hidiwch* mono fo Dafydd bach," meddai ei gyfaill i'w galonogi, "ni fedr ef ddim pregethu ar destyn fel yna, a hyny a wŷr o; ond gyrwch chwi arni, a pharhewch i ollwng yr hen 'filgi' tra y pery efe i ddal ambell un i chwi." Yr oedd yn isel a digalon cyn hyn, ond cododd hynyma ei galon, a llonodd drwyddo.

Yr oedd unwaith yn cyd-letya yn un o drefydd mawrion Lloegr, gyda phregethwr arall. Yr oeddynt i bregethu un noswaith, pob un yn ei fan, a gwyddai y llall mai dyma y testun yr oedd efe am bregethu arno, ac edliwiai ei destun iddo yn ddibaid, gan ymbleseru yn ei *blagio* a'i *dormentio*. Aethant bob un i'w fan, ac ar ol pregethu dychwelasant eto i'r un llety. Dechreuodd y naill holi y llall am ei lwyddiant, "Pa fath oedfa a gawsoch chwi?" gofynai ef. "Yn wir oedfa galed iawn a gefais i," oedd yr ateb. "A arosodd yno ryw un yn y *Society*?" "Naddo, yn wir, neb;" atebai ei gyfaill yn ddigalon. Yna gofynai ei gyfaill iddo ef, "Pa fath oedfa a gawsoch chwi, Dafydd Rolant?" Atebai yntau, "Mi ollyngais i 'y milgi cryf' ar ei hol nhw, ac mi ddaliodd un-ar-bymtheg." Bu gorfod tewi a gwawdio y testun y noswaith hono wed'yn.

Ond os oedd tipyn o wawdiaeth gyfrinachol,—os oedd y Cyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa,—llysoedd uchaf y Corff, yn methu ei attal i bregethu ar y testun yma, fe gafwyd o'r diwedd yr hyn a lwyddodd, er mai nid gyda'r amcan a'r dyben hwnw; a gallwn dybied mai rhai llai eu dawn nac Elias, a llai eu hawdurdod nag aelodau Cyfarfod Misol a fuont yn offerynau i wneyd y gorchestwaith hwn. Ac fel hyn y dygwyddodd;—pregethodd hi unwaith mewn rhyw fan yn Sir Feirionydd, yr ydym yn meddwl mai yn Nhrawsfynydd, neu yn y daith hono; ac fel y byddai yn arferol, aeth yn orfoledd mawr—meibion a merched yn neidio ac yn gwaeddi. Yr oedd y gorfoleddwyr wrthi ar hyd y daith o'r naill gapel i'r llall, o'i flaen ac o'i ol, a diolch am y testun yr oedd llawer o honynt; ond yr oedd yno un yn uwch o'i ysgwyddau i fynu fel gwaeddwyr na neb o'r dorf yn digwydd bod yn lled agos ato, a gwaeddai yn groch nes yr oedd y creigiau yn adsain, "Diolch, diolch, am y milgi cryf yn ei *fein-ge-fan*," gan roddi pwyslais dwys ar y gair olaf bob sill o hono ar ei phen ei hun. Nes wrth ei

glywed ef ac eraill, y dechreuodd y pregethwr ag ystyr-ied, daeth i deimlo yn yswil ; a dywedai bod arno ormod cywilydd pregethu ar y testun yna byth wedi hyny.

Yr oedd yn bur hoff o son am y bregeth hon—y gwrthwynebiadau a gafodd, a'r llwyddiant a'i dilynodd ; ond nid oedd modd cael ganddo ddweyd dim o'r bregeth. Gwnaeth llawer yr ymgais, ond ni chlywsom am neb wedi llwyddo ond William Ellis, Maentwrog. Arweiniodd efe ef i son am dani, a holodd ef nes tynu y bregeth i gyd i'r golwg. Gofynnodd un gweinidog iddo unwaith, wrth iddo son am y bregeth, "Beth oedd y 'milgi cryf' genych chwi, Dafydd Rolant?" "O," atebai yntau, "yr oedd yn rhywbeth a allai *ddal*." Ac i brofi gwirionedd yr atebiad yna, clywsom i un blaenor yn Sir Fflint, wrth ei dderbyn i'r Cyfarfod Misol, pan yn cael ei holi pa beth oedd wedi troi ei feddwl at grefydd, pan y daeth ati gyntaf, roddi yr atebiad canlynol,—“Y milgi cryf y soniai Dafydd Rolant am dano, a'm daliodd i yn yr oedfa hono. Os cefais grefydd o gwbl, dyna y pryd y'i cefais.” Buom yn chwilio yn mhlith ei bregethau ysgrifedig am nodiadau o honi, ond methasom a chael un crip am dani. Buom yn holi hefyd y rhai a'i clywsant yn ei phregethu, pa beth oedd “y milgi cryf” ganddo, ond methasom a chael braidd neb yn dywedyd yr un peth. Dywedai un mai y ddeddf oedd : arall, mai yr Ysbryd Glân : arall, mai yr Arglwydd yn nghymhelliadau ei Ysbryd, fod y gwrandawyr yn dianc rhag y pregethwr, ond ei fod ef yn gallu dod o hyd iddynt : tra y dywed rhai fod yr oll yma yn dod i mewn ganddo, ac mai pregeth go annhrefnus ydoedd : ond clywsom un a'i clywodd yn dweyd mai Iesu Grist fel Gwardwr oedd “y milgi cryf” ganddo, ac y mae genym gymaint o ymddiried yn ei gof a'i farn ag yn yr eiddo nemawr un o'i gyfoedion ; a chadarnawyd hyn gan un arall a'i clywodd. Ond gadawn ni ar hyn ; gadawn i'r darllenydd bigo ei ddewis, neu chwilio am

un mwy priodol os gall na'r un o'r rhai'n, neu ynte cymered hwy oll. Bu ganddo bregeth a "myn'd" mawr gyda hi ar y gair "*Shiboleth*." Ond dyna y cwbl a glywsom ni am hon.

Ni bu yn enwog erioed fel dadleuwr; ond anfonwyd i ni hanes un ddadl y cymerodd ran ynndi. Cyn hir ar ol iddo ddechreu pregethu, pan yr oedd diwygiad pur gyffrous yn y Parc, daeth gweinidog gyda'r Bedyddwyr yno o'r Dê i bregethu; yr oedd wedi bod yno droion o'r blaen. Y tro hwn aeth yn ddadl frwd yn Tŷ'n-ddol, ar ol yr oedfa, ar "Fedydd." Yr oedd yno lawer yn cymeryd rhan ynndi ar y dechreu; ond cauwyd geneuau y lliaws yn fuan; ond daliodd Morris Williams, Rafel, a Deio, Cwmtlylo, ato wedi i bawb eraill dewi; a buont yn dadleu am oriau. O'r diwedd pwysent mor drwm ar ei wynt nes iddo fyned allan o'i dymer dda, a bu yn gas iawn wrth y pregethwr ieuanc; dywedai, "*Tydi*, bregethu—beth fedri *di*—rhyw hogyn gwirion fel *tydi*, bregethu, &c." Gwelwn iddo fyned yn mhell oddiwrth ei bwnc; ond daeth ato eilwaith, ac wedi darfod rhesymu, trôdd i brophwydo a dywedodd, "Mi fyddant yn eu bedyddio nhw yn *lotiau* yn y Llyn Tegid yna cyn hir—a ddowch chwi hefo ni, Betty?" "Naddof fi yn wir ddim hefo chwi." Atebai hithau, "Yr oeddwn i yn amheu," meddai Dafydd Rolant wrth adrodd yr hanes, "pan y clywais i fo mor frwnt, nad oedd o ddim yn dduwiol, er ei fod yn pregethu yn hyfryd iawn yn y capel ychydig cyn hyny." Ni bu yno wedi hyny.

Yn nechreu y flwyddyn 1819, bu ar daith gyda Mr. Elias can belled âg Aberystwyth, i'r Gymdeithasfa a gynnelid yno. Hon y mae yn debyg oedd ei daith gyntaf. Wrth ddychwelyd, daethant i'r Bala erbyn y Sabboth, y 14eg o Chwefror. Dechreuodd ef yr oedfa a phregethai Mr. Elias. Yr oedd Dafydd Rolant, fel y crybwyllwyd, yn hoff iawn o'r mesur a elwir "Mentra Gwen;" yr oedd "myn'd" garw ar y mesur y pryd

PENNOD IL.

Nid oedd chwaeth y Cymry at gerddoriaeth grefyddol mor uchel a phur yr amser hwnw âg ydyw yn awr. Ar y daith hon arferai *ledio* penillion ar yr hyd hwnw yn fynych; yr oedd Elias wedi hoffi rhai o'r penillion yn fawr; ac ar ol y bregeth yn y Bala y Sul uchod, gan feddwl ei fod yn medru un o honynt yn ddigon da, dechreuodd roddi allan y penill hwnw,

“Mae efengyl gras yn tywynu,
Mawr yw'r fraint, &c.”

Ond methodd a myned yn mlaen, a bu gorfod iddo droi at ei gyfaill oedd yn eistedd o'r tu ol iddo, i ofyn iddo ef ei orphen yn ei le, yr hyn a wnaeth. Ar ol hyn, aeth gydag Elias o'r Bala mor bell a'r Wyddgrug, i'r Gymdeithasfa. Dywedai mai yr hyn a bregethai Elias ar y daith yma, oedd sylwedd ei draethawd ar “Gyfiawnhad pechadur.”

Dywedir i ni mai un dyben yn ei anfoniad ef i'r daith hon, oedd “i Elias gael cyfle i gribo tipyn ar ei wallt o,” neu mewn iaith fwy eglur, gael iddo ddysgu ymddwyn yn dipyn mwy boneddigaidd, a dysgu tipyn o *fanners*. Yr oedd cryn angen am hyn. Ond dylem ddweyd mai arno ef ei hun yr oedd y bai am hyny; yr oedd ei ewythr a'i fodryb, gyda'r rhai y'i dygwyd i fynu, ynghyda'u meibion, yn gwybod pa fodd i ymddwyn yn eithaf da yn mha gwmni bynag y byddent; dywedir i ni eu bod, ac ystyried y rhan uchel o'r wlad y trigent ynddo, mor berffaith yn hyn â neb yn y wlad y pryd hwnw; ond methent er pob ymgais a chael gan Deio wneyd dim yr un fath a neb arall. Byddai yn ddiarebol o ddilun, i nodi un enghraifft, gyda'i gyllell a'i fforch; nid oedd modd cael ganddo ymaflyd ynddynt o dde. Tybiwn oddiwrth yr hyn a ddywedwyd i ni, y cydiai âg un law yn y fforch, fel y gwna y tyllwr cerrig yn ei ebill pan yn tyllu;—ymaflai yn dŷn ynddi a daliai hi bob amser yn syth ar ei phen; tra y byddai y

llaw arall mewn ffwddan gyda'r gyllell yn hacio y cig, yn debyg fel pe buasai yn llifio. Gallasid meddwl wrth edrych arno, mai gorchwyl caled iawn oedd gwneyd yr ymborth yn dameidiau cymhwys i'r genau. Gan mai fel hyn yr oedd pethau yn bod, nid rhyfedd iddynt ei roddi i ofal rhywun a allai ei ddysgu i ddod yn fwy boneddigaidd yn ei ddull a'i arferion. A pha gynllun gwell a allasid ei gael na Mr. Elias?—a diau i'r daith hon adael ei hol arno, oblegyd ni welsom ni ddim erioed a dynai ein sylw ynddo mewn dim fel hyn, er pan adwaenem ni ef. Dywedai ei hun, “Nid oeddwn i yn gwybod pa fodd i gymaint a sychu fy ngwyneb, cyn i mi fyned hefo Elias. Mi fyddwn i yn cymeryd y llian, yn ei wneyd o yn swbach, ac yn ei wlychu i gyd wrth ymsychu; ond byddai Mr. Elias yn cymeryd un gornel yn unig i'r llian, ac yn dweyd wrthyf finau, ‘Fel hyn y dylech chwi wneyd, mi wna y tro i eraill ar ein hol ni fel hyn, ond wedi i chwi wlychu y llian i gyd fel yna rhaid iddynt ei olchi, ac felly mi fyddwn yn rhoddi trafferth afreidiol i'r gwragedd caredig yma sydd yn cymeryd cymaint o drafferth gyda ni.’”

Dywedir i ni iddo efelychu Elias, nid yn unig yn ei ddull o ymsychu, ac o drin arfau bwyta, &c., ond hefyd iddo debygu iddo mewn rhai pethau wrth bregethu dros ryw dymhor. Y mae yn debyg mai pethau dibwys a efelychai ynddo, fel y gwna efelychwyr yn gyffredin—y llais, y pesychiad, rhyw ystum gorfforol, y dull o nodi y penau, neu rywbeth o'r fath. Nid ydym yn gwybod yn sicr pa bethau oeddynt, ond y ffaith ydyw, fod rhai wrth ei wrando yn pregethu ar ol hyn, am ryw dymhor, yn myn'd i feddwl yn naturiol am Elias, yr hyn ni wnaent cyn y daith hon. Ond nid hir y bu heb ddod i'w arddull ei hun yn berffaith wedi hyny. Y mae yn debyg mai cyn y daith hon yr oedd Elias wedi bod yn ei fflangellu am bregethu ar “y milgi cryf.”

PENNOD III.

YR YSGOL SABBOTHOL—YR YSGOL DDYDDIOL—MARI LEWIS—RHISIART OWEN—RICHARD JONES—MR. DAVIES, FRONHEULOG—MR. HUGHES, GWRECSAM—HANESION AM DANO YNO.

Nid ydym wedi son gair am dano hyd yma yn ei gysylltiad â'r Ysgol Sabbathol. Ymddengys ei fod yn aelod o honi o'r dechreuad. A dywed un ei fod yn athraw ynddi yn y Parc hyd nes yr aeth galwad mawr arno fel pregethwr, i fyned oddi cartref y Sabbathau. Ond sicrha eraill na bu yn athraw o gwbl; nid am nad oedd efe yn eithaf cymhwys i'r swydd, ond am nad oedd yr hen frodyr y pryd hwnw yn arferol o roddi rhai ieuainc iawn yn y swydd hono. Ond os nad oedd yn athraw, yr oedd yn y dosbarth blaenaf yn yr ysgol—y dosbarth Beiblau; yr oedd y Parch. Richard Jones, Bala, yn aelod o'r un dosbarth. Yr oedd yno rai o'r dosbarth blaenaf hwn nad allent ddarllen yn hollol gywir; ac achoswyd digrifwch mawr yno un tro trwy i un o'r aelodau ddarllen, yn lle "mel gwyllt"—"a'i fwyd oedd locustiaid a mul gwellt." Byddai yn arfer adrodd pennodau ar gyhoedd yn fynych iawn, ac yn gywir iawn. Pan yn dweyd pennod un tro, yr oedd ei fysedd yn lled aflonydd, yn ymhel yn ddibaid a *choat* rhyw fachgen a fu mor anffortunus âg eistedd o'i flaen; nes erbyn iddo ddibenu, rhwng fod ei ewinedd ef yn lled hirion feallai, a bod y defnydd yr ymhelai âg ef yn lled arw, yr oedd yno dwll wedi ei grafu yn *nghoat* yr hogyn. Dro arall, adroddodd ef ac un arall bennod o'r Hebraeid i Mr. Charles y tro diweddaf y bu yno, ychydig cyn ei farwolaeth, yr hwn a'u holodd oddiwrth y bennod. Yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Charles, cynaliai y Parch. Owen Jones, Gelli, gyfarfod holi yn y

Bala, ac adroddodd ef yn y cyfarfod y boreu yr ail benod o'r Actau heb fethu llythyren. Yr oedd Mr. Gabriel Davies wedi gwahodd ysgol y Parc i'w dŷ i giniawa, a dywedai, wrth ganmol y bachgen a adroddodd bennod mor dda, "Pe buasai Mr. Charles yn fyw, mi fuasai yn rhoddi ei law yn ei boced yn braf"—yr hyn a wnai yn wastad pan y câi ei foddloni. Dyma yr amser y gwybu pobl dda y Bala ddim byd am dano; ar ol hyn yr oedd-ynt a'u llygaid yn fwy arno, ac yn disgwyl rhywbeth oddiwrtho. Dywedir hefyd iddo ar ol dechreu pregethu gael ei osod yn un i ofalu am y Cyfarfod Ysgolion yn y dosbarth; ond ni wyddom pa bryd y bu hyny, na thros ba hyd yr arosodd yn ei swydd. Dywedir i ni na chafodd ddim blas ar y cyfarfodydd yma, am mai nid holi ond pregethu oedd ei hoff elfen. Dyna yr oll a fedrwn ni ei adrodd ar hyn eto; gyda dweyd, pan y ca'i gyfleusdra, yr hyn ni chaffai yn aml, mwy na'r rhan fwyaf o bregethwyr, deuai i'r ysgol, hyd ddiwedd ei oes; ond rhaid dweyd mai pur anfynych fyddai hyny.

Meddyliem mai gwell fyddai i ni yn bresennol, sylwi ychydig ar yr addysg foreuol a gafodd. Gan na wyddem hyd ar ol ysgrifenu hyd yma fod dim byd i'w ddweyd ar y pen hwn, ac nad oes genym ddim amseriad i'n cyfarwyddo yn nhrefniad dim o'r ffeithiau cysylltiedig â'i hanes boreuol,—hwyrach mai gwell fyddai i ni ddweyd cymaint âg a wyddom ar hyn gyda'i gilydd.

Byddem ni, a gwyddom fod eraill hefyd, yn meddwl yn wastad, mai "un o bregethwyr ffos y clawdd," fel y gelwir hwy, ydoedd; a chlywsom rai, pan yn dangos mor ddiangenrhaid i bregethwr at fod yn bregethwr da a defnyddiol, ydyw cael manteision addysg, yn cyfeirio ato ef, fel un o'r rhai di-ddysg ag oedd wedi gwneyd llawer mwy o ddaioni na lliaws oedd wedi cael blynyddoedd o addysg. Ond erbyn hyn, deallwn mai nid felly yr oedd; ond yn hytrach i'r gwrthwyneb yn hollol; oblegid cafodd lawer o fanteision addysg pan yn ieuanc.

Fel, os oes ambell un o'r dosbarth gelymol-i-addysg yma i'w cael eto—y maent wedi myned yn bur anaml, ac yn myned yn anamlach o hyd—rhaid iddynt chwilio am enw rhywun arall i'w ddefnyddio fel carn rhagllaw. Erbyn i ni chwilio i'w hanes, cawn iddo fod o dan bedwar o athrawon o'r hyn lleiaf. Bu yn mron i ni fyned heibio i dri o'r rhai'n heb feddwl am danynt, gan na roddwyd un awgrym i ni gan neb am un o honynt. Wrth edrych dros yr hyn a ysgrifennodd cyn iddo fyned dan ei athraw diweddaf, yn gystal ag un o'i ymarferiadau yn union wedi myned ato, tarawodd ni ei bod yr llawysgrif pur dda i un newydd fyned i'r ysgol y tro cyntaf ei hysgrifenu; aethom i holi pa bryd a pha fodd y dysgodd ysgrifenu, pryd y cawsom y ffeithiau caniynol.

Yr ysgol gyntaf y bu ynnddi oedd yr un a gadwai Mari Lewis. Yr oedd y wraig hon yn un o'r rhai yr oedd Mr. Charles yn eu cynnal yma a thraw ar hyd y wlad i gadw ysgolion dyddiol; byddent yn cael eu symud ganddo o'r naill ardal i'r llall yn ol fel y byddai yr angen, a gwnaethant les dirfawr. Bu Mari Lewis yn athrawes dda a ffyddlawn am lawer o flynyddoedd, ac mewn amryw ardaloedd; bu yn ardaloedd Cynllwyd, y Parc, Tal-y-bont, a Chefn-ddwysarn, lle y bu fyw ei blynyddoedd olaf; bu farw tua phum' mlynedd yn ol, a gwnaeth les mawr yn ei hoes. Bu mewn amryw fanau yn ardal y Parc, dechreuodd mewn tŷ gwag yn Pant-y-neuadd; bu wedi hyny yn y Beudŷ-newydd, ar dir Pant-y-neuadd; a bu yn y Cyffidŷ yn olaf man yn y cwm hwn. Yn yr ysgol hon, pan y cedwid hi yn Pant-y-neuadd, y dywed un o'i gyfoedion iddo weled Deio, Cwmtlylo, gyntaf, yn blentyn saith neu wyth mlwydd oed, bochgoch, diniwaid yr olwg arno, yn droednoeth-goesnoeth. Peidied neb a meddwl mai ysgol wael oedd hon, am mai gwraig oedd yr athrawes. Na, y mae genym bob lle i gasglu mai ysgolfeistres dda oedd Mari Lewis; a dysgai, nid Cymraeg yn unig, ond Saesneg, ac ysgrif-

enu hefyd, os nad oedd yn dysgu cymaint o rifyddiaeth ag oedd galwad am dano. Arferai a gweddio ar ddiwedd yr ysgol, er mai gwraig oedd, at yr hyn yr oedd y plant yn synu yn fawr. Ni wyddom dros ba hyd y bu yno; ond arferai, meddir, ei chynabod a'i chyfarch yn aml fel ei hen athrawes, ac ni ryfeddem nad oedd yn teimlo yn rhwymedig iddi byth am yr addysg a gafodd ganddi.

Wedi hyn, aeth i'r ysgol i Lanuwchllyn, at Rhisiart Owen, yr hon a gedwid mewn cysylltiad â'r Capel Annibynol yno, ac o dan arolygiaeth Dr. Lewis. Ni wyddom yn mha le yno y'i cynnelid, ond tybiem mai mewn tŷ annedd. Bu Dr. Lewis yn cadw yr ysgol yno am beth amser ei hun, wedi iddo ddod yn weinidog i'r Hen Gapel; ond yr oedd efengylu, bugeilio, ac addysgu yn ormod o waith iddo; a galwodd ar Rhisiart Owen o Ryd-y-main, i gymeryd gofal yr addysgu. Gallem dybied nad oedd efe yn gystal athraw, ag oedd Mari Lewis o athrawes, ac nad oedd ei ddylanwad ar y plant oedd dan ei ofal yn gymaint chwaith. Hen ŵr pur ddigrifol oedd, ond gwnaeth lawer o les; yr oedd ganddo rifedi mawr o blant dan ei ofal. Ac er mwyn dangos pa fath athraw oedd, rhoddwn hanesyn neu ddau am dano.

Aeth i gysgu yn ei gadair ar ganol yr ysgol un diwrnod; pan ddeallodd rhai o'r hogiau dirieidus hyny, daethant âg asyn i mewn, a rhwymasant ef wrth y bwrdd. Cyn hir dechreuodd yr asyn nadu, yr hyn a ddeffrodd yr athraw; a phan welodd pa beth a wnawd, bu yn hwyr myned i chwilio am yr euog i'w geryddu. Yr oedd o dymer pur wyllt, ac nid gorchwyl anhawdd oedd ei yru o'i dymer dda. Clywsom un a fu yn ei ysgol yn dweyd y "plygai ei dafod ac y gwasgai ef rhwng ei ddannedd o wylltineb." Ond byddai yntau yn arfer a gweddio ar ddiwedd yr ysgol; yr un weddi a arferai yn wastad, nes yr oedd rhai o'r plant yn ei medru, wrth ei mynych glywed, cystal ag yntau. Un tro pan yn gweddio, gwnaeth y plant ryw ddrwg oedd

yn galw am gerydd cyn myned ddim yn mhellach gyda'r weddi; ond wrth fflangellu, anghofiai pa le ar y weddi yr oedd wedi gadael heibio, fel ag i ail ddechreu yn yr iawn fan; bu raid iddo droi at y plant a gofyn "Yn mha le yr oeddwn i arni hi?" Pryd yr atebodd rhyw fachgen dirieidus ef, "Yn rhywle tua'r rhincian dan-nedd yna." Byddai ei wialen yn ei law, a'i lygaid yn agored yn wastad wrth weddio; nes yr oedd yn gallu gweled y drwg, ei gosbi, a gweddio ar yr un pryd.

Yr hyn a ddysgai efe yn benaf oedd ysgrifenu a Saesoneg, ond ymddengys mai rhyw Saesoneg pur Gymreigaidd oedd, ac yr oedd yno rai o'r "rhai blaenaf" yn dysgu rhifyddiaeth. Nis gwyddom pa faint oedd ei oedran pan y bu yn yr ysgol hon, na thymhor ei arosiad ynddi; ond nid oedd yn fwy na deuddeg neu dair-ar-ddeg oed. Byddai ganddo ddigon o gwinni o'r Parc. Yr oedd yno dri Siôn yn cyd-deithio âg ef adref bob prydawn; ar eu ffordd adref aent heibio i dŷ a pherllan eirin wrtho; ac yn amser eirin duon, âi y Siôniaid i'r coed i hel eirin, tra yr arosai Deio yn wyliedydd rhag y deuai yr hen wraig, eu perchenog, ar eu gwarthaf, yr hon a ofnent yn fawr, ac nid heb achos chwaith; a thebyg ydyw y câi y gwyliwr ran yn yr yspail, er nad âi i ben y coed i'w casglu.

Nid ydym yn sicr na bu gyda Dr. Lewis cyn hyn yn yr ysgol; pa fodd bynag am hyny, yr oedd yn barchus iawn o hono, a siaradai yn uchel am dano bob amser. Fel y crybwyllwyd eisoes yr oedd ei duedd braidd at yr Annibynwyr y pryd hwnw.

Wedi hyn bu yn yr ysgol yn y Parc am rai misoedd, gyda'r Parch. Richard Jones o'r Bala, yr hwn a fu yno am dair neu bedair blynedd cyn iddo symud i Draws-fynydd. Yr oedd heb ddod i'r *society* pan yr oedd gyda Richard Jones, ond ni wyddom pa faint oedd ei oedran y pryd hwn. Nis gallwn ddweyd pa fath un oedd fel dysgwr yn yr holl ysgolion hyn, ond yr oedd wedi

dysgu ysgrifenu yn bur dda, o ran yr ysgrifen, er y gallasai wella llawer yn ei sillebiaeth.

Galwyd am dano o'r ysgol wedi iddo ddod yn dipyn o faint, i ofalu am y gwartheg a'r defaid, ac amgylchiadau y tyddyn; ac ni chafodd ychwaneg o fanteision addysg ddyddiol hyd ar ol iddo ddechreu pregethu. Yn y flwyddyn 1819, yn fuan ar ol gorphen ei daith gyda Mr. Elias, bu am wythnosau, os nad misoedd yn y Fronheulog, gyda'r diweddar John Davies, Ysw., oddiar law yr hwn y derbyniodd garedigrwydd a chalondid mawr. Adnabu Mr. Davies ynddo un anghyffredin, a gwnaeth ei oreu i'w ddwyn yn mlaen. Yr oedd yn awyddus iawn am iddo gael ychwaneg o addysg. Y mae yn ddiamheu mai ei addysgiant ynghyda chael manteision llyfrau, oedd un o ddybenion mwyaf y boneddwr haelfrydig yn ei gymeryd ato fel hyn. Pan yr ydoedd efe yn y Fronheulog, aeth ei nain yn sal, caniatäodd Mr. Davies iddo fyned i edrych am dani, ond nid oedd i aros dim yno; cafodd fenthyg un o'i geffylau harddaf, ac yr oedd yn syndod mawr gan hen wragedd y Parc weled Deio, Cwmtlylo, yn myned trwodd un diwrnod ar gefn y fath farch ysblenydd. Mr. Davies a fu yn foddion i'w ýru i'r ysgol unwaith yn rhagor, sef at y diweddar Barch. John Hughes, i Wrecsam, yn yr hon y derbyniodd llawer o weinidogion y Methodistiaid eu haddysg; dyma oedd "*yr Athrofa*" y pryd hwnw. Rhoddodd Mr. Davies hefyd, yn ol ei haelioni arferol, yr arian iddo yr oedd yn angenrheidiol eu cael o'i flaen. Ni wyddom pa faint yn ychwaneg o gymhorth arianol a chefnogaeth a roddodd iddo. Yr oeddynt yn gyfeillion mawr ar hyd eu hoes.

Gallem dybied i'r oll o'r dygwyddiadau hyn gymeryd lle cyn y flwyddyn 1820. Nid oes genym ddim yn ei lawysgrif ef ei hun cyn hyn a dyddiad wrtho, y gallasom gael dim cymhorth oddiwrtho, gyda'r eithriadau o ddau ddarn o ddyddiaduron—un yn dechreu

yn Ionawr, ond heb y flwyddyn wrtho, ac yn diweddu yn Ebrill yr un flwyddyn; y mae hwn o'i wneuthuriad ei ef hun; ac un arall yn dechreu yn nghanol Ebrill, ac yn cyrhaedd hyd ddiwedd y flwyddyn; y mae y rhan gyntaf o wneuthuriad arall, ond gwnaed y rhan ddiweddaf ganddo ef ei hun. Ymddengys fod y rhai hyn yn sefyll am ranau o 1818 ac 1819. Y mae genym amryw o bregethau a ysgrifenodd cyn hyn, rhanau o gryn lawer o ba rai y mae naill ai lleithder wedi eu difa, neu y llygod wedi eu bwyta. Ond dyma ddechreu cyfnod newydd; o hyn allan, sef o ddechreu 1820, y mae ei ddyddiaduron genym. A gall y darlennydd dybied ynddo ei hunan y cawn ddyddiad sicr i bob digwyddiad pwysig a gymerodd le yn ei fywyd bellach. Ond byddai hyn yn gamgymeriad dybryd. Oblegyd yr unig beth a ddywed wrthym trwy y cyfrwng yma, ydyw yn mha leoedd y bu yn pregethu, ynghyda'r testunau ar ba rai y pregethai yn mhob man lle y bu. Yn hyn bu yn ffyddlawn ac yn fanwl iawn. Pe byddai hyny o ryw ddyddordeb i'r darlennydd, gallem nodi i ob lle y bu yn pregethu ynddo, a phob testun y pregethodd arno am dros ddeugain mlynedd o amser. Ond y mae yn debyg na theimlai ond ychydig yn ddiolchgar i ni am roddi yr hysbysiad hwnw. Gan mai dyma yr oll a gawn yno, nis gallwn roddi nemawr o'i hanes o'r ffynnonell hon, er ar yr un pryd y gallant fod o ddefnydd i ni.

Yn Chwefror 25, 1820, cawn ef, wedi iddo fod yn teithio trwy ochr orllewinol Sir Feirionydd,—wedi cyrhaedd Gwreccsam. Y mae yn debyg iddo gyrhaedd yno y diwrnod hwnw, sef dydd Gwener, a phregethu ar Job xxxv. 10. A chan mai yn nhueddau Gwreccsam,—Caergwrle, yr Adwy, Rhos, Wyddgrug, &c., y cawn ef (ar y Sabbothau yn benaf) o Chwefror 25ain hyd y Sul, Mehefin 4ydd, a'i fod ar ol hyny yn Sir Feirionydd, gallem gasglu iddo bregethu y tro hwnw yn Ngwreccsam ar ei ddyfodiad cyntaf yno i'r "*College*," fel y galwai ef,

at Mr. Hughes,—ac mai am tua phedair wythnos ar ddeg y parhäodd y tymhor (*term*) hwnw. Y mae yn preg-ethu yn mron bob dydd o Mehefin 4ydd hyd Gorphenaf 20fed; pryd y cawn ef yn Llangollen, a'r Sul canlynol yn Liverpool,—y tro cyntaf, dybygem, iddo fod “ yn un o'r trefydd mawrion yna, lle y cafodd y diafol graff arno gyntaf.” Ac o'r pryd hwn hyd ddiwedd y flwyddyn 1820, cawn ef yn benaf tua Sir Fflint, a therfynau Lloegr, er ei fod yn rhoddi ambell i naid i Sir Feirionydd ar y Sabboth yn awr ac yn y man. Dyma i ni dymhor o tua thair-wythnos-ar-hugain. Yn ol y cyfrif yma, gwelwn iddo gael y flwyddyn hon, ychydig dros dri chwarter blwyddyn o ysgol—neu yn hytrach o addysg athrofaol. A diamheu mai dyna yr holl amser y bu gyda Mr. Hughes yn Ngwrecsam. Ond nid ydyw yn dweyd wrthym yn eglur ei hunan yn ei ddyddiadur am 1820, iddo fod am ddiwrnod mewn un ysgol o gwbl.

Adroddir i ni amryw o hanesion pur ddigrifol am dano pan yn Ngwrecsam; ac un o'i bethau hoffaf ei hun oedd adrodd ei ddywediadau a'i gyflawniadau trws-tan yr adeg hono. Yr oedd y Parch. Daniel Evans o'r Penrhyn, yno ar yr un pryd âg ef; a chawsom ganddo ef gryn dipyn o hanes Dafydd Rolant yr adeg hono, ynghydag amryw o'i ddywediadau. Nis gallwn wneyd yn well na rhoddi yr hanesion yn ngeiriau Mr. Evans ei hun:—“ Yn hyny o gydnabyddiaeth â gefais i gydag ef, dangosai ei hun yn gyfaill didwyll. Yr oedd ganddo allu i ddysgu, ond ychydig o ddefnydd a wnaeth o hono pan yn Ngwrecsam; a hyny o herwydd fod ei feddwl wedi ei lyncu gan fyfyrddod ar bregethu a gwneyd pregethau. Yr oedd Mr. Hughes yn athraw pur dyner, ond un tro cafodd achlysur i ddangos ei anghymeradwyaeth o'r dull oedd gan Dafydd Rolant i brysuro trwy ddyledswyddau yr ysgol i fyned at ei hoff waith ei hun. Byddai ein hathraw yn rhoddi rhyw awr a haner o amser i ni ysgrifenu oddeutu unwaith yn yr wythnos. Ond

fe wnai Dafydd Rolant y gwaith a roddid o'i flaen mewn deng munyd o amser, ac yna âi at ei bregeth, yr hon a guddiai mewn lle yn y *desk* o olwg Mr. Hughes. Ond ar un achlysur fe ddangosodd yr Athraw ei amheuaeth o'i ymgais gwirioneddol i gymeryd y drafferth angenrheidiol i ddysgu ysgrifenu, ac fe ddaeth ato a'i gansen yn ei law, i edrych dros ei waith, ac a ddywedodd— '*This will never do, David Rowland.*' ('Ni wna hyn byth byth mo'r tro.') 'Pa'm Syr?' meddai yntau. 'Pa beth ydyw y llythyren hon?' gofynai yr athraw, 'y mae yn debyg eich bod yn golygu iddi fod yn A?' 'Wel, Syr,' meddai ynату, 'gan eich bod yn gwybod beth ydyw, nid oes genyf fi eisiau dim ychwaneg na hyny; oblegyd byddaf fi yn amcanu gwneyd pob llythyren fel y gall pobl ei hadnabod hi.'

"Yr wyf yn cofio un tro i Mr. Elias ddyfod i Wrecsam i bregethu, yn fuan wedi i Dafydd Rolant ddyfod yno i'r ysgol. Fe'n gwahoddwyd ni ein dau i dŷ Mrs. Jones i'w gyfarfod. Yr oedd efe yn fwy cydnabyddus â Mr. Elias nag oeddwn i, ac yr oedd wedi bod yn pregethu gydag ef. Gofynai Mr. Elias i ni a oeddym ni yn dechreu dysgu y *Grammar*; atebai Dafydd Rolant iddo, 'Ydwyf Syr.' 'Sut yr ydych yn dyfod yn mlaen gyda hwnw?' gofynai Mr. Elias. 'Anialwch garw i mi ydyw hwnw, Syr,' atebai yntau. 'Y mae yn angenrheidiol ei wybod,' meddai Mr. Elias, gan ein hannog i fod yn bur llafurus. Ond yr oedd efe yn llawn awydd i bregethu, a dywedodd, 'Pa ddyben i mi fod yma, Syr, yn hogi fy mhladur a'r cynhauaf yn barod ar y maes yn y wlad acw?'

"Byddem yn arfer myned gyda'n gilydd i le a elwid *Crabtree Green*, oddeutu tair milldir o Wrecsam, i gadw *Society*. Yr oedd yno gapel bychan; ond nid oedd llawer yn arfer ym, null yno, ac yr oedd y rhai hyny yn gymysg o Gymry a Saeson. Yr oedd rhai yn dweyd eu profiadau yn Gymraeg, a'r lleill yn Saesoneg; ac yr oedd

yno Saesoneg rhyfedd rhyngom ein dau; ond Dafydd Rolant oedd y dyn yno. Nid oes genyf fawr o'i ddywediadau yn y lle hwnw, ond yr oedd yn hynod o dderbyniol yno; ac yr oedd am gael pawb at Iesu Grist yn Gymraeg a Saesoneg.

“Tra buom yn Ngwreccsam, bu y cyfeillion yno yn bur garedig tuag atom; a byddai cryn lawer o ddifyrwch i'w gael gyda Dafydd Rolant pan wahoddid ni i'w tai i ymweled â hwy. Yr wyf yn cofio ein bod gyda'n gilydd un tro yn nhŷ Mrs. Jones, ac yr oedd hi yn eistedd wrth un pen i'r bwrdd, ac yntau wrth y pen arall. Dywedai Mrs. Jones, ‘A wnewch chwi dori pen y ganwyll yna David Rowland?’ ‘Na gwell gen i beidio yn wir,’ oedd yr ateb, ‘ni fyddaf fi un amser yn gwneyd hyny, ac yr ydwyf yn edrych arno yn waith pur gywrain i'w wneyd, oblegyd rhaid i chwi fyned rhwng y byw a'r marw i'w wneyd yn iawn.’

“Un tro, fe'n gwahoddwyd i dŷ rhyw wŷr mawr o Sais yn y dref. Yr oedd wedi clywed fod yno ryw lanciau o Gyfundeb Mr. Charles o'r Bala, a chan ei fod yn adnabod Mr. Charles, fe'n gwahoddodd ni ato i giniawa. Yr oedd y gŵr wedi gofyn bendith ar y bwyd ei hunan, a gofynodd i Dafydd Rolant ddiolch, ‘Ni fedraf fi ddim diolch yn Saesoneg, Syr,’ meddai yntau, ‘oblegyd nid ydwyf wedi dysgu, yn Gymraeg y byddaf fi yn diolch yn wastad Syr.’ Chwarddodd y gŵr boneddig yn galonog, ac a barodd iddo frysio dysgu diolch yn Saesoneg.” Dywed un arall wrthym iddo ofyn bendith unwaith yn Saesoneg—wedi iddo ddysgu mae'n debyg.—Digwyddai mai darn o gig eidion oedd ar y bwrdd y pryd hwnw, a dyma fel y gofynodd fendith—*‘O Lord, bless this lump of beef, for Jesus Christ. Amen.’*

“Y tro cyntaf y ceisiwyd ganddo fyned i Liverpool i bregethu, yr oedd yn anewyllysgar iawn i fyned, ac a ddywedodd nad ai efe ddim heb i mi fyned gydag ef. Felly cynghorodd Mr. Hughes fi i fyned gydag ef.

Cerddasom i Gaer, gan ddisgwyl cael ein cludo oddiyno i Birkenhead gyda'r cerbyd; ond erbyn i ni gyrhaedd yno yr oedd y cerbyd wedi myned. Aethom i dŷ Mr. Lloyd, yn Nghaer, a llogwyd *car* i'n cludo i Birkenhead; ond digwyddodd fod y gyrwr o dan effeithiau y diodydd meddwol yn lled drwm; a chyn i ni fyned dair milldir o ffordd, cysgodd y dyn ac nis gallem ei ddeffroi. Yna troisom yn ein hol, gan adael y *car* a'r gyrwr yno eu hunain. Ond cawsom gerydd tost gan Mr. Lloyd am droi yn ol; dywedai fod yn sŷn ganddo ein bod mor wan galon, ac na wyddem ni fawr i gyd am dywydd garw, gan ychwanegu, 'fe gyfarfyddodd yr Israeliaid â llawer iawn o rwystrau i fyned i Ganaan.' 'Do, Syr,' meddai Dafydd Rolant, 'ond yr oedd y golofn yn eu harwain hwy, a gwas y cythraul yn ein harwain ninnau.' Yr oedd Dafydd Rolant wedi meddwl dychwelyd i Wrecsam boreu Sabboth heb wybod i neb, ond aeth dichell Mr. Lloyd y tuhwnt iddo; oblegyd paratöodd rywfoddion i'n cludo boreu Sabboth mewn pryd i ni allu myned i ben ein taith erbyn yr adeg briodol. Yn y cwch wrth groesi yr afon, yr oedd yn teimlo yn bur ofnus, ac a ddywedodd yn lled ddifrifol, 'Wel, Daniel, dyma ni uwchben tragywyddoldeb, gweddia!' Fel hyn cyrhaeddasom Liverpool yn ddyogel, ond trwy lawer o rwystrau. Nid oeddym yn pregethu gyda'n gilydd y Sabboth, ond yr oeddym yn lletya yn nhŷ y Parch. Daniel Jones. Yr oedd Mr. Jones gyda Dafydd Rolant trwy y Sabboth, yn gwrandaw arno; ac yn y tŷ, nos Sabboth, wedi cryn ymddyddan cysurus ac adeiladol, gofynai Mr. Jones iddo, 'A ydyw Daniel Evans yma yn o *ffeind* wrthy chwi, Dafydd bach?' 'A dweyd y gwir,' meddai yntau, 'nid ydyw fo ddim yn *ffeind* wrthyf fi, a phe bawn yn cael cyfleusdra, ni phregethwn i byth yn ei glyw fo; y mae yn beio ar ryw ddywed-iadau yn mhob pregeth sydd genyf fi.' 'Wel, Dafydd,' meddai Mr. Jones, 'na hidiwch mo hono fo mwy na

gwybedyn ar darw.' Yr oedd ymherawdwr China y dyddiau hyny wedi rhoddi rhybudd, y torai efe bob yn fodfedd bob un a ddarllenai y Beibl yn ei deyrnas ef; ac yr oedd Dafydd Rolant wedi bod yn dweyd y Sabboth hwnw yn nghlyw Daniel Jones nad oedd holl falais a bygythion Ymherawdwr China ddim mwy wrth nerth yr efengyl na phe buasai wybedyn ar darw."

Hyd yma y cyrhaedd yr hanes a rydd y Parch. D. Evans am dano y pryd hwn. Cyflewn y dywediadau mewn man arall. Clywsom amryw hanesion eraill pur ddigrifol am dano yr adeg hon. Yn fuan wedi ei fynediad i Wrecsam, dywedai Mr. Hughes wrtho, "Rhaid i chwi arfer eich dawn yn Saesoneg; mi gewch weddio yn Saesoneg ar ddiwedd yr ysgol y pryd a'r pryd, gwnewch chwithau feddwl am hyny a pharotol." Nid oedd yn ddigon o Sais i wneyd hyn heb ryw gymhorth dynol; cafodd o hyd i weddi y tybiai a wnai y tro, dysgodd hi allan, ac arferodd hi yn ddirgel yn gyntaf. Ryw fodd neu gilydd, digwyddodd i ryw un fod yn ddigon agos iddo i'w glywed yn myned trosti yn ddirgel; ac wedi iddo orphen y weddi, ychwanegai yn Gymraeg, "Dyna hi i ti, Arglwydd, yr wyt ti yn ei deall hi, nid ydwyf fi yn deall dim o honi."

Nodwn un engraifft neu ddwy i ddangos fel y gallai fyned i ysbryd plentyn, yn amgylchiadau plentyn, er ei fod tua phump-ar-hugain oed. Yr oedd unwaith wedi dweyd neu wneyd ei wers mor dda, fel y derbyniodd ganmoliaeth fwy na'r cyffredin gan ei athraw, yr hwn a ddywedai, "*Very good indeed David.*" Yr oedd yntau yn rhyw ymdeimlo ei fod yn haeddu ei ganmawl a dywedai, "*Yes, give glory to me, Master.*" Bryd arall cyfarfyddodd a rhyw anhawsder, a gofynodd i un o'i gyd-efrydwyr ei gynorthwyo; ond yr oedd gan hwnw anhawsderau o'i eiddo ei hun, a gwrthodai rodidi y cymhorth gofynol. Parhai yntau i erfyn help, nes o'r diwedd y pallodd amynedd ei gyfaill, yr hwn a drodd,

ac a roddodd iddo “*snout* ;” ar hyn aeth yntau fel plentyn wedi derbyn rhyw gam mawr, i brepian i’w feistr, “*Master, Master, so and so did snout me!*” Gwelai angen i’r athraw ddefnyddio y gansen yma neu byth.

Nid oedd yn hoff ar un cyfrif o’r Saesoneg fel iaith i bregethu, mwy nac i ofyn bendith a gweddio ynddi. Ond bu yn pregethu ynddi amryw weithiau. Buasai yn ddymunol iawn ei glywed, i weled pa fodd yr ystumiai y Saesoneg at ei ddull ei hun o draddodi. Yr oedd yn pregethu unwaith i gynulleidfa gyfansoddedig o Gymry yn benaf, ond yr oedd ar y Saeson ysfa fawr am ei glywed, wrth y son oedd ar led ei fod yn un mor hynod. Daeth amryw o’r rhai’n i wrandaw arno un tro, ac anfonasant gais ato i ofyn a wnai efe bregethu iddynt yn Saesoneg. Addawai yn ebrwydd y gwnai, ond ar yr ammod iddynt “droi y Cymry allan bob copa.” Y mae y Cymro yn fwy tueddol i wawdio un o’i gyd-wladwyr pan y gwna ryw gamgymeriad gyda’i Saesoneg, nag ydyw y Sais, er bod yn well ganddo yntau glywed pob *-fied English*, na’r *Welshified*. Tra y gwrandawent yn eithaf dirwgnach ar y lediaith Ysgotaidd, y Wyddelig, a’r dramoraidd, nid ydynt yn malio dim am y Gymreig. Tybiem fod hyn yn ffaith, i ba beth bynag y’i priodolir ; hwyrach mai i genfigen at y Cymro, neu ynte i anwybodaeth am dano.—Ond gwelwn fod yn well ganddo ef ymddiried ei hun i’r Saeson fel yr oedd-ynt, nag i’r Cymry gyda’i Saesoneg.

Aeth i bregethu Saesoneg unwaith, ac aeth cyfaill heb fod yn bregethwr gydag ef, yr hwn oedd yn well Sais o lawer nag ef. Gofynai i hwnw wneyd amnaid arno pan y clywai efe ef yn myned dros y terfynau ; addawodd yntau wneyd. Yr oedd y bobl yn gwrandaw arno “a’u cegau,” gan ryfeddu o ba le y daeth un mor anghyffredin. Yr oedd yn orchwyl lled galed i’w gyfaill ymattal rhag chwerthin ar lawer adeg ; ond llwyddodd, wrth wneyd ymdrech, am dymhor i fod yn lled sobr,

oddiallan o'r hyn lleiaf; ond o'r diwedd daeth rhywbeth allan, nes y bu raid iddo chwerthin, a chwerthin allan yn iawn. Pan welodd yntau hyny, meddyliodd ei bod yn llawn bryd iddo droi pen arni, yr hyn a wnaeth yn bur swtta, nid yn Saesoneg, fel y gweddill o'i bregeth, —na, nid ymddiriedai i hono yn hwy—ond yn Gy-mraeg, yn ei ddull cyffredin, a dibenodd. Y mae yn wir ddrwg genym na allem foddio chwilfrydedd y darllenydd, trwy ei hysbysu pa beth a ddywedodd, am y goreu o resymau, ni hysbyswyd i ni ein hunain.

Byddai ei athraw yn dweyd wrtho yn aml am beidio rhoddi ei gyhoeddiadau mor bell; ond meddyliai ef fwy am bregethu nac am ei wersi, fel y gwnaeth llawer un o'i flaen ac ar ei ol. Un tro yr oedd wedi myned i'r Lodge, neu rywle yn y cyfeiriad hwnw; daeth adref ddydd Llun yn chwys ac yn lluddedig. "Wel, David," meddai ei athraw wrtho, "ni ddylasech chwi ddim myned mor bell i faeddu; mor anghymhwys i fyfyrion yr ydych yn gwneyd eich hun trwy fyned i boeni fel hyn." Ymesgusodai yntau trwy ddweyd, "*I carried a mâre on my back every inch to the iron bridge;*" gan roddi ar ddeall i'w athraw ei fod ef wedi cludo caseg, pryd y meddyliai yn ddiau mai y gaseg oedd wedi ei gludo ef; ond methodd a throsglwyddo ei feddwl yn rhyw eglur iawn am mai yn Saesoneg y siaradai; er fod yr hyn a ddywedodd yn well rheswm, na'r peth a feddyliai, i roddi cyfrif am y chwys mawr oedd arno. Yr oedd yn gallu deall yn o lew pan y clywai un yn ei siarad, neu pan yn darllen llyfr ynddi; ond pan yr âi i geisio cyfansoddi ei hun, yr oedd yn myned yn fethiant buan. Gofynai un iddo, "Sut yr ydych chwi yn dod yn mlaen gyda'r pregethu Saesoneg yma yrwan?" "O," atebai yntau, "y mae genyf fi faint fyd ar fynwyf o'r geiriau mawr yna, ond fy mod yn methu yn fy myw a chael geiriau bach i'w cydio nhw wrth eu gilydd." Cafodd allan yma yr anhawsder a deimlodd llawer un, mai nid

ac a roddodd iddo “*snout* ;” ar hyn aeth yntau fel plentyn wedi derbyn rhyw gam mawr, i brepian i’w feistr, “*Master, Master, so and so did snout me!*” Gwelai angen i’r athraw ddefnyddio y gansen yma neu byth.

Nid oedd yn hoff ar un cyfrif o’r Saesoneg fel iaith i bregethu, mwy nac i ofyn bendith a gweddio ynddi. Ond bu yn pregethu ynddi amryw weithiau. Buasai yn ddymunol iawn ei glywed, i weled pa fodd yr ystumiai y Saesoneg at ei ddull ei hun o draddodi. Yr oedd yn pregethu unwaith i gynulleidfa gyfansoddedig o Gymry yn benaf, ond yr oedd ar y Saeson ysfa fawr am ei glywed, wrth y son oedd ar led ei fod yn un mor hynod. Daeth amryw o’r rhai’n i wrandaw arno un tro, ac anfonasant gais ato i ofyn a wnai efe bregethu iddynt yn Saesoneg. Addawai yn ebrwydd y gwnei, ond ar yr ammod iddynt “droi y Cymry allan bob copa.” Y mae y Cymro yn fwy tueddol i wawdio un o’i gyd-wladwyr pan y gwna ryw gamgymeriad gyda’i Saesoneg, nag ydyw y Sais, er bod yn well ganddo yntau glywed pob *-fied English*, na’r *Welshified*. Tra y gwrandawent yn eithaf dirwgnach ar y lediaith Ysgotaidd, y Wyddelig, a’r dramoraidd, nid ydynt yn malio dim am y Gymreig. Tybiem fod hyn yn ffaith, i ba beth bynag y’i priodolir ; hwyrach mai i genfigen at y Cymro, neu ynte i anwybodaeth am dano.—Ond gwelwn fod yn well ganddo ef ymddiried ei hun i’r Saeson fel yr oedd-ynt, nag i’r Cymry gyda’i Saesoneg.

Aeth i bregethu Saesoneg unwaith, ac aeth cyfaill heb fod yn bregethwr gydag ef, yr hwn oedd yn well Sais o lawer nag ef. Gofynai i hwnw wneyd amnaid arno pan y clywai efe ef yn myned dros y terfynau ; addawodd yntau wneyd. Yr oedd y bobl yn gwrandaw arno “a’u cegau,” gan ryfedd un mor anghyffredin. Yr oedd cyfaill ymattal rhag chafodd, wrth wneyd

oddiallan i'r holl dda. Ca
 allan nes y mae hys. ~~...~~
 yn iawn. Pa'r seton: 1882
 yn llawn i'r vi ada ...
 bur swta. Ind y ...
 —na, ind ...
 mraeg. y l ...
 wir ddrwy ...
 llenydd. ...
 goren i ...

Epistola a aliter y ...
 rhoddi a ...
 fwy an ...
 un o'i hys. ...
 i'r Lodge. ...
 ddydd Iau. ...
 meddai a ...
 myned nar ...
 yr ydyd y ...
 hyn." Yn ...
 mare on ...
 ar ddeall i'r ...
 meddyllia ...
 ond method ...
 iawn an ...
 ddywedodd ...
 roddi cyf ...
 gallu deall ...
 pan yu ...
 anoddai a ...
 Gofynnai ...
 gyda'r ...
 ystan.



cael cyflawnder o eiriau ond cael gafael feistrolgar ar briod-ddull (*idiom*) yr iaith hono, a gwybod pa fodd i gyfleu y geiriau, a'i "cydio wrth eu gilydd" yn briodol, ydyw yr anhawsder mawr. Ac er hyn oll byddai Mr. Hughes er pob ymdrech, yn methu yn deg a chael ganddo ddysgu Grammadeg; a'i reswm dros ei esgeulusdra oedd, "Nid oes dim iachawdwriaeth mewn *Grammar*."

Pan yn Ngwrecsam aeth i Groesoswallt am y waith gyntaf; yr oedd yn lle dyeithr iddo. Ond rhoddodd Mr. Hughes gyfarwyddyd iddo. Erbyn iddo gyrhaedd yno, yr oedd wedi anghofio y cyfarwyddyd, ond yn unig mai "Susan" oedd enw y wraig. A dyna lle yr oedd yn gofyn i un am "*Capel Welsh*," cael rheg gan hwnw; i un arall, "*Where is tŷ Susan?*" o'r diwedd tarawodd wrth Gymro, yr hwn a'i harweiniodd yn ddyogel i "dŷ Susan." Dro arall wrth bregethu o flaen Mr. Hughes mewn rhyw le cyfeiriodd ato fel "Fy mrawd heddyw, ond fy Meistr ddoe."

Byddai ei ysbryd yn lled uchel weithiau ar ol iddo fod dipyn yn Ngwrecsam. Gofynai un gŵr yn nghŵr Sir Drefaldwyn, iddo ef a chyfaill iddo oedd gydag ef un tro, "Pa fodd yr ydych yn dyfod yn mlaen?—yr ydych yn ysgolheigion mawr erbyn hyn?" "O ydym," meddai yntau, "y mae hwn a minnau yn rhai o'r bobl fwyaf yn y wlad hono." Dro arall, yr oedd blaenor yn ceisio ganddo ef a'i gyfaill fyned i'w ardal ef i bregethu; gofynodd yntau iddo—"A fuasech chwi ddim yn *leicio* iddo fo neu i mi bregethu Saesoneg i chwi?" "Na fuaswn," oedd yr ateb. "Paham," gofynai yntau eilwaith yn bur ddynol, "onid oes acw lawer o Saeson yn y parth acw?" "Oes," meddai'r blaenor, "ond nid ydynt yn dyfod i'n capel ni." "O, felly," oedd yr ateb diofal, "onide mi fuasem ni yn gwneyd yn union." Gallesid tybied mai eu hoff beth oedd pregethu Saesoneg; ond nid oedd y cwbl ond direidi.

Clywsom iddo wneyd defnydd o'i arosiad yn y "*College*" rai gweithiau, i osod ei arswyd ar y bobl. Digwyddodd fod unwaith mewn man lle yr oedd tipyn o ymrafael; aeth yntau i geisio gwneyd heddwch; ond deallai fod rhai o honynt yn meddwl mai rhyw un diddysg oedd, ac i'r dyben o gyrhaedd yr amcan da, gosododd dipyn o fawredd arno ei hun a dywedodd—"Pobl gynhenus ydych chwi erioed, dyma fel yr oeddych er ystalm, pan yr oeddwn i yn y *College*, ac nid ydych yn gwella dim eto;" atebodd hyn y dyben yn dda, meddylent ei fod yn rhywun uwchlaw iddynt, gan iddo fod yn y *College*.

Pan yn Ngwrecsam, ei hoff bwnc oedd son am y pryd y dechreuodd bregethu, y manau yr âi iddynt, &c. Soniai lawer am Cwmtlylo, y Trawsgoed, a Buarth-yr-e, &c.;—am yr odfeun llewyrchus, y gorfoleddu, a'r moliannu oedd yn dilyn, &c.; a soniai gymaint am Buarth-yr-e fel y gwnaeth un o honynt—clywsom mai yr athraw ei hun oedd—benillion ar yr achos, ar yr hyd "*Mentra Gwen*" yr hwn yr oedd mor hoff o hono. Yn y penillion sonid am lawer o bethau a'r byrdwn oedd

Buarth-yr-e, Buarth-yr-e;

ni chlywsom ddim ond y byrdwn.

Soniai lawer hefyd am yr hen flaenoriaid yr oedd mor hoff o honynt, tua Llanuwchllyn a'r Parc, y rhai nid oedd Mr. Hughes yn eu hadnabod; yn eu plith soniai am Thomas Ffowc ac Edward, Fadog. Meddylodd Mr. Hughes mai cyfenw Edward oedd Fadog; fel pan ddaeth i Lanuwchllyn ar ol hyn, wedi iddo ddeall pwy ydoedd hwn, gofynai iddo yn serchog, gan estyn ei law iddo "*Sut yr ydych chwi Edward Fadog?*" ond pan y dealodd mai enw ei breswylfod oedd Madog yr oedd wedi rhyfeddu, ac yn ddrwg ganddo, er iddynt ei fwynhau eu dau. Parhæodd Mr. Hughes ac

yntau i fod yn hynod o hoff o'u gilydd tra buont byw. Aeth Dafydd Rolant i Liverpool yr amser yr oedd y *testimonial* yn cael ei gyflwyno iddo. Bu Mr. Hughes yn aros yn ei dŷ yntau un noswaith ar ol pregethu yn Llidiardau y waith ddiweddfaf y bu yn nghymydogoeth y Bala.

Ymddengys y byddai rhai o fechgyn y Gogledd, wedi bod yn Ngwreccsam, yn cael gafael ar dipyn o dafodiaith y Dê, a dywedent "*du enw*" yn lle "*dy enw*" wrth weddio. Blinid un hen frawd yn fawr gan y cyfryw; a'r cyngor a roddai efe i Dafydd Rolant ac un arall ar eu dychweliad oddiyno oedd, "Er mwyn yr anwyl, fy mechgyn i, peidiwch a gweddio ar y Duw *du* hwnw y mae rhai o honoch chwi yn gweddio arno y dyddiau yma."

Wel dyna ni wedi rhoddi ei hanes yn myned trwy ei addysgiant i gyd, o'r hyn lleiaf gymaint o hono ag y gwyddom ni am dano; ac er na chafodd ei raddio yn union ar ol terfynu ei yrfa athrofaol,—pan ymddangosodd adroddiad o gyfarfod pregethu a gynnaliwyd mewn rhyw fan, yn y papur newydd, yn mysg gweinidogion o wahanol enwadau, yr oedd "David Rowland, Llidiardau (T. C.);" ac wrth ei ddarllen yr oedd un hen chwaer yn mron a neidio gan lawenydd, a dywedodd, "Wel, y mae yn dda gien i, dyma Dafydd Rolant wedi cael teitl o'r diwedd, yn wir yr oedd o yn ei haeddu fo cystal a'r un o honyn nhw, y mae o yn T. C. yrwan."

Ond yn awr y mae ei fywyd athrofaol ar ben; yr oedd arno ormod o frys i fyned i weithio, i aros yn hwy i hogi ei arfau. Gwnaeth y tri chwarter yma o ysgol a gafodd, ei ôl yn fawr arno. Y mae ei lawysgrif o hyn allan yn fwy ystwythaidd am dymhor, a'i sillebiaeth o'r Gymraeg yn gywirach. Ond nid ydyw wedi ysgrifenu ei bregethau mor llawn ar ol hyn ag y gwna i o'r blaen. Canfyddasom gynllun o ddwy bregeth Saesoneg yn mhlith ei ysgrifeniadau, ond ni wyddom ai ei

eiddo ef ydynt ai peidio ; nid ydynt ond byrion fel y rhai Cymraeg a ysgrifennodd tua'r un adeg.

Cyn diwedd y flwyddyn 1820, yr ydym yn cael ambell i air Saesoneg yn llithro i mewn i'w ddyddiadur. Y mae yn rhoddi y llyfr, y bennod, a'r adnod ; ond pan y pregethai ar yr un testun ddwywaith yn agos at eu gilydd, yn lle rhoddi y cyfeiriad yn llawn rhoddai "same" neu "sme," ac wedi hyny tra bu fyw, "S M" mewn llythyrenau mawr. Ond yr oedd yn rhaid cael rhyw gynllun gwell na rhoddi y llyfr, y bennod, a'r adnod yn y dyddiadur. Daeth o hyd i gynllun, ar ol hir ddyfeisio yn ddiau, ag oedd yn hollol wreiddiol am a wyddom ni. Cymerai ryw air yn ei destun,—y gair mwyaf pwysig, neu feallai y gair byraf ; ac ysgrifennai hwnw gyferbyn a'r lle y pregethai bregeth ar y testun hwnw, a hyny nid yn Gymraeg, ond yn Saesoneg bid siwr Y mae y cyfnewidiad yma yn ymddangos yn union ar ol ei ymadawiad o'r athrofa. Rhoddwn yma restr o'i destunau yn ei orgraff ef ei hun, ac yn eu trefn amseryddol :—"Pilar," "the define word," "presing," "read sea," "canot," "man old," "seet," "sity," "pasience," "pasover," "Jordan" (pregeth y Shibolet), "concurers, a concwerers, a conqwers," "how shall," "weekness," "foundasion," "hart," "but," "shall," "how," "richousness," "silvar," "election," "agen," "under," "suerty," "two," "manyfasted," "thangs," "yoake," "increce," "crufixion," "wariorse," "gosbel," "with," "bodi of sin," "euorn" (haiarn a phres, &c.), "single eye," a llawer eraill. "Gresyn," medd ambell un, "na chaem golleg eto tua'r un parth o'r wlad. Dyna'r fan i ymberffeithu mewn ysgrifenu Saesoneg"!!! Ond erbyn dod i 1830 a 1831, y mae yr hen drefn yn dechreu cael ei dwyn i mewn, a'r oruchwyliaeth newydd, wedi bod ar brawf am ddeng mlynedd, yn cael ei throi heibio yn raddol ; yr hen bregethau yn cadw eu hen enwau, a'r pregethau newyddion yn cael eu hadnabod oddiwrth y llyfr, y

bennod, a'r adnod, fel o'r blaen. Ac y mae yn debyg, os awn i chwilio am achos i'r effaith yma, mai diffyg cydnabyddiaeth a'i Feibl Saesoneg oedd hyn.

Terfynwn y bennod hon yn y fan yma, ac awn gydag ef yn y nesaf yn ol i Sir Feirionydd, i weled pa beth a wnaeth ar ol darfod ei ysgol.

PENNOD IV .

Y MAE YN PRIODI—YN MYNED I FYW I DRAWSFYNYDD—YN MYNED AR DAITH I'R DE GYDAG EVAN FFOWC—YN SYMUD I'R LLIDIARDAU, WAEN Y BALA—LLE YR ERYN AR HYD EI OES, EI ORDEINIAD.

UNWAITH yr â llawer o fechgyn a fagwyd yn nghilfachau y mynyddoedd, i rai o'r trefydd, yn enwedig i gyffiniau Lloegr, pe na bae eu harosiad yno ond "blwyddyn ond tri chwarter," bydd cyfnewidiad mor fawr i'w weled arnynt fel mai prin y gellir eu hadnabod mewn modd yn y byd, gan fel y bydd eu personau, eu gwisgoedd, eu lleferydd, eu hiaith, a'u harferion wedi newid. Arferai Dafydd Rolant ddywedyd am y dosbarth yma, nid yn unig nad oes dim gras yn eu calonau, ond nad oes ganddynt gymaint a synwyr cyffredin yn eu penau. Gwelwn oddiwrth yr hanesyn canlynol, yr hwn a roddwn fel y cawsom ef, ei fod ef yn ddigon hawdd i'w adnabod ar ei ddychweliad i Sir Feirionydd, er i rai o'i gyfeillion ofni am dano:—

"Yr oedd yr hybarch Dafydd Cadwalad yn parhau i fod yn ofalus iawn am dano ac i wyllo drosto. Yr oedd ef a'i lygad arno pan yr oedd o yn y Coleg. Un diwrnod daeth rhyw *wag* oedd wedi bod yn anfon gyr

o wartheg y ffordd hono at Dafydd Cadwalad ar yr heol yn y Bala, a dywedodd ei fod wedi gweled Dafydd Rolant a Daniel Evans; eu bod yn bur iach, a'u bod, pan y gwelodd ef hwy, yn chwareu pêl ar dalcen rhyw dŷ yn Ngwrecsam. Y noswaith hono yr oedd yr hen batriarch yn drymaidd iawn; eisteddai yn y cornel yn ddystaw, gan wau ei hosan yn ol ei arfer; ac ambell dro bwriai allan ochenaid fawr 'W-hw-w-w-w.' 'Beth sydd arnoch chwi heno, nhad?' gofynai ei ferch iddo; ond nid oedd dim ateb. Yn y man dyma allan eto ochenaid fawr hirlaes, druanaidd 'W-hw-w-w-w.' 'Wel, y mae rhywbeth arnoch chwi heno yn sicr, fy nhad,' meddai ei ferch wrtho eilwaith. Yna dywedodd yntau, 'Clywed am Daniel a Dafydd Rolant yna ddarfu i mi.' 'Beth sydd?' gofynai y ferch. 'Dim, ond eu bod yn Ngwrecsam yna wedi myned i chwareu *pêl*,' meddai yntau, gan osod pwyslais hirlaes mawrar y gair '*pêl*.' Ar ol clywed hyn yr oedd yn bur anesmwyth am danynt rhag bod Gwrecsam wedi eu handwyo am byth. Ond wedi iddynt ddyfod adref, y lle cyntaf iddo weled Dafydd Rolant oedd yn Nghyfarfod Misol Ffestiniog. Yr oedd efe yno yn mhell cyn yr amser yn ol ei arfer; ond clywai o'r tŷ rywun yn dweyd, 'Dacw Dafydd Rolant yn dyfod.' Yr oedd arno ofn mawr ei fod wedi dyfod yno ar gefn ceffyl, a bod yr ysgol yn Ngwrecsam wedi gwneyd y mawr niweid iddo. Yn y fan allan âg ef o'r tŷ i'w gyfarfod, ac er ei fawr lawenydd, gwelai fod golwg led aflawen arno eto. Pan gododd ei olwg, a'i ganfod yn yr hen arddull gyntefig, cyflwynai ei ffon o'r llaw dde i ofal yr aswy, ac estynai ei law dde i'w gyfarfod, gan ei gyfarch yn serchog, 'Fy machgen anwyl i, sut yr wyt ti?—ac mi ddoist?' Ar ol cael atebion i hyn, gofynai eilwaith, 'Ar dy draed y doist ti?' 'Ie.' 'Iechyd i dy galon di.'—'Yn droednoeth-goesnoeth a'm 'sane yn fy mhoced, a'm 'sgidiau dan fy nghesel.'—'Iechyd iti. Yr ydwyf fi wedi meddwl llawer am danat

ti; yr oeddwn i wedi meddwl y byddent wedi dy lygad-dynu di gyda'r Saesoneg yna; ond yr wyf yn gweled mai Dafydd Rolant, Cwmtlylo, wyt ti eto, er eu gwaethaf nhw. Iechyd i ti.' ”

Gadawodd Wrecsam yn niwedd y flwyddyn 1820, a gwnaeth Cwmtlylo yn gartref iddo eto hyd y flwyddyn 1822. Yn mis Mawrth y flwyddyn hon ymbriododd â Jane (neu Jinny, fel y galwai efe hi), merch Robert Jones, Nantbudr, yn eglwys y plwyf yn Nhrawsfynydd. Pan y gwelodd hi ef gyntaf yr oedd yn methu peidio a chwerthin am ei wladeidd-dra; ond wedi dyfod i fwy o gydnabyddiaeth âg ef, a'i gael mewn diwyg dipyn gwell, daeth yn anwylaf o bawb ganddi, ac anturiodd yn gydmar bywyd iddo, ac ni bu edifar ganddi. Nid oes dim dangosiad yn ei ddyddiadur, nac mewn un man arall am a wyddom, o'r ffaith bwysig hon yn hanes ei fywyd. Yr oedd ei ysfa am bregethu yn parhau yr un wedi iddo briodi. Yn fuan iawn ar ol newid ei sefyllfa aeth ar daith i'r Dé gyda'r hen bregethwr ffyddlon Evan Ffowc; ymadawodd a “Jinny” mor fuan ar ol priodi, fel mai o'r braidd yr oedd y wraig ieuanc yn credu ar ol ei ymadawiad ei bod yn briod âg ef. Pan yr oedd yn cychwyn, daeth “Jinny” i'w ddanfôn, gan dywallt ei dagrau yn hidl; dywedai yntau i'w chysuro, “Na hidia mo hyn Jinny bach, yr oedd ——— [gwraig i bregethwr arall] felly unwaith, ond y mae hi wedi peidio er ystalm.”

Wedi bod gryn dipyn ar y daith hon, temlai yn hynod o isel ei feddwl, ac yn wir yn mron a thori ei galon, nes yr oedd yn benderfynol o droi ei wyneb tua chartref, pe gwybuasai yn mha gyfeiriad yr oedd cartref. Dywedai wrth ei gyd-deithydd, “Yr wyf fi yn gweled fy hun fel un yn taflu pêl yn erbyn y mur o hyd, ac y mae yn dod yn ei hol ataf bob ergyd—mi âf fi adref, os gallaf fyned adref hefyd oddi rhwng y mynyddoedd yma!” “O, Dafydd bach,” meddai E. Ffowc

i'w gaonogi, "paid di a thori dy galon; yr ydym ni hefo gwaith, i ti, y mae hi yn siwr o ddod yn ddydd arno fo, i ti." Ac fe ddaeth yn ddydd cyn pen nemawr o ddyddiau—dydd rhy ofnadwy yn mron iddynt ddal ei oleuni; yr oedd dynion yn syrthio megys yn feirw o'u blaen, a hwythau eu hunain yn mron a methu dal; ac wedi iddi unwaith ddyddio arnynt, ni nosodd hi ddim dros ystod parhad y daith.

Yr oeddynt i bregethu ar ddiwrnod ffair yn Llansawel, Sir Gaerfyrddim, tybiwn mai Gorphenaf 15, 1822, oedd y diwrnod. Yr oedd yno ugeiniau o drigolion Tal-y-llychau, a'r ardaloedd cylchynol wedi dod a'u gwlan yn bynau ar gefnau eu ceffylau i'r ffair. Rhoddwyd yr oedfa am wyth neu naw y boreu er mwyn y ffair. Rhwymodd yr amaethwyr gwledig eu ceffylau wrth wrych yn un rhes faith, a'i beichiau arnynt. Aeth y bobl i'r capel, ac aeth yn dân gwyllt yno, yn waeddi a gorfoleddu na bu yn aml ei fath. Arosodd y pregethwyr yn y capel hyd tua haner dydd; meddyliasant y pryd hwnw ei bod yn bryd iddynt gael eu ciniaw, er mwyn myned i Llanfynydd erbyn dau; gadawsant y bobl yn y capel, a chawsant y ceffylau, druain, a'u pynau arnynt yn yr un drefn ag y gadawyd hwy yn y boreu. Ar ol ciniawa aent heibio y capel eilwaith, a dyna lle yr oedd y ceffylau fel o'r blaen oddiallan, a'r bobl yn un berw gwyllt yn y capel; yr oedd ffair y gwlan heb ddechreu eto; ac y mae yn debyg mai dyna a fu o ffair y diwrnod hwnw. "Mi gadawsom ni nhw yno," meddynt wrth adrodd yr hanes, "fel y bobl hyny oedd yn sefyll, ac yn synu uwchben Hezeciah."

[Yr oedd Evan Ffowc yn gyfaill cu ganddo. Pan gyda'u gilydd ar daith yn y Deheubarth, rywbyrd, cawsant eu gwlychu yn dost, trwy fod yn rhaid iddynt groesi rhyw afon pan yr oedd wedi chwyddo gan y llif; yr oedd y bobl yn disgwyl am danynt yr ochr draw. Aeth Dafydd Rolant yn bur ddigalon wrth deimlo ei

hun mor wlyb; ond pan aeth Evan Ffowc i'r pulpu, efe a roddes y penill hwnw i'w ganu yn gyntaf peth,

“ Wel dyma hwy'r gadwedig hil
A gadwyd ar y llwybr cul;
Trwy fôr o wae, trwy 'storm o wynt
Y buont hwy yn teithio gynt.”

Teimlai Dafydd Rolant ei hun, medd efe, yn y fan yn cael ei gynhesu drwyddo nes yr anghofiodd yn gwbl ei fod yn wlyb; ac ni ymadawodd y dymher siriol hon âg ef tra parhaodd yr odfa, “ Haiarn a hoga haiarn, felly gŵr a hoga wyneb ei gyfaill.”]

Pregethai Evan Ffowc yn Saesoneg mewn rhai parthau, ac yr oedd yr “*i ti*” ganddo yn Saesoneg fel yn y Gymraeg. Ceisiai ei gyfaill ganddo beidio â'r Saesoneg, gwrthodai yntau gyda dweyd, “ Y mae yma bobol yn ein gwranddo ni, i ti, bron a *starfio* o eisieu pregethu Saesoneg, nad ydynt yn deall yr un gair o Gymraeg.” Siaradai efe Saesoneg yn rhigl, ond dywedai ei gyfaill ieuanc mai Saesoneg pur *gommon* a gwladaid oedd. A rhaid ini ei dybied ef yn un cymhwys i farnu, gan iddo fod mewn Athrofa yn Ngwrecsam.

Yr oedd E. Ffowc mor gymeradwy gan y Deheuwy'r a John Elias; tra mai “y bachgen ifanc hefo E. Ffowc” oedd Dafydd Rolant. Dywedai y diweddar Mr. Charles, Caerfyrddin, ac Ebenezer Morris, eu bod wedi eu synu wrth dduwinyddiaeth bur a chyflawn E. Ffowc. Dilynid pregethau “y bachgen” âg effeithiau bendithiol iawn. Dywedai wedi bod yn gwasanaethu am dymhor yn Llundain, “Ni feddyliais i ddim erioed nes myned i Lundain fod gen i gymaint o blant yn y ffydd. Daeth un hen ŵr ataf, a dywedai, ‘Yr wyf yn cofio un tebyg iawn i chwi yn pregethu er's llawer dydd, ond y mae hyny er's talm iawn; rhaid bod hwnw wedi marw; rhywbeth a ddywedodd hwnw a effeithiodd arnaf fi.’ Gofynais innau iddo beth oedd y testun, ‘Haiarnaphres a fydd dan dy esgid-

iau, atebai yntau ; dywedais innau fy mod wedi bod yn pregethu ar yr adnod hono er's talm. 'Yn wir y chwi ydyw y dyn : ' " cafodd amryw dystiolaethau cyffelyb yno. Bu y bregeth hon, " Haiarn a phres" yn *bassable* iawn ganddo. Cawn yn ei ddyddiadur fod yr " *euorn* " allan yn aml ar y daith hon. Parhaodd y daith gyntaf hon gydag E. Ffowc am tua dau fis. Buont gyda'u gilydd wedi hyn amryw weithiau. Ac feallai fod rhai o'r pethau uchod wedi digwydd ar rai o'r teithiau diweddaf.

Ar ol priodi bu yn byw am tua blwyddyn yn mharlwr Nantbudr ; wedi hyn symudodd i'r Faen Filldir yn yr un plwyf ac ardal. Bu yno am ddwy flynedd. Yna symudodd ei drigfan eilwaith i dyddyn o'r enw Pentref, wrth odreu ' Mynydd Nodol,' yr hwn y soniai gymaint am dano, yn Waen y Bala, yn ardal Llidiardau, tua phedair milldir i'r gogledd-orllewin o'r Bala. Daeth yno yn 1825, " pan yn llawn ddeng mlwydd ar hugain " oed. Yn lle bod yn dechreu pregethu yn yr oedran hwn, fel y gwelwn y bwriadai ef ei hun ar y dechreu, y mae wedi bod yn pregethu am ddeng mlynedd, gan deithio llawer trwy Dde a Gogledd, a bod yn offeryn i droi eneidiau lawer o gyfeiliorni eu ffyrdd. Gwelsom yn gymysgedig â chyfrifon ei dyddyn tua'r amser hwn, gyfarwyddyd meddygol rhag y "*Melancholi*;" tybiasom ar y cyntaf mai ei roddi i lawr a wnaeth er budd rywun arall ; ond deallwn ei fod ef ei hun yn dueddol i'r pruddglwyf ar adegau tua'r pryd hwn. Ac feallai fod yno ryw gyffyrddiad ysgafn o'r clefyd hwn ar ei gyfansoddiad yn wastadol.

Nid oes genym ddim yn neillduol i'w ddweyd o'i hanes hyd nes yr ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 1831, yn Nghymdeithasfa y Bala. Dyfynwn hanes yr ordeiniad o'r Drysorfa am y flwyddyn hono. Y mae yn iechyd i ni gael rhoi hanes manwl, o'r manylaf am *un* digwyddiad yn ei fywyd.

“Am 11 ymgynullodd y pregethwyr a'r henuriaid ynghyd. Y gwaith yr hwn oedd i'w gyflawni oedd neillduo y brodyr a enwyd yn y rhifyn olaf o'r “Drysorfa,” i holl waith y weinidogaeth.* Yr hyn a gyflawnwyd yn ol y drefn sefydledig (gwel “Cyffes Ffydd”) gan y personau canlynol.

- “1. Dechreuwyd trwy weddi gan y brawd John Jones, Tremadog.
2. Ymfynwyd am y brodyr oedd i'w hordeinio, gan John Roberts, Llangwm.
3. Dygwyd hwy yn mlaen, gan un o'r Henuriaid a benodwyd gan y Cyfeisteddiad.
4. Dywedwyd am Natur Eglwys a'i gweinidogion, gan Michael Roberts.
5. Darllenwyd y rhanau o'r Gair Sanctaidd, gan Evan Rees, Llanrhystyd, a gweddiodd ar yr achlysur.
6. Gofynwyd yr Holiadau, gan Richard Lloyd, Beaumaris.
7. Gofynwyd arwydd o gymeradwyaeth y Corff o'r brodyr, gan y Parch. S. Lloyd, Bala, yr hyn a roddwyd yn hollol trwy *godiad dwylaw*.
8. Rhoddwyd y Cyngor (*Charge*), gan John Elias.
9. Dibenwyd trwy weddi, gan Evan Evans, Aber-y-ffrwd.

“Yr oedd difrifwch a sirioldeb ynghyd i'w weled yn amlwg, a sail i fod yn hyderus ynghylch boddlonrwydd y Pen Bugail mawr i'r hyn a wnaethpwyd.”

Cawsom mewn hen ysgriflyfr o'i eiddo yr hyn a dybiwn a ysgrifenyd ganddo i ymbarotoi ar gyfer yr arholiad; crynodeb sych, esgyrnog, ydyw o'i syniadau ar y gwahanol bynciau a nodir yn y “Cyffes Ffydd.” Gallen ei roddi i mewn yma, ond nid oes yno ddim o'i

* Y rhai a gyd-ordeinwyd ag ef oedd, John Prytherch, Mon; W. Jones, Rhuddlan; Robert Davies, Llanwyddelen; a Daniel Evans, Penrhyn.

neillduolrwydd ei hun yn y golwg ynddo, a byddai yn rhy annyddorol gan y darllenydd ni a ofnwn. Nid oes yma ddim nodiad yn ei ddyddiadur ar gyfer y digwyddiad pwysig hwn chwaith. Y cwbl sydd yno ydyw—“Asosiasion Fawr y Bala”—wedi ei ysgrifenu âg *inc*: tra nad oes am y blynyddoedd eraill ond “Bala Asosiasion” wedi ei ysgrifenu â *phwyntel*. Tybiwn fod y “Fawr” ar gyfer 1831, a bod hyny wedi ei gofnodi mewn *inc*, yn ddigon i arwyddo arbenigrwydd yr “Asosiasion” hon iddo ef ei hun.

PENNOD V.

EI BERSON—YN Y CYFARFOD GWEDDI—YN TREULIO DIWRNOD, YN DARLLEN, MYFYRIO, AC YSGRIFENU—YN Y CYFARFOD EGLWYSIG—YN Y CYFARFOD DIRWESTOL—YN Y FFAIR—YN Y CYFARFOD GWLEIDYDDOL—YN NGHWMNI BRODYR O ENWADAU ERAILL—YN Y CYFARFOD MISOL—YN CYCHWYN I'W GYHOEDDIAD—AR GEFN EI GEFFYL—AR HYD Y FFORDD—YN Y TY—YN Y PULPUD—YN CYFRANU YR ORDINHAD—YN NEWID EI GEFFYL

NID oes genym ddim o'i hanes ar ol hyn a fydd yn ddyddorol ei wybod hyd y rhan ddiweddaf o'i oes. Nid oes genym ni nemawr o gof am dano hyd tua'r flwyddyn 1850, a chan nad oes genym ddim yn ychwaneg o'i hanes i'w gofnodi hyd yr amser hwn, hwyrach y byddai yn well i ni ddweyd tipyn am ei berson, ei arferion a phethau eraill y dylasem fod wedi eu dweyd yn gynt, pe yr adnabuasem ef yn gynt; ond gan mai dyma y cof cyntaf sydd genym am dano, hwyrach y maddeua y darllenydd i ni am geisio rhoddi darluniad o hono yn ymyl ei driugain mlwydd oed, yn lle pan oedd yn nghyflawnder ei nerth, ei faintioli a'i lwyddiant—pan oedd tua hanner yr oedran hwnw.

Dechreuwn trwy roddi rhyw fraslun o'i ymddangosiad personol. O ran ei daldra yr oedd yn ganolig—tua phedair modfedd yn fyr o ddwy lath. Yr oedd o gyfansoddiad naturiol cryf, yn meddu ar ysgwyddau llydain a chorff cadarn; yr oedd yno ddigon o asgwrn, a hwnw wedi ei wisgo â thrwch da o gnawd. Yr oedd ganddo ben mawr wedi ei osod ar bwt o wddf byr, cadarn. Yr oedd ei ben o'r maintioli mwyaf, ond er maint y lle, yr oedd y gwahanol ystafelloedd yn llawn, ac wedi eu dodrefnu yn dda. Wyneb lled grwn oedd ganddo, hollol gyfaddasedig i'r pen o ran maint ac ymddangosiad; llygaid gleision, lled fychain ond treiddgar iawn, a'r rhai hyny o dan aelïau trymion, nes yr oedd ei lygaid yn ymddangos braidd yn bruddaidd. Trwyn pur fychan oedd rhwng ei lygaid, a hwnw yn troi ychydig i fyny tua'i flaen. Rhudd-felyn oedd lliw ei wallt, a'i farf yn grasgoch. Gadawai ei wallt i dyfu yn bur hir, nes y byddai yn ddisgyn o'r tu ol iddo yn gudynau dros ei war. Yr oedd ei wallt wedi teneuo yn fawr ar ei dalcen yn ddiweddar, ond nid oedd yn agos i foel. Gadawai i'w wallt ddyfod i lawr dros ei dalcen yn "fargod duwiol" bob amser; nis gallem roddi desgrifiad o'i dalcen, am y byddai yn wastad dan y bargod. Ni welid un arwydd o QP na llyfiad buwch arno byth; ond ni chlywsom ef yn dweyd dim yn erbyn y rhai hyny a ewyllysient ddangos eu talcenau, a throi eu gwallt—ond felly yr oedd ef yn dewis bod. Cyflwynna ei ddarlun fel un o "Genadon Hedd" syniad cywir iawn am dano i'r neb na welodd mo hono ef ei hun erioed. Tybiwn fod yr eiddo ef yn arlun mor "dra pherffeithiedig" ag ydyw un o'r rhai sydd ar yr un llen âg ef. Yr oedd o dymer obeithiol (*sanguine*); ac yr oedd yn hynod o hoff o gwmni llawen a siriol; ac os byddai y cwmni yn ddu ac oer, taflai ei bresenoldeb ef oleuni a gwres arno yn wastad.

Awn a'r darlennydd i roddi tro i'r Pentre iddo gael

gweled pa fodd y treuliai bedair-awr-ar-hugain gartref; dilynwn ef am wythnos i'r gwahanol gyfarfodydd y cymerai ran ynddynt; ac yna dilynwn ef i'w gyhoeddiad am Sabboth. Y mae cynwysiad y bennod hon yn argoeli y bydd yn faith; ond gobeithiwn y bydd i amrywiaeth ei defnyddiau a'i chynwys beri iddi ymddangos yn fer er ei meithder.

Disgwyliwn ef adref ar foreu Llun o'i gyhoeddiad y Sabboth; ac mewn adeg brydlawn cawn weled un o'r desgrifiad uchod yn dod ar gefn ei geffyl i'r buarth. Y mae sirioldeb yn sicr o fod ar ei wynebpryd. Ni chawn nemawr o'i gwmni heddyw; oblegyd yn gyffredin ar ol bwyta a chael pibellaid â ar ei wely i orphwyso. A thra y bydd ef yno, awn i rod-di tro dros y tyddyn. Fel amaethwr yr oedd yn dilyn yr hen drefn i raddau pell; ond yr oedd yn gystal amaethwr ag odid neb oedd o'i amgylch. Y mae pobpeth mewn trefn, gan y gofalai yn wastad am gael gwas y gallai ymddiried ynŵdo, am ei fod ef ei hun yn myned gymaint oddicartref, yr hwn yn wastad a arosai yn ei wasanaeth am flynyddoedd meithion. Byddai yn brydlon gyda phob peth; pa adeg bynag o'r flwyddyn ydyw, y mae yn sicr o fod ar y blaen; byddai wedi hau, cael ei fawn, a'i gynhauaf cyn gynted a neb yn yr ardal. Yr oedd golwg dda ar y tyddyn, ac ar bob anifail oedd yn byw arno. Yr oedd trefnusrwydd a thaclusrwydd i'w weled ar hyd y tyddyn, yn y tŷ, yn yr holl adeiladau, ac o'u hamgylch. Yr oll y mae ef yn ei wneyd ddydd Llun, ydyw edrych a fydd pob peth yn mhob man mewn trefn.

Y mae yno gyfarfod gweddi yn Llidiardau y nos; ac os nad yw yn rhy flinedig awn gydag ef yno. Y mae yn cychwyn yn brydlon;—dyma un peth a'i hynodai gyda phob peth—prydlondeb; cyrhaedda dŷ'r capel yn mhell cyn yr amser, cyn i neb arall ddyfod. Y mae rhyw anesmwythder yn ei feddianu, ac y mae rhyw ysfa arno am ddechreu; a'r foment y tarawai yr awr

os nad cyn hyn, â o'r tŷ i'r capel. Y mae yn sicr o ddechreu yn yr amser, ni waeth pwy na pha faint fydd yno, nac oddiyno ; pe na bai ond ef ei hun ac un arall, efe a lediai benill ; ac, er nad oedd efe yn rhyw ganwr mawr, os byddai achos dechreuai ganu ei hun, ond dechreuai yn bur isel ; anhawdd fyddai i'r merched a fyddai yn bresenol ganu gydag ef. Un gafaelgar mewn gweddi ydoedd. Byddai yn rhaid i ni deimlo ar brydiau ei fod yn ymaflyd yn nerth Duw. Clywsom un fam yn tystio ei bod yn credu mai mewn atebiad i'w weddi yr adferwyd ei iechyd i'w bachgen oedd yn glaf. Ar un adeg yr oedd mewn cyfarfod eglwysig mewn man yn Mhenllyn, lle y taenid y gair fod rhai o'r aelodau yn camfucheddu ac nid oedd modd cael o hyd i'r euog, gweddiodd ef yn nechreu y cyfarfod, am i'r Achan oedd yn y gwerysll gael ei ddwyn i'r amlwg, ac mewn atebiad i'w weddi (fel y credir) fe giliodd y rhai euog o'r eglwys o honynt eu hunain. Ar adeg arall yr oedd rhyw ymrafael wedi cyfodi rhwng rhai o'r aelodau ; galwyd am dano ef ac eraill yno ; ond methodd neb a gwybod ar bwy yr oedd y bai ;—nid oedd modd na heddychu na dysgyblu. Annogwyd ef i fyned yno eilwaith ; aeth, ac ar ddechreu y cyfarfod eglwysig gweddiodd am “ i'r eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw,” gael ei roddi yn y cyfarfod hwnw fel y caffont eu goleuo a'u dysgu pa fodd i weithredu. Fe gafwyd y goleuni a'r arweiniad ; a threfnwyd pob peth fel ag i roddi boddlonrwydd i bawb yn yr eglwys. Y mae yn anhawdd i ni amheu, pan y mae genym y fath brofion fod ei weddiau ar achlysuron neillduol fel hyn yn cael eu gwranddo, y byddai y gweddiau taer a offrymai ar adegau eraill am achubiaeth eneidiau, ac adeiladaeth y saint yn cael eu gadael heb sylw a gwrandawriad y nefoedd. Gweddiai yn aml am atebiad “ gyda throad y *post* ;” a dilys yw y byddai yn ei gael. Yr oedd yn ddiamheu yn un mawr mewn gweddi. Wedi dechreu y cyfarfod gweddi ei hun, gwnai

ei oreu i gynal breichiau ambell i frawd gwan a wedd-
iai ar ei ol. Ac os gweddiai ambell i hen gristion yn
o afaelgar, ac os dywedai rywbeth anghyffredin iawn
ar ei weddi, fe chwaddai "ha ha" dros y capel, yr
hyn a ddilynid â llonaid genau o "Amen."

Codai yn foreu. Byddai yn gyson gyda'r ddyled-
swydd deuluaidd; arferai ddweyd "Ni bydd hi ddim
yn iawn mewn teulu os na bydd Beibl Peter Williams
ar y bwrdd trwy y dydd." Pan âi allan ar hyd y ffarm,
ni byddai yn gwneyd nemawr o galedwaith. Ei hoff
orchwyl oedd bugeilio y defaid, a gofalu am y gwartheg.
Gwelid ef bob dydd yn myned i roi tro o gylch y defaid
foreu a hwyr i edrych a fyddai pob un yn ei thiriogaeth
briodol. Nid oedd yn gofalu nemawr pa fodd y gwisgai
tua chartref. Daeth person y plwyf i roi tro un diwr-
nod i edrych am ei blwyfolion; yn eu plith daeth ato
yntau, pan yr oedd wrthi yn brysur yn cyweirio gwair,
yn ei ddillad bob dydd, yn debyg i ffarmwr cyffredin.
Gofynai yr offeiriad iddo, "Sut yr ydych chi, Dafydd
Rolant, a chwithau yn bregethwr yr efengyl, yn cyweir-
io gwair, ac mor afler a hyn?" "Mi ddown ni yn o dda
pe bai pobpeth at hynny," atebai yntau, "hwyrach pe
bai genyf finnau ddegwm i fyw arno fel sydd genych
chwi, y gallwn innau fyw heb wneyd dim." Rhoddodd
hyn daw ar yr offeiriad ar unwaith. Yn y blynyddoedd
diweddaf yr oedd yn arferol o fyned i orphwys tipyn
ganol dydd ar ol ciniaw.

Yr oedd yn bur hoff o'r bibell. Byddai ganddo ryw
haner dwsin o honynt o dan y llofft, a'r rhai hynny yn
aml yn bur dduon. Poerai yn wahanol i bawb arall; yr
oedd ganddo ryw garthiad hynod o nodweddiadol gyda'r
gorchwyl hwn yn wastad. Ni wyddai neb yn iawn pa
bryd y byddai yn gwneyd ei bregethau. Diau y my-
fyriai lawer wrth fyned o amgylch hyd y maesydd.
Nid ydym yn gwybod y byddai ganddo lawer o drefn
gyda'i efrydiaeth. Yr arwyddion penaf a fyddent y

rhai canlynol. Cymerai ryw lyfr; darllenai hwnw am blwc: yn mhen tipyn cauai ef, a dodai ef o'r neilldu; cymerai ei bibell, a mwmiar rhyngddo ag ef ei hun; yn mhen enyd darllenai eilwaith. Gellid tybied mai wrth ysmocio y byddai yn sugno y maeth oedd yn yr hyn a ddarllenai ac yn ei gyfaddasu at gyfansoddiad y bregeth oedd ganddo yn ei feddwl, i roddi ei argraff a'i ddelw ei hun ar y cwbl a gymerai.

Yr oedd efe yn ddarllenwr mawr; ac eto yr oedd yn wreiddiol. Y mae rhai yn meddwl mai y ffordd i fod yn wreiddiol ydyw peidio a darllen ond lleied fyth ag sydd bosibl; ond gall darllenwr bychan fod mor bell o fod yn wreiddiol a'r darllenwr mawr, os nad yn bellach. Darllenai ef lawer, ie, o bregethau; ac yr oedd yn gwneyd hyn gan mwyaf, os nad yn gwbl, fel cymhorth at bregethu. Nid dim arall oedd ei amcan wrth ddarllen pregethau. Darllenodd gyfrolau lawer o'r "*Pulpit*," y rhai a fenthycid iddo; ond eto trwy y cwbl, yr oedd yn cadw ei neillduolrwydd a'i wreiddioldeb; safai ar ei ben ei hun er cymaint a ddarllenai; moldiai herf feddyliai yn ei feddwl, a deuent allan ar ei lun a'i ddelw ei hun, mor newydd ag aur o'r bathdŷ. Nid oedd ganddo lawer o lyfrau; gallasai dyn go gryf eu cario i gyd ar ei gefn; nid oedd raid iddynt gael cell iddynt eu hunain, ac nid oedd raid iddo yntau wrth lyfrgell i fyfyrion ynddi. Ond yr oedd ganddo feddwl mawr iawn o'i lyfrau, âi a phob ymwelydd ac ymwelyddes yn mron i'w gweled. Aeth un gymydoges iddo yno unwaith i edrych am dano; ac aeth yntau â hi i'r parlwr i ddangos iddi "ei lyfrau." "A weli di, Caden, yr holl lyfrau sydd gen i." "Tad fo'n gwarchod, ie on'te! Be ydych chi yn ei wneyd â chymaint o honynt yn enw dyn, Dafydd Rolant bach?" "Hefo rhai'n y byddaf fi yn codi cythreuliaid, wel di Caden." "To! tewch da chi!" "Ie yn wir, wel di, ond eu codi nhw o bobol yr ydw i yn ei feddwl." Yr oedd yr esboniad yn es-

mwythau ei meddwl yn fawr. Gallai ddeall llyfr Saes-
oneg yn bur dda a'i gofio hefyd; er na allai ei seinio yn
gywir wrth ei ddarllen, na siarad nemawr, ond yn bur
glögyrnaidd. Ei hoff awduron oedd Mr. Charles,
Gurnal, Flavel, Obadiah Grew, Eliseus Cole; yr oedd
yn gydnabyddus iawn â "Theomemphus," "Canwyll y
Cymry," "Taith y Pererin;" ac yr oedd salmau Ed-
mund Prys, a hymnau Williams, Pant-y-celyn, ac Anne
Griffiths ar flaen ei dafod. Darllenai lawer y blynydd-
oedd diweddf ar weithiau Jonathan Edwards, pregeth-
au South, a'r *Scotch Pulpit*. Yr oedd y rhai hyn oll
ganddo. Cafodd bleser mawr yn ei wythnosau diweddf
yn darllen gweithiau Fuller a Leighton. Yr "*Assembly
of Divines*," "Beibl Samuel Clarke," ac "Esboniad
James Hughes," oedd yr unig esboniadau oedd gan-
ddo. Ond darllenai lawer o esboniadau eraill yma a
thraw ar ei deithiau, ar ranau y byddai arno ef eisieu
esboniad arnynt.

Clywsom yr hanesyn canlynol, yr unig un a gawsom
ag sydd yn cyffwrdd a'i wreiddioldeb er tua yr adeg y
dechreuodd bregethu. Pregethai unwaith mewn capel
lle yr oedd gweinidog arall a'i deulu yn gwranddo arno;
yr hwn a ddechreuodd yr oedfa iddo, ac yn ei dŷ ef y
lletŷai y noswaith hono. Yr oedd gwraig y gweinidog
hwn yn fwy darllengar a chraffus na'r cyffredin. Dy-
wedai hi ar ol dod i'r tŷ, "Wel, oni chawsom ni breg-
th dda?" "Onid oedd Mr. ——— gwedi dechreu
mor dda," meddai yntau. "Na, nid hynny yn gwbl,"
meddai hithau, "a ydym ni ddim i edrych ar y breg-
eth yna fel yr eiddo y Dr. Owen i fesur mawr?"
"Wyddoch chwi be, un arw ydych chwi hefyd!"
meddai yntau, heb wadu dim. Nid oedd ganddo ddim
o waith Dr. Owen yn ei feddiant, ac ni chlywsom y
cyhuddiad am dano ond y waith hon. Ond clywsom ef
yn defnyddio sylwadau o eiddo eraill, ond byddai yn
eu cydnabod ar y pryd, megys—"y mac Gurnal yn

dweyd, —," a phob amser byddai wedi eu bwrw yn ei fold ei hun fel y byddent yn eithaf priodol iddo, ac yn wir yn eiddo iddo. Ond gallasai un o graffder y wraig uchod, wrth edrych ar sylwedd yr hyn a draddodid, ei ddilyn i Dr. Owen, neu weled ol darllen Dr. Owen ar y bregeth. Ond pa fodd bynag am hyny, pa bryd bynag y deuai i'r fan hono wedi hyn, un o'r cwestiynau cyntaf a ofynai a fyddai, "Er mwyn dyn, a ydyw Mrs. — yn debyg o fod yma?" Os atebid yn nacïol, dywedai, "Purion; un arw ydyw hono hefyd!"

Y mae yn hysbys i lawer na bu efe erioed yn ysgrifenu wr manwl, ac ni wellhâi wrth heneiddio. Ni ysgrifennai ond cyn lleied byth ag a allai o'i bregethau; ni adawodd ar ei ol ond esgyrn sychion. Y mae hyn yn destyn gofid i ni erbyn hyn; gofidiai yntau lawer yn ei flynyddoedd olaf, na buasai wedi arfer ysgrifenu mwy ar ei bregethau pan yn ieuanc. "Fy nghasbeth i yn wastad weli di oedd ysgrifenu," meddai wrthym un prydawn Sabboth pan yn cydfyned ag ef o Lidiardau i Dalybont, pryd y tynai ei ddyddiadur allan, rhwng dalenau pa un yr oedd cryn haner dwsin o bapurau rhyddion; tynai un o'r rhai'n allan, ac arni ysgrifenu mewn llythyrenau mor freision, fel y gallasai y neb a redai eu gweled yn amlwg; ond buasai raid iddo sefyll yn o hir, cyn y gallasai eu darllen a'u deall. Dangosai i ni un o'r rhai'n a dywedai, "Dyma'r cwbl weli di sydd gen' i wedi ei ysgrifenu o'r bregeth yr ydw' i yn myned i'w phregethu heno. Mi fuasai yn well gen' i na llawer, pe b'aswn i wedi arfer gwneyd fel y mae y pregethwyr ifainc yna yn gwneyd yrwan. Y mae fy nghof i wedi myned yn fwy candryll o lawer nag y byddai fo er's talwm." Ni cheir yn ei nodion ei hun ond cyn lleied byth ag ydoedd modd, ac i ddyben eu hysgrifeniad gael ei gyrhaedd ganddo ef ei hun; nid oes yno ond cy-maint ag a'i galluogai ef i'w hadnabod a'u darllen; y maent i raddau mawr i ni fel rhai o arwyddluniau yr

Aipht. Ac er hyn oll, pregethai yn ei flynyddoedd diweddaf ar yr un testynau ag y gwnai o 1820 hyd 1830, a defnyddiai yr un penau; ond y mae yn debyg, os yr un yw yr esgyrn, fod y cnawd wedi ei newid yn gwbl, ac yn hollol newydd.

Ni ysgrifennai lythyrau meithion; ac anaml y gwelir llythyr wedi ei gyfeirio fel y gwnai ef. Dechreuai y cyfeiriad yn nghornel uchaf yr *envelope*, a rhoddai gymaint o hono ag a allai yn agos i'r top, tra y byddai y gwaelod yn hollol wag. Derbyniasom y llythyr canlynol oddiwrtho, a ysgrifennodd pan ar daith yn Arfon:—

VAENOL, *Tach.* 30, 1859.

ANWYL FRAWD—

Er eich bod allan o'm golwg nid ydych allan o'm meddwl yn aml. Yr ydwyf yn bresenol yn dechreu ar gyhoeddiad o Bangor i Lanllyfni. Ni fynegwyd yr haner am y diwygiad sydd yn y wlad yma, nid oes modd ei breintio, mae y trefydd a'r wlad ar dân i gyd. Ni feddyliais y gwelwn yn fy oes y pethau a welais ac a glywais y tro hwn. Bendigedig fyddo Duw! mae yr Ysbryd Glân wedi ei dywallt yn rhyfedd ar Feibion y Prophwydi yn y Bala. Dyma arwyddion yr amserau da iawn. Ymwrolwch, anwyl Frawd; yr ydych yn cael eich parotoi at y cynhaua' mawr.

'Mae uffern lawn o dân
Yn crynu oll o'r bron.'

Yr oedd pawb yn iach pan cychwynais oddi cartre', a'r achos mawr yn myn'd yn mlaen trwy bob rhwystrau. Parhewch mewn gweddi, anwyl Frawd, cewch fodd i bara gyda phobpeth, a dyfod trwy bobpeth er eich ennill . . . gan obeithio y dewch adre' yn gysurus.

Yr eiddoch mewn cariad,

DAVID ROWLAND.

Maddenwch fy mod cyhyd yn anfon *line* atoch, y mae fy ffwrdd yn fawr.

Ar ol bod yn ffwdanus trwy y dydd gyda'r peth hwn a'r peth arall, a chymeryd uwd yr haf, a llymru y gauaf i'w swper, a hwnw yn boeth bob amser, newydd ei gymeryd oddiar y tân, a chadw y ddyledswydd deuluaidd âi i'w wely yn gynharol.

Nos Fercher yn gyffredin y cynelid y cyfarfod eglwysig: awn gydag ef yno. Bob yn ail y dechreuai efe y cyfarfod. Ac yn y cyfarfodydd hyn byddai yn felus ac yn adeiladol iawn; braidd na ddywedem ei fod yn fwy felly yno nag wrth bregeth. Yr oedd yn barod iawn i siarad bob amser ar unrhyw bwnc. O'r braidd y gadawai i ambell un orphen ei ymadrodd, na byddai efe ar ei draed gan siarad ar ei draws, trwy ddweyd rhyw adnod, neu ryw ddyfyniad o Gurnal neu Bunyan; neu ambell i waith ryw ddywediad o'i eiddo ei hun nas gallai ei gadw i mewn yn hwy, yr hwn a ddisgynai fel tân ar bawb yn y lle. Gallai rai gweithiau mai teimlo y byddai ei bod wedi myned yn bur fain ar y siaradwr, a chymerai drugaredd arno ef ac ar y gwrandawyr. Yr oedd wedi cael rhyw ddull newydd ar ol y diwygiad diweddar, pan yn siarad ambell i waith fflachiai ryw ddrychfeddwl ar ei feddwl, yna fe roddai sponc, fe ledai ei ddwyllaw, y dde tuag i fyny a'r aswy i lawr, a deuai ei feddwl allan yn y fath fodd nes ennyn teimlad pob un a'i gwrandawai. Yr oedd ganddo un fantais i siarad yn ddifyfyr ar ryw achos, am ei fod yn cyfansoddi yn ei feddwl yn gwbl heb byth braidd roddi dim o'i feddwl ar bapur; fel yr oedd y peiriant yn barod ac yn fywiog bob amser, a deuai allan o hono bethau newydd a hen, yr hen yn newydd, a'r newydd heb sawru dim o'r hen. Clywsom ef rai gweithiau mewn cyfarfodydd neillduol yn dywedyd ymadroddion mor briodol iddo ei hun, ac mor darawiadol a dim a ddywedai mewn un man, os nad yn fwy felly.

Wrth annog yr aelodau i fod yn gyson yn y *society* dywedai, "Pa bryd bynag y bydd milwyr byddin Crist

yn cael eu galw i'r *parade* yn y *societies* yma fe ddylai pob un fod yn barod i ateb i'w enw a gwaeddi 'here' bob tro."

Y mae yno amryw i'w derbyn yn gyflawn aelodau. Dyna un bachgen go lyweth, oedd newydd ddod i'r *society*; nid oedd yn meddu ond gwybodaeth fechan iawn. Yr oedd yn dirion iawn wrtho—fel ei athraw mawr "ni ddiffoddai lin yn mygu." Y mae yn gofyn i'w feistres a oedd ganddi ddim yn ei erbyn. Dywedai hithau nad oedd, ond mai darllenwr pur fychan oedd o; "Wel darllenwch chwi iddo fo ynte," meddai yntau, "gael iddo fo wybod pa faint y mae Iesu Grist wedi ei adael iddo yn ei ewyllys."

Gofynai i un arall oedd efe wedi dysgu yr Hyfforddwr, atebai yntau, "Do mi dysgais i fo ddwy waith neu dair, ond ni fedraf fi mohono yn iawn eto." "Mi dysgais innau fo," meddai yntau, "ond ni fedraf finnau mohono; ond yr ydwyf wedi fy halltu â fo."

Yr oedd un o honynt yn bur wylaidd, ond yr cedd ef yn gwybod fod achos Iesu Grist yn agos iawn at ei galon. Bu yn hynod o dyner wrtho, a dywedodd, "Un o'r dysgyblion cuddiedig y mae fo wedi bod; un tebyg iawn ydyw fo i Nicodemus, y mae ei gariad yn fawr at yr Iesu. Mi ddangosodd Nicodemus ei gariad at yr Iesu wedi iddo farw, pan yr aeth o i roi ei gorff o yn y llian. Rhyw lian? O nagë, lian main; dowch a'r goreu, fel y dywedodd John Jones, Treffynnon, pe bai fo yncostio i chwi bunt y fodfedd." Yr unig gwestiwn a ofynai iddo oedd, "A fynwch chwi eich derbyn?" Atebodd yntau yn wylaidd, eto yn gadarn, "Cymeraf." "A ydych chi yn foddllawn?" Dangosodd pawb eu boddlonrwydd, ac nid yn aml y bu derbyniad mwy effeithio.

Wrth gynghori llanc ieuanc oedd yn ymadael i ardal arall, dywedai, "Gofala di am gerdded canol y ffordd; nid oes gan satan ddim lle i osod ei drapiau yn y fan hono; yn ffosydd y cloddiau yn unig y gall o eu gosod

nhw; ac os ei dithau i gerdded ffos y clawdd yr wyt ti yn siwr o fyn'd iddyn' nhw."

Yr oedd yno yn Llidiardau, chwaer o'r Ynys Werdd, wedi priodi Cymro, a symud i'r ardal hon i fyw. Ni fedrai siarad dim Cymraeg yn mron; ond erbyn hyn yr oedd yn deall Cymraeg yn o lew. Byddai yn dyfod i'r capel weithiau gyda'i phriod, pryd na ddeallai ddim, tua'r amser y daeth yno gyntaf. Un tro yr oedd Evan Ffowc yn pregethu yno; a gwelai yn y capel ryw ferch a *bonnet* wen, a golwg pur foneddigaidd arni. Meddyliai mai dyeithr ydoedd, ac y gallai hi fod yn Saesnes, ac nid oedd am iddi fod yno heb gael rhyw air. Felly yn ol ei arfer lawer gwaith, trodd am dipyn i'r Saesneg. Ond yr oedd y pregethwr wedi camgymeryd, Cymraes oedd yn y *fonnet* wen; ond yr oedd y Wyddeles yno, ac aeth y saeth a annelwyd at y Gymraes i galon y Wyddeles, glynodd y geiriau yn ei chalon, cafodd droedigaeth amlwg, a bu yn gristion gloyw hyd ei bedd. Byddai Dafydd Rolant yn bur ddigrifol gyda'r chwaer yma, pan yr ymddiddenid â hi yn y *society*. Nis gallai hi siarad Cymraeg, dyna lle y bydd yntau yn cyfieithu, ac yn siarad â hi peth Cymraeg peth Saesneg; ond yr oeddynt yn deall eu gilydd yn dda iawn.

Un tyner iawn ydoedd mewn achos o ddysgyblaeth yn gyffredin. Un tro yr oedd y brodyr yn tueddu yn bur gryf i ddiarddel un am gamwedd a farnai efe yn rhy ddibwys i weinyddu dysgyblaeth mor lem a hyny am dano; ac am hyny yr oedd efe yn ei bleidio yn erbyn y brodyr eraill. Yn y man fe gododd un hen frawd zelog i fynu draw yn nghwr pellaf y capel, "Dafydd Rolant," meddai, "beth a ddywedwn ni wrth y byd?" "O," ebai yntau, "*mind your own business*—dyna ddywedwch chwi wrth y byd ar achos fel hyn." Llonyddodd hyny yr ystorm, a chafodd y brawd ei oddef. Pan oedd ef ac un arall yn myned tua'r capel ar amgylchiad lled gyffelyb bryd arall, gwelai fod ei gyfaill braidd yn isel

ei feddwl, gofynai iddo, “A wyt ti yn ddigalon?” “Ydwyf yn wir,” atebai; “Y mae genyf fi adnod i ti,” meddai yntau; “Y mae yn dda iawn genyf fi ei chael; pa fodd y mae hi?” “Gwel a chel a chlyw, cei lonydd yn dy fyw.”

Byddai yn dyner iawn wrth bawb; ond os gwelai haerllugrwydd, hyfdra pechadurus a chaledwch, rhoddai hi yn ddiarbed i'r rhai hyny. Gwelsom ei lygaid yn tanio, a'i aeliau yn cuchio, a byrlymai y fath hylif o hyawdledd tanllyd nes peri arswyd; do, buom yn teimlo y gwallt yn symud ar ein pen gan mor ofnadwy y siaradai.

Wrth wneyd sylw ar ryw grefyddwr oedd yn bur zelog ar adeg y diwygiad yn gorfoleddu ac yn molianu, ond a oedd, fel y dywedid, yn myned o amgylch y tai yn y wlad yn oriau y nos, fel y mae gormod ysywaeth eto yn bod, dywedai, “Ni rown i yr un gatiad o ludw am grefyddwr a feder *hoitsio* gorfoleddu yn y capel, ac a aiff i *hoitsio* cerdded y nos wedi myned o'r capel.” Yr oedd yn enbyd yn erbyn arferion llygredig o bob natur.

Ond os byddai yn bur llym weithiau, yn fwyaf cyffredin tyner iawn ydoedd. Byddai rhai yn meddwl ei fod yn ormod felly braidd rai prydiau;—ei fod yn rhy hoff o rywbeth tebyg iawn i weniath, er mai nid dyna yn gymhwys ydoedd. Yr oedd cyfaill iddo ac yntau yn sylwi ar gymeriad rhyw frawd mewn rhyw amgylchiad. Dywedai y cyfaill wrtho, fod yn anhawdd ganddo feddwl fod y brawd hwnw yn dduwiol. “Taw, taw,” meddai yntau, “y mae y dŵ'r i fywyd tragwyddol yn tarddu o lawer man lle na feddyliet ti a minnau.” Arferai feddwl y goreu am bawb; a dywedai Dafydd Cadwalad am dano, “Y mae Deio Rolant yn meddwl mai *sofren* ydyw pobpeth melyn.” Pwy bynag y tynai ei law hyd ei ben yn ei bresenoldeb, ni ddywedai ddim drwg am dano yn ei gefn. Credai y goreu hyd nes y byddai raid iddo gredu y gwaethaf.

Un o'r *societies* diweddaf y bu ynnddi daeth gwraig, oedd wedi bod yn adeg y diwygiad yn aelod am ryw dymhor, ond oedd trwy ei hesgeulusdra wedi diaelodi ei hun, yno i'w lle eilwaith heb gymaint a gofyn caniatâd. Aeth yntau ati, ac wedi ymddiddan yn dyner â hi am dipyn, gofynai, "Wel, ——— bach, wyt ti yn meddwl dal ati dipyn gwell o hyn allan?" Dywedai hithau ei bod. "Wel, gobeithio dy fod di wedi dy danio yn iawn y tro yma. Mi fydden' mewn trafferth fawr 'stalwm yn goleu canwyllau yn y capelydd yma, goleu a diffodd eilwaith a thrachefn a fyddai; ond wrth barhau i ddal y goleu wrth y ganwyll, mi gyneuai yn iawn o'r diwedd. Ond yrwan y mae ganddyn' nhw *skill* newydd, y mae nhw yn rhoddi *turpentine* ar benau y canwyllau, ac ni raid ond pryn cyffwrdd y goleuni â nhw, na byddan' nhw yn fflagu. Felly dithe; hwyrach wrth bwnio a phanu y gallwn ni bob yn dipyn o'r diwedd beri i tithau fod yn fflam, a goleuo fel cristion; ond pe cait ti dipyn o *durpentine* Sinai, ar dy ben, a thipyn o dân Calfaria mi fflaglet wed'yn, na welaist ti 'rioed 'shiwn beth."

Ei hoff ddull ef o gadw *society* ydoedd holi yn nghylch profiadau ynghyda chynghori pawb i ryw "drwtws gyda'r grefydd yma;" ac os na byddai gan rywun brofiad gloyw iawn, byddai ef yn siwr o'i wneyd yn glamp o brofiad taclus cyn y diwedd. Rai gweithiau fe roddid pwnc i'r eglwys i lafurio ynndo; nid oedd yn cymeradwyo y cynllun yma o gwbl. Ac os gofynai rhywun gwestiwn go galed i rai o'r bobl ieuainc er eu profi, neu er eu symbylu i fwy o lafur er cyrhaedd gwybodaeth grefyddol,—os methent ag ateb, deuai ef yn mlaen a atebai drostynt, a dechreuai eu holi yn y fath fodd fel nad oedd yn bosibl iddynt beidio ei ateb. Byddai yn hoff o dori y *society*, yn gystal a phob cyfarfod, yn ei blas; nid oedd yn hoffi cyfarfod maith ar un cyfrif. Rhoddid ambell i frawd ieuanc gwylaidd i ddiweddu y

cyfarfod, byddai yntau yn ei ymyl, yn cynal ei ysbryd i fynu yn wresog gyda'i "Amen."

Y nos ganlynol y mae yno gyfarfod dirwestol yr oedd yn ddirwestwr zelog iawn. Parhaodd yn ei zel o'r amser cyntaf yr ymunodd â dirwest hyd ddiwedd ei oes. Gallem dybied iddo ymuno â'r Gymdeithas yn bur fuan ar ol ei sefydliad. Unwaith dywedai y modd y bu fel y canlyn:—
 "Yn nechreu *teetotal* mi ddaeth rhyw rai oedd wedi bod yn feddwon cyhoeddus, ond wedi dod yn ddirwestwyr, i ofyn i mi a wnawn i *signio teetotal* iddyn' nhw. Mi atebais innau, 'ni rof fi mo fy enw i'ch *siort* chwi chwaith,' a gwrthodais yr amser hono. Ond pan welais i fod *teetotal* yn yr Hen Lyfr, mi f'aswn yn foddlon wed'yn i roi fy enw mewn llythyrenau *pitch* ar fy het—

'DAFYDD ROLANT TEETOTAL FOR EVER.'

Cynhelid cyfarfod dirwestol yn Llidiardau yn gyson o flaen pob ffair a fyddai yn y Bala, er anog i sobriwydd, a pharhad ynddo. Rhyw gymysg o ganu ac areithio a fyddai yno. Nid rhyw un araeth hir a sychlyd a geid ganddo ef, ond nifer go fawr o ryw bytiau blasus a ffraeth. Dywedai yn hallt a sobr yn erbyn y ffeiriau, mai ei gas beth ef fyddai myned yno, ac nad âi yno oni bai fod ganddo neges nas gallai ei gwneyd ar adeg arall. "Gwyliwch," meddai, "fyned yno heb neges; os ewch chwi yno heb yr un neges, mi fyddwch yn siwr o gael un cyn dod adref. Y mae meddwl am y negesau a gafodd llawer bachgen a geneth ifanc mewn ffair wedi peri ing a gwae i'w calonau filoedd o weithiau ar ol hyny. Ac os rhaid i chwi fyn'd yno, cedwch o'r tafarnau, tai'r felldith ydyn' nhw. Mi fyddaf fi yn meddwl wrth *bassio* eu drysau, mai safnau y pydew diwaelod fyddan' nhw."

Wrth gyfeirio at ddyfodiad Cymdeithas Ddirwest i'r wlad dywedai;—"Yn y gauaf mi fyddwn ni yn cymer-

yd ein rhyddid i fyned ar draws y cae, heb ryw gadw yn glos iawn at y llwybr; ond pan ddelo y gwanwyn, mi fydd y perchenog yn rhoi rhyw rodos ar y llwybr croes; y mae hyn yn dangos fod yr haf yn agos.—Felly y mae y *teetotal* yma, rhyw rodos ydyw ar ryw lwybrau oedd yn cael eu goddef, yn dangos fod haf y Milblynyddoedd yn nesâu.”

“Er ys talwm,” meddai eilwaith, “mi fyddai dyn meddw yn syrthio oddiar gefn ei geffyl, neu dros y dorlan heb gael fawr o niwed. Cyn i *deetotal* ddwad yr oedd dyn meddw fel llô gwlyb, syrthiai a fynai, ni frifai fo fawr mewn cymhariaeth. Ond yrwan, wedi i *Deetotal* ddwad, ar y codwm lleia’, mi dŷr y meddwyn ei goes neu ei wddw’. Y mae rhyw farnau yn disgyn ar y meddwon yrwan rhagor yr oedd. Os oedd Duw yn esgeuluso yn amser yr anwybodaeth, wedi i’r goleu ddwad, y mae yn dial yn ofnadwy am y pechod yma, fel y dywedodd yr hen Ficar,

‘Hir yr erys Duw cyn taro
Llwyr y dial pan y delo.’”

Dywedai wedi hyn:—“Yr oedd arna’ i ofn y nos garw iawn ’stalwm, ac mi ddeudodd rhywun wrthyf fi— ‘Myn di ffon wedi ei thori o’r pren Cas gan Gythraul, ni ddaw yr un bwgan i dy flino di byth tra bydd hon yn dy law di.’ Mi wneis i fel yr oedd o yn peri, ac ni ddaeth yr un bolelo ata’ i byth, pa un bynag ai y ffon ai rhywbeth arall a’i cadwodd o draw. Wel dyma ydyw y *teetotal* yma, mhobol i, ffon Cas gan Gythraul ydyw hi; cydiwch chwi ynddi o ddifrif, mi fydd ar y cythraul fwy o’r haner o’ch ofn chwi.”

Wrth gyfeirio at y daioni a wnaeth Dirwest, dywedai, “Y mae *teetotal* wedi gwneyd cymaint o rwyg yn nheyrnas y cythraul, fel nad oes yno ddim digon o dailwriaid yn uffern i’w gwnio hi i fynu.” Nid oedd un enw rhy ddrwg ganddo i alw y diodydd meddwol

arno, chwiliai ddaear ac uffern, ac os cai o hyd i ryw enw gwaeth na'i gilydd, byddai yn siwr o'i ddefnyddio. Nid rhyw ffitiog oedd o gyda hyn, ond parhaodd yn yr un zel a brwdfrydedd ar hyd ei dymhor. Pa bryd bynag y cai gyfleusdra yn ei bregethau, rhoddai gil-gwth a hergwad i feddwod. Ni dderbynai neb i'r eglwys os nad ymrwymai i fod yn ddirwestwr, a byddai yn sicr o alw i gyfrif unrhyw un a dorai ei ymrwymiad; a'r unig delerau i gael aros yn y tŷ, oedd ail ymrwymo i wadu y ffieiddbeth hwn.

Dranoeth awn gydag ef i'r Bala, i'r ffair; ond ni raid i ni aros yno yn hir; yr oedd y crision yn dod i'r golwg hyd yn nod yn y ffair. Dywedai lawer am gyfiawnder ymarferol,—am i grefyddwyr fod yn onest ac yn eirwir wrth brynu a gwerthu. Wrth anog i wneyd cyfiawnder, dywedai un tro; “Mi ddarfu i ——— (porthmon yn y sir) dori unwaith; ond nid myn'd i fyw yn fras ar eiddo pobol eraill ddarfu fo; na, mi wnaeth ei oreu i dalu ei ddyledion, mi werthodd bob dimmeuwerth oedd ar ei helw, hyd at ei lwy a'i gwpan. Ni chollodd o ddim wrth wneyd felly, o ran mi enillodd gymaint o ymddiried y wlad fel y gall'sai cyn pen y flwyddyn gael gyr o wartheg a gyrhaeddai o Sir Feirionydd i Lundain, a hyny ar goel.” Ac nid canmawl eraill am eu hymddygiad gonest a wnai, ond ymddygai felly ei hunan yn ei holl ymwneyd a'r byd.

Y mae ganddo geffyl i'w werthu yn y ffair: y mae cymydog yn cydfyned âg ef; dywedai wrth hwnw ei fod yn geffyl da, ond i'r *Poll evil* fod arno pan yn ieuanc; anogai y cymydog ef i beidio dweyd hyny, onide na chai gymaint am dano, yn enwedig os Sais a'i prynai, nad oedd dim achos iddo ddweyd; ond os byddai yn rhywun a adwaenai y gallai ddweyd. “O na,” meddai yntau, “mi fyddaf fi yn siwr o ddweyd, pa un bynag ai Sais ai Cymro a'i pryn. Ni fyddaf fi ddim yn fy ngholled o fod yn onest.” Yn y ffair daeth Sais ato,

yno un aflawen o ddrwg yn ei ymyl o; er mai *tyrant* oedd Nebuchodonosor, yr oedd yno rai gwaeth o'r haner o'i gwmpas o; yr oedd cyhuddwyr Daniel yn waeth o'r haner na Darius; ond nid ydyw hi byth yn dod yn dda iawn yn y diwedd ar y tylwyth yma. Pe buase Haman yn gwybod y cwbl wrth wneyd y crogbren, yr ydw' i yn siwr y buasai fo yn ei wneyd o dipyn yn is. Ac am y rhai sydd yn dyoddef, cymerant galon, oherwydd 'Pwy a'ch dryga chwi os ydych yn dilyn yr hyn sydd dda?'

Ac ar ol hyn bu ef a'r Parch. M. D. Jones, Bala, ar daith yn rhanau gorllewinol y sir, yn areithio ar y pwnc hwn, er goleuo y wlad am ei dyledswydd yn wyneb amgylchiadau cyffelyb mewn amseroedd dyfodol.

Yr oedd yn hynod o barchus o enwadau eraill. Byddai yn pregethu yn eu capelau yn aml yma a thraw ar hyd y wlad; a charai yn ei galon bawb yn perthyn i bob enwad a feddyliai a fyddai yn dduwiol. Ond gair go arw a roddai i Eglwys Loegr, a gosodai yn bur drwm weithiau arni hi a'i hoffeiriai. Pan oedd yn lled ieuanc, dywedodd wrth bregethu nad oedd Eglwys Loegr yn eglwys i Grist; ac ar ol ei ddweyd dychrynodd yn fawr rhag y cawsai ei alw i gyfrif ger bron y Cyfarfod Misol. Yn y teimlad yma aeth at y Parch. Mr. Lloyd, Plas-yn-dre', i ofyn iddo a oedd ar fai yn dweyd felly. Dywedai Mr. Lloyd, "O, nid ydyw Eglwys Loegr ddim yn eglwys i Grist. Nid Crist ydyw pen Eglwys Loegr, ond gallai fod yno lawer o Gristionogion ac o bobol dduwiol ynddi er hyny." Cefnogwyd ef yn fawr gan y geiriau hyn o enau un oedd wedi bod yn offeiriad ynddi, fel byth mwyach y traethai ei feddwl arni yn ddifloesgni, pa bryd bynag y gwelai angen am hyny. Nid anfynych y dywedai ymadroddion tebyg i'r rhai canlynol:—

"Mae rhai yn honi hawl yn yr 'Olyniaeth Apostolaidd,' nad ynt yn fwy tebyg i olynwyr yr Apostolion na bychod geifr blaenau Penmachno. Nid aiff neb i bwyso ar 'Olyniaeth Apostolaidd' am eu Parch., ond rhyw garpiach na fedrant ei gael mewn un ffordd arall. Y mae hi wedi myn'd yn wfit yn Eglwys Loegr yrwan,—y mae pobol yn myned i gyffesu eu pechodau i'w hoffeiriai hi tua Llundain yna,—wfit iddyn' nhw meddai fi."

I ddangos mor hoff oedd ef o frodyr o enwadau eraill, a hwythau o hono yntau, dodwn yma yr hyn a anfonodd gweinidog parchus gyda'r Annibynwyr i ni:—

“Un o'r troion cyntaf i mi gael cyfarfod âg ef ydoedd yn hen gapel Tŷ'n-y-bont, yn agos i'r Bala; yma yr oedd hen Annibynwr o'r enw Simon, wedi priodi hen Fethodist o'r enw Lowry; ac addawodd Dafydd Rolant a minau gyhoeddiad iddynt i bregethu ar noson waith; a chawsom gyfarfyddiad ac oedfa ddedwydd. Daeth cryn nifer o fyfyrwyr y Bala i'r oedfa, trodd ei wyneb atynt tua chanol ei bregeth a dywedai, 'Pregethwch y gair, blant! Yr ydw' i am i chwi gael llon'd eich penau o ddysgeidiaeth, a llon'd eich esgyrn a'ch calonau o dân y gair, ac allan a chwi wed'yn, fel llwynogod Samson, a fflaglwch yd y Philistiaid Puseyaidd sydd hyd y wlad yma, a dyna lle bydd athrawiaethau gau yn clecian, a Belphegors yn gwichian, a phechaduriaid yn cael eu hachub, a Duw yn cael ei ogoneddu.'—Daeth lluaws o gyfeillion gyda ni i dŷ Simon a Lowry ar ol yr oedfa; ac eglurodd Dafydd Rolant achlysur ein cyfarfyddiad trwy ddweyd, 'Hen Fethodist ydyw Lowry yma, ond ei bod hi wedi priodi Simon a dwad i Tŷ'n-y-bont i fyw; ac mi fyddaf fine yn dwad yma unwaith yn y flwyddyn fel hyn i daro tipyn o nod gwlan arni hi; mi'r ydw i yn dysgwyl fod Iesu Grist wedi nodi ei chlustiau hi pan ddaeth hi at grefydd gynta.'”

Byddai yn bur dda am fyned i'r Cyfarfodydd Misol. Ni chymerai gymaint o ran yn amgylchiadau allanol yr achos a llawer un; ond siaradai yn dda yn wastad ar y pwnc a drinid yn y cyfarfod eglwysig foreu y cyfarfod. Dywed un hen frawd sydd yn dduwinydd da, y medrai ef ddangos pwnc o athrawiaeth yn oleu mewn ychydig eiriau, yn well na braidd neb a glywodd erioed; ac ychwanegai—“er fy mod i wedi ei glywed o yn pregethu lawer gwaith, ni feddyliais i ddim ei fod o yn gystal duwinydd hyd nez y clywais ef yn traethu ar offeiriadaeth Crist mewn *Society* Cyfarfod Misol. Triniai bynciau athrawiaethol ryw beth yn debyg i ddynion eraill; wrth gyffon ei bwnc yn aml iawn y deuai ei neillduolion i'r golwg.” Byddai pawb yn sirioli drwyddynt pan y gelwid arno i siarad.

Pregethai lawer, pan y byddai galwad ac angen, mewn tai annedd yn ei gymydogoeth ei hun, ac mewn ardal-oedd eraill naill ai i'r cleifion, yr hen, a'r methiant; neu ynte mewn wynnosau; ymwelai a'r cleifion; pregethai mewn angladdau, pan y cleddid wrth y capelydd; cyflawnai y gwasanaeth priodasol i aml i bar ieuanc; a bedyddiai y plant, ac os byddai un yn crïo yn o erwin, dywedai, "Mi dewi a chrïo pan y deui di i wybod dy stad." Ond awn yn rhy faith pe yr aem yn rhyw fanwl iawn gydag ef i bob man ar bob amgylchiad, er y busasai yn hyfryd ac adeiladol i ni fyned. Rywbeth yn debyg i'r hyn a ddywedwyd y treuliai ei wythnosau o foreu dydd Llun hyd ddydd Sadarn.

Ond i ddiweddu yr wythnos, awn gydag ef i'w gyhoeddiad y Sabboth. Byddai yn ofalus iawn am beidio rhoddi ei gyhoeddiad yn mhell ar adeg unrhyw gynhauaf, ond os na byddai dim neillduol yn galw am ei wasanaeth ef na'r ceffyl, âi yn bur bell. Y wisg yr arferai yn gyffredin fyned i bregethu ynddi fyddai, clôs penglin a hosanau bach o *kerseymere*, gwasgod ddwyochrog heb ei chau i fynu i'r top, *dress coat*, cadach du, a'i *goler* yn bur uchel. Ni welsom ef erioed yn ei "gadach gwyn," ac ni wyddom a arferai ei wisgo un adeg ai peidio. Yn ei flynyddoedd diweddaf, cymerodd ei berswadio i wisgo *trowsers* du; felly yr âi yn ddiweddar i'r "trefydd mawr." Ac yr oedd yn destyn llawer o siarad ac o syndod ar y dechreu fod Dafydd Rolant yn gwisgo *trowsers*. Dywedodd ei fod yn teimlo yn rhyfedd pan y gwisgodd ef gyntaf, "Yr oeddwn i yn gweled fy hun yr un ffunud yn union a hen longwr," meddai. Y mae ganddo hefyd gadach mawr am ei ên, *overalls fustian*, côb uchaf, ac yn aml fantell ar hynny; menyg cynes am ei ddwyllaw; ac am ben hyn oll gwisgai het a chantal pur lydan ganddi; cymer ei chwip yn ei law ac y mae yn barod i gychwyn. Y mae yn lled wael, a dywed un o'i ferched wrtho, "Gwell i chwi aros gartref heddyw

wir, nhad bach, hwyrach mai marw ar y mynydd a wnewch chwi wrth fyned." "Wel, ni bydda' fo yn waradwydd yn y byd i chwi," meddai yntau, "pe bawn i yn marw ar y mynydd os bydda' i marw yn y tresi." Ac yn y teimlad yna y mae yn cychwyn yn brydlon ar gefn yr hen "geffyl du," neu fel y galwai efe ef, "yr hen ebol." Adnabyddid y march trwy Dde a Gogledd yn mhell cyn y buasid yn adnabod ei farchog. Bu hwn yn gludydd ffyddlon iddo am gryn ugain mlynedd. Mae yn myned ar ryw *drot* arafaidd ac esmwyth, a'r chwip fechan yn ei law dde, a hono i fynu fel pe buasai am daraw, ond ni welsom ef yn gwneyd erioed. Felly yr âi, a'i fantell yn chwifio yn y gwynt. Mewn ambell i gyfeiriad byddai yr hen geffyl ac yntau yn cyfarfod ag un brofedigaeth pur gas. Er fod y march yn nodedig o lonydd, eto pa bryd bynag y deuai y *goach* fawr o'i flaen neu o'i ol, byddai yn rhywyr i'r marchog ddisgyn; cymerai y march cyfrwys arno ddychryn yn anghyffredin, moelai ei glustiau, ac aflonyddai; tywysid ef i ryw adwy os byddai un yn agos; neu os na byddai, esgynai y meist'r i ochr y clawdd, gan haner dynu y march ar ei ol a dywedai, "Weh, ngwas i,"—neu ambell i waith "be sy ar yr hen ffwl." Fel yna wedi arfer y driniaeth angenrheidiol—canmawl neu fygwth, neu bob un o'r ddau, bob yn dipyn âi y bwgan heibio a byddai y march a'i farchog yn eu lle yn *trotian* yn esmwyth yn mlaen fel arferol. Y mae yn adnabod pawb yn mron y mae yn eu cyfarfod, ac mae ganddo ryw gyfarchiad siriol i'w rod-di i bob un. Byddai yn hoff iawn o'r cyfarchiad hen *ffasiwn* "tydi," yn lle "chwi," i rai yr oedd yn bur gydnabyddus â nhw. Dyma fo yn cyfarfod â hen flaenor yn cael ei flino gan y Diffyg anadl, yr hwn a ymgysurai wrtho fel hyn, "Ni chlywais i am neb yn marw o Ddiffyg anadl ai do Dafydd Rolant?" "Aie, yn wir, Siôn bach, felly y mae nhw yn marw ffordd acw bod ag un," yna chwarddai yn galonog; agorai ei enau wrth chwerthin, chwedl yntau, "fel dor-

au Porthmadog.” Cyferfydd yn nesaf â bachgen i rī-
eni crefyddol, ond nid yw yn y *society* ei hun. Y mae
yn ei anog i fyned yno ar bob cyfrif allan o law. Dy-
wed yntau nad oedd dim neillduol ar ei feddwl yrwan.
“Cerdd yno, fy machgen i,” medd yntau, “pe bae dim
ond o ufudd-dod i dy dad a dy fam, ‘mi eisteddi dy
hunan, ac a dewi a son am ei dwyn hi;’” fe ufuddha-
odd y bachgen, ac y mae yn fyw eto gyda chrefydd, ac yn
tystio fod y *society* gyntaf wedi talu iddo am fyned yno.
Y mae yn nesaf yn cyfarfod a chrefyddwr ieuanc; wedi
ei gyfarch y mae yn gofyn iddo, “A wyt ti yn gweithio
tipyn?—gweithia di ni fagu di byth mo’r *gout*; y peth
hyllaf fyddaf i yn ei weled yn unlle ydyw crefyddwr a’r
gout arno.” Y mae arall yn gofyn iddo am hen gymydog
oedd wedi symud o’r ardal hono i dueddau y Bala, pan
mewn gwrthgiliad, “O,” meddai yntau, “y mae hwn a
hwn yn o dda, a *chysidro* mai ar gyrn y cythraul y
daeth o acw.” Annogai un i gael crefydd, un arall i
ddal at ei grefydd, llawenhai am un arall ei fod wedi
dod at grefydd; fel hyn byddai ganddo rywbeth i bawb.
Ni byddai neb yn waeth o air oddiwrtho ef. Dywed-
odd un ar ol ei farw am dano, “Yr oedd o yr un fath
yn union a melinydd; os cyffwrdd rhywun a chôt ddu
ganddo â’r melinydd, y mae yn siwr o roi ei liw arni.
Felly yntau, yr oedd ganddo gynghor da i’w roddi i
bawb a gyfarfyddai.”

Yn brydlon cyrhaeddai ef ben ei daith; gwyddai pa
le yr oedd ei lety; ac yno ni gawn bawb yn pryderus
ddisgwyl am dano o’r hynaf hyd yr ieuengaf. Croes-
awid ef gan bob gradd a phob oedran. Difyrai yr oll
o honynt â’i chwedlau, ei hanesion, a’i ddywediadau
arabawl a digrifol, yn nghyda’i chwerthiniad iachus.
Rhoddai ef rywbeth mwy sylweddol na geiriau i’r dos-
barth ieuengaf i beri iddynt ei hoffi a chofio am dano.
Enillai bawb i’w hoffi.

Dilynwn ef i’r addoliad boreu Sabboth. Y peth cyn-

taf a wna ydyw rhoddi pennill allan mewn llais clir;
ond odid nad

“Gwaith hyfryd iawn a melus yw, &c.,”

“Melus yw dydd y Sabboth llon, &c.,”

“Tyr'd i fynu o'r anialwch, &c.,”

neu ynte un o Salmau Edmund Prys a fydd. Anaml y darllenai bennill o'r llyfr, hyd nes yr oedd llyfrau hymnau yn fwy cyffredinol; ar y diwedd yr oedd yn gwneyd hyny, ac yn nodi y tudalenau yn drefnus. Y mae yn darllen pennod neu salm yr un mor glywadwy. Dywedodd un wrthym mai darllenwr gwael iawn oedd o; y byddai yn codi ei lais pan y byddai eisieu ei ostwng, ac yn ei ostwng pan y dylai ei godi. Fe allai nad oedd yr oslef a'r pwyslais yn rhyw ry berffaith ganddo wrth ddarllen; pa beth bynag am hyny, yr oedd un rhinwedd ynddo fel darllenwr y byddai yn burion i lawer un wneyd mwy o ymdrech i'w feddu—darllenai y bennod fel y gallai *pawb ei glywed*. Y mae ambell i bregethwr yn darllen gair Duw, neu yn hytrach yn rhyw fwmian, fel pe na byddai eisieu i neb ei glywed; nid oes modd ond clywed rhyw swn, heb doriad geiriau eglur. Ond pan yr â i ddweyd ei eiriau ei hun, tua diwedd y bregeth yn enwedig, hwyrach y gall waeddi nes y bydd ei lais yn ddigon i “holli pen” dyn. Ond yr oedd ef am i'r bobl glywed beth a ddywedai yr Arglwydd.—Y bennod y mae yn ei darllen ydyw yr hon y mae hanes bywhau mab y Sunamees ynddi, a'i fod wrth adfywio wedi tisian. Yna y mae yn gweddio, ac yn dymuno ar ei weddi am i'r Arglwydd beri fod rhyw enaid yn tisian yn yr oedfa hono; a dyna yw ei weddi gan mwyaf o'r dechreu i'r diwedd—dymuno ar fod rhyw bechadur marw yn dyfod i

disian,—am arwydd fod meirw yn cael eu bywyd. “Y mae sylwedd ysgol Jacob yma,” meddai, “ni raid i ti ddim ond dweyd y gair ‘dring i fyny yma’ na bydd y marw yn dechreu cropian tuag yna yn y fan. Dyro’r egwyddor a’n hysgogo ni i fywyd. Y mae dynion y byd yma yn methu cael dim dyfais i gynnyrchu ysgogiad parhaus; ond os cawn ni yr anian fywiol yn ein heneidiau mi aiff yn *berpetually motion* ar bob un o honom. Diolch am angeu’r groes; y mae yma fywyd i’r marw; y mae hwn yn mendio pob camystum sydd yn perthyn i deyrnas y cythraul. Rho ei fywyd i ryw bechadur marw yn yr oedfa yma. Ateba ni gyda throad y *post*. Attolwg Arglwydd achub yn awr. Ni ddaliwn ni ddim llawer, os rhoid di lawer i ni, ni awn yn hoetie yn y byd yma;”—a diwedda ei weddi gyda, “Cofia am bawb, o’n brenines ar ei gorsedd hyd y gwaelaf o fewn terfynau gobaith, a’r *cwbwl* yn enw Iesu Grist, Amen.” Wedi rhoddi pennill arall, dywed ei destyn, ond ddim ond unwaith un amser, a hyny eto mor uchel fel y dealla pawb pa beth ydyw, yn gystal a pha le y mae. Weithiau y mae yn esbonio cryn lawer o gwmpas ei destyn; bryd arall y mae yn disgyn yn ei ganol ar unwaith. Yna y mae yn enwi rhes fawr o benau ond ni byddai yn pregethu ond ar ychydig o honynt. Cymerai olwg eang iawn ar ei bwnc; a dygai lawer o bethau i mewn, nad oeddynt yn dwyn nemawr berthynas a’i destyn. Gwelsom yn un o’i lyfr pregethau ei nodiadau ar Esai. xxvi. 20, “Tyred fy mhobl a dos i’th ystafelloedd, &c. ;” tybiem eu bod wedi eu rhanu yn bump o bregethau; ond wrth weled nifer y penau a’r adbenau, &c., aethom i’w cyfrif; a gwelsom ei fod agos mor fedrus i wneyd penau, a’r hen Buritan hwnw a ddywedai wrth bregethu “yn bedwaredd ar bymtheg a deugain ac yn olaf;” oblegyd cawsom ynddi *ddau cant a phedwar ar ddeg ar hugain* o benau! Y mae ef yn siarad mor uchel wrth ddechreu ei bregeth ag y gwna o gwbl. Siarada

yn glir ac yn ddealladwy bob amser. Pregetha mor uchel, fel mae y byddariaid wedi dod i'w wrando. Pan y deuai ef i bregethu, gwelid yr hen, na chlywent neb arall, yn ymwingo ac yn dechreu dweyd boreu Sabbath, "Mi awn ninnau i'r capel heddyw, gallwn glywed pob gair a ddywed Dafydd Rolant." Ac os oedd yn darllen yn wael yn dechreu, y mae yn siarad yn dda— yn y fath fodd nes cyrhaedd calon pob un sydd yn ei wrando. Yr oedd ganddo dôn wañanol i bawb arall a glywsom erioed. Os gallwn, rhoddwn dipyn o gymhorth i'r darllenydd i gael rhyw amgyffrediad am ei dôn swynol. Tybiwn mai tua G lon y mae ei gyweirnod. Cofied y cerddorion fod gan y pregethwr ei gyweirnod yn gystal a'i gywair. Gallem dybied mai yn y cywair llon y dechreuai; a'r nod cyntaf yn ei bregeth fyddai yr eilfed. Ai i hwyl yn bur fuan, pryd y newidiai y cywair o'r llon i'r lleddf. Esgynai o'r cyweirnod (lleddf) i'r pummed, a disgynai yn ol ar unwaith ambell i dro. Codai bryd arall i'r trydydd lleiaf, disgynai yn raddol i'r cyweirnod, ac i fynu a fo i'r pummed, a chodai rai gweithiau i'r chweched lleiaf. Ond pan y byddai yn dweyd rhai o'i ddywediadau digrifol ac arabawl, chwareuai rhwng y cyweirnod a'r chweched islaw, ac ni ddisgynai islaw y cyweirnod ond y pryd hwnw. Fel mai cylch ei lais pan yn pregethu fyddai o'r chweched islaw i'r chweched uwchlaw. Byddai ei law dde yn codi ac yn disgyn gyda'i lais yn wastad. Yr oedd ei lais, pan yn uchel, braidd yn grâs; er nad yn annymunol felly, ond byddai yn dyner iawn pan y disgynai, ac yn enwedig yn ei ddiweddeb. Ymdrechwn roddi prif neillduolion ei dôn swynol mewn nodau; ond mor amrywiol ydoedd, fel mai anhawdd ydyw gwneyd hyny i foddlonrwydd.

Cofied y darllynydd nad ydym wedi rhanu y nodau yn fânau rheolaidd; gosodir y bânau ar ddiwedd ymadrodd yn unig; fel yr ail roddir y # pan y bydd ei angen o flaen pob nodyn yn y bân. Y mae y rhanau isel i'w canu yn fwy fel *recitatives* nac i ddilyn y nodau yn gaeth. Ac yn y llithrenau o'r cyweirnod i'r pummed, ac o'r pummed i'r cyweirnod, caner fel be bai y cyfwng yn llawn o addurn-nodau ebychiadol.

Met. ♩ = 60.



Dyma fo yn tor-ri allan ac yndweyd "Jo-seph nid yw fyw;"



dyna gelwydd Ja-cob; "Sim-e - on yntau nid yw fyw;"



dyna gelwydd et-to; "Yn fy er-byn i y mae hyn oll;"



an - wir - edd bob gair; glywch chwi mewn difri ar yr hen



bat - ri - arch yn pa - lu cel - wydd tan ei ddwy-lo;—



"Nid â fy mab i i wae - red byth gy - da chwi"—



gan da - ro'i droed yn llawr; ni wyddost ti p'run.

"Pam yr yd-ych chwi'n dweyd hy - ny?" Ond ydyw'r hen
 feis - tr mawr ne - wyn yn dw - ad. Y mae dyn-ion,
 'y mho-pol i, yn heff-ach o'u pe-chod - au nac
 oedd Ja-cob o Ben-ja - min. "Hen wrthgil - iwr yd-w i,
 nid âf fi byth yn ol i dŷ Dduw." Na pe bai'r
 newyn yma'n dw - ad ar - nat ti, mi ddoit i dŷ Dduw
 we-d'yn ar draws po-peth, ac midrott-iet tu - ag y - no
 yr wyth-nos y - ma. Y bo-bol sydd a ne-wyn a
 syched arnynt am gy-foeth, ni ddi-well-ir byth mohonyn nhw;
 y bo-bol sydd a newyn a sy-ched ar-nynt am barch

y byd y - ma, y firoth sa - la yd - yw hw - nw,
ni ddi - gon - iff o neb byth; y neb sydd yn syched -
u am ble - ser - au'r byd y - ma, ni wnaiff y rhai hyny
ond co - di gwano ar dy gorff a'th en - aid di;
ond "Gwyn eu byd y rhalsydd a newyn a syched ar -
nynt am gyf - iawn - der, can - ys hwy a ddi - well - ir.

Arferai roddi ochenaid cyn dechreu ei frawddeg yn ei flynyddoedd diweddaf, gofynodd un iddo, "I beth y byddwch chwi yn ocheneidio fel yna cyn dechreu eich ymadroddion?" "Treio rhoddi rhyw ochenaid at yr Arglwydd am gymhorth y byddaf," atebai yntau, "ac am i'r Arglwydd anfon y saeth i galonau y gwrandawyr."

Safai yn hollol ar ei ben ei hun fel pregethwr. Y tebycaf iddo mewn llawer o bethau y clywsom ni son am dano oedd Rowland Hill; am yr hwn yr hoffai son llawer ei hun, a diamheu fod rhyw gydymdeimlad (*sympathy*) rhyngddo ag ef. Ni wyddom ddim am Rowland Hill ond trwy ddarllen ei hanes a'i ddywediadau, fel nas gallwn gydmaru y ddau o ran eu hymddangosiad

personol. Yr oedd yr un ysfa am bregethu, yr un casineb at ragrith, yr un tynerwch pan y byddai ei eisieu, a'r un craffder yn y naill fel y llall; ac yr oedd y ddau yn hynod o hoff o dynu cydmariaethau oddiwrth bethau cyffredin, a hyny mewn dull gwledig a dirodres. Fe allai fod Hill yn fwy coeth, ond cafodd fwy o fanfanteision dysg a chymdeithas i ymgoethi nag a gafodd Dafydd Rolant. Synai ambell un wrth ei wrando ei fod yn dweyd ymadroddion mor anghoeth a gwledig o'r pulpud. Ond pe y cymerem bobpeth i ystyriaeth, hwyrach mai synu a wnaem ei fod mor goeth. Byddai ei gydmariaethau yn dda "at *use* gwlad" yn ddiau. Hwyrach y dylasai ddefnyddio rhai gwahanol "at *use* tre," gan eu bod yn fwy annealladwy na'r hyn y bwrriedid ei egluro. Y rheol ydyw fod i'r gydmariaeth gynorthwyo er deall y pwnc dan sylw. Deallid ef yn y wlad yn dda, ac anfynych y dywedai yr hyn a darawai yn anghoeth ar glustiau y gwrandawyr yno. Gall rhai o frodyr y trefydd fod yn syrthio i'r un bai ag yntau gyda golwg ar eglurdeb, pan y deuant i'r wlad. Beth wyr y bobl gyffredin ar hyd y cymoedd yma am *prisms, pistons, cylinders, fulcrum* a phethau cyffelyb? Nid ydym yn condemnio defnyddiad y rhai hyn a'u cyffelyb, ond i'r neb a'u defnyddia wybod fod ei wrandawyr yn debyg o'u deall. Ond pe buasai ef yn myned o'i *channel* fel y ceisid ganddo gan ambell un go *sedate*, buasai yn myned yn annaturiol, ac nid efe ei hunan a fyddai. Ceisiai ewythr iddo unwaith er's llawer blwyddyn beidio dweyd geiriau digrif, "Rhaid i ti beidio a gwneyd i'r bobl chwerthin," meddai, "tyn y pethau yna allan i gyd;" dywedai yntau, "Rhaid i mi dynu y cwbl ynte, a pheidio a dweyd dim." "Yr oedd hyny yn hawdd iawn i'w ganfod modd bynag," medd un a wyddai yn dda am dano, "pan fyddai hi yn dyn a chaled arno wrth bregethu, nid oedd ganddo ddim o'r digrifwch yna; ond pan y teimlai ei hun yn hwylus ei

ysbryd, byddai y dywediadau hyn yn dylifo ganddo fel dŵr o botel."

Yn fuan ar ol iddo ddechreu pregethu y mae y gynulleidfa yn methu gwybod pa un ai llawenhau, ac weithiau chwerthin, ai wylu a wna. Cyn i'r wên ymadael oddiar y wyneb ceir gweled y dagrau tryloewon yn ymwithio yn arafaidd oddi rhwng yr amrantau nes y dyfrheir gruddiau yr holl gynulleidfa pan o dan eu gwên. Nis gwyddom am un arddangosiad gwell o eiriau prydfferth y bardd Groegaidd—"Gwenu trwy ddagrau"—na chynulleidfa dan ei weinidogaeth ef.—Y mae bob amser yn tori y bregeth yn ei blas. Y mae yn ledio pennill yn y diwedd mewn tŷn fel yr adroddai bennill ar ei bregeth; ei hoff bennill, yr hwn a lediai yn ardderchog, ar ol pregeth, fyddai

"O gyfiawnder pur tragywyddol, &c.;"

a mentrai ganu yn wresog ar y diwedd, yn yr hen ddull, gadawai iddynt fyned yn mlaen am dymhor—yna rhedai hyd iddynt, ac âi yn ei flaen, a byddai yn y pen yn mhell o flaen pawb.

Byddai yr un mor flasus yn cyfranu yr ordinhad ar ddiwedd yr oedfa. Dywedai yn fynych—

"Mi fyddaf fi yn arfer a dweyd yrwan er's blynyddoedd fod croeso calon i'r neb a ewyllysio aros ar ol. Y mae rhai yn anfoddlawn i mi ddweyd felly, ond ni waeth gen' i ar ddaear befo nhw, yr ydw i yn meddwl yn sicr fod Arglwydd y wledd yn foddlawn i mi."

Yna ar ol arlwygo gwledd i'r disgyblion rhoddai gyfarchiad byr i'r edrychwyr, a dywedai—

"Pam na fuaset ti yn myn'd allan fel y lleill? 'Wel ni waeth i mi ddweyd y gwir na pheidio, wedi cloffi yr oeddwn i.' Yn wir y mae yn rhaid dy fod di yn gloff iawn i fethu myn'd rhyw bum' neu chwe' llath. 'Yn wir y mae swm y *drum* fawr yn mron a'm *dotio* i,' meddai un arall, 'fel y mae arnaf fi flys *listio*.'

Felly y byddaf fi yn arfer a meddwl am y rhai fydd yn aros, mai rhai wedi eu cloffi ydyn' nhw; ac y mae yn rhaid eu bod yn gloff iawn ne mi allen' roddi cam i'r drws. Er nad ydw i yn eu nabod nhw wrth eu hwynebau pan y gwela i nhw yma a thraw ar hyd y wlad, mi fydda i yn meddwl mae rhai tebyg iawn ydyn' nhw i'r ysgrifenydd hwnw y dywedodd yr Arglwydd Iesu wrtho, 'Nid wyt ti bell oddiwrth deyrnas Dduw.'

Yna gweddi ai i derfynu, ac yn mhlith diolchiadau ac erfyniadau dywedai ambell i sylw tebyg i'r un canlynol a ddywedai yn y Bala un o'r troion diweddaf y bu yno—

“Hen lyncwr heb ei fath ydyw angau, mi lyncodd lawer o fustych, o hyrddod, ac o wŷn, na welodd neb na phen na chynffon iddynt byth, ond diolch, ar Galfaria mi dagodd yntau.”

Ar ol darfod, daw rhyw hen wraig i ysgwyd llaw â fo, ac sydd yn bur hyf arno, a dywed wrtho; “Wel Dafydd bach, beth oedd arnoch chwi heddyw? ni che's i ddim byd genoch chwi heddyw.” “Wel, ——— bach, arnoch chwi yr oedd y bai, eisieu i chwi gymeryd, yr oedd yno ddigon ar y bwrdd.”

Rhwng dwy oedfa y mae yn myned i ymweled a gwraig glaf, fe ddywed wrthi—“Dy nerth di yrwan ydyw aros yn llonydd.” “Ie,” meddai hithau yn wanaidd. Yna troai ati yn sydyn wrth ymadael, a dywed—“Ie, dyna ydyw credu—cael nerth i fod yn llonydd.”

Yn bur debyg y treuliai y gweddill o'r diwrnod, er y byddai yn fwy hwyliog ambell i adeg na'i gilydd. Ac ar foreu Llun, wrth ymadael o'i letŷ, dywedai—“Y mae pregethwrs y Methodistiaid yn debyg iawn i'r pryf sidan, ar fore dydd Llun—wedi tynu eu perfeddion ar y Sabboth; a'r unig beth sydd gan y bobol i'w wneyd wed'yn ydyw ein troi ni dros y drws, a'n gyru ni adre' i nyddu peth fres.”

Fel hyn wedi bod yn cyfranu gair y gwirionedd yn gyhoeddus, yn deuluaidd, a phersonol, dychwelai adref yn gynarol ddydd Llun, yn yr un dull ag yr âi. Ac er mor llawen oedd gan eraill ei weled yn dyfod i'w tai, ac

er cymaint y disgwyliad am dano, gallwn ddweyd yn ddibetrus fod y disgwyliad am dano adref gan y teulu, ynghyd â'r llawenydd a'r sirioldeb a welai yno, yn fwy nag a brofai mewn un man arall. "Yn mha le y buoch chi?" gofyn rhyw un iddo—atebai yntau. "A welsoch chi fy nhad yno?" "Do," meddai yntau, "y mae fo yno i ti fel llygoden yn y blawd wrth ben ei ddigon."

Digwyddai i'r hen geffyl golli pedol weithiau tra oddi cartref. Ai ag ef at y gof ei hun; ac arosai am dano mewn rhyw dŷ cyfagos, gan beri i'r gof ddod ag ef yno ar ol ei bedoli. Fe'i pedolwyd, ond nid ai yr hen was gyda dyeithr ddyn. Yr oedd yn rhaid i'r meistr ei hun ddyfod yno i'w geisio. "Gwyddai," meddai, "mai yno yr oedd o wedi fy ngadael i, ac yn y fan hono yr oedd yn rhaid iddo fy nghael i eilwaith. Yr oedd o yn *right drue* i mi." Byddai ar ryw frawd arall eisieu benthyg y ceffyl ambell i waith. Aeth un ar ei gefn i feddwl cychwyn i daith unwaith ond ni chychwynai yr un cam gyda hwn; cafodd y brawd dyeithr fenthyg mantell y prophwyd; yr oedd bob peth yn da ar ol cael y fantell, boddlonodd gychwyn wedi hyny.

Ond aeth yr hen geffyl yn oedranus o dipyn i beth; ac os byddai y daith yn o bell, cymerai gaseg ieuengach. Yr oedd y ceffyl a'r gaseg yn gyfeillion mawr cyn hyn. Ond dechreuodd y ceffyl fyned yn eiddigus o'r gaseg, ei bod hi yn cael ei anrhydedd ef: ar ol hyn ni chai lonydd ganddo, ond brathai a chiciai hi bob cyfle a gai, nes y bu raid iddi dyngu heddwch arno, a rhoddwyd arno leffethair. Gwelwn oddiwrth hyn fod hyd yn nod ei anifail yn ei hoffi, ac wrth ei fodd yn ei wasanaethu. Gadawodd yr hen geffyl fel hyn i wneyd a allai am dymhor; ond er ffyddloned fu bu raid iddo ymadael ag ef; gan nad oedd un *fund* gan y "Corff" i gynnal ceffylau oedranus pregethwyr, a chan mai i wasanaethu y corff yn benaf y cedwid ef, teimlai yn ormod ganddo ei gadw yn hwy ar ei gost ei hun, fel o'r diwedd ar ol teithio

aml i filltir gydag ef, gwerthodd ef, ond nid heb sicrwydd y cai chwareu teg gan ei feistr newydd. Wedi hyn nid oedd ond gwneyd y goreu o'r "boles." Nid oedd hi agos cystal, ac mor ffyddlon a'r hen was, yr oedd yn rhy gyfrwys o lawer. Deallodd yn bur fuan mai un lled ofnus oedd ei marchog;—nid oes odid i greadur direswm yn deall y natur ddynol yn well na march. Felly yr oedd hon; yr oedd fel pe yn gwneyd *sport* o hono bob cyfle a gai. Aderyn yn codi o'r gwrych, careg wen, neu dŵr o geryg ar ochr y ffordd oedd ddi-gon o esgus ganddi dros gymeryd dychryn. Gallesid meddwl, wrth glywed y marchog yn cwyno, mai o'r braidd y gallasai llyffant ymgripio o ffos y clawdd, heb i'r boles droi yn wisg ei hochr, neu yn wir ei "redeg,"—"rhedeg" y galwai efe bob peth cyflymach na *throt* yr hen geffyl. Ac os oedd y ceffyl yn ofni y *goach*, nid rhyfedd fod yn rhaid myned a'r boles o'r ffordd, neu ynte beidio cychwyn y ffordd hono, hyd nes yr elai y drwg heibio. Ni thalai hyn ddim byd yr oedd ei gorff mewn perygl, a'i feddwl yn anesmwyth a gwibiog fel hyn. Nid rhyfedd iddo fyned i ddyfeisio pa fodd i gael trefn arni, i'w dwyn i gerdded rywbeth yn debyg i'r meirch Methodistaidd. O'r diwedd tarawodd wrth gynllun gwreiddiol, am a wyddom ni nad efe oedd y cyntaf i gorffori y drychfeddwl,—sef rhoddi *mask*—ffrwyng dywyll, yn ei phen, fel nas gallai weled dim ond yn syth o'i blaen. Chwerthai aml un yn galonog wrth ei weled yn myned i'w gyhoeddiad gyda *mask*. Ai un bore Sul trwy y Llidiardau tua Thrawsfynydd, gofynai rhywun dirieidus iddo, "A ydych chiwi yn myned i gyfarfod llwyth o *slates* Dafydd Rolant? Cofiwch mai y Sul ydyw hi." "Yr ydw i yn gorfod rhoi *mask* yn mhen y boles yma rhag iddi hi fy rhedeg i,—y mae hi yn wyllt iawn." Yr oedd yn hoff o deithio gyda'r rheilffordd, ac o son am dani. Yr oedd cryn dipyn o wahaniaeth rhwng cerddediad y ceffyl tân a'r ceffyl du.

“Ffasiwn beth ydi fo?” gofynai rhyw un iddo, ar ol ei daith gyntaf gyda fo; “Y peth tebycaf a welais i erioed i'r ‘d——l a'm cipio i' oedd o; yr oeddwn i yn myn'd fel taflu cath i gythraul.” Y mae arnom ofn fod y darlennydd yn gweled y bennod hon yn o faith, ond pa fodd bynag am hyny cymerwn derfyn y bennod hon yn derfyn ei hanes yn treulio ei wythnos, ac yn y bennod nesaf prysurwn i roddi y gweddill o hanes ei fywyd.

PENNOD VI.

BRASLUN O'I HANES HYD DDIWEDD EI OES—EI AFIECHYD—EI FARWOL-
AETH—A'I GLADDEDIGAETH.

YN y flwyddyn 1853, talodd ei ymweliad cyntaf a diweddaf a'r Brif Ddinas.—Yr oedd yn gweled y ffordd yn bur faith, a dywedai yn mhell cyn cyrhaedd y pen, “Tybed nad ydym ni yn mron wedi cyrhaedd walbant y byd bellach.”—Bu yn gwasanaethu y Cymry yno am rai misoedd, ac enillodd iddo yno gyfeillion lawer.

Yr oedd yn mwynhau iechyd pur dda,—oddieithr ei fod yn cael ei flino i raddau gan “*absent of mind*” fel y galwai y pruddglwyf, ar adegau, hyd y deg neu y deuddeng mlynedd diweddaf o'i oes. Tua'r adeg hono bu yn bur hir heb bregethu; ac o dan driniaeth Dr. Owen, Crafnant; yr oedd arno hiraeth mawr am bregethu ond ni chaniateid iddo yn hir; o'r diwedd dywedodd y meddyg wrtho—“Wel, mi gei di bregethu tipyn bellach, ond i ti beidio a gwneyd dim ond un *duty* yn y dydd”—Bu yn wael wedi hyny, a gwnaeth rhai wythnosau o arosiad yn Nhrefriw les mawr iddo.

Yn mis Tachwedd, 1857, bu ei briod farw, yn y 69 flwyddyn o'i hoedran; bu yn briod serchog, ac yn ym-

geledd gymhwys iddo am 35 mlynedd. Yr oedd ganddo ddwy ferch, ond yr oedd y rhai hyny wedi priodi er ys blynyddoedd: ac wedi marw ei wraig yr oedd yn teimlo yn hynod o unig, heb neb ond estroniaid o'i amgylch yn ei dŷ; er bod un ferch iddo yn byw o fewn tua hanner milldir iddo; byddai yno yn fynych, ac yr oedd yn hynod o hoff o'i wyrion bychain, byddai yn ei *nursio* ac wrth ei fodd yn adrodd eu chwedlau plentyn-aidd. Er hyn oll teimlai yn unig pan yr âi unwaith adref: nis gallai feddwl am fod yn segur, na meddwl chwaith am adael ei hen gartref. Am hyny meddyliodd am briodi eilwaith. Ac yn niwedd Rhagfyr, 1858, ymbriododd â Mrs. Blanche Lloyd, gweddw Mr. Hugh Lloyd, Talybont. Yr oedd yn digwydd bod yn llawn mor gyfarwydd—wedi cael ychwaneg o ymarferiad—â'r gwasanaeth a'r neb oedd yn gweinyddu ar yr achlysur, os nad oedd rai gweithiau yn ei hybu.

Hen gapel llwydaidd oedd Llidiardau fel y gwyr llawer; ond yn ddiweddar tynwyd yr hen i lawr, ac adeiladwyd un harddach a helaethach yn ei le. Bu ef yn ffyddlon, ymdrechgar a haelionus i gael yr adeilad i fynu, a'i gael yn ddiddyled. Yr oedd trwy ofal, cynnildeb, a bendith y nefoedd wedi dyfod i amgylchiadau cysurus, ac edrychai ef at ddeg swllt a roddodd at gapel y Bala pan oedd yn hogyn, fel sylfaen ei lwyddiant bydol; yr oedd wedi hel cryn lawer o'r cén sydd yn tyfu ar geryg, at lifo, a phenderfynai roi yr oll a gai am dano at y capel; fe gafodd chweigain a rhoddodd yr arian yn ewyllysgar at yr achos da. Wedi ei lwyddo, parhaodd i'r diwedd yn haelionus at yr un achos da. Yr oedd yn caru llwyddiant teyrnas y Gwardwr yn ei holl ranau; llawenhai wrth weled capelydd yn cael eu hadeiladu a'u helaethu, a'r rhai hyny yn cael eu llenwi a seintiai wedi eu hadeiladu. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, yr oedd ef yn un o'r brodyr anwyl a daniwyd yn niwygiad Beddgelert, ddeugain mlynedd yn ol: bu y lleill feirw

U
oedd
dym
ei h
iatâd
â hi
med
hith
dani
fawr
gole
barb
iawr
new
can
na l
bwr
ber
cait
dân
'shi
I
pro
gyc
iad
bro
pw
ad
gw
er
gr
at
na
h
h

PENNOD V.

“Beth ydi fo?” gofynai rhyw un iddo
gyntaf gyda fo; “Y peth tebycaf a
— I a'm cipio i' oedd o; yr oeddw
oath i gythraul.” Y mae arnom o
yn gweled y bennod hon yn o fait
am hyny cymerwn derfyn y benno
hanes yn treulio ei wythnos, ac yn y b
i roddi y gweddill o hanes ei fyw

PENNOD VI.

— Yr oedd yn gweled y ffr
yn mhell cyn cyrhaedd y
yn mron wedi cyrhaedd wall
y Cymry yno
yno gyfeillion lawer.
— oddieith
“absent of mind”
hvd y deg ne
ar adeg h
adeg h
trinieth
arad h

geledd gymbhwys iddo ar ... ych ar-
 ddwy ferch, ond yr oedd ... yn bur
 ys blynyddoedd : ac ... h, Medi
 teimlo yn hynod o ... y 18fed,
 gylch yn ei dt : er ... rhwng
 tua hanner millid ... yntaf o'r
 oedd yn hynod o ... 'Sabbath

nursio ac wrth ei foga ... of oddiyno
 aidd. Er hyn oli teimlo ... taf y mae ei
 adref : nis gallai feddw ... ef o 1819 hyd
 chwaith am adael ei hen ... du ar hyd Dé a
 am briodi eilwaith. ... hrefydd Lloegr,
 briododd â Mrs. B ... mewn ei deith-
 Lloyd, Talybont ... deithiau o by-
 mor gyfarwydd ... ae ar lawr yn ei
 gwasanaeth ar neb ... dros *ddeng mil* o
 os nad oedd tai ... eu rhoddi i lawr

Hen gapel ... edi 22, 1861, dyma
 llawer; ond ... oniarus dros ddeng-
 adwyd un ... di ei ddystewi. Ni
 fyddion, ...

a'i gael ... beidio a phregethu
 a bendin ... ef i'w ardal ei hun. Ond
 ac eby ... i'r moddion a fyddai yno
 pan oedd ... allan y nos. Cafodd gyf-
 oedd ... ieuainc yr athrofa yr adeg
 at h ... i gefongaeth i'w ieuainc i'r
 cael ... edd wedi dod ... gwaith
 cry ... led talent a ... cael ei
 i'w ... y myfyrwyr yn ... athraw-
 sar ... byddai ambell ... enanc yn
 galon, calonogai ... lai ef yn
 amhen y cofiai ... u ei hun,
 dodd oddiar law ... en frawd,
 manc.

gwrndaw pre ... diardau ar

cyn cyrhaedd diwygiad arall: ond cafodd ef fyw i weled y diwygiad diweddfaf yn ei rym. Parhaodd y tân a dderbyniodd yn farwor gwresog yn ei yspryd dros yr holl amser; a byddai dylanwadau nerthol yn dilyn ei weinidogaeth eto “fel yn y dyddiau gynt fel yn y blynyddoedd gynt.”

Pan yn pregethu ar ol cyfaill ar daith yn Arfon, arferai yn fynych ddweyd y dywediad hwnw o eiddo Christmas Evans, “Wel mi wela eich bod chwithau fel y cocos o flaen llanw, a’ch pigau yn agored am ychwaneg.” Cyn hir wedi iddo ddechreu, deuai y llanw mawr i mewn, a derbynient y fath ddigonedd, nes methu a pheidio a molianu a gorfoleddu. Wedi i’r diwygiad dori allan tua Llanllechid, yn adeg poethder y rhyfel yn y Crimea, dywedai wrth gyfarfod â chyfeillion, mewn llawenydd, “A glywsoch chwi fod *Sebas topol* wedi ei chymeryd?” “Naddo’n wir—ydyw hi?” “Ydyw, mi ddarfu i ni ei chymeryd hi neithiwr yn Llanllechid.”

Pregethai ar y diwygiad mewn un dref, aeth yn orfoledd mawr; daeth yntau i lawr o’r pulpud, a dyna lle yr oedd yn edrych arnynt ac yn mwynhau. Daeth gweinidog Saesonig oedd yn y dref i mewn, ac wrth weled y gorfoledd gwaeddai gyda hwy yn Gymraeg, “Bendigedig.” Gwelodd a chlywodd Dafydd Rolant ef, trodd ato a gwaeddodd yntau yn Saesneg, “*Yes, glory for everlasting gosbel!*”

Yn mhen dwy flynedd ar ol priodi yr ail waith, dechreuodd ei iechyd waelu; a da iddo oedd fod ganddo un mor fedrus i ofalu am dano, ac i weini i’w angenrheidiau a’i ymgeleddu yn ei afiechyd, yr hyn a wnai yn siriol ac yn bryderus. Ond yr oedd yn gallu pregethu ychydig am gryn dipyn wedi hyn. Dywedai rhai ei fod yn rhy barod i gwyno: braidd nad ymddangosai ei fod yn rhy dueddol i gredu ei fod yn afiach; âi ei feddwl i lawr, âi ei gorff i lawr hefyd. Yr oedd ei barodrwydd i gredu ei fod yn afiach, yn tueddu i’w wneyd

felly yn wirioneddol. Yr oedd yn anhawdd credu ei fod yn wael i'r graddau y dywedai ef, wrth edrych arno tua chwe' mis cyn ei farwolaeth. Yr oedd yn bur llesg, ond aeth i Dreffynnon am y ddau Sabboth, Medi 15fed a'r 22ain, 1861, a phregethai yn Bagillt y 18fed, yn Ffynnon Groew yr 19eg, ac yn Mostyn 20fed rhwng y ddau Sabboth. Ei destynau y Sabboth cyntaf o'r ddau oedd, Phil. iii. 8, a 1 Pedr ii. 7; a'r ail Sabboth Rhuf. v. 10, a Psalm cxlviii. 14. Daeth adref oddiyno i beidio pregethu mwy. O'r pryd cyntaf y mae ei ddyddiadur ar gael, hyd ddiwedd ei oes, sef o 1819 hyd 1861, cawn ei fod wedi teithio i bregethu ar hyd Dê a Gogledd, yn holl siroedd Cymru ac yn nhrefydd Lloegr, dros *driugain* o weithiau, heb gymeryd i mewn ei deithiau rhwng y ddau Sabboth; parhai ei deithiau o bythefnos i ddau a thri mis; ac y mae ar lawr yn ei ddyddiaduron, ei fod wedi pregethu dros *ddeng mil* o weithiau, heblaw llawer sydd heb eu rhoddi i lawr ganddo. Ond yn Nhrefynnon, Medi 22, 1861, dyma yr udgorn a udganodd yn glir a soniarus dros ddengmil o weithiau yn Nghymru, wedi ei ddystewi. Ni chlywir ef mwy.

Gorchymynodd y meddyg iddo beidio a phregethu am dymhor, ac felly caethiwyd ef i'w ardal ei hun. Ond gallai fyned i'w gapel ei hun, i'r moddion a fyddai yno y dydd, ond nis gallai fyned allan y nos. Cafodd gyfleusdra i glywed llawer o wyr ieuainc yr athrofa yr adeg hon, a deuai ei galonddid a'i gefongaeth i'r ieuainc i'r golwg i'r diwedd, fel yr oedd wedi dod lawer gwaith o'r blaen. Llawenhai weled talent a hono yn cael ei defnyddio, a chlywed y myfyrwyr yn pregethu athrawiaeth iachus; ac os byddai ambell frawd ieuanc yn teimlo yn wan a digalon, calonogai a symbylai ef yn mlaen ei oreu. Diamheu y cofiai ei deimladau ei hun, a'r driniaeth a gafodd oddiar law ambell i hen frawd, pan oedd yn ieuanc.

Yr oedd yn gwrandaw pregeth yn y Llidiardau ar

ddau o'r gloch Sabbath ychydig o flaen Cyfarfod Misol y Bala, yn niwedd y flwyddyn 1861, pryd yr oedd y taliad olaf yn Meirionydd at "*Fund* yr Athrofa" i gael ei wneyd. Ar ol y bregeth annogodd yntau y bobl i gwblhau eu haddewidion, a dywedai, "Mi gafodd y Methodistiaid golled fawr am nad oedd ganddyn' nhw *college* yn gynt, o eisieu *college* i'n dysgu ni, mi goll'son lawer dyn da. Nid oedd ond ambell un o bregethwyr ffcs y clawdd yn aros hefo'r Methodistiaid, troai y lleill at enwadau eraill lle y cai nhw ddysgeidiaeth. Dyna yr achos iddynt golli Dr. Williams o Rotherham,"—yr oedd newydd fod yn darllen yr erthyglau ar Dr. W. yn "y Faner," ac yr oeddynt wedi cael effaith ddwys arno. Ai yn mlaen a dywedai, "Mi fyddai y Puseyaid a'r ger-iach yma yn cael dweyd y peth a fynen' nhw unwaith, na feiddiai neb agor ei geg yn eu herbyn, bydden' nhw siwr, yn gallu dweyd 'fel ar fel y mae o yn yr ieithoedd gwreiddiol,' ac ni fedrwn i a fy *sort* ddim dweyd yn amgen am na wydden' ni ddim mwy am yr ieithoedd gwreiddiol nac a wŷyr tyrchod daear am yr haul. Ond wedi i'r athrofeydd yma gael eu sefydlu, y mae nhw yn gorfod cau eu cegau yn o *handy*, y mae ene rai yn y *colleges* yma yrwan yn eu gwybod yn well na nhw o ddigon, ac mi allan eu taro nhw i lawr â'r ordd fawr âg un dyrnod na ddywedan' nhw air yn eu herbyn byth mwy. A dyna y cysur sydd gen i," meddai wrth derfynu, a'r dagrau yn treiglo dros ei ruddiau, "wedi i mi fyned yn hen fel hyn, ac i fethu pregethu, gweled oddiar fin fy medd fod cymaint o rai galluog a dysgedig yn codi i gymeryd lle hen gyrrn hyrddod. Y mae yna gymaint a thriugain o honyn' nhw yn y Bala ene, yn barod i fyned allan fel llwynogod Samson, a thân yn eu cynffonau, pe bai ganddyn' nhw gynffonau hefyd, i osod teyrnas y t'w'llwch yn ffagal."

Yr oedd yn awyddus iawn am gael dod i'r capel pan oedd Ieuan Gwyllt yno ar ei daith gerddorol trwy

Benllyn. Adroddai yn ddigrifol dros ben, wrth son am dano, y tro cyntaf y gwelodd ef.—“Yr oeddwn i mewn cyfarfod yn L'erpwl, a Mr. Hughes yn eistedd yn fy ymyl i, gofynais iddo, ‘Yn mha le y mae yr Ifan Wylt hwnw Mr. Hughes?’ ‘Gwyliwch iddo fo eich brathu chwi,’ meddai yntau, ‘y mae o yn eistedd yn eich ymyl chwi.’” Ac wedi methu dod i'w glywed, gofynai i bawb, “Sut yr oeddych chi yn leicio Ifan Wylt?”

Y tro diweddaf y bu yn y capel oedd mewn *society* ddau o'r gloch, Ionawr 8fed, 1862. Cyn myned i'r capel, pan yr oedd yn twymno ei draed yn y tŷ, wrth ei glywed yn cwyno ei fod yn waelach ac yn son am farw, dywedai un brawd oedd yn hoff iawn o hono, “Yn wir, Dafydd Rolant, pan y byddwch chi yn myned i'n gadael ni, dywedwch wrthyf finnau, mi fuasai yn hyfryd iawn genyf gael myned ar unwaith a chwi, yn wir mi fuasai yn felus anghyffredin i ni gael myned i'r nefoedd hefo'n gilydd hefyd. Os ewch chi, ni waeth genyf fi heb aros yn y byd yma wed'yn.” Yr oedd yn olygfa effeithiol iawn gweled y ddau hen frawd yno yn cymysgu dagrau eu cyfeillgarwch.—Nis gallai ddarllen, gweddio, na siarad nemawr yn y cyfarfod hwnw heb wyllo. Yr oedd yr ordinhad i gael ei gweinyddu y Sabboth canlynol; ac âi dros ei brofiad ei hun yn effeithiol iawn, fel y teimlai pan y cyfranogodd gyntaf, a dywedai ei fod yn parhau i deimlo yr un fath o hyd. Yr oedd y diwrnod yn ddiwrnod oer, aeth yn salach mewn canlyniad i hyn. Ar ol hyn cyfyngwyd ef yn benaf i'w dŷ. Yno y byddai yn y gegin, a'r fath oedd cydymdeimlad y wlad âg ef, fel y deuai ugeiniau a chanoedd yno iymweled âgef. Difyrai bawb yr adeg hono, â hanes yr hen dduwiolion er ystalm, neu ffraeth-ddyweddiadau yr hen bregethwyr, neu ei hanes ei hun pan yn dechreu pregethu, ac yn yr ysgol yn Ngwrecsam. Yr oedd yr hyn a ddywedai fel pe wedi ei ystrydebu ar ei gof wrth ei fynych adrodd, ac unwaith y dechreuai deuai allan yn ffrwd. Meddyliem

tua'r pryd hwn am ysgrifenu yr hanesion a ddywedai o'i enau ei hun, ac yr oedd yntau yn cael ei foddhau yn fawr gan y meddwl, a phenododd dranoeth i ddechreu; ond yn anffodus, dranoeth aeth yn salach, fel y bu raid rhoddi y meddwl heibio. Yr oedd ei dymherau wedi myned yn weiniaid iawn at y diwedd; torai i wylo am y peth lleiaf. Yr oedd yn rhaid osgoi y pynciau hyny a gyffyrddent â'i deimladau, am y byddai yn waeth ar ol rhoi ffordd i'w dymherau; ond os cedwid at ryw redle neillduol, byddai mor llawen, a chwaddai mor iachus ag erioed. "Ni fedraf fi ddim son am yr hen bobol dduwiol," meddai, "heb fyn'd i grio; ond mi fedraf son faint a fynwn i am Evan Maesmathew a'r rhei'ny heb grio dim."—Ni soniai ond ychydig am ei brofiad crefyddol yr adeg yma; troai oddiwrth hyn i siarad am *railways*, neu i adrodd rhyw ddigrif hanesion, fel y gallesid meddwl weithiau nad oedd yn meddwl dim am grefydd a mater ei enaid. Wrth ei glywed yn siarad ar y mwyaf am y byd a'i bethau gofynodd un blaenor iddo, "Beth sydd genych chwi yrwan i bwysu arno eich hun o'r pethau y buoch yn eu pregethu i eraill?"—"Nid yrwan ydyw yr adeg i son am grefydd a'i phethau," atebai, "y mae yr afiechyd yn ddigon yrwan; y mae y peth penaf wedi ei settlo er's talwm. Ni ddeil fy nhymerau i ddim i siarad am ddim ond am y byd—rhyw bwnc oer felly, neu os gwnaf mi af yn salach."—Yr oedd arno chwant i'w ddatod, gan nad allai bregethu. "Yr ydw i yr un brofiad â John Jones, Caergwrle—'pulpud neu fedd i mi;' yr oedd wedi dymuno lawer gwaith cael "marw yn y tresi." Yr oedd yn ymwybodol fod ei ddiwedd yn nesu; "O mi aiff y gauaf heibio," meddai un i'w gysuro, "ac mi fendiwch at y *spring*." "Aiff," meddai yntau yn feddylgar, "mi aiff y gauaf heibio toc, ond *everlasting spring* sydd o fy mlaen i."

Yr oedd ei gylch yn myned yn llai o hyd; cyfyngwyd ef i'r *parlwr*, pan nad allai ddyfod i'r gegin; ac wedi hyny

cyfyngwyd ef i'w wely yn gwbl o'r 15eg o Chwefror i'r diwedd. Tua'r adeg yma, fe gollodd ei wybodaeth, ac felly y bu hyd ei awr ddiweddf. Pan na byddai yn cysgu, siaradai am fyned i'w gyhoeddiadau; un diwrnod yr oedd ar gychwyn i Dolyddelen; bryd arall yr oedd yn dychymygu ei fod yr ochr draw i Gadair Penllyn. Os na chafodd farw yn y tresi o ran ei gorff, yr oedd ynddynt yn deg o ran ei feddwl.—Yr oedd yn ei hen elfen ffraeth a digrif hyd y diwedd. Cynygiodd un o'i wylwyr ei dwyllo i gymeryd ei feddyginiaeth, trwy ffugio bod yn rhyw un arall,—“Paid di a threio fy nghogio i,” meddai tan chwerthin, “yr hen Dwm wyt ti, mi wn o'r goreu, wrth weled cysgod dy drwyn di ar y pared.” Methai ei berthynasau agosaf a pheidio chwerthin wrth ei glywed yn aml. Fel hyn bu yn cael ei ddal yn gaeth am tua deng niwrnod, a'i reswm oddiar yr orsedd. Rhwng pump a chwech o'r gloch boreu dydd Llun, Chwefror 24, 1862, daeth “gwas da Iesu Grist” i dori y rhwymau oedd yn ei ddal wrth y ddaear, ac ehedodd ei enaid “i ogoniant.” “Da was da a ffyddlon, buost ffyddlon ar ychydig mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd.” Yr oedd tri math o afiechyd yn cydymosod ar ei fywyd, sef *Disease of the Mitral valves*, *Granular Disease of the Kidneys*, a *General Anasarca*, sef (yn benaf) afiechyd y galon, a'r Dyfrglwyf.—Bu farw yn y 67ain flwyddyn o'i oedran wedi bod yn pregethu am 47 mlynedd, ac yn weinidog cyflawn am 31 mlynedd.

Y dydd Iau canlynol, Chwefror 27ain, ymgynullodd tyrfa luosog o'i gyfeillion i hebrwng ei gorff i'r bedd. Yn y tŷ cyn cychwyn, darllenodd a gweddiodd y Parch. R. Williams, Llanuwchllyn, a chyfarchodd y dyrfa yn fyr ar yr achlysur. Yna cychwynodd yr orymdaith bruddaidd tua Chapel Llidiardau, ac yn y gladdfa yno y claddwyd ef, lle y claddwyd ei frodyr y Parchn. Lewis Jones, a John Thomas, Bala, o'i flaen. Siaradodd

y Parch. John Parry, Bala, yn effeithiol ac i bwrpas wrth y bedd; yna aeth y dorf i'r capel. Dechreuodd y Parch. R. Williams, Cerryg-y-Druidion, a pregethodd y Parch. Lewis Edwards, M. A., oddiar 1 Cor. xii. 4—6, "Y mae amryw ddoniau, eithr yr un Ysbryd. Ac y mae amryw weinidogaethau, eithr yr un Arglwydd. Ac y mae amryw weithrediadau, ond yr un yw Duw, yr hwn sydd yn gweithredu pob beth yn mhawb." Ar ei ol ef cafwyd annerchiadau byrion gan y Parchn. J. Hughes, Gwyddelwern; H. Ellis, (A.) Corwen; M. D. Jones, (A.) Bala; a D. Davies, Corwen; diweddwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. E. Williams, Cynwyd. Yr oedd y capel yn orlawn. Yr oedd yno dros ddeg a thriugain o fyfyrwyr, pregethwyr, a gweinidogion. Ac yr oedd yno lawer iawn wedi dyfod o bell ffordd i dalu eu parch olaf iddo, ac ni ryfeddem nad oedd yno ugeiniau o honynt a edrychent arno fel eu tad yn y ffydd. Dyma un eto o'r hen bregethwyr hynod eu dawn wedi ein gadael; y maent yn darfod o un i un; ac y mae yn drwm genym weled y ddaear yn myned yn brinach o'r cyfryw. Ond "gwneledy dy ewyllys." Terfynwn ei hanes gyda dymuno "Heddwch i'w lwch."

"Ac mi a glywais lais o'r nef yn dywedyd wrthyf, Ysgrifena, Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Ysryd, fel y gorphwysont oddiwrth eu llafur, a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt."

"Fi ga fy nghorph i fynu, fel fy Anwylyd eu,
 Heb nwydau drwg byth mwyach, i'm blino i fel y bu;
 'Does dyn wyr is yr wybr, ddedwydded yw fy lle
 Ac nis gall dyn ddych'mygu dim am bleserau'r ne."

PENNOD VII.

[DAFYDD ROLANT FEL DYN—FEL CRISTION—AC FEL PREGETHWYR.]

YR wyf fi yn cyfrif fod y byd o gryn lawer yn well oblegyd fod y gwr hwn wedi bod ynddo, sef y parth hwn o'r byd yr wyf yn ei feddwl; ac nid oes angenrheidrwydd am brofion er sicrhau fod bywyd a buchedd o'r fath yn werth ei gadw mewn coffadwriaeth i oesoedd pell i ddyfod, i.e., i ddyddiau diweddaf y byd; er fod mod i yn addef yn rhwydd mai yr unig gymhwysder ynof fi i wneuthur hynny ydyw fy nghydnabyddiaeth âg ef am gyhyd o amser.

Rhyw ystyriaeth fel yr wyf yn myned i'w mynegi yn nesaf sydd yn lleithio ac yn oeri mwyaf ar fy nhymer i o bob peth wrth geisio ysgrifenu a chofnodi y bywgraffiad hwn, sef hyn, ac y mae y syniad hwn ynof yn awr;—"I bwy yr wyt ti yn cofnodi? Os i'r oes nesaf neu i'r oesoedd dyfodol, y mae dy waith yn rhywbeth, ac efe a fydd yn newydd i'r rhai hynny; ond os i'th gyd-oeswyr yn yr oes hon, y mae dy hanes oll yn gwbl hysbys iddynt o'r blaen; a pha addysg na phleser ydyw iddynt hwy dreulio amser i ddarllen yr hyn a wyddant mor hysbys?"—Ond i'r syniad hwn sydd yn sibrawd yn fy nghalon yr wyf yn ateb fel hyn;—er nad yw y cwbl, na chwarter y cwbl wyf yn ei fynegi o wirionedd yn newydd, y mae y cwbl wyf yn ei fynegi yn newydd yn wirionedd. Ac er nas gallaf ymffrostio yn y ffaith gyntaf, mi a allaf ymesgusodi yn llwyddianus yn y rheswm diweddaf; a bydded y rhai mwyaf anhawdd eu boddio, os mynant hwy, yn farnwyr; nis gallant, boed a fyddo, wyro y farn hon yn llwyddianus.

I.—**FEL DYN** yr oedd yn gyfaill cu a hoffus. Dywedir yn un o'r hen Drioedd Cymraeg :—“ Tri anhebgorion cyfaill, ffyddlondeb a chywirdeb, callineb a medr, a sirioldeb a thalent i ddyddanu.” Ac yr oedd Dafydd Rolant yn meddu ar gryn lawer o'r anhebgorion hyn.

1. Yr oedd yn gyfaill *cywir a ffyddlon*, yr un yn y gwaelod ag yr oedd yn ymddangos. Gwnai i bawb gredu ei fod yn ffyddlon; ond dangosai hyny mewn llawer modd a llawer dull. Yr oedd y rhinwedd o gadw cyfrinach hefyd yn elfen sefydlog ynddo; a rhagoriaeth gwerth ei grybwyll ydyw y rhagoriaeth hon yn bendifaddeu mewn gweinidog a blaenor eglwysig. Y mae ambell i beth ag sydd eisieu ei gadw heb ei ddweyd er ei fod yn wir,—“ Y mae llawer gwir gwaeth er ei ddweyd.” “ Y mae taenu cyfrinach yn beth arswydus,” medd Williams, Pant-y-celyn. Y mae dyn yn cael ei glwyfo yn nhŷ ei garedigion wrth gael ei siomi yn yr ymddiried hwn; oblegyd nid dysgwyl y gwna y dyn hyn erddo y mae yr hwn a ddatguddiodd ei gyfrinach iddo, ond ymddiried y gwna efe. Ac y mae twyll trwy ymddiried y fath waethaf o dwyll yn nghyfrif holl genhedloedd y ddaear, ac yn marn holl oesoedd y byd. Ac hyd y gwelais i yr oedd efe yn gyfan iawn yn hyn, ac chlywais i neb erioed yn dywedyd fel arall am dano. Ni ddeuai cyfrinach oddiwrtho ef mwy nac o fedd y marw—mwy na phe buasai wedi ei chladdu ddwy lath yn y ddaear. Pwy bynag a all fod yn ddefnyddiol a chymeradwy heb yr elfen hon, nis gall un gweinidog yr efengyl na blaenor eglwysig fod felly. “ Pwy o honom ni sydd gyda brenin Israel?” medd brenin Syria gynt mewn cyffro mawr wrth weled ei ddirgel gynghorau a'i gyfrinachau yn cael eu gwybod ganddo. “ Nid oes neb o honom ni;” medd un o'i gynghorwyr wrtho, “ ond Eliseus y prophwyd sydd yn mynegi i Israel yr hyn oll a lefari di yn dy ystafell wely,”—dywed o yn ddystaw rhyngot ti a'r gobenydd, efe a'i gwybydd.—Nid oedd

dim i'w wneuthur gan mai un o'r Israeliaid oedd yn gwneuthur hyny, ond pe un o'r Syriaid a fuasai yn euog, cawsai ei ddiennyddio am deyrnfradwriaeth.

2. Yr oedd yn gyfaill *call a medrus* i gynghori mewn cyfyngder. Y mae y cyfaill hwn yn werth ei gael. Yr oedd yntau yn hynod o gall. Pan ddywedwyd wrth un am un arall, "Nid oes ganddo fo ddim *common sense*," atebodd yntau, "synwyr cyffredin ydyw y peth mwyaf anghyffredin;" ac yr ydwyf fi yr un farn a fo, y mae llawer o ddiffyg hyn ynom. Ond gwnai ef yn hynod gall weithiau. Medrus iawn, er mai lled ddi-grifol ambell dro, y triniau ambell i ddyn ffrochwyllt a fyddai wedi colli tymer dda; arlwyai wledd i'r neb a fynech i chwerthin yn y ffordd hon yn fynych. Daeth dyn o'r desgrifiad uchod i'w dŷ rywbyrd i adrodd y cam ydoedd ef yn ei gael drwy waith y penteulu yr oedd ef yn aelod o hono yn cam-wneuthur ei ewyllys; "ac mi wnaif fi lŵ Dafydd Rolant," medd efe, mewn mawr zel o'r fath ag ydoedd hi, "nad oedd hwn a hwn ddim yn ei synwyr cyn ac wrth ei gwneuthur." "Mi a wnaif finnau lw hwn a hwn," meddai yntau, "nad oedd acw yr un o honoch yn ei synwyr ond efe." "A ydych chi yn barnu hyny?" medd y dyn mewn syndod;—"Wel, mewn sobrwydd," meddai yntau, "yr wyf yn barnu nad oedd dim cymaint o synwyr gan yr un o honoch, ag oedd ganddo ef, fel y gŵyr pawb ag sydd yn gwybod hefyd cystal a minnau." Ac ni wnaeth efe tra parhâodd yr ymddyddan yr un mymryn chwaneg o welliant na hyny ar y gosodiad cyntaf. Yr oedd hyn yn dro call. Pe yr ymollyngasai gyda'r dyn, gyasai yr holl deulu yn fflagl. Buasai enill Dafydd Rolant o'i blaid yn ffawd mor ffodus yn ngolwg y dyn ag ydoedd gan wŷr Tŷrus a Sidon gynt pan enillasant Blastus o'u plaid. Ond gwyddai ef cynt, nad oedd y dyn yn oael dim cam, ond mai ei lygaid ef oedd yn gam; ond aeth adref yn llawer llareiddiach na phan y daeth yno. Yr oedd efe yn ddi-amheu yn hynod am ei gallineb.

I.—FEL DYN yr oedd yn gyfaill cu a hoffus. Dywedir yn un o'r hen Drioedd Cymraeg:—"Tri anheggorion cyfaill, ffyddlondeb a chywirdeb, callineb a medr, a sirioldeb a thalent i ddyddanu." Ac yr oedd Dafydd Rolant yn meddu ar gryn lawer o'r anheggorion hyn.

1. Yr oedd yn gyfaill *cywir a ffyddlon*, yr un yn y gwaelod ag yr oedd yn ymddangos. Gwnai i bawb gredu ei fod yn ffyddlon; ond dangosai hyny mewn llawer modd a llawer dull. Yr oedd y rhinwedd o gadw cyfrinach hefyd yn elfen sefydlog ynddo; a rhagoriaeth gwerth ei grybwyll ydyw y rhagoriaeth hon yn bendifaddeu mewn gweinidog a blaenor eglwysig. Y mae ambell i beth ag sydd eisieu ei gadw heb ei ddweyd er ei fod yn wir,—“Y mae llawer gwir gwaeth er ei ddweyd.” “Y mae taenu cyfrinach yn beth arswydus,” medd Williams, Pant-y-celyn. Y mae dyn yn cael ei glwyfo yn nhŷ ei garedigion wrth gael ei siomi yn yr ymddiried hwn; oblegyd nid dysgwyl y gwna y dyn hyn erddo y mae yr hwn a ddatguddiodd ei gyfrinach iddo, ond ymddiried y gwna efe. Ac y mae twyll trwy ymddiried y fath waethaf o dwyll yn nghyfrif holl genhedloedd y ddaear, ac yn marn holl oesoedd y byd. Ac hyd y gwelais i yr oedd efe yn gyfan iawn yn hyn, ac chlywais i neb erioed yn dywedyd fel arall am dano. Ni ddeuai cyfrinach oddiwrtho ef mwy nac o fedd y marw—mwy na phe buasai wedi ei chladdu ddwy lath yn y ddaear. Pwy bynag a all fod yn ddefnyddiol a chymeradwy heb yr elfen hon, nis gall un gweinidog yr efengyl na blaenor eglwysig fod felly. “Pwy o honom ni sydd gyda brenin Israel?” medd brenin Syria gynt mewn cyffro mawr wrth weled ei ddirgel gynghorau a'i gyfrinachau yn cael eu gwybod ganddo. “Nid oes neb o honom ni;” medd un o'i gynghorwyr wrtho, “ond Eliseus y prophwyd sydd yn mynegi i Israel yr hyn oll a lefari di yn dy ystafell wely,”—dywed o yn ddystaw rhyngot ti a'r gobenydd, efe a'i gwybydd.—Nid oedd

dim i'w wneuthur gan mai un o'r Israeliaid oedd yn gwneuthur hyny, ond pe un o'r Syriaid a fuasai yn euog, cawsai ei ddiennyddio am deyrnfradwriaeth.

2. Yr oedd yn gyfaill *call a medrus* i gynghori mewn cyfyngder. Y mae y cyfaill hwn yn werth ei gael. Yr oedd yntau yn hynod o gall. Pan ddywedwyd wrth un am un arall, "Nid oes ganddo fo ddim *common sense*," atebodd yntau, "synwyr cyffredin ydyw y peth mwyaf anghyffredin;" ac yr ydwyf fi yr un farn a fo, y mae llawer o ddiffyg hyn ynom. Ond gwnai ef yn hynod gall weithiau. Medrus iawn, er mai lled ddi-grifol ambell dro, y triniau ambell i ddyn ffrochwyllt a fyddai wedi colli tymer dda; arlwyai wledd i'r neb a fynech i chwerthin yn y ffordd hon yn fynych. Daeth dyn o'r desgrifiad uchod i'w dŷ rywbyrd i adrodd y cam ydoedd ef yn ei gael drwy waith y penteulu yr oedd ef yn aelod o hono yn cam-wneuthur ei ewyllys; "ac mi wnaif fi lŵ Dafydd Rolant," medd efe, mewn mawr zel o'r fath ag ydoedd hi, "nad oedd hwn a hwn ddim yn ei synwyr cyn ac wrth ei gwneuthur." "Mi a wnaif finnau lw hwn a hwn," meddai yntau, "nad oedd acw yr un o honoch yn ei synwyr ond efe." "A ydych chi yn barnu hyny?" medd y dyn mewn syndod;—"Wel, mewn sobrwydd," meddai yntau, "yr wyf yn barnu nad oedd dim cymaint o synwyr gan yr un o honoch, ag oedd ganddo ef, fel y gŵyr pawb ag sydd yn gwybod hefyd cystal a minnau." Ac ni wnaeth efe tra parhâodd yr ymddyddan yr un mymryn chwaneg o welliant na hyny ar y gosodiad cyntaf. Yr oedd hyn yn dro call. Pe yr ymoliyngasai gyda'r dyn, gyasai yr holl deulu yn ffigl. Buasai enill Dafydd Rolant o'i blaid yn ffawd mor ffodus yn ngolwg y dyn ag ydoedd gan wŷr Tŷrus a Sidon gynt pan enillasant Blastus o'u plaid. Ond gwyddai ef cynt, nad oedd y dyn yn cael dim cam, ond mai ei lygaid ef oedd yn gam; ond aeth adref yn llawer llareiddiach na phan y daeth yno. Yr oedd efe yn ddi-amheu yn hynod am ei gallineb.

3. *Yr oedd yn gyfaill siriol, a thalent ganddo i ddyddanu eraill.* Yr oedd y rhinwedd hwn ynddo yn mlaen ar y cwbl. Yr oedd efe yn un o'r rhai mwyaf difyrus a welais i erioed. Yr oedd llawer iawn o gyfeillgarwch yn ei ysbryd, ac ychydig iawn o annhymeredd a welid un amser ar ei dymer. Yr oeddwn i yn hoffus iawn o hono fel cyfaill pan y byddai efe yn iach. Efe a fyddai wrth ei fodd yn ddifyr yn adrodd am yr hen bregethwyr, mor ffyddlon a phenderfynol oedd-ynt. Yr oedd William Evans, Fedw-arian, medd efe, yn pregethu yn ardal Llanfachreth ar ryw Sabboth teg o haf. Ond yr oedd y gair wedi dyfod atynt fod llu o erlidwyr yn neshau tuag atynt. Yr oedd wedi dechreu gweddio ar le caregog, "Gadewch i ni," medd yr hen bregethwr wrth y bobl, "chwilio am ryw glwt mwyaf digeryg ag a allom gael; nid wyf fi yn hidio mo'r llawer mewn biswail ceffylau, os lluchiant ni â hwnw, neu fiswail gwartheg." Ac os dywed un ynddo ei hun mai chwedl lled wan i'w hadrodd yw hon, fe allai y buasai ef yn wanach na hithau pe buasai yno ar y pryd, ac y buasai yn rhy wan i ddim ond i redeg adref nerth ei draed rhag cael ei faeddu â cheryg. Yr oedd yn hen ŵr pur scilgar hefyd. Aeth yn gyfaill i erlidiwr yn agos i Ruthyn unwaith. Fe ddaeth yr erlidiwr ato—dyn byr, rhyw ffallach o ddyn—ac a ddywedodd wrtho, "Mi doraf fi eich pen chwi;"—atebodd y pregethwr ef yn ddigyffro, "Mi fyddaf yn dalach na chwi wed'yn." Yna dywedodd yr erlidiwr, "Dyn iawn ydyw hwn, mi rydd ddifyrwch i ni;" ac yfodd haner peint gydag ef. Cafodd lonydd ar ol hyn, ac oni buasai hyn buasant yn ei faeddu fel ci. Dywedodd Crist, "Byddwch gall fel y sarph, ac yn ddiniwed fel y golomen." Rhinwedd mawr yw callineb, ac nid oedd hyn ddim ond callineb. Yr oedd yr erlid cythreulig wedi myned heibio cyn iddo ef ddechreu pregethu.

Mynych iawn y soniai efe am Dafydd Cadwalad, y dychwelwyd ef trwyddo ar y cyntaf, ac yr oedd efe yn

hoffus iawn o hono ar hyd ei fywyd. Clywais ef yn ei adrodd yn pregethu ar y geiriau hyny, “Nac ofna, myfi yw dy darian, a’th wobwr mawr iawn.” “Fe ddywed rhai,” medd ef, “mai ffydd yw tarian y cristion; nage, ‘Myfi yw dy darian,’ medd Duw ei hun.” Yr oedd y Cymro unieithog yn y fan hon yn fwy hapus ei sylw na llawer o ddysgedigion. Ac yr oedd Dafydd Cadwalad mor gyfarwydd yn y Beibl, fel na chymerai efe neb ar ei air, pe buasai efe Gurnal ei hun, os na ddywedai yn ol y Beibl.

Clywais ef yn adrodd Mr. Lloyd, Plas-yn-dre’, gynt, coffa da am dano, yn mynegi y benbleth a fu rhyngddo a’r esgob, sef Dr. Horsley, Llanelwy, gynt, pan oedd Mr. Lloyd wedi ei alw ger ei fron i Lanelwy. Yn fuan wedi dechreu ymddyddan, pan welodd yr esgob fod Mr. Lloyd mor ddigyffro ac mor ddideimlad o unrhyw berygl a dybiai yr esgob fod yn agos ato, efe a gollodd ei dymer yn llwyr, ac a frochodd mewn natur ddrwg. Yr oedd ei wynebpryd yn ymddangos yn llawn o ddrwg anwydau:—“Ni welais i erioed gymaint o gythraul yn wyneb dyn ag oedd yn wyneb yr esgob;” medd Mr. Lloyd, “yr oedd ei wyneb yn crychu gan gythraul.” Y mae yr ymadrodd yn wir, pa beth a ddywedir am y dehongliad nis gwn i. Y mae yn debyg mai ychydig oedd Mr. Lloyd yn ei ofalu am ei foddio ef, ac nad oedd efe yn addaw diwygio mewn dim o’r pethau a roddai yr esgob yn ei erbyn. Ond wedi i Mr. Lloyd fyned ymaith, anfonodd yr esgob ei was ar ei ol; a goddiweddodd y gwas ef wedi iddo deithio tua thair milldir o Lanelwy, a dywedodd wrtho fod yr esgob wedi ei anfon i ddymuno arno ddyfod yn ei ol i gael ymddyddan yn mhellach, a’i fod yn addaw yn sicr y rhoddai efe y lle a’r fywoliaeth oreu oedd ganddo, os deuai efe yn ei ol. “Dywedwch wrth eich meistr,” medd Mr. Lloyd wrtho yntau, “y gall wneuthur ei hun yn dawel am hyny, na ddeuaf fi byth yn ol. Yr wyf

fi wedi dewis fy mhobl i fyw a marw gyda hwynt." Yr oedd Arglwydd yr arglwyddi, yr hwn sydd yn Hollgyfoethog wedi rhoddi bywoliaeth gŵr boneddig i Mr. Lloyd, fel nad oedd arno eisieu bywoliaeth gan esgob Llanelwy. A diamheu ei fod ef yn un o rai rhagorol y ddaear heblaw bod yn ŵr boneddig. Yr oedd Dafydd Rolant yn arfer myned bob blwyddyn gyda Mr. Lloyd i Gymanfa Caer: yr oedd Mr. Lloyd yn barchus ac yn anwyl iawn ganddo.

II.—FEL CRISTION. Yr oedd yn gristion cyfan a chywir. Yr oedd yn llawn cystal cristion ag oedd efe o ddyn ac o bregethwr; ac yr oedd efe, fel y mae yn gwbl hysbys, yn bregethwr rhagorol o dda, ac yn ddyn cyfan a chyflawn, wedi ei gynnysgaeddu â synwyr cyffredin cryf a diwall; a rhwng y tri rhagoriaethau hyn yr oedd efe mewn gwirionedd yn un o weinidogion cymhwys y Testament Newydd. Gwnaethai ei ddoniau gweinidogaethol ef yn gymeradwy yn Liverpool neu Manchester, am dair wythnos; ond pe na buasai efe yn gristion da, ac yn ddyn call a diniwed, nis gwnaethai ei holl ddoniau gweinidogaethol ef yn gymeradwy yn yr ardal hon am gymaint o amser ag y bu efe yma yn trigo; hyny yw yn agos mor gymeradwy ag oedd efe. Rhaid cael cristion da i enill cydwybod pawb i gredu ei fod felly. Ac nid oes berygl yn y byd bellach adrodd cymaint ag a ŵyr dyn o'i ragoriaethau; y mae efe yn ddigon pell oddiyma, fel na chlywai efe air; a phe byddai iddo trwy weinidogaeth angel gael gwybod y cwbl a adroddais am dano, y mae efe yn awr mewn cyflwr o berffeithrwydd dibechod, na byddai yn ddim balchach o'i herwydd. A pha nifer bynag a ymadawsant o Gymru yn y canrif hwn yn meddu y rhagoriaethau hyn, ni ddywedaf fi ddim am hyny yn awr, ond dywedyd mai goreu po mwyaf. Ei ragoriaeth benaf ef ydoedd meddu cyfran lled helaeth o bob rhagoriaeth Cristionogol, fel y dywedodd Hall gynt am Mrs. More:

“Pa beth yn fwyaf hynod oedd ynnddi hi?” gofynai un iddo; atebai yntau, “Nid hynodrwydd mewn un peth oedd ei rhagoriaeth hi; ond crynodd o lawer o ragoriaethau; yr oedd hi yn bendefiges orphenedig.”

Felly yr oedd efe yn gristion digoll yn mron; nid oedd yn ei gymeriad ddim ond brychau am a welais i. Nid oes neb heb ei fai wedi ei eni. Ei wall mwyaf ef—i gael dweyd peth o'i feiau—oedd ei fod yn lled ddira o fyned i'r Cyfarfodydd Misol ar gynhauaf gwair, cynhauaf ŷd, neu gynhauaf mawn. Arferai ddweyd yn rheswm dros hyn y “‘Gwel un llygad meistr fwy na dau gwas;’—er na wnaif fi fawr fy hunan.” Dyna yn ddiarnheu oedd ei fai mawr ef. Amaethwr oedd efe wrth ei alwedigaeth fydol, ac yr oedd efe yn deall trin tir yn rhagorol, ac yn gweithredu fel yr oedd efe yn deall. Yr oedd yn fugail er yn fachgen, ac yn hoff o fugeilio hyd ddiwedd ei oes. Efe a ffynodd yn rhagorol ac a lwyddodd yn y byd, mewn cymhariaeth i'r hyn oedd efe wrth ddechreu. Yr oedd ganddo fwy o *gannoedd* o bunnoedd yn niwedd ei oes, nac oedd ganddo o *ddegau* o honynt pan oedd efe yn priodi y waith gyntaf. Nid oedd efe ddiotal am y byd hwn.

Un rhagoriaeth amlwg ynnddo ydoedd—yr oedd yn amhosibl i unrhyw un dybied ar seiliau gwir fod dim gw'gi, na rhodres, na gwag ogoniant ynnddo; ac ni fethodd y rhinwedd hwn erioed ag enill cymeradwyaeth dwfn a pharhaus yn nghydwybod pob dyn cywir a gonest; ac ni fetha efe byth tra byddo gwir grefydd a'i dylanwad ar galonau dynion yn y byd. Ac y mae y rhai mwyaf amddifaid o'r rhinweddau hyn eu hunain, yn eu tra-chymeradwyo mewn eraill bob amser, nid yn unig a'u tafodau ond yn nheimlad eu calonau. Ac er ei fod ef yn gyffredinol yn siriol ei dymer os byddai efe yn iach, yr oedd efe hefyd yn ddyn difrifol a sylweddol. A chan fod iachawdwriaeth ynnddi ei hun mor anhraethol werthfawr, hyfryd a gwerthfawr iawn yw adgofio ei

dylanwad a'i heffaith ar y rhai a ymadawsant oddiyma yn yr Arglwydd. Ac os gofynir gan ryw un, neu ryw rai, pa fodd yr wyf fi yn gwybod ei fod ef yn meddu llawer o'r rhinweddau rhag-grybwylledig, a pha fodd y gall neb arall chwaith ei wybod i sicrwydd;—y mae gofyniadau anhaws eu hateb na hwn wedi eu gofyn lawer gwaith ar hyd y byd. Yr ateb i hyn ydyw, mai yn hollol ac yn gwbl wrth y rheol a osododd y Prophwyd Mawr i lawr yn ei addysgiadau yn y Testament Newydd, “Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt? pob pren a adwaenir wrth ei ffrwyth; ni ddichon pren drwg ddwyn ffrwythau da.”—Ond y mae yn debyg y meddylir gan laweroedd fod dynion yn fwy tueddol i rithio a ffugio y grasau hyn nac unrhyw rasau; a'u bod yn tybio fod yn haws iddynt ffynnu yn eu hymgais, a llwyddo yn eu hamcan. Nid wyf yn gwadu nad allai hyn fod, ac nid wyf yn gwadu nad yw efe yn bod yn rhy aml; ond y mae y dynion hyny yn amlygu eu hunain mewn llawer dull a modd heb wybod iddynt eu hunain yn fynych iawn, a hyny cyn myned yn mhell i'w hoes.

Ni wnaethai trigo a chyfaneddu o fewn chwarter milldir iddo ef, neu o dan yr un tô am ugain mlynedd ddim i neb feddwl yn waelach am dano na phe buasai efe yn trigo yr holl amser hyny yn Nghaergybi, heb ei weled a'i glywed ond unwaith bob pum mlynedd. Ac ni choeliai efe chwedl ddrwg am neb nes y byddai raid iddo goelio trwy y profion egluraf o'i gwirionedd. Yr oedd rhyw wraig mewn rhyw ardal—a gwybydder mai ffaith ac nid dameg yw yr hanes er fy mod i yn dywedyd *rhywun*, heb enwi y person—yr oedd hi wedi gofyn i un o'r blaenoriaid a gaffai hi ddyfod i'r *society*; ac fe ddaeth y gair o hyny allan cyn iddi ddyfod; a gofynodd rhai iddo yntau a oedd hi am ddyfod, “Ydyw,” medd yntau, “Wel, dyn anwyl,” meddynt hwythau, “y maent yn dywedyd ei bod yn gelwydd i gyd;”

“Nac yw—dim o'r fath beth,” medd yntau, “ni ddywed hi un amser gelwydd i wneuthur dim drwg i neb, nac i fagu cynenau, na gwneuthur drwg rhwng dynion a'u gilydd; rhyw ripian ambell i gelwydd bach gwirion am dani ei hun y bydd hi weithiau; y mae yn rhaid i ni ei rhybuddio i ochelyd hyny rhag llaw.” Ac er mai rhyw ganolig o resymeg y cyfrifid yr amddiffyniad hwn, ac er fod llawer un yn chwerthin ynghil ei ddwrn am y chwedl hon, yr oedd pawb yn ddigon boddlon iddi gael dyfod ar brawf gan fod Dafydd Rolant wedi dywedyd hyny. A'r ochr yna y byddai ef yn gyffredin, os na feddyliai efe fod y person yn gwbl ddiotal am fucheddu yn addas.

Efe a fyddai wrth ei fodd yn hyfryd pan ddelai William, Plasmadog, i'r Llidiardau yma i gadw neu i gynorthwyo yn y *society*; ac Edmund Jones, Filldirgeryg yr un modd. A phan elai William i weddio yn niwedd y cyfarfod, byddai yn gwledda yn hyfryd. Ac yn sicr yr oedd ysbrydiaeth a chyrhaeddiadau gydag ysbrydiaeth odiaethol ar yr hen weddiwr hwnw. Ac nid ymgyrhaedd ac ymdrechu tu hwnt i'w allu y byddai efe; ond yr oedd hi yn llifeirio o'i ysbryd fel dwfr o ffynon. A buasai ofni funud y cawsai dyn ei wahanu yn y byd a ddaw am dragwyddoldeb oddiwrth y cyfryw ddynion, yn raddau mawr o uffern yn nghydwybod dyn ar y ddaear. Beth bynag a fyddo yr wyf yn gobeithio na bydd hyn i mi. A byddai ef yn hyfryd wrth ei fodd yn gwrando ar rai llai eu medr na'r hen weddiwr hwnw.

III.—FEL PREGETHWYR. Yr oedd ei ddoniau gweinigogaethol yn ddigyffelyb. Yr wyf fi yn cofio yr awrhon yr amser cyntaf erioed y clywais ef yn pregethu, ynghylch deugain a chwech o flynyddau yn ol, ar foreu Sabboth yn Bettws-y-Coed; a dylanwadol iawn ar fy nheimlad ydoedd yr oedfa. Y mae yn rhaid dywedyd fod dyeithrwch y pregethwr yn un peth yn gynorthwyol i dynu fy sylw, a minnau yn lled ieuanc; ond nid yw

yn ormod mynegi fod fy enaid wedi ymglymu ag ef erbyn diwedd yr oedfa, a mi a'i carwn ef fel fy enaid fy hun. Yr oedd ei barabl, tŷn ei lais, a'i holl agweddiad yn fy moddio yn ddirfawr; ac y mae yn anhawdd genyf gredu mai natur yn unig a ddylanwadai mor rymus yn hyn i gyd; oblegyd yr oedd llewyrch o'r nef yn tywynu ar ei adroddiad o'r Ysgrythyrau a gysylltai efe ynghyd. Y mae efe mor newydd a bywiog ar fy nghof y dydd hwn, ag ydoedd y pryd hwnw; ac y mae yn ddiamheu nad oeddwn yn unig yn y teimlad hwn; nad oeddwn ond un o gannoedd drwy yr holl wlad, i.e., drwy holl Wynedd. Nid ein synu â'i gywreindeb, na gwneuthur i ni ryfeddu at ei faint yr oedd ef, ond ein cynhesu â'i dân, a'n denu â'i ysbrydiaeth yr oedd efe. A hyn yn ddiau oedd yr achos penaf o'i lwyddiant. Yr oedd efe yn ddyn ei oes fel gweinidog yr efengyl, hyny ydyw, yn bregethwr i gyffredinolrwydd yr oes, ac yn gwbl gymeradwy gan ddynion mwyaf yr oes. Y mae rhai dynion o flaen eu hoes, er nad yw nifer y rhai hyny ond ychydig mae yn debyg mewn unrhyw oes, ond y mae rhai. Dyn o flaen ei oes yn ol pob lle i gasglu oedd John Foster, hyny yw fel pregethwr; oblegyd y mae yn rhaid ei fod ef o'i blaen neu ar ei hol, gan y pregethai efe bob cynulleidfa lle yr elai efe i'r dim, neu i ychydig iawn o wrandawyr, medd yr hanesion. Ond y mae yn fwy na thebyg mai o flaen ei oes yr oedd efe o ryw encyd, fel y gallai un farnu oddiwrth ei bregethau a'i ysgrifeniadau; yr oedd yn rhy uchel i'w wrandawyr o ran meddwl ac iaith. Yr oedd John Elias felly hefyd yn y blynyddoedd cyntaf; yr oedd yn pregethu uwchlaw deall ei wrandawyr am ddwy neu dair blynedd; ac eraill heblaw y rhai hyn a fu yn gyffelyb. Ac y mae rhai dynion ar ol eu hoes, ac y mae nifer y dosbarth hwn yn llawer amlach na'r dosbarth arall, mae yn debyg iawn. Ddeugain mlynedd yn ol yr oedd aml i hen flaenor yn haner pregethwr. Fe ddywedir yn fynych "Yr ydych wedi

spwylio blaenor da, i wneyd pregethwr sal." Gwelsom rai felly, oedd yn flaenoriaid rhagorol, ond wedi eu gwneyd yn bregethwyr, aethant yn llai o lawer na hwy eu hunain. Ond dyn ei oes oedd gwrthddrych ein 'Cofiant,' ac fe gafodd Gwynedd wybod a phrofi hyny; do fe gafodd y diafol hefyd ei wybod er ei golled; efe a gollodd gannoedd o'i ddeiliaid drwy y dyn hwn fel offeryn. Y mae yn annichonadwy darlunio na datgan grym a nerth y weinidogaeth er ys deugain a phump neu haner canrif o flynyddoedd yn ol, trwy amryw o ddynion Duw oedd yn byw yr amseroedd hyny; ond y maent yn gofus gan y rhai sydd mewn oedran i'w cofio. Ond caledodd y wlad ar ol hyn; nid oedd modd i natur ddal y tanbeidrwydd a'r teimlad a amlygid ar amserau, yr oedd yn rhy wan. Fy marn i yw iddo ef fod yn offeryn i droi mwy o eneidiau at Dduw na neb arall yn Sir Feirionydd. Dywedai Mr. Hall wrth ymddyddan ynghylch Whitefield, "Y mae yn annichonadwy *paintio* hyawdledd;" sef nad yw ei bregethau ef yn argraffedig nemawr gwell na phregethau rhyw bregethwr da arall, na dim cystal a'r eiddo dyn dwfn-fyfyrgar. Y mae yr hyawdledd swynol, a'r nerth dylanwadol, i.e., a'r arddeliad dwyfol oll o'r golwg; ond y maent yn ddelweddau gloywon, a glân, ac eglur ar ddalenau coffadwriaeth y rhai oeddynt yn y fan a'r lle ar y pryd; y mae ugeiniau drwy holl Wynedd yn fyw eto, ag sydd yn cofio yr amseroedd hyny yn dda. Medr darluniedydd dynu llun gwyneb y pregethwr fel yr adwaenir ef ar yr olwg gyntaf; ond ni thyn neb lun hyawdledd; ysbryd bywyd ydyw hwn nas gall neb ei ddarlunio yn ddiamheu.

Ac wedi dywedyd ei fod yn ddyn ei oes, gwirionedd hysbys a gwybyddus hefyd yw nad oedd efe yn debyg i neb yn ei oes; i.e., yr oedd efe yn annhebycach yn ei ffordd o feddwl, ac yn ei ddull a'i ddawn i bawb arall na bron neb yn ei oes. A chan fod dyn a'i chwaeth

mor dueddol i amrywiaeth, enill iddo gymeradwyaeth yr oedd hyn hefyd, ac nid milwrio dim yn erbyn ei boblogrwydd. Dyn am amrywiaeth! Ac y mae amrywiaeth i'w weled yn ngwaith Duw o'r ddwy ddeilen i'r ddau enaid; er nad ydym ni yn ddigon craff i'w weled bob amser. Ac y mae yr amrywiaeth yn cynyddu yn ol fel y byddo y greadigaeth yn codi. Y mae dau ddyn yn amrywio mwy oddiwrth eu gilydd na dwy ddafad; a dau feddwl na dau ddyn; ac y mae dau angel yn fwy annhebyg i'w gilydd yn ddiamheu na dau feddwl. Y mae yr annhebygolrwydd yn cynyddu o'r ddau ronyn haidd i'r ddau angel. Dyn ar ei ben ei hun oedd yntau, a hollol wreiddiol. Ond gan mai ceisio ysgrifenu 'Cofiant' Dafydd Rolant yr ydwyf, efe a ddylai y 'Cofiant' fod hyd y gellir. Nid yw yn ddi-chonadwy cael gafael yn yr un o'i bregethau, hyd y gwn i, yn gyfan; canys dywedodd cyfaill i mi wrthyf yn ddiweddar nad oes dim dichon i undyn byw wneuthur dim oll o'i nodiadau ysgrifenedig, sef ei bregethau, er ei fod wedi ysgrifenu hefyd ryw gymaint, ond ysgrifenu iddo ei hun yr oedd efe y cwbl o'i bregethau, heb fwriadu i neb arall fedru byth eu deall, er nad oedd eu dirgelu rhag pawb arall yn amcan ganddo am a wn i, ond ei fod yn gynllun llai trafferthus iddo ef; ac nid oedd efe yn ysgrifenydd cyflym yn ddiamheu, ond lled anniben, ac ychydig oedd efe ar hyd ei oes wedi ei arferyd ar y gorchwyl—gair neu ddau a fyddai ganddo yn fynych iawn yn ei lyfr pregethau am bwnc mawr ag y llefarai arno fe allai am chwarter awr,—yr oedd efe yn gyfarwyddach o lawer ar ei dafod nac oedd efe ar ei bin ysgrifenu. Ond y mae y sylwadau tarawiadol a draethwyd ganddo ar hyd oes faith o weinidogaethu bron yn aneirif pe y cofid hwy. Gan hyny nid annhymig, debygaf fi, a fyddai ysgrifenu rhyw gyfranau o'i bregethau a'i ddywediadau, pe na byddai y dyfyniadau hyny ond byrion.

Mi a'i clywais ef yn pregethu ar y geiriau hyny yn yr ail Salm, "Drylliwn eu rhwymau hwy, a thafwn eu rheffynau oddiwrthym." Ac wrth sylwi ar y rheffynau, ac ar amcan yr Arglwydd yn eu gosod am, ac o amgylch dynion, efe a ddywedodd mewn man ar y bregeth, "Mi a fuaswn, fy mhobl i, yn ofni fod rhywbeth gwaeth na'r *Poll evil* arnaf, pe na oddefaswn fy nhywys gyda y rheffynau esmwyth ac ysgafn hyn." Rhyw friwiau dolurus a blin yw yr afiechyd hwnw ar feirch, yn tori allan ar eu gwarau, yn union yn y fan y mae y rheffyn tywyso i fod. A disglaer iawn y llewyrchai y ffraetheb ar y pryd. Ac nid ffraetheb yn unig ydoedd; fe deimlai pawb yn y lle, yr wyf yn tybio yn sicr, fod pob priodoldeb ac addasrwydd yn ei sylwad, yn enwedig gan fod y gyffelybiaeth o osod rheffyn i dywyso yn y testyn. A chynt o lawer y digiai pob dyn edifeiriol wrtho ei hun oblegyd yr ystyfnigrwydd annuwiol hwn oedd yn ei galon, nac y chwarddai efe mewn ysgafnder pa fodd bynag wrth ffraethineb y pregethwr. Ni chlywais i neb erioed yn dywedyd yr un fath na chynt na chweddi; ac ni chlywaf neb chwaith y mae yn debyg pe y byddwn i byw ddeng mlynedd eto; ac ni chaiff y glust ddigon o glywed, a thrwy glywed y mae ffydd yn dyfod.

Wrth bregethu yn yr Epistol at yr Ephesiad am arfogaeth y cristion; ac wrth sylwi am darian y ffydd a helm yr iachawdwriaeth, medd efe:—"Pe byddai bwlledau a saethau y diafol mor amled o gwmpas y cristion a'r hetiau a welwch ar yr hoelion yna yn awr,—ni fènent ddim mwy arno, ni chlwyfent ddim mwy arno, nac a wnai cacen o datws wedi ei tharo yn erbyn y pared hwn." A chofied pawb mai tatws wedi berwi digon arnynt oedd ef yn feddwl, ac nid tatws oerion heb eu berwi. A pha ddrwg a fuasai neu a fyddai ymlawenhau dan chwerthin yn y gwirionedd comfforddus hwn? Nid yw efe yn unrhyw ddrwg yn ddiamheu. Mae yn sicr i Sarah gael cerydd am chwerthin yn wawdus ac

anghrediniol; ond nid am chwerthin y cafodd hi ei cheryddu, ond am wawdio yn anghrediniol.

Ni welais ac ni chlywais i neb erioed, nac ar lyfr, nac o bulpud, yn esbonio y geiriau hyny am Ioan mor dda ag ef; hyny yw mor eglur a dealladwy i bob math o ddyn;—“Yn mhlith plant gwagedd ni chododd neb mwy nac Ioan Fedyddiwr, ond yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nac ef.”—“Cawr o ddyn mawr oedd Ioan, fy mhobl i,” medd efe, “ond cawr mewn pant oedd efe yn nherfyn y ddwy oruchwyliaeth. Fe wel y *plentyn* o *ben y bryn*, fwy nac a wel y *cawr* mwyaf o'r *pant* dwfn. Yr ydym ni plant y bryniau—yr oruchwyliaeth efengylaidd—mewn cyfle eglur, ac mewn manteision helaeth mewn cydmariaeth iddo ef, ac felly yr ydym yn fwy nag ef.” Da y gwyddai y Messiah mawr pa foddion a fyddai fwyaf effeithiol i enill dynion ac i droi y byd at Dduw, sef pregethu yr efengyl i bob creadur, nid i rai dosbarthiadau, ond i bob creadur.—Arglwydd y cynhauaf a anfono lawer o weithwyr i'w gynhauaf. Y mae ef wedi myned oddiar y maes, nis gwelir ef mwy. A chan mor fynych ac eglur yn ngair y gwirionedd y gorchymynir i ni feddwl am ein blaenoriaid y rhai a draethasant i ni air Duw, ac y mynegir hefyd fod coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig—pwyl gan hyny na theimlai ei hun yn gefnog a chalonog i fyned yn mlaen?

Clywais ef wrth ddarlithio ar ddirwest yn adrodd hanes rhyw hen ddafad a fyddai yn arfer a myned i le perygl a serth ar ysgythredd craig; byddai hi yn medru myned a dychwelyd heb syrthio i'r dyfnder oedd danodd, ond byddai ei hoen yn myned yno gyda hi bob blwyddyn, a byddai pob un o honynt yn syrthio i'r dyfnder ac yn tori ei wddf, ac nid oedd i'w wneyd ond gwerthu y ddafad i Rhys y porthmon defaid, a gwerthodd hwnw hi i'r cigydd. Y mae aml un yn Mhenllyn, wedi bod yn arfer haner *pint* neu *bunt* dros eu hoes, a myned a dychwelyd

yn eithaf sobr, a chael eu cyfrif gan bawb yn ddynion sobr; ond yr oedd eu plant a'u hwyrion yn myned yn eithaf hyderus ar eu hol, ond yr oeddynt hwy yn syrthio dros y dibyn erchyll yn lluoedd ac yn gelaneddau.

Pan oedd efe yn gweinyddu gwasanaeth priodas rhyw bar ieuanc, "Wel gyfeillion cu," medd efe, "yr wyf fi yn awr wedi eich anfon dros y *bar* i'r cefnfor; gobeithio y cewch chwi wynt teg o hyn i ddiwedd eich mordaith, gweddiwch am i'r *pilot* mawr eich harwain i'r hafn ddymunol

'Ffrynd pechadur
Dyna'm Llywydd ar y môr.'

Pan oedd yn pregethu yn Llanarmon-Dyffryn-Ceir-iog er ys amryw flynyddoedd yn ol, efe a adroddodd ar ei bregeth hanes a glywsai efe gan un o hen bobl yr ardal hono, am hen offeiriad gwenwynllyd iawn oedd yn offeiriadu yn yr ardal pan oedd y Methodistiaid yn dechreu dyfod i'r ardaloedd hyny i bregethu; "*Upon my word*," medd yr hen berson, gan daro ei ffon yn lliidiog yn y llawr, "ni chant ddim dyfod i'r plwyf hwn i hudo y bobl, na chant *upon my word*." Ond yr oedd yr hwn sydd yn preswyllo yn y nefoedd yn dywedyd, "*Upon my word* hwy a gant, cant *upon my word*;" ac fe gafodd yr hen offeiriad yn weled wedi hyny "*upon my word*" pwy a safodd. Yr oedd yn dda i'r hen berson nad oedd efe ddim yn byw yn amseroedd yr hen oruchwyliaeth; pe buasai byw yn yr amseroedd hyny cawsai ei ddienyddio fel gau brophwyd, am na ddaeth ei eiriau ef byth i ben.

Wrth ddangos y pwysigrwydd o rod-di y gogoniant i Dduw, efe a lefai yn egniol a chlir, "Bydded i ni oll ofalu am dalu y dreth fawr, fy mhobl i, rhag y daw gyru arnom am dani yn fwy disymwth nac y medyliem. Fe yrwyd ar Herod gynt yn ddisymwth iawn am y dreth fawr, ac fe'i halltudiwyd ef o'i dŷ rhag blaen at gyth-

anghrediniol; ond nid am chwerthin y cafodd hi ei cheryddu, ond am wawdio yn anghrediniol.

Ni welais ac ni chlywais i neb erioed, nac ar lyfr, nac o bulpud, yn esbonio y geiriau hyny am Ioan mor dda ag ef; hyny yw mor eglur a dealladwy i bob math o ddyn;—“Yn mhlith plant gwragedd ni chododd neb mwy nac Ioan Fedyddiwr, ond yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nac ef.”—“Cawr o ddyn mawr oedd Ioan, fy mhobl i,” medd efe, “ond cawr mewn pant oedd efe yn nherfyn y ddwy oruchwyliaeth. Fe wel y *plentyn* o *ben y bryn*, fwy nac a wel y *cawr* mwyaf o'r *pant* dwfn. Yr ydym ni plant y bryniau—yr oruchwyliaeth efengylaidd—mewn cyfle eglur, ac mewn manteision helaeth mewn cydmariaeth iddo ef, ac felly yr ydym yn fwy nag ef.” Da y gwyddai y Messiah mawr pa foddion a fyddai fwyaf effeithiol i enill dynion ac i droi y byd at Dduw, sef pregethu yr efengyl i bob creadur, nid i rai dosbarthiadau, ond i bob creadur.—Arglwydd y cynhauaf a anfono lawer o weithwyr i'w gynhauaf. Y mae ef wedi myned oddiar y maes, nis gwelir ef mwy. A chan mor fynych ac eglur yn ngair y gwirionedd y gorchymynir i ni feddwl am ein blaenoriaid y rhai a draethasant i ni air Duw, ac y mynegir hefyd fod coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig—pwyr gan hyny na theimlai ei hun yn gefnog a chalonog i fyned yn mlaen?

Clywais ef wrth ddarlithio ar ddirwest yn adrodd hanes rhyw hen ddafad a fyddai yn arfer a myned i le perygl a serth ar ysgythredd craig; byddai hi yn medru myned a dychwelyd heb syrthio i'r dyfnder oedd danodd, ond byddai ei hoen yn myned yno gyda hi bob blwyddyn, a byddai pob un o honynt yn syrthio i'r dyfnder ac yn tori ei wddf, ac nid oedd i'w wneyd ond gwerthu y ddafad i Rhys y porthmon defaid, a gwerthodd hwnw hi i'r cigydd. Y mae aml un yn Mhenllyn, wedi bod yn arfer haner *pint* neu *bunt* dros eu hoes, a myned a dychwelyd

yn eithaf sobr, a chael eu cyfrif gan bawb yn ddynion sobr; ond yr oedd eu plant a'u hwyrion yn myned yn eithaf hyderus ar eu hol, ond yr oeddynt hwy yn syrthio dros y dibyn erchyll yn lluoedd ac yn gelaneddau.

Pan oedd efe yn gweinyddu gwasanaeth priodas rhyw bar ieuanc, "Wel gyfeillion cu," medd efe, "yr wyf fi yn awr wedi eich anfon dros y *bar* i'r cefnfor; gobeithio y cewch chwi wynt teg o hyn i ddiwedd eich mor-daith, gweddiwch am i'r *pilot* mawr eich harwain i'r hafn ddymunol

'Ffrynd pechadur
Dyna'm Llywydd ar y môr.'

Pan oedd yn pregethu yn Llanarmon-Dyffryn-Ceir-iog er ys amryw flynyddoedd yn ol, efe a adroddodd ar ei bregeth hanes a glywsai efe gan un o hen bobl yr ardal hono, am hen offeiriad gwenwynllyd iawn oedd yn offeiriadu yn yr ardal pan oedd y Methodistiaid yn dechreu dyfod i'r ardaloedd hyny i bregethu; "*Upon my word*," medd yr hen berson, gan daro ei ffon yn llid-iog yn y llawr, "ni chant ddim dyfod i'r plwyf hwn i hudo y bobl, na chant *upon my word*." Ond yr oedd yr hwn sydd yn preswyllo yn y nefoedd yn dywedyd, "*Upon my word* hwy a gant, cant *upon my word*;" ac fe gafodd yr hen offeiriedyn weled wedi hyny "*upon my word*" pwy a safodd. Yr oedd yn dda i'r hen berson nad oedd efe ddim yn byw yn amseroedd yr hen oruchwyliaeth; pe buasai byw yn yr amseroedd hyny cawsai ei ddienyddio fel gau brophwyd, am na ddaeth ei eiriau ef byth i ben.

Wrth ddangos y pwysigrwydd o rod-di y gogoniant i Dduw, efe a lefai yn egniol a chlir, "Bydded i ni oll ofalu am dalu y dreth fawr, fy mhobl i, rhag y daw gyru arnom am dani yn fwy disymwth nac y medyliem. Fe yrwyd ar Herod gynt yn ddisymwth iawn am y dreth fawr, ac fe'i halltudiwyd ef o'i dŷ rhag blaen at gyth-

anghrediniol; ond nid am chwerthin y cafodd hi ei cheryddu, ond am wawdio yn anghrediniol.

Ni welais ac ni chlywais i neb erioed, nac ar lyfr, nac o bulpud, yn esbonio y geiriau hyny am Ioan mor dda ag ef; hyny yw mor eglur a dealladwy i bob math o ddyn;—"Yn mhlith plant gwragedd ni chododd neb mwy nac Ioan Fedyddiwr, ond yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nac ef."—"Cawr o ddyn mawr oedd Ioan, fy mhobl i," medd efe, "ond cawr mewn pant oedd efe yn nherfyn y ddwy oruchwyliaeth. Fe wel y *plentyn* o *ben y bryn*, fwy nac a wel y *cawr* mwyaf o'r *pant* dwfn. Yr ydym ni plant y bryniau—yr oruchwyliaeth efengylaidd—mewn cyfle eglur, ac mewn manteision helaeth mewn cydmariaeth iddo ef, ac felly yr ydym yn fwy nag ef." Da y gwyddai y Messiah mawr pa foddion a fyddai fwyaf effeithiol i enill dynion ac i droi y byd at Dduw, sef pregethu yr efengyl i bob creadur, nid i rai dosbarthiadau, ond i bob creadur.—Arglwydd y cynhauaf a anfono lawer o weithwyr i'w gynhauaf. Y mae ef wedi myned oddiar y maes, nis gwelir ef mwy. A chan mor fynych ac eglur yn ngair y gwirionedd y gorchymynir i ni feddwl am ein blaenoriaid y rhai a draethasant i ni air Duw, ac y mynegir hefyd fod coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig—pwyl gan hyny na theimlai ei hun yn gefnog a chalonog i fyned yn mlaen?

Clywais ef wrth ddarlithio ar ddirwest yn adrodd hanes rhyw hen ddafad a fyddai yn arfer a myned i le perygl a serth ar ysgythredd craig; byddai hi yn medru myned a dychwelyd heb syrthio i'r dyfnder oedd danodd, ond byddai ei hoen yn myned yno gyda hi bob blwyddyn, a byddai pob un o honynt yn syrthio i'r dyfnder ac yn tori ei wddf, ac nid oedd i'w wneyd ond gwerthu y ddafad i Rhys y porthmon defaid, a gwerthodd hwnw hi i'r cigydd. Y mae aml un yn Mhenllyn, wedi bod yn arfer haner *pint* neu *bunt* dros eu hoes, a myned a dychwelyd

yn eithaf sobr, a chael eu cyfrif gan bawb yn ddynion sobr; ond yr oedd eu plant a'u hwyrion yn myned yn eithaf hyderus ar eu hol, ond yr oeddynt hwy yn syrthio dros y dibyn erchyll yn lluoedd ac yn gelaneddau.

Pan oedd efe yn gweinyddu gwasanaeth priodas rhyw bar ieuanc, "Wel gyfeillion cu," medd efe, "yr wyf fi yn awr wedi eich anfon dros y *bar* i'r cefnfor; gobeithio y cewch chwi wynt teg o hyn i ddiwedd eich mor-daith, gweddiwch am i'r *pilot* mawr eich harwain i'r hafn ddymunol

'Ffrynd pechadur
Dyna'm Llywydd ar y môr.'

Pan oedd yn pregethu yn Llanarmon-Dyffryn-Ceir-iog er ys amryw flynyddoedd yn ol, efe a adroddodd ar ei bregeth hanes a glywsai efe gan un o hen bobl yr ardal hono, am hen offeiriad gwenwynllyd iawn oedd yn offeiriadu yn yr ardal pan oedd y Methodistiaid yn dechreu dyfod i'r ardaloedd hyny i bregethu; "*Upon my word*," medd yr hen berson, gan daro ei ffon yn llid-iog yn y llawr, "ni chant ddim dyfod i'r plwyf hwn i hudo y bobl, na chant *upon my word*." Ond yr oedd yr hwn sydd yn preswyllo yn y nefoedd yn dywedyd, "*Upon my word* hwy a gant, cant *upon my word*;" ac fe gafodd yr hen offeiriad yn weled wedi hyny "*upon my word*" pwy a safodd. Yr oedd yn dda i'r hen berson nad oedd efe ddim yn byw yn amseroedd yr hen oruchwyliaeth; pe buasai byw yn yr amseroedd hyny cawsai ei ddienyddio fel gau brophwyd, am na ddaeth ei eiriau ef byth i ben.

Wrth ddangos y pwysigrwydd o rod-di y gogoniant i Dduw, efe a lefai yn egniol a chlir, "Bydded i ni oll ofalu am dalu y dreth fawr, fy mhobl i, rhag y daw gyru arnom am dani yn fwy disymwth nac y medyliem. Fe yrwyd ar Herod gynt yn ddisymwth iawn am y dreth fawr, ac fe'i halltudiwyd ef o'i dŷ rhag blaen at gyth-

reuliaid am nacau talu y dreth fawr; a llawer o wŷr cefnog eraill a ddaliwyd yn ddisymwth iawn i'w gorfodi i dalu y dreth fawr."—Ac nid oes achos am well dywedyd; oblegyd y mae gan bawb ddigon o fodd i'w thalu os bydd ganddynt ewyllys i wneuthur hyny, a meddwl am dalu. A pha beth a wneir i'r rhai hyny nad oes ganddynt nac ewyllys na meddwl am dalu ond gyru arnynt? Nid yw y rhai hyny yn deilwng o un math o gydymdeimlad. Y mae y Messiah yn canmol y dyn trugarog hwnw a faddeuodd y ddyled i'r truan a'r tlawd, am na feddai fodd i'w thalu ac am iddo ymbil âg ef.

Mewn cymdeithas eglwysig rywbyrd er ys hir o amser bellach, yr oedd ymryson cyndyn a dyryslyd iawn rhwng rhai o'r bobl a'u gilydd; ac mor anhawdd oedd unioni y camwri o bob tu yn yr ymryson tymhestlog a chas, fel y dywedodd ef o'r diwedd, "Rhoddwch y *bill* a'r achos dyrus yma, da chwi gyfeillion, yn y cwd gwyrdd i aros y *session* fawr,"—gan gyfeirio at arferiad y cyfreithwyr pan yn cychwyn o'r brifddinas i *sessions* y Dywysogaeth. Ac yr oedd pawb o fewn y lle yn gweled nad oedd dim arall i'w wneuthur. Ac os na heddychasant a'u gilydd yn nhymer eu hysbrydoedd, cafwyd llonydd ganddynt o hyny allan.

Clywais ef amryw weithiau yn dywedyd wrth son am barhad mewn gras cadwedigol, "Camgymeriad yw dywedyd fod cwmp o gyflwr cadwedig: ac y mae yn amhosibl fod *fall out* cyn bod *fall in*; ac achos ymadawriad dynion â chrefydd yw na chawsant erioed *fall in*."—Y mae llawer rhan o athroniaeth yn ddigon eglur wrth ac wedi ei thraethu, ac y mae dynion yn synu atynt eu hunain na buasant hwy yn ddigon doethion i wybod hyny cynt.

Pan oedd Abraham y Ceunañt, rywbyrd wedi cael ei ddigio yn dost gan un o'i gymydogion, cyfarfu Dafydd Rolant ag ef yn edrych yn gyffrous a digofus. Gofynodd

iddo a oedd efe yn myned yn mhell; atebodd yntau, "Yn blaen i chwi," arferai y gair "*yn blaen*" yn aml iawn "y mae hwn a hwn wedi gwneuthur fel a'r fel a mi; a glywsoch chwi erioed son am y fath dro? Yr wyf yn myned at y cyfreithiwr i'w rodidi yn llaw y gyfraith." "Wel, Abram Jones," medd yntau "y mae y Beibl yn gorchymyn peidio ymddial—'nac ymddielwch rai anwyl.'" "Diolch yn fawr i chwi," meddai yntau, "am ddywedyd gair y Gwr wrthyf, mi a af yn fy ol adref y munyd hwn." Ac efe a bryurodd adref neb ymddiddan dim ychwaneg. "*Y Gŵr*," y galwai efe yr Arglwydd yn fynych iawn.

Pan oedd efe ryw bryd yn sylwi ar gystudd Job, dywedai yr achos na chyffyrddodd y gelyn ddim â'i dafod, "Pe buasai y diafol yn gwybod," medd efe "mai bendithio Duw y buasai efe wedi cael ei dafod yn ddiddolur, efe a darawsai ei dafod nes ei wneuthur gymaint a mawnen," a phryd arall dywedai—"Mi fuasai wedi rhoddi penddyn cymaint a meipen yn ei geg o." Y mae yn ddiamheu fod gan y gelyn yr un faint o genad a goddefiad i wneuthur hyny ag oedd ganddo i daro rhanau eraill o'i gorph.

Na rwgnached neb gan ddywedyd mai ryw giniaw o lobsgows yw y traethawd hwn o'i ddechreu i'w ddiwedd; oblegid y mae yma ddigon o gig i gyfartalu y tatws a'r maip a'r cyfan.

Yr oedd Dafydd Rolant yn addfedu i'r Ganaan nefol o hyd "fel y cyfyd ysgafn o yd." Ac er nad oedd yn hen pan y bu farw, eto yr oedd wedi treulio oes hynod o faith. Dyma ei brofiad un o'r dyddiau diweddfaf y bu efe byw cyn colli ei wybodaeth; y mae ei enw ef wrth y penill yn "Theomemphus":—

"Pan ddelo'r awr i fynu, a deued yn ei phryd,
Mi agora'm mynwes i ti, a gwna dy waetha i gyd;
'Rwy'n blino ar y ddaear,' rwy'n brefu am y wlad
Lle mae fy Nuw, fy Iesu, fy Mhriod a fy Nhad."]

PENNOD VIII.

LLOFFION O'I DDYWEDIADAU.

RHODDIR yn y bennod hon ryw fân ddywediadau a ddywedodd efe yma a thraw wrth bregethu ac ar adegau eraill. Rhoddwn hwynt fel y'u cawsom, neu fel yr ydym yn eu cofio, mor agos ag y gellir yn ei eiriau ef ei hun, heb na nôd nac esboniad arnynt.

“Yr oedd cof Dafydd Cadwalad fel uffern, ni ddywedai byth digon, a pha beth bynag a fwridd yno ni ddenai byth oddiyno.”

Yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Elias, dywedai—

“Mi saethwyd llawer ato fo, ond yr oedd o yn ehedeg mor uchel, fel yr eryr, ni chyffyrddodd yr un o'u saethau nhw na phluen nac aden iddo erioed.”

Pan alwyd arno i ddweyd gair yn Nghymdeithasfa y Bala ar ol marwolaeth Mr. Parry o Gaer, dywedai—

“Nid oes genyf fawr i'w ddweyd, ond fy mod i yno yn ymweled âg ef ychydig cyn iddo farw, ac yr oeddwn i yn ei weled o fel y wenol ar y tô, ar gychwyn i'r *foreign lands*, pob peth yn barod.”

Wrth wneyd sylw ar farwolaeth Mr. Davies, Fronheulog, dywedai y gellid dweyd—

“‘Wele Israeliad yn wir yn yr hwn nid oedd dwyll.’ Gellid meddwl am dano wedi iddo gael ambell i gerydd pur lym gan hen ddiaciaoniaid da perthynol i Gyfarfod Misol Sir Feirionydd, na welem y gŵr mawr o Fronheulog byth ar ol hyn. Ond y Cyfarfod Misol cyntaf wed'yn byddai ef yno yn gyntaf un, yn ysgwyd dwylaw, ac yn trefnu yn nghanol ei frodyr tlodion, fel pe na buasai dim erioed wedi digwydd. Yr oedd ‘y dwr i fywyd; ragywyddol’ yn tarddu yn bost o hono.”

Ar ol marwolaeth y Parch. Cadwaladr Owen, Dolyddelen, dywedai—

“Yr oeddym ni yn gallu procio pechaduriaid o'u llochesau ar hyd yr amser, ond methu dal dim; ond mi ddoi Cadwalad

Owen â'i rwyd fawr, ac mi taenai hi ar ein holau ni, ac yr oedd yn dal clampiau o logiau mawr o bechaduriaid."

Pan y gofynwyd iddo fath bregethwr oedd un brawd, oedd yn enwog fel offeryn i enill eneidiau, atebai—

"Nid oes ganddo fo yr un *ganau*, nac ond *gwn* pur gyffredin ond eu cymeryd nhw hefo'r *bagnet* y mae fo."

"*Gwlad well y maent hwy yn ei chwenych.*"—

"Y mae gwŷr arianog Llundain ar ol casglu eu miloedd lawer yn eu *business* yn myned i fyw i'r rhan hono o'r dref a elwir y *West End*. Felly y mae y saint hefyd; wedi iddyn' nhwythau fod yma mewn llafur a lludded am dro, y mae nhw yn symud oddi yma i fyw, ac yn myned i'r *West End*—i 'wlad well.' Pa le y mae llawer o'r hen gyfeillion a goll'som ni o'r ardal yma? O, y mae nhw wedi myned yn crmod byddigions i aros yma, y mae nhw wedi symud i'r *West End*. Y mae y saint i gyd yn cael myned adref mewn cerbydau tân. A chafodd Sarah Dafydd, Drawsfnnydd, fyned i'r 'wlad well' yn yr un cerbyd a Dr. Chalmers (buont farw yr un diwrnod), er ei fod o yn gallu adnabod y ser wrth eu henwau, ac er cymaint gwŷr oedd o. Y mae y duwiolion i gyd yn Fyddigions y nefoedd, ac yn cael myned adref yn eu *carriages*."

"Y mae cyrchu rhyfeddol i weled rhyfeddodau yr *Exhibition* Llundan ene. Y mae acw hen fyddigions braf tua'r Bala acw; mae nhw yn myn'd i'r nefoedd yn eu cloesie yn gynt o lawer nac y mae pobol y *veils* a'r sidanau yna efo'u hannuwioldeb. Mi fyddaf fi yn edrych ar balasau yr annuwiolion fel ar *gwtches* tatws, ac ar y byddigions annuwiol fel tatws wedi llygru ynddyn' nhw. Er eu gwychder, y mae melldith Duw uwch eu penau nhw, a chymaint oll ag a fedda' nhw. Mi fydda' yn well gen' i fyw a marw yn mwthyn Cadi Rondol, ac yn nghap nos Abram y Ceunaent, oedd am ei ben yn cychwyn i'r nefoedd, a bod yn heddwch Duw, na chael trigo yn y palasau goreu a fedd y byd yma, a bod wedi hyny yn wrthodedig ganddo ef yn y diwedd."

"Mi fyddai yn well gen i, mhobol i, fyw mewn hafotty ar ben mynydd, a byw ar datws a halen a Beibl mewn twll yn y mur, na bod yn y palas gwycha' heb yr un Beibl, ac heb allor i Dduw gael ei chodi yno."

"Oni buasai fo l yr efengyl genym ni ar hyd y wlad yma, yn mhell o gyrhaedd y llanau, mi fuasem mor dlotted o grefydd a llygod eglwys,—o ydyw y rhei'ny yn dlottach na llygod eraill."

“Pe palech chwi-aur fel palu pridd, os heb yr efengyl, mi fyddech cyn dlotted a llygod eglwys.”

“Mi fyddai yn well genyf fi fyned i werthu nôd coch, na myn'd i bregethu yr efengyl er mwyn elw.”

“Y peth sydd yn ei gwneyd hi debycaf y caf fi fyn'd i'r nef-oedd ydyw fod darnau o honof wedi myned yno.”

“*Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist.*”—Dangosai fel yr oedd Duw yn gwneyd peth mor fawr a chyhoeddi ei efengyl trwy offerynau mor wael, a pha fodd na buasai Efe yn codi y rhai hyny i enwogrwydd. Dywedai,

“Sut na b'ase y Brenin Mawr yn rhoi pregethwrs ei efengyl yn eu *coaches*?—Pe felly ni buasai pobol Dolyddelen wedi clywed yr efengyl eto; oblegyd ni ddaeth yno yr un *goach* trwodd erioed o Riwbryfdir i Dolyddelen.”—(Dywedodd hyn er ystalm; ni buasai yn wirionedd y dyddiau presennol.)

“Yr oeddwn i yn edrych ar Bont Menai yn beth rhyfedd iawn y tro cyntaf; ond wedi ei gweled hi dipyn o droiau, nid oedd hi yn ymddangos yn ddim mwy rhyfedd na berfa drol ar balmant. Ond am yr iachawdwriaeth yma, pa fwyaf a edrychaf fi iddi, rhyfedda yn y byd y mae hi yn ymddangos:—

‘Pan bwy'n rhyfeddu un peth, un arall ddaw i 'mryd,
O! iachawdwriaeth rasol! rhyfeddod wyt i gyd.’”

“Yr oedd y patriarchiaid vn gweled trwy yr addewidion fod iachawdwriaeth i gael ei *uaparu* ryw dro; yr oedd yn amlwg iddyn' nhw ei bod hi yn mwriad Duw, ac yr oeddynt yn credu y rho'id y bwriad mewn gweithrediad; ond yr oeddynt yn methu deall pa fodd yr oedd cael y ddau pen at eu gilydd.—Pan oedden' nhw yn adeiladu y *Tub'lar Bridge* yna ar yr afon Menai, yr oedd yno un darn o honi un ochr, a darn arall yr ochr arall. ‘Wel,’ meddai rhywun ar y lan, ‘pe bai modd cael y ddau yma at eu gilydd, mi wnai y tro yn *noble*. Ond nid oes un *power* all dd'wad a nhw at eu gilydd.’ Ond mor gynted ag y daeth y *machinari* mawr yno, mi cododd nhw at eu gilydd, ac mi cysylltodd nhw, mor hawdd ag y rhydd neb y tecell ar y tân; felly fe gafwyd ffordd rhwng Mon ac Arfon. Felly y darfu Duw; er mor anhawdd ydoedd, mi allodd o trwy anfon ei Fab i gymeryd ein natur ni, ac i farw yn ein lle, wneyd ffordd ddiogel i'r euog gael myned i'r nefoedd

‘Wedi ei phalmantu ganddo ef,
O ganol byd i ganol nef.’

Er lleted oedd yr adwy, mi llenwodd y Mab hi â'i haeddiant ei hun ;

'Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr
Fe'i llenwodd â'i haeddiant ei hun.'

"Y mae crochan ffydd yn ffitio i'r dim ar drybedd gras."

"Y mae dyn wrth *actio* ffydd fel dyn yn nofio : nid oes dim yn eisieu i ddyn wrth nofio ond ymollwng, ac estyn ei ddwyllaw a'i draed, mi cynalia y dwr o ; felly nid oes eisieu i ddyn ond gorphwys, pwysu, ei enaid yn dawel, mi cynalia y drefn o."

"Y mae yr angylion yn hoff iawn o ddwad i roi tro i'r ddaear yma. Ond nid i'r *House of Lords* y mae nhw yn myn'd gyntaf ; nid ydyw yn ddim byd ganddynt fyn'd yno. 'Dydyn' nhw ddim yn *meindio* mwy yn yr esgobion sydd yno na phe byeddn' nhw fonion *cabbage*."

"Yr oedd rhyw ddyn yn mlaen y Sir yma yn dweyd ei fod wedi bod yn sychlyd a chaled iawn ; ond yn bresenol wedi dyfod i eglwys Dduw, ac i foddion gras, ei fod wedi dyfod dan y pistyll, a'i fod o yrwan yn dechreu mwydo tipyn yn ara' deg. Dowch chwithau, er mor galed a sychion ydych chwi o dan y pistyll, mi gewch eich mwydo yn iawn ; y mae dwr y bywyd yn tywallt i lawr y dyddiau yma."

"*Mi a briodais wraig, ac am hynny nis gallaf fi ddyfod.*"

"Y penbwl gwirion, pam na fuaset ti yn dwad a hi yno hefo thydi."

"Pe gwnait ti yr holl ddaion a wnaeth y patriarchiaid, y prophwydi, yr apostolion, a'r seintiau o ddechre y byd tan yrwan, ni wneit ti ddim cymaint a thwll wimbled i fyn'd i'r nefoedd wed'yn."

"*Trwy ras yr ydych yn gadwedig.*"

"Dinas annuwiol iawn oedd Ephesus, a phobol ddrwg ddiwedd oedd yr Ephesiaid cyn i'r efengyl eu cyrhaedd nhw. Yr oedd y cythreuliaid yn ei *lordio* hi yn braf drostyn nhw. Ond wedi i Paul fyn'd yno i bregethu, yr oedd yn rhaid i'r cythreuliaid *yieldio* ; nid oedd raid ond myn'd a napeynau neu foledau oddiwrth gorff Paul at y bobol oedd wedi eu meddiannu gan ysbrydion drwg, na byddai y cythreuliaid yn chwyrlio myn'd allan o honyn' nhw. Mi roedden' nhw yn diengyd rhag ofn cap nos Paul. Ond yr oedd yno ryw garpiach eraill, meibion Scefa, yn ceisio bwrw allan gythreuliaid i ddynward Paul ;

ond nid oedd ar y cythraul tdim o'r hofn nhw, yr oedd o yn cwrwian arddu' nhw fel ffwbart newn gwyl : yr oedd yn gallu dweyd yn eiddat hyl. "Yr Iesu yr wyf yn ei adnagodi, a Phaul a adwaen, eiddat pwy pwyen nhw, aguragwa uffern? ac mi ddiang oedd ddydd' nhw yn bur amryw' nai gwension ddiio fo oedden' nhw. Yr oedd ganddyni' nhw yffran wchho hefyd beth aneur' : ond rhyw ddiwrnod mi blaethant a'r llyfrau yma i gyd at eu pelydd, gwneyd waelarth o ddydd' nhw : yr oedd yno iwr mawr o ddynt gynaant a thomen y Baia : ond mi rhoison' nhw ar dan : zy i yn agwyddi' tawh, ac aeth ama' : Beiphegor i fyny yn y mwg iau wicman fel porneal newn llydiart."

"*Y mae afon a i Frydian a lawenhant ddinas Duw.*"—

"Edrychwch chw: ar yr afonydd yma, y mae y fwyaf yn llyneu y llea' o hyd. Y mae y Dyfrtwy yn llyneu yr afon Liw, y Tryweryn, yr Arwen, a'r cwbi hyd Afon Goch knosllanerchragog. Felly y mae afon Duw yn llyneu pob afon arall—y mae Aberth y groes wedi llyneu yr holl aberthau—Afon Goch Calafia wedi llyneu yr holl afonydd o waed a redodd o dan yr hen oruchwyliaeth. Ac y mae yr afon yma yn gwneyd pob peth a ddaw iddi yn bysgod, fe, y pricie crin ag sydd yma, tafier chw i hon, mi gewch eich gwneyd yn salmons braf."

"Byw trwy ffydd yr oedd Abraham; nid oedd o yn gofalu dros dranoeth; nid oedd yn rhoi bara yn y pobdy ddiagon dros wythnos, na dim ond pob teisen fel y byddai ei heisien."

"Yn ddynion a'r Ysbryd arall yma y dylem ni fod gyda ehrefydd, fel Caleb a Josua, fei pe cydai y cythraul yn ein trwynau ni a gefai, bedoli na throem ni ddim yn ein holau."

"Yr oedd Dafydd yn trwtws gweddio o hyd ar bob amgylchiad. Ingian (*Engine*) weddio oedd Dafydd."

"Mi laddodd Dafydd y cawr nes oedd o yn farw ar y clwt. A phan aeth o ar ei gefn o i fyned i dori ei ben, nid oedd o ond fel e'lomen ar waelod hogshed."

"*Gwrybuddwch i'r Arglwydd neillduo y duriol iddo ei hun.*" Dywedodd—

"Dewisodd yr Arglwydd Dafydd ac nid Saul; ac mi ddechreuodd Saul genfigenu wrth Dafydd a'i erlid o; ceisiai ei oreu am ei fywyd o. Mi ddaeth am y boneyn a fo ryw ddiwrnod, a rhyw foneyn tebyg iawn i Mynydd Nodol acw oedd o; ond dyma ryw un yn dwad a'i wynt yn ei ddwrn at Saul, ac yn

dweyd, 'Y mae y Philistiaid yn llenwi y wlad,' a bu yn rhywyr iddo fyn'd i ymladd a'r rhei'ny. Fel hyn mi yrodd y cythraul y cwn yn mhenau eu gilydd, fel y gallodd dafad Duw ddianc yn iach a diogel."

"Peidiwch bobol a gadael un pechod yn fyw. Pe buasai Saul wedi lladd yr holl Amaleciaid, ni buasai yr un Amalecyn yn fyw i'w ladd ef."

"Dylasai Jehosaphat fod yn fwy *stylish* gyda'i grefydd, na myned i gwtwsa gyda rhyw fflagwd annuwiol fel Ahab."

"Yr oedd ar Pharaoh eisieu crwper garw pan oedd o yn gyru ar ol yr Israeliaid."

"'Y mae arna' i eisieu cael fy mhobl o'r Aipht,' meddai yr Arglwydd. Wel hys lau! hys lyffaint! hwi gythraul! gwnewch eich goreu er iddyn' nhw gael myn'd."

"Yr oedd Pedr fel ceffyl melin, y pwn yn ormod ryw ochr o hyd. I ddechreu, dywedai, 'Ni chei di olchi fy nhraed i byth,' wedi hyny, 'Nid fy nhraed yn unig ond fy nwylaw a'm pen.'"

"Rhyw ffrwt oedd Pedr. Ac nid oes fawr o ddaioni mewn bachgen gyda chrefydd os na bydd tipyn o ffrwt ynddo. Yr oedd hogen o forwyn yn ddigon i'w ddychrynu fo unwaith, nes y gwadodd ei Arglwydd, ac mi aeth i regi ac i dyngu. Ond rhyw rigwm o'r rhegi mwya' sychlyd a glywodd neb a'i glustiau oedd o, yr oedd yn amlwg nad oedd o yn arfer llawer â'r gwaith. Ond ar ol dydd y Pentecost yr oedd o wedi cael cyfnewidiad trwyadl; os oedd hogen yn ei ddychrynu fo o'r blaen, ni fedrai mawrion yr Iuddewon mo'i ddychryn o wed'yn; nid oedd o ddim yn *hidio* dim ynddyn' nhw, mwy na phe b'ase nhw fonion cabbage."

"Mi drodd Pedr yn ei garn yn llys yr archoffeiriad. Yr oedd arno eisieu cŷn yn ei garn garw iawn. Gobeithio y cawn ni ein gwaredu rhag pregethwyr a blaenoriaid llac yn eu carnau."

"Yr oedd hi yn helynt garw ar y disgyblion yn amser y croeshoeliad. Yr oedd Pedr yn edrych yr un ffunud a gafr ar d'ranau."

1 Pedr ii. 7, 8. "Os nad ydyw Iesu Grist yn fwy gwerthfawr na phawb a phobpeth yn dy olwg di, mi elli benderfynu na chredaist ti erioed ynddo. Nid rhyw bellen ddiffyg ydyw Iesu Grist, rhaid i ti ei gymeryd yn bob peth neu gymeryd dy *siawns*. Yr oedd yr 'adeiladwyr' gyda chrefydd, ond yr oedden' nhw

wedi llysu y maen. Mynwch grefydd, y mhobol i, aiff a'r Iesu yn ben y gongl. Fe allai fod yma rai yma wedi gwrthod y maen, a thrwy hynny y maent wedi selio eu damnedigaeth eu hunain. Ond y mae yn dda genyf feddwl nad ydyw yr *Ustus* mawr ddim wedi *signio y death warrant*. Y mae Pedr pan y mae o yn ysgrifenu yr epistol yma yn cofio yn ddiarnheu y diwrnod y bu fo o flaen y cyngor yn Jerusalem, nos dydd y Pentecost, pan yr oedd y penaethiaid wedi cymeryd gafael yn yr hen bregethwr oedd wedi bod yn gwneyd cymaint o ddrwg i uffern yr holl ddiwrnod hwnw. Yr oedd hi wedi myn'd yn rhy hwyr i'w ddwyn o flaen y cyngor y noswaith hono, ond fe'i dygwyd y dydd canlynol. Yr oedd o wedi cael ei wisgo â nerth o'r uchelder. Ac yr oedd o yn dweyd y gwir yn eu gwynebau nhw, 'Hwn,' meddant, 'yw y maen a lyswyd genych chwi, yr adeiladwyr, yr hwn a wnaed yn ben y gongl.' Yr oedd y swyddogion gwladol yn meddwl y buasen' nhw yn ei ddychrynu fo; ond yn lle hynny y fo a'u dychrynodd nhw. Yr oeddyn' nhw mor barod i fyned oddiwrtho ag a fyddai dyrnaid o fanus ar ben yr Aran o flaen y corwynt."

Y Llenllhan. "Mae yn syn i'w ryfeddu, mhobol i, mai Pedr, gweinidog yr enwaediad, a roes y bregeth gyntaf i'r cenedloedd. Yr oedd cymaint o *sism* y grefydd Iuddewig yn Pedr fel y bu raid i Dduw ei l'w'gu fo cyn y cychwynai i'w daith. Fel yr oedd o ar ben tŷ Simon yn Joppa, fe ddaeth llewyg arno, ac yn ei lewyg mi welai yr hen drefn fawr yn dwad i lawr yn ddigon *sound*, a'i phedair congl yn y nef, a phob tryblith ynnddi, a galwad ar Pedr i ladd a bwyta. Ond yr oedd *stumog* yr Iuddew yn rhy wan i fwyta dim cyffredin neu aflan. Ond dyma *notice* iddo fo yn union, 'Y pethau a lanhaodd Duw na alw di yn gyffredin neu aflan;' a hwff a fo iddyn' nhw wed'yn, a mawr a fu'r llwyddiant ar yr odfa, 'Disgynodd yr Ysbryd Glân ar bawb oedd yn clywed y gair."

"Mi fyddai yr Iesu yn cymeryd y disgyblion o'r neilldu yn aml. Y mae yn dda genyf fi weled y dynion ieuainc acw yn y Bala yn cael eu dysgu; ond yr ydw' i yn disgwyl y cymer yr Iesu nhw o'r neilldu bod ag un, i ddweyd wrthyn' nhw dipyn o'i *secrets*."

"*Ei ddisgyblion a ddaethant o hyd nos, ac a'i lladrattasant, a nyni yn cysgu.*" "Sut y gwyddech chwi pwy aeth a fo, os nad oeddych chi'n cysgu a'ch llygaid yn agored fel y bydd llewod yn gwneyd. Mi glywais son lawer gwaith am gelwydd du a chelwydd gwyn, ond celwydd du iawn oedd hwn o eiddo yr arch-offeiriaid beth bynag."

“Pan ddaeth tyrfa'r gwaewffyn i'w ddal, yr oedd ein Hiesu ni mor fawr, nid oedd raid iddo fo ddim ond dweyd, ‘*Myfi yw,*’ nad oeddyn’ nhw yn llafnau ar wastad eu cefnau ar y ddaear fel pryfaid genwair; ac ni fuasen’ nhw ddim yn codi byth oni buasai iddo fo eu cynnal nhw.”

“Ni fu erioed gymaint o awydd llifo du ag ar Golgotha. Ni fu erioed gymaint o ddail surion y cwn, yn gymysg a chopros uffern, yn yr un man, a dail bysedd cochion hefyd am wn i, ag oedd ar Galfaria; ond yr oedd yr Iesu yn *gamblic* rhy wyn i'r cwbl, ni life fo ddim er eu gwaetha' nhw.”

“*Gorphenwyd.*”—“Arfer Duw ydyw dweyd llawer mewn ychydig. Rhoddodd fôr o fater i Adda mewn diferyn o iaith, ‘Hâd y wraig a ysiga dy ben di, &c.’ Felly hefyd yn y testun, ‘Gorphenwyd.’ Yr oedd yn orchest gan y Groegiaid fedru dweyd llawer mewn ychydig; ond fe ddywedodd Iesu Grist mewn un gair fwy na'r un Groegun o honyn' nhw; ‘Gorphenwyd,’ rhyw bwt o air ydi fo, mhobol i, ond mi *stretchith* fel *Indiarubber* i dragwyddoldeb.”

“Yr oedd angau wedi llyncu aml i hen gristion,—llyncodd Abram, llyncodd Isaac, a Jacob, a'r hen dduwiolion, ac ni bydd yn dda gen i am dano am ei waith. Ond ar ol llyncu y naill ar ol y llall yn hwylus, o'r diwedd, ar Galfaria, mi gafodd ormod o damaid, fe drodd yn *idigestion* arno fo, nes y bu raid iddo fo ei fwrw i fynu y trydydd dydd. A'r pryd hwnw, ‘Angau,’ yntau, ‘a lyncwyd mewn buddugoliaeth.’”

Phil. iii. 9. “*Ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, &c.*”—“Yr oedd yr hen Apostol wedi bod yn gwneyd rhyw ffurfafen o hunan gyfiawnder, yr oedd ganddo gryn lawer o ser yn ei grefydd. Os ydw i yn cofio yn iawn, y mae saith o honyn' nhw yn cael eu henwi ganddo yma; ac mi dybygwn i mai ‘yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf yn ddiargyhoedd’ oedd ei dwr tewtws o; ond ryw ddiwrnod mi newidiodd nhw bod ag un am *un* Haul. Pan ddaeth yr Haul i'r golwg, fe aeth ei ser dysglaer, a'i dwr tewdws, a'r cwbl i'r t'w'llwch yn y fan, a dyna fo yn dweyd, ‘yr wyf yn cyfrif bob peth yn dom, fel yr ynillwyf Grist.’ Y mae yn angenrheidiol gwerthu llawer mewn trefu i enill Crist. Mi fydd y ffarmwyr yma pan yn ymadael a'r hen ffarm yn gwneyd ffair *Auction* ar yr hen *stock* oddentu Calangauaf; ac wed'yn, yn Ebrill, yn hel y man settliach i gyd i'w gwerthu yn llwyr cyn troi allan Galanmai. Yr ydwyf fi, mhobol i, yn hyderu yn gryf fod plant y diwygiad yma wedi myn'd trwy y ffair fawr Galangauaf beth bynag; ond y mae yn rhaid gwerthu y cwbl yn llwyr cyn cael cwbl feddiant o'r etifedd-

iaeth anllygredig sydd ynghadw y nefoedd i'r saint. Fechgyn anwyl a ddowch chwi i wneyd ffair ar eich pethau yma heno, yr ydych wedi cael digon o amser i welod na fedrwch chwi ddim myn'd yn mlaen efo'r hen *stock*. Derbyniwch arian y brenin yn eu lle, efo hwnw y cewch chwi fyned i mewn i'r llys. 'Ac y'm ceir ynddo ef, heb fy nghyfiawnder fy hun.' Nid oes dim rhyngot ti a chael crefydd, ond un gair tair llythyren, y gall plentyn ei *spelio* fo—h-e-b 'heb fy nghyfiawnder fy hun, a dyna hi yn dy afael di yn union. Pan fo dyn pwysig mewn tre, megys *twrne* neu *ddoctor*, wedi symud i fyw o'r hen dŷ i dŷ arall, mi fydd 'to be found yn y fan a'r fan' yn cael ei roddi ar y drws. Felly yr oedd Paul yn myn'd o'r hen gyflwr, rhoddodd arno 'Y'm cair ynddo Ef;—a pha le y mae y Sais hwnw yrwan [un oedd wedi dymuno cael tipyn o Saesoneg ganddo], dyma iddo fo lonaid ei geg o Saesoneg,—'to be found in Him.'"

"Yr oedd Paul, y mhobol i, yn *ffond* iawn o eglwysi y saint; ond yr oedd o yn *ffondiach* o'r Philippiaid na'r un o'r lleill. Yr oedd o yn bur *ffond* o'r Galatiaid, ond yr oedd yr ymgrafu ar eu clustiau nhw, rhyw ysfa ddrwg am wrando athrawiaethau dyeithr."

"Beth ydyw myned a'n hunan gyfiawnder at Grist? Yr un peth ag a fyddai i bobol Sir Feirionydd acw fyn'd i gario glo i Ruabon."

"Y mae y gwragedd yma yn myn'd a'r toes at y tân yn gyffredin, ond y mae llawer yn arfer myn'd a'r lefain i'r bwtrri neu rywle digon oer. Y mae crefyddwyr oerion yr un fath yn union, y mae nhwthe fel lefain yn cael eu cadw yn mwtrri y cythraul."

Clwb mynydd Seion.—"Nid ydw i mewn unrhyw glwb. Y mae ganddyn' nhw lawer o glybiau yn y byd yma, ac y mae rhyw reolau yn perthyn iddyn' nhw. Ond yr wyf finnau yn meddwl fy mod i yn perthyn i glwb mynydd Seion. A phau af fi yn sâl, ar hwn yr ydw' i yn meddwl byw. Ac y mae yma lawer eraill yn aelodau o'r clwb yma. Edrychwch ati, mhobol i, am gadw'r rheolau;—rheolau y clwb yma ydyw y bymthegfed Salm."

"Gwylwch golli blas ar bethau yr efengyl. Y mae tafell o fara haidd gydag archwaeth dda, yn well na'r bara gwenith gore heb hyny."

"*Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch*"—"Y mae yma rai na flinent yn ei rhodio, pe caent eu lluchio â chloncwiau."

Trysor wedi ei guddio mewn maes.—"Prynu y maes yma a wnaeth yr hen Sion William o Gynwyd, yn frenin yn Edeyrn-

ion,—mor gyfoethog o sancteiddrwydd nes yr oedd ar annw-
iolion arswyd yn ei bresenoldeb.”

“Hwyrach mai mewn cyfarfod *teetotal* y cafodd y bachgen o hyd i'r *faen*; wedi iddo gael o hyd i'r wythien, mi gymerodd forthwylion gweddiau, ac ebillion myfyrdodau, i dori twll yn y graig, y mae y powdwr yn cael ei dywallt iddo o gorn iachawd-wriaeth, ac fe ddisgynodd gwreichionen o dân o'r thuser aur oddiar yr allor, nes yr aeth hi yn chwalfa, ac mi wnaeth ei *ffortune* am dragwyddoldeb.”

“Y mae y fath beth a chyrhaedd llawn sicrwydd gobaith yn y byd yma; ond nid yw y cristion yn addas i'w gael o bob amser. Y mae y gwelltyn tua mis Awst yn rhy feddal i ddal y pen melyn main, ond wedi iddo gael ei galedu gan wres Medi, bydd yn ddigon caled i'w ddal o. Y mae llawer o honoch chwithau yma yn rhy weiniaid eto i ddal llawn sicrwydd gobaith, ond wedi i chwi gael eich caledu gan wres profedigaethau a chystuddiau, mi fyddwch cyn hir yn ddigon cryfion i ddal llawn sicrwydd gobaith.”

“Pe caem ni lawn sicrwydd ffydd yma, ar lawer adeg, a golwg ar y gogoniant mawr, mi aem yn *hoits* gyda'r byd yma; ni fydden' ni ddim yn ffit i drin y byd yma wed'yn; ond y mae yn rhaid i ni edrych ar ei ol o tra y byddwn ni ynddo fo.”

“Y mae y cristion yn debyg iawn i arch Noa; fel yr oedd y dyfroedd yn ymgryfhau ar y ddaear, yr oedd yr arch yn nesu at y nefoedd o hyd. Felly fel y mae dyfroedd profedigaethau'r byd yma yn cynyddu i'r cristion, nesaf yn y byd i'r nefoedd y maent yn ei godi o hyd.—‘Ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.’”

Arwyddion yr Haf.—“Y mae arwyddion pur amlwg pan fyddo'r haf yn nesu. A dyna un arwydd fod yr haf yn nesu ydyw y cywion gwyddau a'r ebolion bach. Mi fydd y plant o gwmpas y Bala acw, yn cael difyrwch mawr pan fydd y cywion gwyddau yn dechreu ymddangos. Y mae y cywion gwyddau ar yr helyg yn dangos fod Gŵyl Ifan yn ymyl. Yr un fath y mae arwyddion yn ymddangos yn mhrofiad dyn duwiol. Nid ydyw dechreu haf ddim yn mhell ar lawer un sydd yma. Pa sut y gwyddoch chwi? Wel, y mae yma dipyn o gnapiâu o gywion gwyddau ar helig eu profiad, ac y mae golwg *nice* i'w ryfeddu arnynt. Y mae yr haf yn bur agos, a phan ddaw yn Wyl Ifan ffarwel Wyliau Nadolig a'r eira mawr wed'yn; *everlasting sunshine* fydd hi wed'yn. Diolch am ambell i adnod yn y profiad weithiau,—‘Canys ni a wyddom os ein daearol dŷ o'r babell

hon a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd.—Canys nid oes i ni yma ddi-nas barhaus, oblegyd un arall yr ydym yn ei disgwyl.—Y mae'n ddiogel genyf nas gall nac angau, nac einioes . . . ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd.—Beth ydyw y rhai'n? Tipyn o gywion gwyddau ar helyg profiad yr hen chwaer acw, yn dangos fod yr haf yn ymyl, fod Calanmai yn agos iawn. Diolch am dipyn o gywion gwyddau!" [Ar yr adeg hon torodd yn floeddio a gorfoleddu trwy y capel. A gofynai y diweddar Mr. Hughes, Liverpool, i un o'i ysgoleigion yn Ngwrecsam, y gwyddai oedd yn dod o'r ardal hono, "Oeddych chwi yn un o'r rhai hyny aeth i orfoleddu wrth i Dafydd Rolant son am gywion gwyddau?"]

"*Cyfodaf iddynt hefyd blanhigyn enwog.*"—"Mi glywais i son fod rhyw *sort* o glefydau yn y gwledydd tramor yna, ag y bydd y dyoddefwyr yn cau eu dannedd mor dynion, fel na bydd posibl i neb roi dim yn eu cegau nhw; ond pan y ceir pwysi myrr, ac iddyn' nhw aroglu hwnw, y gwnai nhw agoryd eu cegau yn rhwydd.—'Fy Anwylyd, sydd i mi yn bwysi myrr;' pe cai hen bechaduriaid y Bala yma ond un aroglu ar y 'pwysi myrr' mi agoren' eu cegau yn rhwydd iawn i folianu Duw."

"Os ydych chwi yn gweled rhywbeth yn Iesu Grist yn rhagori ar bawb arall, peidiwch a bod fel tatten—yn llygaid i gyd heb yr un genau i fynegi ei rinweddau."

"Hen ŵr boneddig wedi tori ydyw dyn. Ni wnaeth Duw mo hono i'r clepyn byd yma. Ac os na chaff o ei hen *stât* yn ei hol, mi fydd wing wang o hyd.—Yr ydym fel pe wedi camddeall dau fyd,—ac mai rhyw bwt ydyw tragwyddoldeb; ond y byd yma ydyw y pwt."

"Pe disgynai yr Ysbryd Glân yn yr odfa yma, mi fydda mor anhawdd i neb gysgu yma, ag a fyddai iddyn' nhw fwyta uwd o geg pottel a myniawyd."

"Y mae pob un sydd a'r gobaith hwn ynddo ef, yn ei buro ei hun megys y mae yntau yn bur." (1 Ioan iii. 3.)—"Y mae y cristen fel y ffynon yn ei buro ei hun. Mi ellwch chwi dafu llaid i'r ffynon, ond y mae hi fel pe wedi myn'd ar ei llŵ y caiff o fyn'd oddiyno, mi rociwch o nes ei brocio fo i ffwrdd. Prociwch chwi y cristen, y mae yn ei buro ei hun fel y ffynon; ond y mae y rhagrithiwr fel y pwell, os prociwch ef, y mae o yn myn'd yn futrach o hyd."

"Mi welaf fi ar unwaith mai pobol a rhyw fath o obaith ydych chwi yn y fan yma; ond meindiwch chwi beth ydyw sylfaen

eich gobaith yn y dyffryn bras yma. Y mae rhai yn gobeithio mewn golud anwadal; os oes yma rai o honoch chwi felly, y mae hi yn siwr o fyn'd yn anhwylyus arnoch chwi; ni fedrwech chwi ddim peidio ag ail farw o ran dim a gewch chwi oddiwrth y pethau yma. Ond 'yr hwn sydd a'r gobaith hwn ynddo ef, y mae yn ei buro ei hun, megys y mae yntau yn bur.' Y mae pob cristion da yn myn'd yn debycach i Grist o hyd. Wel, gan bwy y mae y gobaith hwn? Gan bob perchen ffydd. Pe bai hi yn myn'd yn d'w'llwech arnoch chwi yn y byd yma, mhobol i, fe gwyd ffydd allan y diwrnod hwnw, pe bai heb lewyrch haul, na lleuad, a'r ser, a'r llathen fair, a'r twr tewtws, a'r cwblwedi myn'd o'r golwg; fe ddywed gobaiñh, 'Mi ddof fi gyda thi i ba le bynag yr äi di' ac ni orphwysa hi ddim, nes y bo yn siwr ei bod yn pwyso yn gywir ar yr Hwn a osododd Duw yn Iawn."

"*Yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr trwy yr hwn a'n carodd ni.*"—"Y mae yr apostol yn gryf iawn yn y fan yma; ond tendiwch chwi, 'trwy yr hwn ä'n carodd.' '*Mwy na choncwerwyr,*' trwy ei fod yn siwr o fod yn fuddugoliaethwr cyn dechreu y frwydyr. Y mae gan y cristion lawer o arfau i ryfela ä nhw, ond y cryfaf ydyw *ysbryd gweddi*. Mi welsom fechgyn yn chwareu; ond mi aethon' yn fryntion iawn wrth un o'r plant; ac mi gawsai ei wampio yn iawn oni bai ei fod o yn agos i dÿ ei dad, i alw arno. Pan y bydd y brwydrau boetha' arnat tithau, gristion, anfon air yn union at dy Dad, fe ofala fo am i ti gael chwareu teg, pe na bai dy ysgrifen di ond fel ol traed brain, ond gofala am roddi enw y Brawd hyna' odditano; ac yr wyt ti yn *right* siwr o gael buddugoliaeth ar y cwblw—'trwy yr hwn a'n carodd ni.'"

"Y mae llawer o fechgyn Cymru yn myned yn mlaen yn braf, ond heb ystyried mai 'o'r diwedd i ti ochain' fydd hi wrth fyn'd yn mlaen yn ol tuedd lygredig eu natur, ac wrth ddilyn temtasiwnau y diafol. Fe wÿr yn dda pa sut i demtio, y mae o yn newid y bluen at liw y dwr, ond beth fydd y diwedd?—'Ochain' a gwingo wrth y bach."

"Ffordd lydan ydyw ffordd yr annuwiol yn y dechreu, ond y mae hi yn myn'd yn gulach gulach o hyd, ac y mae yn anhwylyus iawn tua'r diwedd, y mae yn arwain i ddistryw; nid clywed swm y gawod ar y to y byddi di os ei di yno, oblegyd '*nid oes do ar ddistryw.*'"

Cloddio am y graig.—"Y mae y rhai sydd yn cloddio am y graig yn *ffond* iawn o gael cwmpeini. Pan yr oeddwn i yn ieuanc, yr oedd yn dda iawn gen i gael rhai i gÿd-gloddio ä

PENNOD VIII.

LLOFFION O'I DDYWEDIADAU.

RHODDIR yn y bennod hon ryw fân ddywediadau a ddywedodd efe yma a thraw wrth bregethu ac ar adegau eraill. Rhoddwn hwynt fel y'u cawsom, neu fel yr ydym yn eu cofio, mor agos ag y gellir yn ei eiriau ef ei hun, heb na nôd nac esboniad arnynt.

“Yr oedd cof Dafydd Cadwalad fel uffern, ni ddywedai byth digon, a pha beth bynag a fwrid yno ni ddeuai byth oddiyno.”

Yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Elias, dywedai—

“Mi saethwyd llawer ato fo, ond yr oedd o yn ehedeg mor uchel, fel yr eryr, ni chyffyrddodd yr un o'u saethau nhw na phluen nac aden iddo erioed.”

Pan alwyd arno i ddweyd gair yn Nghymdeithasfa y Bala ar ol marwolaeth Mr. Parry o Gaer, dywedai—

“Nid oes genyf fawr i'w ddweyd, ond fy mod i yno yn ymweled âg ef ychydig cyn iddo farw, ac yr oeddwn i yn ei weled o fel y wenol ar y tô, ar gychwyn i'r *foreign lands*, pob peth yn barod.”

Wrth wneyd sylw ar farwolaeth Mr. Davies, Fronheulog, dywedai y gellid dweyd—

“‘Wele Israeliad yn wir yn yr hwn nid oedd dwyll.’ Gellid meddwl am dano wedi iddo gael ambell i gerydd pur lym gan hen ddiaciaiaid da perthynol i Gyfarfod Misol Sir Feirionydd, na welem y gŵr mawr o Fronheulog byth ar ol hyn. Ond y Cyfarfod Misol cyntaf wed'yn byddai ef yno yn gyntaf un, yn ysgwyd dwylaw, ac yn trefnu yn nghanol ei frodyr tlodion, fel pe na buasai dim erioed wedi digwydd. Yr oedd ‘y dŵr i fywyd’ ragwyddol’ yn tarddu yn bost o hono.”

Ar ol marwolaeth y Parch. Cadwaladr Owen, Dolyddelen, dywedai—

“Yr oeddym ni yn gallu procio pechaduriaid o'u llochesau ar hyd yr amser, ond methu dal dim; ond mi ddoi Cadwalad

Owen â'i rwyd fawr, ac mi taenai hi ar ein holau ni, ac yr oedd yn dal clampiau o logiau mawr o bechaduriaid."

Pan y gofynwyd iddo fath bregethwr oedd un brawd, oedd yn enwog fel offeryn i enill eneidiau, atebai—

"Nid oes ganddo fo yr un *ganan*, nac ond *gwn* pur gyffredin ond eu cymeryd nhw hefo'r *bagnet* y mae fo."

"*Gwlad well y maent hwy yn ei chwenych.*"—

"Y mae gwŷr arianog Llundain ar ol casglu eu miloedd lawer yn eu *business* yn myned i fyw i'r rhan hono o'r dref a elwir y *West End*. Felly y mae y saint hefyd; wedi iddyn' nhwythau fod yma mewn llafur a lludded am dro, y mae nhw yn symud oddi yma i fyw, ac yn myned i'r *West End*—i 'wlad well.' Pa le y mae llawer o'r hen gyfeillion a goll'som ni o'r ardal yma? O, y mae nhw wedi myned yn crmod byddigions i aros yma, y mae nhw wedi symud i'r *West End*. Y mae y saint i gyd yn cael myned adref mewn cerbydau tân. A chafodd Sarah Dafydd, Drawsfinydd, fyned i'r 'wlad well' yn yr un cerbyd a Dr. Chalmers (buont farw yr un diwrnod), er ei fod o yn gallu adnabod y ser wrth eu henwau, ac er cymaint gwŷr oedd o. Y mae y duwiolion i gyd yn Fyddigions y nefoedd, ac yn cael myned adref yn eu *carriages*."

"Y mae cyrchu rhyfeddol i weled rhyfeddodau yr *Exhibition* Llundon ene. Y mae acw hen fyddigions braf tua'r Bala acw; mae nhw yn myn'd i'r nefoedd yn eu cloesie yn gynt o lawer nac y mae pobol y *veils* a'r sidanau yna efo'u hannuwioldeb. Mi fyddaf fi yn edrych ar balasau yr annuwiolion fel ar *gwtches* tatws, ac ar y byddigions annuwiol fel tatws wedi llygru ynddyn' nhw. Er eu gwycheder, y mae melldith Duw uwch eu penau nhw, a chymaint oll ag a fedda' nhw. Mi fydda' yn well gen' i fyw a marw yn mwthyn Cadi Rondol, ac yn nghap nos Abram y Ceunant, oedd am ei ben yn cychwyn i'r nefoedd, a bod yn heddwch Duw, na chael trigo yn y palasau goreu a fedd y byd yma, a bod wedi hyny yn wrthodedig ganddo ef yn y diwedd."

"Mi fyddai yn well gen i, mhobol i, fyw mewn hafotty ar ben mynydd, a byw ar datws a halen a Beibl mewn twll yn y mur, na bod yn y palas gwycha' heb yr un Beibl, ac heb allor i Dduw gaei ei chodi yno."

"Oni buasai fo l yr efengyl genym ni ar hyd y wlad yma, yn mhell o gyrhaedd y llanau, mi fuasem mor dlotted o grefydd a llygod eglwys,—o, ydyw y rhei'ny yn dlottach na llygod eraill."

“Pe palech chwi aur fel palu pridd, os heb yr efengyl, mi fyddech cyn dlotted a llygod eglwys.”

“Mi fyddai yn well genyf fi fyned i werthu nôd coch, na myn'd i bregethu yr efengyl er mwyn elw.”

“Y peth sydd yn ei gwneyd hi debycaf y caf fi fyn'd i'r nefoedd ydyw fod darnau o honof wedi myned yno.”

“*Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist.*”—Dangosai fel yr oedd Duw yn gwneyd peth mor fawr a chyhoeddi ei efengyl trwy offerynau mor wael, a pha fodd na buasai Efe yn codi y rhai hyny i enwogrwydd. Dywedai,

“Sut na b'ase y Brenin Mawr yn rhoi pregethwrs ei efengyl yn eu *coaches*?—Pe felly ni buasai pobol Dolyddelen wedi clywed yr efengyl eto; oblegyd ni ddaeth yno yr un *goach* trwodd erioed o Riwbryfdir i Dolyddelen.”—(Dywedodd hyn er ystalm; ni buasai yn wirionedd y dyddiau presennol.)

“Yr oeddwn i yn edrych ar Bont Menai yn beth rhyfedd iawn y tro cyntaf; ond wedi ei gweled hi dipyn o droiau, nid oedd hi yn ymddangos yn ddim mwy rhyfedd na berfa drol ar balmant. Ond am yr iachawdwriaeth yma, pa fwyaf a edrychaf fi iddi, rhyfedda yn y byd y mae hi yn ymddangos:—

‘Pan bwy'n rhyfeddu un peth, un arall ddaw i 'mryd,
O! iachawdwriaeth rasol! rhyfeddod wyt i gyd.’”

“Yr oedd y patriarchiaid vn gweled trwy yr addewidion fod iachawdwriaeth i gael ei *uaparu* ryw dro; yr oedd yn amlwg iddyn' nhw ei bod hi yn mwriad Duw, ac yr oeddynt yn credu y rho'id y bwriad mewn gweithrediad; ond yr oeddynt yn methu deall pa fodd yr oedd cael y ddau pen at eu gilydd.—Pan oedden' nhw yn adeiladu y *Tub'lar Bridge* yna ar yr afon Menai, yr oedd yno un darn o honi un ochr, a darn arall yr ochr arall. ‘Wel,’ meddai rhywun ar y lan, ‘pe bai modd cael y ddau yma at eu gilydd, mi wnai y tro yn *noble*. Ond nid oes un *power* all dd'wad a nhw at eu gilydd.’ Ond mor gynted ag y daeth y *machinari* mawr yno, mi cododd nhw at eu gilydd, ac mi cysylltodd nhw, mor hawdd ag y rhydd neb y tecell ar y tân; felly fe gafwyd ffordd rhwng Mon ac Arfon. Felly y darfu Duw; er mor anhawdd ydoedd, mi allodd o trwy anfon ei Fab i gymeryd ein natur ni, ac i farw yn ein lle, wneyd ffordd ddiogel i'r euog gael myned i'r nefoedd

‘Wedi ei phalmantu ganddo ef,
O ganol byd i ganol nef.’

Er lleted oedd yr adwy, mi llenwodd y Mab hi â'i haeddiant ei hun ;

' Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr
Fe'i llenwodd â'i haeddiant ei hun.'

" Y mae crochan ffydd yn ffitio i'r dim ar drybedd gras."

" Y mae dyn wrth *actio* ffydd fel dyn yn nofio : nid oes dim yn eisieu i ddyn wrth nofio ond ymollwng, ac estyn ei ddwyllaw a'i draed, mi cynalia y dwr o ; felly nid oes eisieu i ddyn ond gorphwys, pwysu, ei enaid yn dawel, mi cynalia y drefn o."

" Y mae yr angylion yn hoff iawn o ddwad i roi tro i'r ddaear yma. Ond nid i'r *House of Lords* y mae nhw yn myn'd gyntaf ; nid ydyw yn ddim byd ganddynt fyn'd yno. 'Dydyn' nhw ddim yn *meindio* mwy yn yr esgobion sydd yno na phe byeddu' nhw fonion *cabbage*."

" Yr oedd rhyw ddyn yn mlaen y Sir yma yn dweyd ei fod wedi bod yn sychlyd a chaled iawn ; ond yn bresenol wedi dyfod i eglwys Dduw, ac i foddion gras, ei fod wedi dyfod dan y pistyll, a'i fod o yrwan yn dechreu mwydo tipyn yn ara' deg. Dowch chwithau, er mor galed a sychion ydych chiwi o dan y pistyll, mi gewch eich mwydo yn iawn ; y mae dwr y bywyd yn tywallt i lawr y dyddiau yma."

" *Mi a briodais wraig, ac am hynny nis gallaf fi ddyfod.*"

" Y penbwl gwirion, pam na fuaset ti yn dwad a hi yno hefo thydi."

" Pe gwnait ti yr holl ddaion a wnaeth y patriarchiaid, y prophwydi, yr apostolion, a'r seintiau o ddechre y byd tan yrwan, ni wneit ti ddim cymaint a thwll wimbled i fyn'd i'r netoedd wed'yn."

" *Trwy ras yr ydych yn gadwedig.*"

" Dinas annuwiol iawn oedd Ephesus, a phobol ddrwg ddiwedd oedd yr Ephesiaid cyn i'r efengyl eu cyrhaedd nhw. Yr oedd y cythreuliaid yn ei *lordio* hi yn braf drostyn nhw. Ond wedi i Paul fyn'd yno i bregethu, yr oedd yn rhaid i'r cythreuliaid *yieldio* ; nid oedd raid ond myn'd a napcynau neu foledau oddiwrth gorff Paul at y bobol oedd wedi eu meddiannu gan ysbrydion drwg, na byddai y cythreuliaid yn chwyrlio myn'd allan o honyn' nhw. Mi roedden' nhw yn diengyd rhag ofn cap nos Paul. Ond yr oedd yno ryw garpiach eraill, meibion Scefa, yn ceisio bwrw allan gythreuliaid i ddynward Paul ;

“Pe palech chwi aur fel palu pridd, os heb yr efengyl, mi fyddech cyn dlotted a llygod eglwys.”

“Mi fyddai yn well genyf fi fyned i werthu nôd coch, na myn'd i bregethu yr efengyl er mwyn elw.”

“Y peth sydd yn ei gwneyd hi debycaf y caf fi fyn'd i'r nef-oedd ydyw fod darnau o honof wedi myned yno.”

“*Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist.*”—Dangosai fel yr oedd Duw yn gwneyd peth mor fawr a chyhoeddi ei efengyl trwy offerynau mor wael, a pha fodd na buasai Efe yn codi y rhai hyny i enwogrwydd. Dywedai,

“Sut na b'ase y Brenin Mawr yn rhoi pregethwrs ei efengyl yn eu coaches?—Pe felly ni buasai pobol Dolyddelen wedi clywed yr efengyl eto; oblegyd ni ddaeth yno yr un *goach* trwodd erioed o Riwbryfdir i Dolyddelen.”—(Dywedodd hyn er ystalm; ni buasai yn wirionedd y dyddiau presennol.)

“Yr oeddwn i yn edrych ar Bont Menai yn beth rhyfedd iawn y tro cyntaf; ond wedi ei gweled hi dipyn o droiau, nid oedd hi yn ymddangos yn ddim mwy rhyfedd na berfa drol ar balmant. Ond am yr iachawdwriaeth yma, pa fwyaf a edrychaf fi iddi, rhyfedda yn y byd y mae hi yn ymddangos:—

‘Pan bwy'n rhyfeddu un peth, un arall ddaw i 'mryd,
O! iachawdwriaeth rasol! rhyfeddod wyt i gyd.’”

“Yr oedd y patriarchiaid vn gweled trwy yr addewidion fod iachawdwriaeth i gael ei aarparu ryw dro; yr oedd yn amlwg iddyn' nhw ei bod hi yn mwriad Duw, ac yr oeddynt yn credu y rho'id y bwriad mewn gweithrediad; ond yr oeddynt yn methu deall pa fodd yr oedd cael y ddau pen at eu gilydd.—Pan oedden' nhw yn adeiladu y *Tub'lar Bridge* yna ar yr afon Menai, yr oedd yno un darn o honi un ochr, a darn arall yr ochr arall. ‘Wel,’ meddai rhywun ar y lan, ‘pe bai modd cael y ddau yma at eu gilydd, mi wnai y tro yn *noble*. Ond nid oes un *power* all dd'wad a nhw at eu gilydd.’ Ond mor gynted ag y daeth y *machinari* mawr yno, mi cododd nhw at eu gilydd, mi cysylltodd nhw, mor hawdd ag y rhydd neb y tecall a tân; felly fe darfu Duw ei Fab i ffordd

Er lleted oedd yr awyrgylch
ei hun ;

rhywyr
braul y
lianc yn

“ Y mae crochwr
malecyn

’e buasai
malecyn

“ Y mae dyn wrth y
yn eisien i ddyr wrth y
a’i draed, mi cywll
gorphwya, pwynt.

afydd, na
b.”

“ Y mae yr awyrgylch
yma. Ond nid ydych chi
nid ydyw yn arian
yn meindio mwy y
fonica catha.”

o yn gyru
meddai yr
gnewch

“ Yr oedd yr awyrgylch
wedi bod yn awyrgylch
fod i eglwys. Nid ydych chi
pistyll, a’i ffordd
Dowch chwithan
pistyll, mi gwydd
yn tywallt.”

ryw ochr o
traed i byth,
a’m pen.”

“ Mi gwyddoch chi
llawer a’r gwaith.

daioni mewn
ynddo. Yr
no unwaith, nes
dyngu. Ond
neb a’i glustiau
llawer a’r gwaith.

“ Y penod ydych chi
thyll.”

ael cyfnewidiad
y blaen, ni fedrai
wed’yn ; nid oedd
phe b’ase nhw fon-

“ Pe gwyddoch chi
prwyddi y
ydwnt, a’i
naturall wedi.”

archoffeiriad. Yr oedd
obeithio y cawn ni ein
llac yn eu carnan.”

“ I ddydd
y disgyblion yn

“ Ddaer
wedi
oedd
wedi
lled
oedd
wedi

disgyblion yn
odrych yr un ff

“ Iesu Grist yn fw
olwg di, mi elli
Nid rhyw bellen d
yn bob peth neu gy
gyda chrefydd, or

Iesu Grist yn fw
olwg di, mi elli
Nid rhyw bellen d
yn bob peth neu gy
gyda chrefydd, or

wedi llysu y maen. Mynwch grefydd, y mhobol i, aiff a'r Iesu yn ben y gongl. Fe allai fod yma rai yma wedi gwrthod y maen, a thrwy hynny y maent wedi selio eu damnedigaeth eu hunain. Ond y mae yn dda genyf feddwl nad ydyw yr *Ustus* mawr ddim wedi *signio y death warrant*. Y mae Pedr pan y mae o yn ysgrifenu yr epistol yma yn cofio yn ddiarnheu y diwrnod y bu fo o flaen y cyngor yn Jerusalem, nos dydd y Pentecost, pan yr oedd y penaethiaid wedi cymeryd gafael yn yr hen bregethwr oedd wedi bod yn gwneyd cymaint o ddrwg i uffern yr holl ddiwrnod hwnw. Yr oedd hi wedi myn'd yn rhy hwyr i'w ddwyn o flaen y cyngor y noswaith hono, ond fe'i dygwyd y dydd canlynol. Yr oedd o wedi cael ei wisgo â nerth o'r uchelder. Ac yr oedd o yn dweyd y gwir yn eu gwynebau nhw, 'Hwn,' meddant, 'yw y maen a lyswyd genych chwi, yr adeiladwyr, yr hwn a wnaed yn ben y gongl.' Yr oedd y swyddogion gwladol yn meddwl y buasen' nhw yn ei ddychrynu fo; ond yn lle hynny y fo a'u dychrynodd nhw. Yr oeddyn' nhw mor barod i fyned oddiwrtho ag a fyddai dyrnaid o fanus ar ben yr Aran o flaen y corwynt."

Y Llenllian. "Mae yn syn i'w ryfeddu, mhobol i, mai Pedr, gweinidog yr enwaediad, a roes y bregeth gyntaf i'r cenedloedd. Yr oedd cymaint o *sism* y grefydd Iuddewig yn Pedr fel y bu raid i Dduw ei l'w'gu fo cyn y cychwynai i'w daith. Fel yr oedd o ar ben tŷ Simon yn Joppa, fe ddaeth llewyg arno, ac yn ei lewyg mi welai yr hen drefn fawr yn dwad i lawr yn ddigon *sound*, a'i phedair congl yn y nef, a phob tryblith ynnddi, a galwad ar Pedr i ladd a bwyta. Ond yr oedd *stumog* yr Iuddew yn rhy wan i fwyta dim cyffredin neu aflan. Ond dyma *notice* iddo fo yn union, 'Y pethau a lanhaodd Duw na alw di yn gyffredin neu aflan;' a hwff a fo iddyn' nhw wed'yn, a mawr a fu'r llwyddiant ar yr odfa, 'Disgynodd yr Ysbryd Glân ar bawb oedd yn clywed y gair."

"Mi fyddai yr Iesu yn cymeryd y disgyblion o'r neilldu yn aml. Y mae yn dda genyf fi weled y dynion ieuainc acw yn y Bala yn cael eu dysgu; ond yr ydw' i yn disgwyl y cymer yr Iesu nhw o'r neilldu bod ag un, i ddweyd wrthyn' nhw dipyn o'i *secrets*."

"*Ei ddisgyblion a ddaethant o hyd nos, ac a'i lladrattasant, a nynt yn cysgu.*" "Sut y gwyddech chwi pwy aeth a fo, os nad oeddych chwi'n cysgu a'ch llygaid yn agored fel y bydd llewod yn gwneyd. Mi glywais son lawer gwaith am gelwydd du a chelwydd gwyn, ond celwydd du iawn oedd hwn o eiddo yr arch-offeiriaid beth bynag."

“Pan ddaeth tyrfa'r gwaewffyn i'w ddal, yr oedd ein Hiesu ni mor fawr, nid oedd raid iddo fo ddim ond dweyd, ‘*Myfi yw,*’ nad oeddyn' nhw yn llafnau ar wastad eu cefnau ar y ddaear fel pryfaid genwair; ac ni fuasen' nhw ddim yn codi byth oni buasai iddo fo eu cynnal nhw.”

“Ni fu erioed gymaint o awydd llifo du ag ar Golgotha. Ni fu erioed gymaint o ddail surion y cwn, yn gymysg a chopros uffern, yn yr un man, a dail bysedd cochion hefyd am wn i, ag oedd ar Galfaria; ond yr oedd yr Iesu yn *gambri*c rhy wyn i'r cwbl, ni life fo ddim er eu gwaetha' nhw.”

“*Gorphenwyd.*”—“Arfer Duw ydyw dweyd llawer mewn ychydig. Rhoddodd fôr o fater i Adda mewn diferyn o iaith, ‘Hâd y wraig a ysiga dy ben di, &c.’ Felly hefyd yn y testun, ‘Gorphenwyd.’ Yr oedd yn orchest gan y Groegiaid fedru dweyd llawer mewn ychydig; ond fe ddywedodd Iesu Grist mewn un gair fwy na'r un Groegun o honyn' nhw; ‘Gorphenwyd,’ rhyw bwt o air ydi fo, mhobol i, ond mi *stretchith* fel *Indiarubber* i dragwyddoldeb.”

“Yr oedd angau wedi llyncu aml i hen gristion,—llyncodd Abram, llyncodd Isaac, a Jacob, a'r hen dduwiolion, ac ni bydd yn dda gen i am dano am ei waith. Ond ar ol llyncu y naill ar ol y llall yn hwylus, o'r diwedd, ar Galfaria, mi gafodd ormod o damaid, fe drodd yn *idigestion* arno fo, nes y bu raid iddo fo ei fwrw i fynu y trydydd dydd. A'r pryd hwnw, ‘Angau,’ yntau, ‘a lyncwyd mewn buddugoliaeth.’”

Phil. iii. 9. “*Ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, &c.*”—“Yr oedd yr hen Apostol wedi bod yn gwneyd rhyw ffurfafen o hunan gyfiawnder, yr oedd ganddo gryn lawer o ser yn ei grefydd. Os ydw i yn cofio yn iawn, y mae saith o honyn' nhw yn cael eu henwi ganddo yma; ac mi dybygwn i mai ‘yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf yn ddiargyhoedd’ oedd ei dwr tewtws o; ond ryw ddiwrnod mi newidiodd nhw bod ag un am *un* Haul. Pan ddaeth yr Haul i'r golwg, fe aeth ei ser dysglaer, a'i dwr tewdws, a'r cwbl i'r t'w'llwch yn y fan, a dyna fo yn dweyd, ‘yr wyf yn cyfrif bob peth yn dom, fel yr ynillwyf Grist.’ Y mae yn angenrheidiol gwerthu llawer mewn trefu i enill Crist. Mi fydd y ffarmwyr yma pan yn ymadael a'r hen ffarm yn gwneyd ffair *Auction* ar yr hen *stock* oddeutu Calangauaf; ac wed'yn, yn Ebrill, yn hel y man settliach i gyd i'w gwerthu yn llwyr cyn troi allan Galanmai. Yr ydwyf fi, mhobol i, yn hyderu yn gryf fod plant y diwygiad yma wedi myn'd trwy y ffair fawr Galangauaf beth bynag; ond y mae yn rhaid gwerthu y cwbl yn llwyr cyn cael cwbl feddiant o'r etifedd-

iaeth anllygredig sydd ynghadw y nefoedd i'r saint. Fechgyn anwyl a ddowch chwi i wneyd ffair ar eich pethau yma heno, yr ydych wedi cael digon o amser i welod na fedrwch chwi ddim myn'd yn mlaen efo'r hen *stock*. Derbyniwch arian y brenin yn eu lle, efo hwnw y cewch chwi fyned i mewn i'r llys. 'Ac y'm ceir ynddo ef, heb fy nghyfiawnder fy hun.' Nid oes dim rhyngot ti a chael crefydd, ond un gair tair llythyren, y gall plentyn ei *spelio* fo—h-e-b 'heb fy nghyfiawnder fy hun, a dyna hi yn dy afael di yn union. Pan fo dyn pwysig mewn tre, megys *twrne* neu *dloctor*, wedi symud i fyw o'r hen dŷ i dŷ arall, mi fydd 'to be found yn y fan a'r fan' yn cael ei roddi ar y drws. Felly yr oedd Paul yn myn'd o'r hen gyflwr, rhoddodd arno 'Y'm cair ynddo Ef;'—a pha le y mae y Sais hwnw yrwan [un oedd wedi dymuno cael tipyn o Saesoneg ganddo], dyma iddo fo lonaid ei geg o Saesoneg;—'to be found in Him.'

"Yr oedd Paul, y mhobol i, yn *ffond* iawn o eglwysi y saint; ond yr oedd o yn *ffondiach* o'r Philipppiaid na'r un o'r lleill. Yr oedd o yn bur *ffond* o'r Galatiaid, ond yr oedd yr ymgrafu ar eu clustiau nhw, rhyw ysfa ddrwg am wrando athrawiaethau dyeithr."

"Beth ydyw myned a'n hunan gyfiawnder at Grist? Yr un peth ag a fyddai i bobol Sir Feirionydd acw fyn'd i gario glo i Ruabon."

"Y mae y gwragedd yma yn myn'd a'r toes at y tân yn gyffredin, ond y mae llawer yn arfer myn'd a'r lefain i'r bwtri neu rywle digon oer. Y mae crefyddwyr oerion yr un fath yn union, y mae nhwthe fel lefain yn cael eu cadw yn mwtri y cythraul."

Clwb mynydd Seion.—"Nid ydw i mewn unrhyw glwb. Y mae ganddyn' nhw lawer o glybiau yn y byd yma, ac y mae rhyw reolau yn perthyn iddyn' nhw. Ond yr wyf finnau yn meddwl fy mod i yn perthyn i glwb mynydd Seion. A phan af fi yn sâl, ar hwn yr ydw' i yn meddwl byw. Ac y mae yma lawer eraill yn aelodau o'r clwb yma. Edrychwch ati, mhobol i, am gadw'r rheolau;—rheolau y clwb yma ydyw y bymthegfed Salm."

"Gwyliwch golli blas ar bethau yr efengyl. Y mae tafell o fara haidd gydag archwaeth dda, yn well na'r bara gwenith gore heb hyny."

"*Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch*"—"Y mae yma rai na finent yn ei rhodio, pe caent eu lluchio â chloncwiau."

Trysor wedi ei guddio mewn maes.—"Prynu y maes yma a wnaeth yr hen Sion William o Gynwyd, yn frenin yn Edeyrn-

ion,—mor gyfoethog o sancteiddrwydd nes yr oedd ar annuw-
iolion arswyd yn ei bresenoldeb.”

“Hwyrach mai mewn cyfarfod *teetotal* y cafodd y bachgen o hyd i'r *faen*; wedi iddo gael o hyd i'r wythien, mi gymerodd forthwylion gweddiau, ac ebillion myfyrdodau, i dori twll yn y graig, y mae y powdwr yn cael ei dywallt iddo o gorn iachawd-wriaeth, ac fe ddisgynodd gwreichionen o dân o'r thuser aur oddiar yr allor, nes yr aeth hi yn chwalfa, ac mi wnaeth ei *ffortune* am dragwyddoldeb.”

“Y mae y fath beth a chyrhaedd llawn sicrwydd gobaith yn y byd yma; ond nid yw y cristion yn addas i'w gael o bob amser. Y mae y gwelltyn tua mis Awst yn rhy feddal i ddal y pen melyn main, ond wedi iddo gael ei galedu gan wres Medi, bydd yn ddigon caled i'w ddal o. Y mae llawer o honoch chwithau yma yn rhy weiniaid eto i ddal llawn sicrwydd gobaith, ond wedi i chwi gael eich caledu gan wres profedigaethau a chystuddiau, mi fyddwch cyn hir yn ddigon cryfion i ddal llawn sicrwydd gobaith.”

“Pe caem ni lawn sicrwydd ffydd yma, ar lawer adeg, a golwg ar y gogoniant mawr, mi aem yn *hoits* gyda'r byd yma; ni fydden' ni ddim yn ffit i drin y byd yma wed'yn; ond y mae yn rhaid i ni edrych ar ei ol o tra y byddwn ni ynndo fo.”

“Y mae y cristion yn debyg iawn i arch Noa; fel yr oedd y dyfroedd yn ymgryfhau ar y ddaear, yr oedd yr arch yn nesu at y nefoedd o hyd. Felly fel y mae dyfroedd profedigaethau'r byd yma yn cynyddu i'r cristion, nesaf yn y byd i'r nefoedd y maent yn ei godi o hyd.—‘Ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.’”

Arwyddion yr Haf.—“Y mae arwyddion pur amlwg pan fyddo'r haf yn nesu. A dyna un arwydd fod yr haf yn nesu ydyw y cywion gwyddau a'r ebolion bach. Mi fydd y plant o gwmpas y Bala acw, yn cael difyrwch mawr pan fydd y cywion gwyddau yn dechreu ymddangos. Y mae y cywion gwyddau ar yr helyg yn dangos fod Gŵyl Ifan yn ymyl. Yr un fath y mae arwyddion yn ymddangos yn mhrofiad dyn duwiol. Nid ydyw dechreu haf ddim yn mhell ar lawer un sydd yma. Pa sut y gwyddoch chwi? Wel, y mae yma dipyn o gnapiau o gywion gwyddau ar helig eu profiad, ac y mae golwg *nice* i'w ryfeddu arnynt. Y mae yr haf yn bur agos, a phan ddaw yn Wyl Ifan ffarwel Wyliau Nadolig a'r eira mawr wed'yn; *everlasting sunshine* fydd hi wed'yn. Diolch am ambell i adnod yn y profiad weithiau,—‘Canys ni a wyddom os ein daearol dŷ o'r babell

hon a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd.—Canys nid oes i ni yma ddi-nas barhaus, oblegyd un arall yr ydym yn ei disgwyl.—Y mae'n ddiogel genyf nas gall nac angau, nac einioes . . . ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd.—Beth ydyw y rhai'n? Tipyn o gywion gwyddau ar helyg profiad yr hen chwaer acw, yn dangos fod yr haf yn ymyl, fod Calanmai yn agos iawn. Diolch am dipyn o gywion gwyddau! ” [Ar yr adeg hon torodd yn floeddio a gorfoleddu trwy y capel. A gofynai y diweddar Mr. Hughes, Liverpool, i un o'i ysgoleigion yn Ngwrecsam, y gwyddai oedd yn dod o'r ardal hono, “Oeddych chwi yn un o'r rhai hyny aeth i orfoleddu wrth i Dafydd Rolant son am gywion gwyddau? ”]

“*Cyfodaf iddynt hefyd blanhigyn enwog.*”—“Mi glywais i son fod rhyw *sort* o glefydau yn y gwledydd tramor yna, ag y bydd y dyoddefwyr yn cau eu dannedd mor dynion, fel na bydd posibl i neb roi dim yn eu cegau nhw; ond pan y ceir pwysi myrr, ac iddyn' nhw aroglu hwnw, y gwnai nhw agoryd eu cegau yn rhwydd.—‘Fy Anwylyd, sydd i mi yn bwysi myrr;’ pe cai hen bechaduriaid y Bala yma ond un aroglu ar y ‘pwysi myrr’ mi agoren' eu cegau yn rhwydd iawn i folianu Duw.”

“Os ydych chwi yn gweled rhywbeth yn Iesu Grist yn rhagori ar bawb arall, peidiwch a bod fel tatten—yn llygaid i gyd heb yr un genau i fynegi ei rinweddau.”

“Hen ŵr boneddig wedi tori ydyw dyn. Ni wnaeth Duw mo hono i'r clepyn byd yma. Ac os na chaiff o ei hen *stât* yn ei hol, mi fydd wing wang o hyd.—Yr ydym fel pe wedi camddeall dau fyd,—ac mai rhyw bwt ydyw tragwyddoldeb; ond y byd yma ydyw y pwt.”

“Pe disgynai yr Ysbryd Glân yn yr odfa yma, mi fydda mor anhawdd i neb gysgu yma, ag a fyddai iddyn' nhw fwyta uwd o geg pottel a myniawyd.”

“Y mae pob un sydd a'r gobaith hwn ynddo ef, yn ei buro ei hun megys y mae yntau yn bur.” (1 Ioan iii. 3.)—“Y mae y cristion fel y ffynon yn ei buro ei hun. Mi ellwch chwi dafu llaid i'r ffynon, ond y mae hi fel pe wedi myn'd ar ei llŵ y caiff o fyn'd oddiyno, mi prociwch o nes ei brocio fo i ffwrdd. Prociwch chwi y cristion, y mae yn ei buro ei hun fel y ffynon; ond y mae y rhagrithiwr fel y pwll, os prociwch ef, y mae o yn myn'd yn futrach o hyd.”

“Mi welaf fi ar unwaith mai pobol a rhyw fath o obaith ydych chwi yn y fan yma; ond meindiwch chwi beth ydyw sylfaen

eich gobaith yn y dyffryn bras yma. Y mae rhai yn gobeithio mewn golud anwadal; os oes yma rai o honoch chwi felly, y mae hi yn siwr o fyn'd yn anhwylyus arnoch chwi; ni fedrwech chwi ddim peidio ag ail farw o ran dim a gewch chwi oddiwrth y pethau yma. Ond 'yr hwn sydd a'r gobaith hwn ynddo ef, y mae yn ei buro ei hun, megys y mae yntau yn bur.' Y mae pob crïstion da yn myn'd yn debycach i Grist o hyd. Wel, gan bwy y mae y gobaith hwn? Gan bob perchen ffydd. Pe bai hi yn myn'd yn d'w'llwech arnoch chwi yn y byd yma, mhobol i, fe gwyd ffydd allan y diwrnod hwnw, pe bai heb lewyrch haul, na lleuad, a'r ser, a'r lllathen fair, a'r twr tewtws, a'r cwblwedi myn'd o'r golwg; fe ddywed gobaith, 'Mi ddof fi gyda thi i ba le bynag yr äi di' ac ni orphwysa hi ddim, nes y bo yn siwr ei bod yn pwysu yn gywir ar yr Hwn a osododd Duw yn Iawn."

"*Yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr trwy yr hwn a'n carodd ni.*"—"Y mae yr apostol yn gryf iawn yn y fan yma; ond tendiwch chwi, 'trwy yr hwn ä'n carodd.' '*Mwy na choncwerwyr,*' trwy ei fod yn siwr o fod yn fuddugoliaethwr cyn dechreu y frwydyr. Y mae gan y crïstion lawer o arfau i ryfela ä nhw, ond y cryfaf ydyw *ysbryd gweddi*. Mi welsom fechgyn yn chwareu; ond mi aethon' yn fryntion iawn wrth un o'r plant; ac mi gawsai ei wampio yn iawn oni bai ei fod o yn agos i dÿ ei dad, i alw arno. Pan y bydd y brwydrau boetha' arnat tithau, crïstion, anfon air yn union at dy Dad, fe ofala fo am i ti gael chwareu teg, pe na bai dy ysgrifen di ond fel ol traed brain, ond gofala am roddi enw y Brawd hyna' odditano; ac yr wyt ti yn *right* siwr o gael buddugoliaeth ar y cwblw—'trwy yr hwn a'n carodd ni.'"

"Y mae llawer o fechgyn Cymru yn myned yn mlaen yn braf, ond heb ystyried mai 'o'r diwedd i ti ochain' fydd hi wrth fyn'd yn mlaen yn ol tuedd lygredig eu natur, ac wrth ddilyn temtasiwnau y diafol. Fe wÿr yn dda pa sut i demtio, y mae o yn newid y bluen at liw y dwr, ond beth fydd y diwedd?—'Ochain' a gwingo wrth y bach."

"Ffordd lydan ydyw ffordd yr annuwiol yn y dechreu, ond y mae hi yn myn'd yn gulach gulach o hyd, ac y mae yn anhwylyus iawn tua'r diwedd, y mae yn arwain i ddistryw; nid clywed swm y gawod ar y to y byddi di os ei di yno, oblegyd '*nid oes do ar ddistryw.*'"

Cloddio am y graig.—"Y mae y rhai sydd yn cloddio am y graig yn *ffond* iawn o gael cwmpeini. Pan yr oeddwn i yn ieuanc, yr oedd yn dda iawn gen i gael rhai i gÿd-gloddio ä

anghrediniol; ond nid am chwerthin y cafodd hi ei cheryddu, ond am wawdio yn anghrediniol.

Ni welais ac ni chlywais i neb erioed, nac ar lyfr, nac o bulpud, yn esbonio y geiriau hyny am Ioan mor dda ag ef; hyny yw mor eglur a dealladwy i bob math o ddyn;—“Yn mhlith plant gwragedd ni chododd neb mwy nac Ioan Fedyddiwr, ond yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nac ef.”—“Cawr o ddyn mawr oedd Ioan, fy mhobl i,” medd efe, “ond cawr mewn pant oedd efe yn nherfyn y ddwy oruchwyliaeth. Fe wel y *plenty*n o *ben y bryn*, fwy nac a wel y *cawr* mwyaf o'r *pant* dwfn. Yr ydym ni plant y bryniau—yr oruchwyliaeth efengylaidd—mewn cyfle eglur, ac mewn manteision helaeth mewn cydmariaeth iddo ef, ac felly yr ydym yn fwy nag ef.” Da y gwyddai y Messiah mawr pa foddion a fyddai fwyaf effeithiol i enill dynion ac i droi y byd at Dduw, sef pregethu yr efengyl i bob creadur, nid i rai dosbarthiadau, ond i bob creadur.—Arglwydd y cynhauaf a anfono lawer o weithwyr i'w gynhauaf. Y mae ef wedi myned oddiar y maes, nis gwelir ef mwy. A chan mor fynych ac eglur yn ngair y gwirionedd y gorchymynir i ni feddwl am ein blaenoriaid y rhai a draethasant i ni air Duw, ac y mynegir hefyd fod coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig—pwy gan hyny na theimlai ei hun yn gefnog a chalonog i fyned yn mlaen?

Clywais ef wrth ddarlithio ar ddirwest yn adrodd hanes rhyw hen ddafad a fyddai yn arfer a myned i le perygl a serth ar ysgythredd craig; byddai hi yn medru myned a dychwelyd heb syrthio i'r dyfnder oedd danodd, ond byddai ei hoen yn myned yno gyda hi bob blwyddyn, a byddai pob un o honynt yn syrthio i'r dyfnder ac yn tori ei wddf, ac nid oedd i'w wneyd ond gwerthu y ddafad i Rhys y porthmon defaid, a gwerthodd hwnw hi i'r cigydd. Y mae aml un yn Mhenllyn, wedi bod yn arfer haner *pint* neu *bnt* dros eu hoes, a myned a dychwelyd

yn eithaf sobr, a chael eu cyfrif gan bawb yn ddyinion sobr; ond yr oedd eu plant a'u hwyrion yn myned yn eithaf hyderus ar eu hol, ond yr oeddynt hwy yn syrthio dros y dibyn erchyll yn lluoedd ac yn gelaneddau.

Pan oedd efe yn gweinyddu gwasanaeth priodas rhyw bar ieuanc, "Wel gyfeillion cu," medd efe, "yr wyf fi yn awr wedi eich anfon dros y *bar* i'r cefnfor; gobeithio y cewch chwi wynt teg o hyn i ddiwedd eich mor-daith, gweddiwch am i'r *pilot* mawr eich harwain i'r hafn ddymunol

'Ffrynd pechadur
Dyna'm Llywydd ar y môr.'

Pan oedd yn pregethu yn Llanarmon-Dyffryn-Ceir-iog er ys amryw flynyddoedd yn ol, efe a adroddodd ar ei bregeth hanes a glywsai efe gan un o hen bobl yr ardal hono, am hen offeiriad gwenwynllyd iawn oedd yn offeiriadu yn yr ardal pan oedd y Methodistiaid yn dechreu dyfod i'r ardaloedd hyny i bregethu; "*Upon my word*," medd yr hen berson, gan daro ei ffon yn llid-iog yn y llawr, "ni chant ddim dyfod i'r plwyf hwn i hudo y bobl, na chant *upon my word*." Ond yr oedd yr hwn sydd yn preswyllo yn y nefoedd yn dywedyd, "*Upon my word* hwy a gant, cant *upon my word*;" ac fe gafodd yr hen offeiriad yn weled wedi hyny "*upon my word*" pwy a safodd. Yr oedd yn dda i'r hen berson nad oedd efe ddim yn byw yn amseroedd yr hen oruchwyliaeth; pe buasai byw yn yr amseroedd hyny cawsai ei ddienyddio fel gau brophwyd, am na ddaeth ei eiriau ef byth i ben.

Wrth ddangos y pwysigrwydd o roddi y gogoniant i Dduw, efe a lefai yn egniol a chlir, "Bydded i ni oll ofalu am dalu y dreth fawr, fy mhobl i, rhag y daw gyru arnom am dani yn fwy disymwth nac y medyliem. Fe yrwyd ar Herod gynt yn ddisymwth iawn am y dreth fawr, ac fe'i halltudiwyd ef o'i dŷ rhag blaen at gyth-

reuliaid am nacau talu y dreth fawr; a llawer o wŷr cefnog eraill a ddaliwyd yn ddisymwth iawn i'w gorfodi i dalu y dreth fawr."—Ac nid oes achos am well dywedyd; oblegyd y mae gan bawb ddigon o fodd i'w thalu os bydd ganddynt ewyllys i wneuthur hyny, a meddwl am dalu. A pha beth a wneir i'r rhai hyny nad oes ganddynt nac ewyllys na meddwl am dalu ond gyru arnynt? Nid yw y rhai hyny yn deilwng o un math o gydymdeimlad. Y mae y Messiah yn canmol y dyn trugarog hwnw a faddeuodd y ddyled i'r truan a'r tlawd, am na feddai fodd i'w thalu ac am iddo ymbil âg ef.

Mewn cymdeithas eglwysig rywbyrd er ys hir o amser bellach, yr oedd ymryson cyndyn a dyryslyd iawn rhwng rhai o'r bobl a'u gilydd; ac mor anhawdd oedd unioni y camwri o bob tu yn yr ymryson tymhestlog a chas, fel y dywedodd ef o'r diwedd, "Rhoddwch y *bill* a'r achos dyrus yma, da chwi gyfeillion, yn y cwd gwyrdd i aros y *session* fawr,"—gan gyfeirio at arferiad y cyfreithwyr pan yn cychwyn o'r brifddinas i *sessions* y Dywysogaeth. Ac yr oedd pawb o fewn y lle yn gweled nad oedd dim arall i'w wneuthur. Ac os na heddychasant a'u gilydd yn nhymer eu hysbrydoedd, cafwyd llonydd ganddynt o hyny allan.

Clywais ef amryw weithiau yn dywedyd wrth son am barhad mewn gras cadwedigol, "Camgymeriad yw dywedyd fod cwmp o gyflwr cadwedig: ac y mae yn amhosibl fod *fall out* cyn bod *fall in*; ac achos ymadawriad dynion â chrefydd yw na chawsant erioed *fall in*."—Y mae llawer rhan o athroniaeth yn ddigon eglur wrth ac wedi ei thraethu, ac y mae dynion yn synu atynt eu hunain na buasant hwy yn ddigon doethion i wybod hyny cynt.

Pan oedd Abraham y Ceunant, rywbyrd wedi cael ei ddigio yn dost gan un o'i gymydogion, cyfarfu Dafydd Rolant ag ef yn edrych yn gyffrous a digofus. Gofynodd

iddo a oedd efe yn myned yn mhell; atebodd yntau, "Yn blaen i chwi," arferai y gair "*yn blaen*" yn aml iawn "y mae hwn a hwn wedi gwneuthur fel a'r fel a mi; a glywsoch chwi erioed son am y fath dro? Yr wyf yn myned at y cyfreithiwr i'w rodidi yn llaw y gyfraith." "Wel, Abram Jones," medd yntau "y mae y Beibl yn gorchymyn peidio ymddial—'nac ymddielwch rai anwyl.'" "Diolch yn fawr i chwi," meddai yntau, "am ddywedyd gair y Gwr wrthyf, mi a af yn fy ol adref y munyd hwn." Ac efe a brysurodd adref neb ymddiddan dim ychwaneg. "*Y Gŵr*," y galwai efe yr Arglwydd yn fynych iawn.

Pan oedd efe ryw bryd yn sylwi ar gystudd Job, dywedai yr achos na chyffyrddodd y gelyn ddim â'i dafod, "Pe buasai y diafol yn gwybod," medd efe "mai bendithio Duw y buasai efe wedi cael ei dafod yn ddiddolur, efe a darawsai ei dafod nes ei wneuthur gymaint a mawnen," a phryd arall dywedai—"Mi fuasai wedi rhoddi penddyn cymaint a meipen yn ei geg o." Y mae yn ddiarnheu fod gan y gelyn yr un faint o genad a goddefiad i wneuthur hyny ag oedd ganddo i daro rhanau eraill o'i gorph.

Na rwgnached neb gan ddywedyd mai ryw giniaw o lobsgows yw y traethawd hwn o'i ddechreu i'w ddiwedd; oblegid y mae yma ddigon o gig i gyfartalu y tatws a'r maip a'r cyfan.

Yr oedd Dafydd Rolant yn addfedu i'r Ganaan nefol o hyd "fel y cyfyd ysgafn o yd." Ac er nad oedd yn hen pan y bu farw, eto yr oedd wedi treulio oes hynod o faith. Dyma ei brofiad un o'r dyddiau diweddaf y bu efe byw cyn colli ei wybodaeth; y mae ei enw ef wrth y penill yn "*Theomemphus*":—

"Pan ddelo'r awr i fynu, a deued yn ei phryd,
Mi agora'm mynwes i ti, a gwna dy waetha i gyd;
'Rwy'n blino ar y ddaear,' rwy'n brefu am y wlad
Lle mae fy Nuw, fy Iesu, fy Mhriod a fy Nhad."]

PENNOD VIII.

LLOFFION O'I DDYWEDIADAU.

RHODDIR yn y bennod hon ryw fân ddywediadau a ddywedodd efe yma a thraw wrth bregethu ac ar adegau eraill. Rhoddwn hwynt fel y'u cawsom, neu fel yr ydym yn eu cofio, mor agos ag y gellir yn ei eiriau ef ei hun, heb na nôd nac esboniad arnynt.

“Yr oedd cof Dafydd Cadwalad fel uffern, ni ddywedai byth digon, a pha beth bynag a fwridd yno ni ddeuai byth oddiyno.”

Yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Elias, dywedai—

“Mi saethwyd llawer ato fo, ond yr oedd o yn ehedeg mor uchel, fel yr eryr, ni chyffyrddodd yr un o'u saethau nhw na phluen nac aden iddo erioed.”

Pan alwyd arno i ddweyd gair yn Nghymdeithasfa y Bala ar ol marwolaeth Mr. Parry o Gaer, dywedai—

“Nid oes genyf fawr i'w ddweyd, ond fy mod i yno yn ymweled âg ef ychydig cyn iddo farw, ac yr oeddwn i yn ei weled o fel y wenol ar y tô, ar gychwyn i'r *foreign lands*, pob peth yn barod.”

Wrth wneyd sylw ar farwolaeth Mr. Davies, Fronheulog, dywedai y gellid dweyd—

“‘Wele Israeliad yn wir yn yr hwn nid oedd dwyll.’ Gellid meddwl am dano wedi iddo gael ambell i gerydd pur lym gan hen ddiaconiaid da perthynol i Gyfarfod Misol Sir Feirionydd, na welem y gŵr mawr o Fronheulog byth ar ol hyn. Ond y Cyfarfod Misol cyntaf wed'yn byddai ef yno yn gyntaf un, yn ysgwyd dwylaw, ac yn trefnu yn nghanol ei frodyr tlodion, fel pe na buasai dim erioed wedi digwydd. Yr oedd ‘y dwr i fywyd; ragywyddol’ yn tarddu yn bost o hono.”

Ar ol marwolaeth y Parch. Cadwaladr Owen, Dol-yddelen, dywedai—

“Yr oeddym ni yn gallu procio pechaduriaid o'u llochesau ar hyd yr amser, ond methu dal dim; ond mi ddoi Cadwalad

Owen â'i rwyd fawr, ac mi taenai hi ar ein holau ni, ac yr oedd yn dal clampiau o logiau mawr o bechaduriaid."

Pan y gofynwyd iddo fath bregethwr oedd un brawd, oedd yn enwog fel offeryn i enill eneidiau, atebai—

"Nid oes ganddo fo yr un *ganau*, nac ond *gwn* pur gyffredin ond eu cymeryd nhw hefo'r *bagnet* y mae fo."

"*Gwlad well y maent hwy yn ei chwenych.*"—

"Y mae gwŷr arianog Llundain ar ol casglu eu miloedd lawer yn eu *business* yn myned i fyw i'r rhan hono o'r dref a elwir y *West End*. Felly y mae y saint hefyd; wedi iddyn' nhwythau fod yma mewn llafur a lludded am dro, y mae nhw yn symud oddi yma i fyw, ac yn myned i'r *West End*—i 'wlad well.' Pa le y mae llawer o'r hen gyfeillion a goll'som ni o'r ardal yma? O, y mae nhw wedi myned yn crmod byddigions i aros yma, y mae nhw wedi symud i'r *West End*. Y mae y saint i gyd yn cael myned adref mewn cerbydau tân. A chafodd Sarah Dafydd, Drawsfynydd, fyned i'r 'wlad well' yn yr un cerbyd a Dr. Chalmers (buont farw yr un diwrnod), er ei fod o yn gallu aduabod y ser wrth eu henwau, ac er cymaint gwŷr oedd o. Y mae y duwiolion i gyd yn Fyddigions y nefoedd, ac yn cael myned adref yn eu *carriages*."

"Y mae cyrchu rhyfeddol i weled rhyfeddodau yr *Exhibition* Llundun ene. Y mae acw hen fyddigions braf tua'r Bala acw; mae nhw yn myn'd i'r nefoedd yn eu clocsie yn gynt o lawer nac y mae pobol y *veils* a'r sidanau yna efo'u hannuwioldeb. Mi fyddaf fi yn edrych ar balasau yr annuwiolion fel ar *gwtches* tatws, ac ar y byddigions annuwiol fel tatws wedi llygru ynddyn' nhw. Er eu gwychder, y mae melldith Duw uwch eu penau nhw, a chymaint oll ag a fedda' nhw. Mi fydda' yn well gen' i fyw a marw yn mwthyn Cadi Rondol, ac yn nghap nos Abram y Ceunant, oedd am ei ben yn cychwyn i'r nefoedd, a bod yn heddwch Duw, na chael trigo yn y palasau goreu a fedd y byd yma, a bod wedi hyny yn wrthodedig ganddo ef yn y diwedd."

"Mi fyddai yn well gen i, mhobol i, fyw mewn hafotty ar ben mynydd, a byw ar datws a halen a Beibl mewn twll yn y mur, na bod yn y palas gwycha' heb yr un Beibl, ac heb allor i Dduw gael ei chodi yno."

"Oni buasai fo l yr efengyl genym ni ar hyd y wlad yma, yn mhell o gyrhaedd y llanau, mi fuasem mor dlotted o grefydd a llygod eglwys,—o's ydyw y rhei'ny yn dlottach na llygod eraill."

“Pe palech chwi aur fel palu pridd, os heb yr efengyl, mi fyddech cyn dlotted a llygod eglwys.”

“Mi fyddai yn well genyf fi fyned i werthu nôd coch, na myn'd i bregethu yr efengyl er mwyn elw.”

“Y peth sydd yn ei gwneyd hi debycaf y caf fi fyn'd i'r nef-oedd ydyw fod darnau o honof wedi myned yno.”

“*Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist.*”—Dangosai fel yr oedd Duw yn gwneyd peth mor fawr a chyhoeddi ei efengyl trwy offerynau mor wael, a pha fodd na buasai Efe yn codi y rhai hyny i enwogrwydd. Dywedai,

“Sut na b'ase y Brenin Mawr yn rhoi pregethwrs ei efengyl yn eu *coaches*?—Pe felly ni buasai pobol Dolyddelen wedi clywed yr efengyl eto; oblegyd ni ddaeth yno yr un *goach* trwodd erioed o Riwbryfdir i Dolyddelen.”—(Dywedodd hyn er ystalm; ni buasai yn wirionedd y dyddiau presennol.)

“Yr oeddwn i yn edrych ar Bont Menai yn beth rhyfedd iawn y tro cyntaf; ond wedi ei gweled hi dipyn o droiau, nid oedd hi yn ymddangos yn ddim mwy rhyfedd na berfa drol ar balmart. Ond am yr iachawdwriaeth yma, pa fwyaf a edrychaf fi iddi, rhyfedda yn y byd y mae hi yn ymddangos:—

‘Pan bwy'n rhyfeddu un peth, un arall ddaw i 'mryd,
O! iachawdwriaeth rasol! rhyfeddod wyt i gyd.’”

“Yr oedd y patriarchiaid vn gweled trwy yr addewidion fod iachawdwriaeth i gael ei ariparu ryw dro; yr oedd yn amlwg iddyn' nhw ei bod hi yn mwriad Duw, ac yr oeddynt yn credu y rho'id y bwriad mewn gweithrediad; ond yr oeddynt yn methu deall pa fodd yr oedd cael y ddau pen at eu gilydd.—Pan oedden' nhw yn adeiladu y *Tub'lar Bridge* yna ar yr afon Menai, yr oedd yno un darn o honi un ochr, a darn arall yr ochr arall. ‘Wel,’ meddai rhywun ar y lan, ‘pe bai modd cael y ddau yma at eu gilydd, mi wnai y tro yn *noble*. Ond nid oes un *power* all dd'wad a nhw at eu gilydd.’ Ond mor gynted ag y daeth y *machinari* mawr yno, mi cododd nhw at eu gilydd, ac mi cysylltodd nhw, mor hawdd ag y rhydd neb y tecell ar y tân; felly fe gafwyd ffordd rhwng Mon ac Arfon. Felly y darfu Duw; er mor anhawdd ydoedd, mi allodd o trwy anfon ei Fab i gymeryd ein natur ni, ac i farw yn ein lle, wneyd ffordd ddiogel i'r euog gael myned i'r nefoedd

‘Wedi ei phalmantu ganddo ef,
O ganol byd i ganol nef.’

Er lleted oedd yr adwy, mi llenwodd y Mab hi â'i haeddiant ei hun ;

' Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr
Fe'i llenwodd â'i haeddiant ei hun.' ”

“ Y mae crochan ffydd yn ffitio i'r dim ar drybedd gras.”

“ Y mae dyn wrth *actio* ffydd fel dyn yn nofio : nid oes dim yn eisieu i ddyn wrth nofio ond ymollwng, ac estyn ei ddwyllaw a'i draed, mi cynalia y dwr o ; felly nid oes eisieu i ddyn ond gorphwys, pwysu, ei enaid yn dawel, mi cynalia y drefn o.”

“ Y mae yr angylion yn hoff iawn o ddwad i roi tro i'r ddaear yma. Ond nid i'r *House of Lords* y mae nhw yn myn'd gyntaf ; nid ydyw yn ddim byd ganddynt fyn'd yno. 'Dydyn' nhw ddim yn *meindio* mwy yn yr esgobion sydd yno na phe byeddn' nhw fonion *cabbage*.”

“ Yr oedd rhyw ddyn yn mlaen y Sir yma yn dweyd ei fod wedi bod yn sychlyd a chaled iawn ; ond yn bresenol wedi dyfod i eglwys Dduw, ac i foddion gras, ei fod wedi dyfod dan y pistyll, a'i fod o yrwan yn dechreu mwydo tipyn yn ara' deg. Dowch chwithau, er mor galed a sychion ydych chwi o dan y pistyll, mi gewch eich mwydo yn iawn ; y mae dwr y bywyd yn tywallt i lawr y dyddiau yma.”

“ *Mi a briodais wraig, ac am hyny nis gallaf fi ddyfod.*”

“ Y penbwl gwirion, pam na fuaset ti yn dwad a hi yno hefo thydi.”

“ Pe gwnait ti yr holl ddaion, a wnaeth y patriarchiaid, y prophwydi, yr apostolion, a'r seintiau o ddechre y byd tan yrwan, ni wneit ti ddim cymaint a thwll wimbled i fyn'd i'r netoedd wed'yn.”

“ *Trwy ras yr ydych yn gadwedig.*”

“ Dinas annuwiol iawn oedd Ephesus, a phobol ddrwg ddiwedd oedd yr Ephesiaid cyn i'r efengyl eu cyrhaedd nhw. Yr oedd y cythreuliaid yn ei *lordio* hi yn braf drostyn nhw. Ond wedi i Paul fyn'd yno i bregethu, yr oedd yn rhaid i'r cythreuliaid *yieldio* ; nid oedd raid ond myn'd a nappcynau neu foledau oddiwrth gorff Paul at y bobol oedd wedi eu meddiannu gan ysbrydion drwg, na byddai y cythreuliaid yn chwyrlio myn'd allan o honyn' nhw. Mi roedden' nhw yn diengyd rhag ofn cap nos Paul. Ond yr oedd yno ryw garpiach eraill, meibion Scefa, yn ceisio bwrw allan gythreuliaid i ddynward Paul ;

“Pe palech chwî aur fel palu pridd, os heb yr efengyl, mi fyddiach cyn dloctad a llygod eglwys.”

“Mi fyddai yn well genyf fi fyned i werthu nôd coch, na myn’ d i bregethu yr efengyl er mwyn elw.”

“Y peth sydd yn ei gwneyd hi debycaf y caf fi fyn’ d i’r nef-oedd ydyw fod darnau o honof wedi myned yno.”

“*Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist.*”—Dangosai fel yr oedd Duw yn gwneyd peth mor fawr a chyhoeddi ei efengyl trwy offerynau mor wael, a pha fodd na buasai Efe yn codi y rhai hyny i enwogrwydd. Dywedai,

“*Sut na b’ase y Brenin Mawr yn rhoi pregethwrs ei efengyl yn eu coaches?*—Pe felly ni buasai pobol Dolyddelen wedi clywed yr efengyl eto; oblegyd ni ddaeth yno yr un *goach* trwodd erioed o Riwbryfdir i Dolyddelen.”—(Dywedodd hyn er ystalm; ni buasai yn wirionedd y dyddiau presennol.)

“Yr oeddwn i yn edrych ar Bont Menai yn beth rhyfedd iawn y tro cyntaf; ond wedi ei gweled hi dipyn o droiau, nid oedd hi yn ymddangos yn ddim mwy rhyfedd na berfa drol ar balmart. Ond am yr iachawdwriaeth yma, pa fwyaf a edrychaf fi iddi, rhyfedda yn y byd y mae hi yn ymddangos:—

‘Pan bwy’n rhyfeddu un peth, un arall ddaw i ’mryd,
O! iachawdwriaeth rasol! rhyfeddod wyt i gyd.’”

“Yr oedd y patriarchiaid vn gweled trwy yr addewidion fod iachawdwriaeth i gael ei uariparu ryw dro; yr oedd yn amlwg iddyn’ nhw ei bod hi yn mwriad Duw, ac yr oeddynt yn credu y rho’id y bwriad mewn gweithrediad; ond yr oeddynt yn methu deall pa fodd yr oedd cael y ddau pen at eu gilydd.—Pan oedden’ nhw yn adeiladu y *Tub’lar Bridge* yna ar yr afon Menai, yr oedd yno un darn o honi un ochr, a darn arall yr ochr arall. ‘Wel,’ meddai rhywun ar y lan, ‘pe bai modd cael y ddau yma at eu gilydd, mi wnai y tro yn *noble*. Ond nid oes un *power* all dd’wad a nhw at eu gilydd.’ Ond mor gynted ag y daeth y *machinari* mawr yno, mi cododd nhw at eu gilydd, ac mi cysylltodd nhw, mor hawdd ag y rhydd neb y tecell ar y tân; felly fe gafwyd ffordd rhwng Mon ac Arfon. Felly v darfu Duw; er mor anhawdd ydych chi’n meddwl ei Fab i gymeryd ein ffordd ddiogel i’r en

ond nid oedd ar y cythraul ddim o'u hofn nhw, yr oedd o yn crewcian arnyn' nhw fel ffwlbart mewn gwâl : yr oedd yn gallu dweyd yn eithaf hy', 'Yr Iesu yr wyf yn ei adnabod, a Phaul a adwaen, eithr pwy ydych chwi,' llymrigwn uffern? ac mi ddangosodd iddyn' nhw yn bur amlwg mai gweision iddo fo oedden' nhw. Yr oedd ganddyn' nhw lyfrau *witchio* hefyd beth aneiri'; ond rhyw ddiwrnod mi ddaethant a'r llyfrau yma i gyd at eu gilydd i wneyd coelcerth o honyn' nhw; yr oedd yno dŵr mawr o honynt gymaint a thomen y Bala; ond mi rhoison' nhw ar dân i gyd yn ngwydd pawb, ac aeth amal i Belphegor i fyny yn y mwg dan wichian fel porchell mewn llidiart."

"*Y mae afon a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw.*"—

"Edrychwch chwi ar yr afonydd yma, y mae y twya' yn llyncu y lleia' o hyd. Y mae y Dyfrdwy yn llyncu yr afon Liw, y Tryweryn, yr Alwen, a'r cwbl hyd Afon Goch Rhosllanerch-rugog. Felly y mae afon Duw yn llyncu pob afon arall—y mae Aberth y groes wedi llyncu yr holl aberthau—Afon Goch Calfaria wedi llyncu yr holl afonydd o waed a redodd o dan yr hen oruchwyliaeth. Ac y mae yr afon yma yn gwneyd pob peth a ddaw iddi yn bysgod, ie, y pricie crin ag sydd yma, tafler chwi i hon, mi gewch eich gwneyd yn *salmons* braf."

"Byw trwy ffydd yr oedd Abraham; nid oedd o yn gofalu dros dranoeth; nid oedd yn rhoi bara yn y pobdŷ ddigon dros wythnos, na dim ond pobi teisen fel y byddai ei heisieu."

"Yn ddynion a'r Ysbryd arall yma y dylem ni fod gyda chrefydd, fel Caleb a Josua, fei pe cydiai y cythraul yn ein trwynau ni a gefail bedoli na throem ni ddim yn ein holau."

"Yr oedd Dafydd yn trwtws gweddio o hyd ar bob amgylchiad. Ingian (*Engine*) weddio oedd Dafydd."

"Mi laddodd Dafydd y cawr nes oedd o yn farw ar y clwt. A phan aeth o ar ei gefn o i fyned i dori ei ben, nid oedd o ond fel c'lomen ar waelod *hogshed*."

"*Gwrybyddwch i'r Arglwydd neillduo y duwiol iddo ei hun.*" Dywedodd—

"Dewisodd yr Arglwydd Dafydd ac nid Saul; ac mi ddechreuodd Saul genfigenu wrth Dafydd a'i erlid o; ceisiai ei oreu am ei fywyd o. Mi ddaeth am y boncyn a fo ryw ddiwrnod, a rhyw foncyn tebyg iawn i Mynydd Nodol acw oedd o; ond dyma ryw un yn dwad a'i wynt yn ei ddwrn at Saul, ac yn

dweyd, 'Y mae y Philistiaid yn llenwi y wlad,' a bu yn rhywyr iddo fyn'd i ymladd a'r rhei'ny. Fel hyn mi yrodd y cythraul y cwn yn mhenau eu gilydd, fel y gallodd dafad Duw ddianc yn iach a diogel."

"Peidiwch bobol a gadael un pechod yn fyw. Pe buasai Saul wedi lladd yr holl Amaleciaid, ni buasai yr un Amalecyn yn fyw i'w ladd ef."

"Dylasai Jehosaphat fod yn fwy *stylish* gyda'i grefydd, na myned i gwtwsa gyda rhyw fflagwd annuwiol fel Ahab."

"Yr oedd ar Pharaoh eisieu crwper garw pan oedd o yn gyru ar ol yr Israeliaid."

"'Y mae arna' i eisieu cael fy mhobl o'r Aipht,' meddai yr Arglwydd. Wel hys lau! hys lyffaint! hwi gythraul! gwnewch eich goreu er iddyn' nhw gael myn'd."

"Yr oedd Pedr fel ceffyl melin, y pwn yn ormod ryw ochr o hyd. I ddechreu, dywedai, 'Ni chei di olchi fy nhraed i byth,' wedi hynny, 'Nid fy nhraed yn unig ond fy nwyllaw a'm pen.'"

"Rhyw ffrwt oedd Pedr. Ac nid oes fawr o ddaioni mewn bachgen gyda chrefydd os na bydd tipyn o ffrwt ynddo. Yr oedd hogen o forwyn yn ddigon i'w ddychrynu fo unwaith, nes y gwadodd ei Arglwydd, ac mi aeth i regi ac i dyngu. Ond rhyw rigwm o'r rhegi mwya' sychlyd a glywodd neb a'i glustiau oedd o, yr oedd yn amlwg nad oedd o yn arfer llawer â'r gwaith. Ond ar ol dydd y Pentecost yr oedd o wedi cael cyfnewidiad trwyadl; os oedd hogen yn ei ddychrynu fo o'r blaen, ni fedrai mawrion yr Iuddewon mo'i ddychryn o wed'yn; nid oedd o ddim yn *hidio* dim ynddyn' nhw, mwy na phe b'ase nhw fonion cabbage."

"Mi drodd Pedr yn ei garn yn llys yr archoffeiriad. Yr oedd arno eisieu cŷn yn ei garn garw iawn. Gobeithio y cawn ni ein gwaredu rhag pregethwyr a blaenoriaid llac yn eu carnau."

"Yr oedd hi yn helynt garw ar y disgyblion yn amser y y croeshoeliad. Yr oedd Pedr yn edrych yr un ffunud a gafr ar d'ranau."

1 Pedr ii. 7, 8. "Os nad ydyw Iesu Grist yn fwy gwerthfawr na phawb a phobpeth yn dy olwg di, mi elli benderfynu na chredaist ti erioed ynddo. Nid rhyw bellen ddiffyg ydyw Iesu Grist, rhaid i ti ei gymeryd yn bob peth neu gymeryd dy *siawns*. Yr oedd yr 'adeiladwyr' gyda chrefydd, ond yr oedden' nhw

wedi llysu y maen. Mynwch grefydd, y mhobol i, aiff a'r Iesu yn ben y gongl. Fe allai fod yma rai yma wedi gwrthod y maen, a thrwy hyny y maent wedi selio eu damnedigaeth eu hunain. Ond y mae yn dda genyf feddwl nad ydyw yr *Ustus* mawr ddim wedi *signio y death warrant*. Y mae Pedr pan y mae o yn ysgrifenu yr epistol yma yn cofio yn ddiambheu y diwrnod y bu fo o flaen y cyngor yn Jerusalem, nos dydd y Pentecost, pan yr oedd y penaethiaid wedi cymeryd gafael yn yr hen bregethwr oedd wedi bod yn gwneyd cymaint o ddrwg i uffern yr holl ddiwrnod hwnw. Yr oedd hi wedi myn'd yn rhy hwyr i'w ddwyn o flaen y cyngor y noswaith hono, ond fe'i dygwyd y dydd canlynol. Yr oedd o wedi cael ei wisgo â nerth o'r uchelder. Ac yr oedd o yn dweyd y gwir yn eu gwynebau nhw, 'Hwn,' meddant, 'yw y maen a lyswyd genych chwi, yr adeiladwyr, yr hwn a wnaed yn ben y gongl.' Yr oedd y swyddogion gwladol yn meddwl y buasen' nhw yn ei ddychrynu fo; ond yn lle hyny y fo a'u dychrynodd nhw. Yr oeddyn' nhw mor barod i fyned oddiwrtho ag a fyddai dyrnaid o fanus ar ben yr Aran o flaen y corwynt."

Y Llenllian. "Mae yn syn i'w ryfeddu, mhobol i, mai Pedr, gweinidog yr enwaediad, a roes y bregeth gyntaf i'r cenedloedd. Yr oedd cymaint o *sism* y grefydd Iuddewig yn Pedr fel y bu raid i Dduw ei l'w'gu fo cyn y cychwynai i'w daith. Fel yr oedd o ar ben tŷ Simon yn Joppa, fe ddaeth llewyg arno, ac yn ei lewyg mi welai yr hen drefn fawr yn dwad i lawr yn ddigon *sound*, a'i phedair congl yn y nef, a phob tryblith ynddi, a galwad ar Pedr i ladd a bwyta. Ond yr oedd *stumog* yr Iuddew yn rhy wan i fwyta dim cyffredin neu aflan. Ond dyma *notice* iddo fo yn union, 'Y pethau a lanhaodd Duw na alw di yn gyffredin neu aflan;' a hwff a fo iddyn' nhw wed'yn, a mawr a fu'r llwyddiant ar yr odfa, 'Disgynodd yr Ysbryd Glân ar bawb oedd yn clywed y gair."

"Mi fyddai yr Iesu yn cymeryd y disgyblion o'r neilldu yn aml. Y mae yn dda genyf fi weled y dynion ieuainc acw yn y Bala yn cael eu dysgu; ond yr ydw' i yn disgwyl y cymer yr Iesu nhw o'r neilldu bod ag un, i ddweyd wrthyn' nhw dipyn o'i *secrets*."

"*Ei ddisgyblion a ddaethant o hyd nos, ac a'i lladrattasant, a nynt yn cysgu.*" "Sut y gwyddech chwi pwy aeth a fo, os nad oeddych chwi'n cysgu a'ch llygaid yn agored fel y bydd llewod yn gwneyd. Mi glywais son lawer gwaith am gelwydd du a chelwydd gwyn, ond celwydd du iawn oedd hwn o eiddo yr arch-offeiriaid beth bynag."

“Pan ddaeth tyrfa'r gwaewffyn i'w ddal, yr oedd ein Hiesu ni mor fawr, nid oedd raid iddo fo ddim ond dweyd, ‘*Myfi yw,*’ nad oeddyn' nhw yn llafnau ar wastad eu cefnau ar y ddaear fel pryfaid genwair; ac ni fuasen' nhw ddim yn codi byth oni buasai iddo fo eu cynnal nhw.”

“Ni fu erioed gymaint o awydd llifo du ag ar Golgotha. Ni fu erioed gymaint o ddail surion y cwn, yn gymysg a chopros uffern, yn yr un man, a dail bysedd cochion hefyd am wn i, ag oedd ar Galfaria; ond yr oedd yr Iesu yn *gamblic* rhy wyn i'r cwbl, ni life fo ddim er eu gwaetha' nhw.”

“*Gorphenwyd.*”—“Arfer Duw ydyw dweyd llawer mewn ychydig. Rhoddodd fôr o fater i Adda mewn diferyn o iaith, ‘Hâd y wraig a ysiga dy ben di, &c.’ Felly hefyd yn y testun, ‘Gorphenwyd.’ Yr oedd yn orchest gan y Groegiaid fedru dweyd llawer mewn ychydig; ond fe ddywedodd Iesu Grist mewn un gair fwy na'r un Groegun o honyn' nhw; ‘Gorphenwyd,’ rhyw bwt o air ydi fo, mhobol i, ond mi *stretchith* fel *Indiarubber* i dragwyddoldeb.”

“Yr oedd angau wedi llyncu aml i hen gristion,—llyncodd Abram, llyncodd Isaac, a Jacob, a'r hen dduwiolion, ac ni bydd yn dda gen i am dano am ei waith. Ond ar ol llyncu y naill ar ol y llall yn hwylus, o'r diwedd, ar Galfaria, mi gafodd ormod o damaid, fe drodd yn *idigestion* arno fo, nes y bu raid iddo fo ei fwrw i fynu y trydydd dydd. A'r pryd hwnw, ‘Angau,’ yntau, ‘a lyncwyd mewn buddugoliaeth.’”

Phil. iii. 9. “*Ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, &c.*”—“Yr oedd yr hen Apostol wedi bod yn gwneyd rhyw ffurfafen o hunan gyfiawnder, yr oedd ganddo gryn lawer o ser yn ei grefydd. Os ydw i yn cofio yn iawn, y mae saith o honyn' nhw yn cael eu henwi ganddo yma; ac mi dybygwn i mai ‘yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf yn ddiargyhoedd’ oedd ei dwr tewtws o; ond ryw ddiwrnod mi newidiodd nhw bod ag un am *un* Haul. Pan ddaeth yr Haul i'r golwg, fe aeth ei ser dysglaer, a'i dwr tewdws, a'r cwbl i'r t'w'llwch yn y fan, a dyna fo yn dweyd, ‘yr wyf yn cyfrif bob peth yn dom, fel yr ynillwyf Grist.’ Y mae yn angenrheidiol gwerthu llawer mewn trefn i enill Crist. Mi fydd y ffarmwyr yma pan yn ymadael a'r hen ffarm yn gwneyd ffair *Auction* ar yr hen *stock* oddentu Calangauaf; ac wed'yn, yn Ebrill, yn hel y man settliach i gyd i'w gwerthu yn llwyr cyn troi allan Galanmai. Yr ydwyf fi, mhobol i, yn hyderu yn gryf fod plant y diwygiad yma wedi myn'd trwy y flair fawr Galangauaf beth bynag; ond y mae yn rhaid gwerthu y cwbl yn llwyr cyn cael cwbl feddiant o'r etifedd-

iaeth anllygredig sydd ynghadw y nefoedd i'r saint. Fechgyn anwyl a ddowch chwi i wneyd ffair ar eich pethau yma heno, yr ydych wedi cael digon o amser i welod na fedrwch chwi ddim myn'd yn mlaen efo'r hen *stock*. Derbyniwch arian y brenin yn eu lle, efo hwnw y cewch chwi fyned i mewn i'r llys. 'Ac y'm ceir ynddo ef, heb fy nghyfiawnder fy hun.' Nid oes dim rhyngot ti a chael crefydd, ond un gair tair llythren, y gall plentyn ei *spelio* fo—h-e-b 'heb fy nghyfiawnder fy hun, a dyna hi yn dy afael di yn union. Pan fo dyn pwysig mewn tre, megys *turne* neu *ddoctor*, wedi symud i fyw o'r hen dŷ i dŷ arall, mi fydd 'to be found yn y fan a'r fan' yn cael ei roddi ar y drws. Felly yr oedd Paul yn myn'd o'r hen gyflwr, rhoddodd arno 'Y'm cair ynddo Ef;'—a pha le y mae y Sais hwnw yrwan [un oedd wedi dymuno cael tipyn o Saesoneg ganddo], dyma iddo fo lonaid ei geg o Saesoneg,—'to be found in Him.'

"Yr oedd Paul, y mhobol i, yn *ffond* iawn o eglwysi y saint; ond yr oedd o yn *ffondiach* o'r Philipppiaid na'r un o'r lleill. Yr oedd o yn bur *ffond* o'r Galatiaid, ond yr oedd yr ymgrafu ar eu clustiau nhw, rhyw ysfa ddrwg am wrando athrawiaethau dyeithr."

"Beth ydyw myned a'n hunan gyfiawnder at Grist? Yr un peth ag a fyddai i bobol Sir Feirionydd acw fyn'd i gario glo i Ruabon."

"Y mae y gwagedd yma yn myn'd a'r toes at y tân yn gyffredin, ond y mae llawer yn arfer myn'd a'r lefain i'r bwtrri neu rywle digon oer. Y mae crefyddwyr oerion yr un fath yn union, y mae nhwthe fel lefain yn cael eu cadw yn mwtrri y cythraul."

Clwb mynydd Seion.—"Nid ydw i mewn unrhyw glwb. Y mae ganddyn' nhw lawer o glybiau yn y byd yma, ac y mae rhyw reolau yn perthyn iddyn' nhw. Ond yr wyf finnau yn meddwl fy mod i yn perthyn i glwb mynydd Seion. A phan af fi yn sâl, ar hwn yr ydw' i yn meddwl byw. Ac y mae yma lawer eraill yn aelodau o'r clwb yma. Edrychwch ati, mhobol i, am gadw'r rheolau;—rheolau y clwb yma ydyw y bymthegfed Salm."

"Gwylwch golli blas ar bethau yr efengyl. Y mae tafell o fara haidd gydag archwaeth dda, yn well na'r bara gwenith gore heb hyny."

"*Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch*"—"Y mae yma rai na flinent yn ei rhodio, pe caent eu lluchio â chloncwiau."

Trysor wedi ei guddio mewn maes.—"Prynu y maes yma a wnaeth yr hen Sion William o Gynwyd, yn frenin yn Edeyrn-

ion,—mor gyfoethog o sancteiddrwydd nes yr oedd ar annuw-
iolion arswyd yn ei bresenoldeb.”

“Hwyrach mai mewn cyfarfod *teetotal* y cafodd y bachgen o hyd i'r *faen*; wedi iddo gael o hyd i'r wythien, mi gymerodd forthwylion gweddiau, ac ebillion myfyrdodau, i dori twll yn y graig, y mae y powdwr yn cael ei dywallt iddo o gorn iachawd-wriaeth, ac fe ddisgynodd gwreichionen o dân o'r thuser aur oddiar yr allor, nes yr aeth hi yn chwalfa, ac mi wnaeth ei *ffortune* am dragwyddoldeb.”

“Y mae y fath beth a chyrhaedd llawn sicrwydd gobaith yn y byd yma; ond nid yw y cristion yn addas i'w gael o bob amser. Y mae y gwelltyn tua mis Awst yn rhy feddal i ddal y pen melyn main, ond wedi iddo gael ei galedu gan wres Medi, bydd yn ddigon caled i'w ddal o. Y mae llawer o honoch chwithau yma yn rhy weiniaid eto i ddal llawn sicrwydd gobaith, ond wedi i chwi gael eich cakedu gan wres profedigaethau a chystuddiau, mi fyddwch cyn hir yn ddigon cryfion i ddal llawn sicrwydd gobaith.”

“Pe caem ni lawn sicrwydd ffydd yma, ar lawer adeg, a golwg ar y gogoniant mawr, mi aem yn *hoits* gyda'r byd yma; ni fydden' ni ddim yn ffit i drin y byd yma wed'yn; ond y mae yn rhaid i ni edrych ar ei ol o tra y byddwn ni ynddo fo.”

“Y mae y cristion yn debyg iawn i arch Noa; fel yr oedd y dyfroedd yn ymgryfhau ar y ddaear, yr oedd yr arch yn nesu at y nefoedd o hyd. Felly fel y mae dyfroedd profedigaethau'r byd yma yn cynyddu i'r cristion, nesaf yn y byd i'r nefoedd y maent yn ei godi o hyd.—‘Ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.’”

Arwyddion yr Haf.—“Y mae arwyddion pur amlwg pan fyddo'r haf yn nesu. A dyna un arwydd fod yr haf yn nesu ydyw y cywion gwyddau a'r ebolion bach. Mi fydd y plant o gwmpas y Bala acw, yn cael difyrwch mawr pan fydd y cywion gwyddau yn dechreu ymddangos. Y mae y cywion gwyddau ar yr helyg yn dangos fod Gŵyl Ifan yn ymyl. Yr un fath y mae arwyddion yn ymddangos yn mhrofiad dyn duwiol. Nid ydyw dechreu haf ddim yn mhell ar lawer un sydd yma. Pa sut y gwyddoch chwi? Wel, y mae yma dipyn o gnapiau o gywion gwyddau ar helig eu profiad, ac y mae golwg *nice* i'w ryfeddu arnynt. Y mae yr haf yn bur agos, a phan ddaw yn Wyl Ifan ffarwel Wyliau Nadolig a'r eira mawr wed'yn; *everlasting sunshine* fydd hi wed'yn. Diolch am ambell i adnod yn y profiad weithiau,—‘Canys ni a wyddom os ein daearol dŷ o'r babell

anghrediniol; ond nid am chwerthin y cafodd hi ei cheryddu, ond am wawdio yn anghrediniol.

Ni welais ac ni chlywais i neb erioed, nac ar lyfr, nac o bulpud, yn esbonio y geiriau hyny am Ioan mor dda ag ef; hyny yw mor eglur a dealladwy i bob math o ddyn;—“Yn mhlith plant gwragedd ni chododd neb mwy nac Ioan Fedyddiwr, ond yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nac ef.”—“Cawr o ddyn mawr oedd Ioan, fy mhobl i,” medd efe, “ond cawr mewn pant oedd efe yn nherfyn y ddwy oruchwyliaeth. Fe wel y *plentyn* o *ben y bryn*, fwy nac a wel y *cawr* mwyaf o'r *pant* dwfn. Yr ydym ni plant y bryniau—yr oruchwyliaeth efengylaidd—mewn cyfle eglur, ac mewn manteision helaeth mewn cydmariaeth iddo ef, ac felly yr ydym yn fwy nag ef.” Da y gwyddai y Messiah mawr pa foddion a fyddai fwyaf effeithiol i enill dynion ac i droi y byd at Dduw, sef pregethu yr efengyl i bob creadur, nid i rai dosbarthiadau, ond i bob creadur.—Arglwydd y cynhauaf a anfono lawer o weithwyr i'w gynhauaf. Y mae ef wedi myned oddiar y maes, nis gwelir ef mwy. A chan mor fynych ac eglur yn ngair y gwirionedd y gorchymynir i ni feddwl am ein blaenoriaid y rhai a draethasant i ni air Duw, ac y mynegir hefyd fod coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig—pwyr gan hyny na theimlai ei hun yn gefnog a chalonog i fyned yn mlaen?

Clywais ef wrth ddarlithio ar ddirwest yn adrodd hanes rhyw hen ddafad a fyddai yn arfer a myned i le perygl a serth ar ysgythredd craig; byddai hi yn medru myned a dychwelyd heb syrthio i'r dyfnder oedd danodd, ond byddai ei hoen yn myned yno gyda hi bob blwyddyn, a byddai pob un o honynt yn syrthio i'r dyfnder ac yn tori ei wddf, ac nid oedd i'w wneyd ond gwerthu y ddafad i Rhys y porthmon defaid, a gwerthodd hwnw hi i'r cigydd. Y mae aml un yn Mhenllyn, wedi bod yn arfer haner *pint* neu *bmt* dros eu hoes, a myned a dychwelyd

yn eithaf sobr, a chael eu cyfrif gan bawb yn ddynion sobr; ond yr oedd eu plant a'u hwyrion yn myned yn eithaf hyderus ar eu hol, ond yr oeddynt hwy yn syrthio dros y dibyn erchyll yn lluoedd ac yn gelaneddau.

Pan oedd efe yn gweinyddu gwasanaeth priodas rhyw bar ieuanc, "Wel gyfeillion cu," medd efe, "yr wyf fi yn awr wedi eich anfon dros y *bar* i'r cefnfor; gobeithio y cewch chwi wynt teg o hyn i ddiwedd eich mor-daith, gweddiwch am i'r *pilot* mawr eich harwain i'r hafn ddymunol

'Ffrynd pechadur
Dyna'm Llywydd ar y môr.'

Pan oedd yn pregethu yn Llanarmon-Dyffryn-Ceir-iog er ys amryw flynyddoedd yn ol, efe a adroddodd ar ei bregeth hanes a glywsai efe gan un o hen bobl yr ardal hono, am hen offeiriad gwenwynllyd iawn oedd yn offeiriadu yn yr ardal pan oedd y Methodistiaid yn dechreu dyfod i'r ardaloedd hyny i bregethu; "*Upon my word*," medd yr hen berson, gan daro ei ffon yn llidiog yn y llawr, "ni chant ddim dyfod i'r plwyf hwn i hudo y bobl, na chant *upon my word*." Ond yr oedd yr hwn sydd yn preswyllo yn y nefoedd yn dywedyd, "*Upon my word* hwy a gant, cant *upon my word*;" ac fe gafodd yr hen offeiriadyn weled wedi hyny "*upon my word*" pwy a safodd. Yr oedd yn dda i'r hen berson nad oedd efe ddim yn byw yn amseroedd yr hen oruchwyliaeth; pe buasai byw yn yr amseroedd hyny cawsai ei ddienyddio fel gau brophwyd, am na ddaeth ei eiriau ef byth i ben.

Wrth ddangos y pwysigrwydd o rod-di y gogoniant i Dduw, efe a lefai yn egniol a chlir, "Bydded i ni oll ofalu am dalu y dreth fawr, fy mhobl i, rhag y daw gyru arnom am dani yn fwy disymwth nac y medyliem. Fe yrwyd ar Herod gynt yn ddisymwth iawn am y dreth fawr, ac fe'i halltudiwyd ef o'i dŷ rhag blaen at gyth-

reuliaid am nacau talu y dreth fawr; a llawer o wŷr cefnog eraill a ddaliwyd yn ddisymwth iawn i'w gorfodi i dalu y dreth fawr."—Ac nid oes achos am well dywedyd; oblegyd y mae gan bawb ddigon o fodd i'w thalu os bydd ganddynt ewyllys i wneuthur hyny, a meddwl am dalu. A pha beth a wneir i'r rhai hyny nad oes ganddynt nac ewyllys na meddwl am dalu ond gyru arnynt? Nid yw y rhai hyny yn deilwng o un math o gydymdeimlad. Y mae y Messiah yn canmol y dyn trugarog hwnw a faddeuodd y ddyled i'r truan a'r tlawd, am na feddai fodd i'w thalu ac am iddo ymbil âg ef.

Mewn cymdeithas eglwysig rywbyrd er ys hir o amser bellach, yr oedd ymryson cyndyn a dyryslyd iawn rhwng rhai o'r bobl a'u gilydd; ac mor anhawdd oedd unioni y camwri o bob tu yn yr ymryson tymhestlog a chas, fel y dywedodd ef o'r diwedd, "Rhoddwch y *bill* a'r achos dyrus yma, da chwi gyfeillion, yn y cwd gwyrdd i aros y *session* fawr,"—gan gyfeirio at arferiad y cyfreithwyr pan yn cychwyn o'r brifddinas i *sessions* y Dywysogaeth. Ac yr oedd pawb o fewn y lle yn gweled nad oedd dim arall i'w wneuthur. Ac os na heddychasant a'u gilydd yn nhymer eu hysbrydoedd, cafwyd llonydd ganddynt o hyny allan.

Clywais ef amryw weithiau yn dywedyd wrth son am barhad mewn gras cadwedigol, "Camgymeriad yw dywedyd fod cwmp o gyflwr cadwedig: ac y mae yn amhosibl fod *fall out* cyn bod *fall in*; ac achos ymadawriad dynion â chrefydd yw na chawsant erioed *fall in*."—Y mae llawer rhan o athroniaeth yn ddigon eglur wrth ac wedi ei thraethu, ac y mae dynion yn synu atynt eu hunain na buasant hwy yn ddigon doethion i wybod hyny cynt.

Pan oedd Abraham y Ceunant, rywbyrd wedi cael ei ddigio yn dost gan un o'i gymydogion, cyfarfu Dafydd Rolant ag ef yn edrych yn gyffrous a digofus. Gofynodd

iddo a oedd efe yn myned yn mhell; atebodd yntau, "Yn blaen i chwi," arferai y gair "*yn blaen*" yn aml iawn "y mae hwn a hwn wedi gwneuthur fel a'r fel a mi; a glywsoch chwi erioed son am y fath dro? Yr wyf yn myned at y cyfreithiwr i'w roddi yn llaw y gyfraith." "Wel, Abram Jones," medd yntau "y mae y Beibl yn gorchymyn peidio ymddial—'nac ymddielwch rai anwyl.'" "Diolch yn fawr i chwi," meddai yntau, "am ddywedyd gair y Gwr wrthyf, mi a af yn fy ol adref y munyd hwn." Ac efe a brysuodd adref neb ymddiddan dim ychwaneg. "*Y Gŵr*," y galwai efe yr Arglwydd yn fynych iawn.

Pan oedd efe rywbryd yn sylwi ar gystudd Job, dywedai yr achos na chyffyrddodd y gelyn ddim â'i dafod, "Pe buasai y diafol yn gwybod," medd efe "mai bendithio Duw y buasai efe wedi cael ei dafod yn ddiddolur, efe a darawsai ei dafod nes ei wneuthur gymaint a mawnen," a phryd arall dywedai—"Mi fuasai wedi rhoddi penddyn cymaint a meipen yn ei geg o." Y mae yn ddiarnheu fod gan y gelyn yr un faint o genad a goddefiad i wneuthur hyny ag oedd ganddo i daro rhanau eraill o'i gorph.

Na rwgnached neb gan ddywedyd mai ryw giniaw o lobsgows yw y traethawd hwn o'i ddechreu i'w ddiwedd; oblegid y mae yma ddigon o gig i gyfartalu y tatws a'r maip a'r cyfan.

Yr oedd Dafydd Rolant yn addfedu i'r Ganaan nefol o hyd "fel y cyfyd ysgafn o yd." Ac er nad oedd yn hen pan y bu farw, eto yr oedd wedi treulio oes hynod o faith. Dyma ei brofiad un o'r dyddiau diweddaf y bu efe byw cyn colli ei wybodaeth; y mae ei enw ef wrth y penill yn "Theomemphus":—

"Pan ddelo'r awr i fynu, a deued yn ei phryd,
Mi agora'm mynwes i ti, a gwna dy waetha i gyd;
'Rwy'n blino ar y ddaear,' rwy'n brefu am y wlad
Lle mae fy Nuw, fy Iesu, fy Mhriod a fy Nhad."]

PENNOD VIII.

LLOFFION O'I DDYWEDIADAU.

RHODDIR yn y bennod hon ryw fân ddywediadau a ddywedodd efe yma a thraw wrth bregethu ac ar adegau eraill. Rhoddwn hwynt fel y'u cawsom, neu fel yr ydym yn eu cofio, mor agos ag y gellir yn ei eiriau ef ei hun, heb na nôd nac esboniad arnynt.

“Yr oedd cof Dafydd Cadwalad fel uffern, ni ddywedai byth digon, a pha beth bynag a fwridd yno ni ddeuai byth oddiyno.”

Yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Elias, dywedai—

“Mi saethwyd llawer ato fo, ond yr oedd o yn ehedeg mor uchel, fel yr eryr, ni chyffyrddodd yr un o'u saethau nhw na phluen nac aden iddo erioed.”

Pan alwyd arno i ddweyd gair yn Nghymdeithasfa y Bala ar ol marwolaeth Mr. Parry o Gaer, dywedai—

“Nid oes genyf fawr i'w ddweyd, ond fy mod i yno yn ymweled âg ef ychydig cyn iddo farw, ac yr oeddwn i yn ei weled o fel y wenol ar y tô, ar gychwyn i'r *foreign lands*, pob peth yn barod.”

Wrth wneyd sylw ar farwolaeth Mr. Davies, Fronheulog, dywedai y gellid dweyd—

“‘Wele Israeliad yn wir yn yr hwn nid oedd dwyll.’ Gellid meddwl am dano wedi iddo gael ambell i gerydd pur lym gan hen ddiaconiaid da perthynol i Gyfarfod Misol Sir Feirionydd, na welem y gŵr mawr o Fronheulog byth ar ol hyn. Ond y Cyfarfod Misol cyntaf wed'yn byddai ef yno yn gyntaf un, yn ysgwyd dwylaw, ac yn trefnu yn nghanol ei frodyr tlodion, fel pe na buasai dim erioed wedi digwydd. Yr oedd ‘y dwr i fywyd’ ragywyddol’ yn tarddu yn bost o hono.”

Ar ol marwolaeth y Parch. Cadwaladr Owen, Dolyddelen, dywedai—

“Yr oeddym ni yn gallu procio pechaduriaid o'u llochesau ar hyd yr amser, ond methu dal dim; ond mi ddoi Cadwalad

Owen â'i rwyd fawr, ac mi taenai hi ar ein holau ni, ac yr oedd yn dal clampiau o logiau mawr o bechaduriaid."

Pan y gofynwyd iddo fath bregethwr oedd un brawd, oedd yn enwog fel offeryn i enill eneidiau, atebai—

"Nid oes ganddo fo yr un *ganan*, nac ond *gwn* pur gyffredin ond eu cymeryd nhw hefo'r *bagnet* y mae fo."

"*Gwlad well y maent hwy yn ei chwenych.*"—

"Y mae gwŷr arianog Llundain ar ol casglu eu miloedd lawer yn eu *business* yn myned i fyw i'r rhan hono o'r dref a elwir y *West End*. Felly y mae y saint hefyd; wedi iddyn' nhwythau fod yma mewn llafur a lludded am dro, y mae nhw yn symud oddi yma i fyw, ac yn myned i'r *West End*—i 'wlad well.' Pa le y mae llawer o'r hen gyfeillion a goll'som ni o'r ardal yma? O, y mae nhw wedi myned yn ormod byddigions i aros yma, y mae nhw wedi symud i'r *West End*. Y mae y saint i gyd yn cael myned adref mewn cerbydau tân. A chafodd Sarah Dafydd, Drawsnydd, fyned i'r 'wlad well' yn yr un cerbyd a Dr. Chalmers (buont farw yr un diwrnod), er ei fod o yn gallu adnabod y ser wrth eu henwau, ac er cymaint gwŷr oedd o. Y mae y duwiolion i gyd yn Fyddigions y nefoedd, ac yn cael myned adref yn eu *carriages*."

"Y mae cyrchu rhyfeddol i weled rhyfeddodau yr *Exhibition* Llundan ene. Y mae acw hen fyddigions braf tua'r Bala acw; mae nhw yn myn'd i'r nefoedd yn eu clocsie yn gynt o lawer nac y mae pobol y *veils* a'r sidanau yna efo'u hannuwioldeb. Mi fyddaf fi yn edrych ar balasau yr annuwiolion fel ar *gwtches* tatws, ac ar y byddigions annuwiol fel tatws wedi llygru ynddyn' nhw. Er eu gwychder, y mae melldith Duw uwch eu penau nhw, a chymaint oll ag a fedda' nhw. Mi fydda' yn well gen' i fyw a marw yn mwthyn Cadi Rondol, ac yn nghap nos Abram y Ceunaot, oedd am ei ben yn cychwyn i'r nefoedd, a bod yn heddwch Duw, na chael trigo yn y palasau goreu a fedd y byd yma, a bod wedi hyny yn wrthodedig ganddo ef yn y diwedd."

"Mi fyddai yn well gen i, mhobol i, fyw mewn hafotty ar ben mynydd, a byw ar datws a halen a Beibl mewn twll yn y mur, na bod yn y palas gwycha' heb yr un Beibl, ac heb allor i Dduw gaei ei chodi yno."

"Oni buasai fo l yr efengyl genym ni ar hyd y wlad yma, yn mhell o gyrhaedd y llanau, mi fuasem mor dlotted o grefydd a llygod eglwys,—o ydyw y rhei'ny yn dlottach na llygod eraill."

“Pe palech chwi aur fel palu pridd, os heb yr efengyl, mi fyddech cyn dlotted a llygod eglwys.”

“Mi fyddai yn well genyf fi fyned i werthu nôd coch, na myn'd i bregethu yr efengyl er mwyn elw.”

“Y peth sydd yn ei gwneyd hi debycaf y caf fi fyn'd i'r nefoedd ydyw fod darnau o honof wedi myned yno.”

“*Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist.*”—Dangosai fel yr oedd Duw yn gwneyd peth mor fawr a chyhoeddi ei efengyl trwy offerynau mor wael, a pha fodd na buasai Efe yn codi y rhai hyny i enwogrwydd. Dywedai,

“Sut na b'ase y Brenin Mawr yn rhoi pregethwrs ei efengyl yn eu *coaches*?—Pe felly ni buasai pobol Dolyddelen wedi clywed yr efengyl eto; oblegyd ni ddaeth yno yr un *goach* trwodd erioed o Riwbryfdir i Dolyddelen.”—(Dywedodd hyn er ystalm; ni buasai yn wirionedd y dyddiau presennol.)

“Yr oeddwn i yn edrych ar Bont Menai yn beth rhyfedd iawn y tro cyntaf; ond wedi ei gweled hi dipyn o droiau, nid oedd hi yn ymddangos yn ddim mwy rhyfedd na berfa drol ar balmant. Ond am yr iachawdwriaeth yma, pa fwyaf a edrychaf fi iddi, rhyfedda yn y byd y mae hi yn ymddangos:—

‘Pan bwy'n rhyfeddu un peth, un arall ddaw i 'mryd,
O! iachawdwriaeth rasol! rhyfeddod wyt i gyd.’”

“Yr oedd y patriarchiaid vn gweled trwy yr addewidion fod iachawdwriaeth i gael ei uaparu ryw dro; yr oedd yn amlwg iddyn' nhw ei bod hi yn mwriad Duw, ac yr oeddynt yn credu y rho'id y bwriad mewn gweithrediad; ond yr oeddynt yn methu deall pa fodd yr oedd cael y ddau pen at eu gilydd.—Pan oedden' nhw yn adeiladu y *Tub'lar Bridge* yna ar yr afon Menai, yr oedd yno un darn o honi un ochr, a darn arall yr ochr arall. ‘Wel,’ meddai rhywun ar y lan, ‘pe bai modd cael y ddau yma at eu gilydd, mi wnai y tro yn *noble*. Ond nid oes un *power* all dd'wad a nhw at eu gilydd.’ Ond mor gynted ag y daeth y *machinari* mawr yno, mi cododd nhw at eu gilydd, ac mi cysylltodd nhw, mor hawdd ag y rhydd neb y tecell ar y tân; felly fe gafwyd ffordd rhwng Mon ac Arfon. Felly y darfu Duw; er mor anhawdd ydoedd, mi allodd o trwy anfon ei Fab i gymeryd ein natur ni, ac i farw yn ein lle, wneyd ffordd ddiogel i'r euog gael myned i'r nefoedd

‘Wedi ei phalmantu ganddo ef,
O ganol byd i ganol nef.’

Er lleted oedd yr adwy, mi llenwodd y Mab hi â'i haeddiant ei hun ;

' Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr
Fe'i llenwodd â'i haeddiant ei hun.'

" Y mae crochan ffydd yn ffitio i'r dim ar drybedd gras."

" Y mae dyn wrth *actio* ffydd fel dyn yn nofio : nid oes dim yn eisieu i ddyn wrth nofio ond ymollwng, ac estyn ei ddwyllaw a'i draed, mi cynalia y dwr o ; felly nid oes eisieu i ddyn ond gorphwys, pwysu, ei enaid yn dawel, mi cynalia y drefn o."

" Y mae yr angylion yn hoff iawn o ddwad i roi tro i'r ddaear yma. Ond nid i'r *House of Lords* y mae nhw yn myn'd gyntaf ; nid ydyw yn ddim byd ganddynt fyn'd yno. 'Dydyn' nhw ddim yn *meindio* mwy yn yr esgobion sydd yno na phe byeddn' nhw fonion *cabbage*."

" Yr oedd rhyw ddyn yn mlaen y Sir yma yn dweyd ei fod wedi bod yn sychlyd a chaled iawn ; ond yn bresenol wedi dyfod i eglwys Dduw, ac i foddion gras, ei fod wedi dyfod dan y pistyll, a'i fod o yrwan yn dechreu mwydo tipyn yn ara' deg. Dowch chwithau, er mor galed a sychion ydych chiwi o dan y pistyll, mi gewch eich mwydo yn iawn ; y mae dwr y bywyd yn tywallt i lawr y dyddiau yma."

" *Mi a briodais wraig, ac am hynny nis gallaf fi ddyfod.*"

" Y penbwl gwirion, pam na fuaset ti yn dwad a hi yno hefo thydi."

" Pe gwnait ti yr holl ddaion a wnaeth y patriarchiaid, y prophwydi, yr apostolion, a'r seintiau o ddechre y byd tan yrwan, ni wneit ti ddim cymaint a thwll wimbled i fyn'd i'r netoedd wed'yn."

" *Trwy ras yr ydych yn gadwedig.*"

" Dinas annuwiol iawn oedd Ephesus, a phobol ddrwg ddiwedd oedd yr Ephesiaid cyn i'r efengyl eu cyrhaedd nhw. Yr oedd y cythreuliaid yn ei *lordio* hi yn braf drostyn nhw. Ond wedi i Paul fyn'd yno i bregethu, yr oedd yn rhaid i'r cythreuliaid *yieldio* ; nid oedd raid ond myn'd a napeynau neu foledau oddiwrth gorff Paul at y bobol oedd wedi eu meddiannu gan ysbrydion drwg, na byddai y cythreuliaid yn chwyrlio myn'd allan o honyn' nhw. Mi roedden' nhw yn diengyd rhag ofn cap nos Paul. Ond yr oedd yno ryw garpiach eraill, meibion Scefa, yn ceisio bwrw allan gythreuliaid i ddynwarded Paul ;

ond nid oedd ar y cythraul ddim o'u hofn nhw, yr oedd o yn crewcian arnyn' nhw fel ffwlbart mewn gwâl: yr oedd yn gallu dweyd yn eithaf hy', 'Yr Iesu yr wyf yn ei adnabod, a Phaul a adwaen, eithr pwy ydych chwi,' llymrigwn uffern? ac mi ddangosodd iddyn' nhw yn bur amlwg mai gweision iddo fo oedden' nhw. Yr oedd ganddyn' nhw lyfrau *witchio* hefyd beth aneiri'; ond rhyw ddiwrnod mi ddaethant a'r llyfrau yma i gyd at eu gilydd i wneyd coelcerth o honyn' nhw; yr oedd yno dŵr mawr o honynt gymaint a thomen y Bala; ond mi rhoison' nhw ar dân i gyd yn ngwydd pawb, ac aeth amal i Belphegor i fyny yn y mwg dan wichian fel porchell mewn llidiart."

“*Y mae afon a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw.*”—

“Edrychwch chwi ar yr afonydd yma, y mae y twya' yn llyncu y lleia' o hyd. Y mae y Dyfrdwy yn llyncu yr afon Liw, y Tryweryn, yr Alwen, a'r cwbl hyd Afon Goch Rhosllanerch-rugog. Felly y mae afon Duw yn llyncu pob afon arall—y mae Aberth y groes wedi llyncu yr holl aberthau—Afon Goch Calfaria wedi llyncu yr holl afonydd o waed a redodd o dan yr hen oruchwyliaeth. Ac y mae yr afon yma yn gwneyd pob peth a ddaw iddi yn bysgod, ie, y pricie crin ag sydd yma, tafler chwi i hon, mi gewch eich gwneyd yn *salmons* braf.”

“Byw trwy ffydd yr oedd Abraham; nid oedd o yn gofalu dros dranoeth; nid oedd yn rhoi bara yn y pobdŷ ddigon dros wythnos, na dim ond pobi teisen fel y byddai ei heisieu.”

“Yn ddynion a'r Ysbryd arall yma y dylem ni fod gyda chrefydd, fel Caleb a Josua, fei pe cydiai y cythraul yn ein trwynau ni a gefail bedoli na throem ni ddim yn ein holau.”

“Yr oedd Dafydd yn trwtws gweddio o hyd ar bob amgylchiad. Ingian (*Engine*) weddio oedd Dafydd.”

“Mi laddodd Dafydd y cawr nes oedd o yn farw ar y clwt. A phan aeth o ar ei gefn o i fyned i dori ei ben, nid oedd o ond fel c'lomen ar waelod *hogshed*.”

“*Gwybyddwch i'r Arglwydd neillduo y duwiol iddo ei hun.*” Dywedodd—

“Dewisodd yr Arglwydd Dafydd ac nid Saul; ac mi ddechreuodd Saul genfigenu wrth Dafydd a'i erlid o; ceisiai ei oreu am ei fywyd o. Mi ddaeth am y boneyn a fo ryw ddiwrnod, a rhyw foncyn tebyg iawn i Mynydd Nodol acw oedd o; ond dyma ryw un yn dwad a'i wynt yn ei ddwrn at Saul, ac yn

dweyd, 'Y mae y Philistiaid yn llenwi y wlad,' a bu yn rhywyr iddo fyn'd i ymladd a'r rhei'ny. Fel hyn mi yrodd y cythraul y cwn yn mhenau eu gilydd, fel y gallodd dafad Duw ddianc yn iach a diogel."

"Peidiwch bobol a gadael un pechod yn fyw. Pe buasai Saul wedi lladd yr holl Amaleciaid, ni buasai yr un Amalecyn yn fyw i'w ladd ef."

"Dylasai Jehosaphat fod yn fwy *stylish* gyda'i grefydd, na myned i gwtwsa gyda rhyw fflagwd annuwiol fel Ahab."

"Yr oedd ar Pharaoh eisieu crwper garw pan oedd o yn gyru ar ol yr Israeliaid."

"'Y mae arna' i eisieu cael fy mhobl o'r Aipht,' meddai yr Arglwydd. Wel hys lau! hys lyffaint! hwi gythraul! gwnewch eich goreu er iddyn' nhw gael myn'd."

"Yr oedd Pedr fel ceffyl melin, y pwn yn ormod ryw ochr o hyd. I ddechreu, dywedai, 'Ni chei di olchi fy nhraed i byth,' wedi hyny, 'Nid fy nhraed yn unig ond fy nwyllaw a'm pen.'"

"Rhyw ffrwt oedd Pedr. Ac nid oes fawr o ddaioni mewn bachgen gyda chrefydd os na bydd tipyn o ffrwt ynddo. Yr oedd hogen o forwyn yn ddigon i'w ddychrynu fo unwaith, nes y gwadodd ei Arglwydd, ac mi aeth i regi ac i dyngu. Ond rhyw rigwm o'r rhegi mwya' sychlyd a glywodd neb a'i glustiau oedd o, yr oedd yn amlwg nad oedd o yn arfer llawer â'r gwaith. Ond ar ol dydd y Pentecost yr oedd o wedi cael cyfnewidiad trwyadl; os oedd hogen yn ei ddychrynu fo o'r blaen, ni fedrai mawrion yr Iuddewon mo'i ddychryn o wed'yn; nid oedd o ddim yn *hidio* dim ynddyn' nhw, mwy na phe b'ase nhw fonion cabbage."

"Mi drodd Pedr yn ei garn yn llys yr archoffeiriad. Yr oedd arno eisieu cŷn yn ei garn garw iawn. Gobeithio y cawn ni ein gwaredu rhag pregethwyr a blaenoriaid llac yn eu carnau."

"Yr oedd hi yn helynt garw ar y disgyblion yn amser y y croeshoeliad. Yr oedd Pedr yn edrych yr un ffunud a gafr ar d'ranau."

1 Pedr ii. 7, 8. "Os nad ydyw Iesu Grist yn fwy gwerthfawr na phawb a phobpeth yn dy olwg di, mi elli benderfynu na chredaist ti erioed ynddo. Nid rhyw bellen ddiffyg ydyw Iesu Grist, rhaid i ti ei gymeryd yn bob peth neu gymeryd dy *siawns*. Yr oedd yr 'adeiladwyr' gyda chrefydd, ond yr oedden' nhw

wedi llysu y maen. Mynwch grefydd, y mhobol i, aiff a'r Iesu yn ben y gongl. Fe allai fod yma rai yma wedi gwrthod y maen, a thrwy hynny y maent wedi selio eu damnedigaeth eu hunain. Ond y mae yn dda genyf feddwl nad ydyw yr *Ustus* mawr ddim wedi *signio y death warrant*. Y mae Pedr pan y mae o yn ysgrifenu yr epistol yma yn cofio yn ddiambheu y diwrnod y bu fo o flaen y cyngor yn Jerusalem, nos dydd y Pentecost, pan yr oedd y penaethiaid wedi cymeryd gafael yn yr hen bregethwr oedd wedi bod yn gwneyd cymaint o ddrwg i uffern yr holl ddiwrnod hwnw. Yr oedd hi wedi myn'd yn rhy hwyr i'w ddwyn o flaen y cyngor y noswaith hono, ond fe'i dygwyd y dydd canlynol. Yr oedd o wedi cael ei wisgo â nerth o'r uchelder. Ac yr oedd o yn dweyd y gwir yn eu gwynebau nhw, 'Hwn,' meddant, 'yw y maen a lyswyd genych chwi, yr adeiladwyr, yr hwn a wnaed yn ben y gongl.' Yr oedd y swyddogion gwladol yn meddwl y buasen' nhw yn ei ddychrynu fo; ond yn lle hynny y fo a'u dychrynodd nhw. Yr oeddyn' nhw mor barod i fyned oddiwrtho ag a fyddai dyrnaid o fanus ar ben yr Aran o flaen y corwynt."

Y Llenllian. "Mae yn syn i'w ryfeddu, mhobol i, mai Pedr, gweinidog yr enwaediad, a roes y bregeth gyntaf i'r cenedloedd. Yr oedd cymaint o *sism* y grefydd Iuddewig yn Pedr fel y bu raid i Dduw ei l'w'gu fo cyn y cychwynai i'w daith. Fel yr oedd o ar ben tŷ Simon yn Joppa, fe ddaeth llewyg arno, ac yn ei lewyg mi welai yr hen drefn fawr yn dwad i lawr yn ddigon *sound*, a'i phedair congl yn y nef, a phob tryblith ynddi, a galwad ar Pedr i ladd a bwyta. Ond yr oedd *stumog* yr Iuddew yn rhy wan i fwyta dim cyffredin neu aflan. Ond dyma *notice* iddo fo yn union, 'Y pethau a lanhaodd Duw na alw di yn gyffredin neu aflan;' a hwff a fo iddyn' nhw wed'yn, a mawr a fu'r llwyddiant ar yr odfa, 'Disgynodd yr Ysbryd Glân ar bawb oedd yn clywed y gair."

"Mi fyddai yr Iesu yn cymeryd y disgyblion o'r neilldu yn aml. Y mae yn dda genyf fi weled y dynion ieuainc acw yn y Bala yn cael eu dysgu; ond yr ydw' i yn disgwyl y cymer yr Iesu nhw o'r neilldu bod ag un, i ddweyd wrthyn' nhw dipyn o'i *secrets*."

"*Ei ddisgyblion a ddaethant o hyd nos, ac a'i lladrattasant, a nynt yn cysgu.*" "Sut y gwyddech chwi pwy aeth a fo, os nad oeddych chi'n cysgu a'ch llygaid yn agored fel y bydd llewod yn gwneyd. Mi glywais son lawer gwaith am gelwydd du a chelwydd gwyn, ond celwydd du iawn oedd hwn o eiddo yr arch-offeiriaid beth bynag."

“Pan ddaeth tyrfa'r gwaewffyn i'w ddal, yr oedd ein Hiesu ni mor fawr, nid oedd raid iddo fo ddim ond dweyd, ‘*Myfi yw,*’ nad oeddyn’ nhw yn llafnau ar wastad eu cefnau ar y ddaear fel pryfaid genwair; ac ni fuasen’ nhw ddim yn codi byth oni buasai iddo fo eu cynnal nhw.”

“Ni fu erioed gymaint o awydd llifo du ag ar Golgotha. Ni fu erioed gymaint o ddail surion y cwn, yn gymysg a chopros uffern, yn yr un man, a dail bysedd cochion hefyd am wn i, ag oedd ar Galfaria; ond yr oedd yr Iesu yn *gambric* rhy wyn i'r cwbl, ni life fo ddim er eu gwaetha' nhw.”

“*Gorphenwyd.*”—“Arfer Duw ydyw dweyd llawer mewn ychydig. Rhoddodd fôr o fater i Adda mewn diferyn o iaith, ‘Hâd y wraig a ysiga dy ben di, &c.’ Felly hefyd yn y testun, ‘*Gorphenwyd.*’ Yr oedd yn orchest gan y Groegiaid fedru dweyd llawer mewn ychydig; ond fe ddywedodd Iesu Grist mewn un gair fwy na'r un Groegun o honyn' nhw; ‘*Gorphenwyd,*’ rhyw bwt o air ydi fo, mhobol i, ond mi *stretchith* fel *Indiarubber* i dragwyddoldeb.”

“Yr oedd angau wedi llyncu aml i hen gristion,—llyncodd Abram, llyncodd Isaac, a Jacob, a'r hen dduwiolion, ac ni bydd yn dda gen i am dano am ei waith. Ond ar ol llyncu y naill ar ol y llall yn hwylus, o'r diwedd, ar Galfaria, mi gafodd ormod o damaid, fe drodd yn *idigestion* arno fo, nes y bu raid iddo fo ei fwrw i fynu y trydydd dydd. A'r pryd hwnw, ‘Angau,’ yntau, ‘a lyncwyd mewn buddugoliaeth.’”

Phil. iii. 9. “*Ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, &c.*”—“Yr oedd yr hen Apostol wedi bod yn gwneyd rhyw ffurfafen o hunan gyfiawnder, yr oedd ganddo gryn lawer o ser yn ei grefydd. Os ydw i yn cofio yn iawn, y mae saith o honyn' nhw yn cael eu henwi ganddo yma; ac mi dybygwn i mai ‘yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf yn ddiargyhoedd’ oedd ei dwr tewtws o; ond ryw ddiwrnod mi newidiodd nhw bod ag un am *un* Haul. Pan ddaeth yr Haul i'r golwg, fe aeth ei ser dysglaer, a'i dwr tewdws, a'r cwbl i'r t'w'llwch yn y fan, a dyna fo yn dweyd, ‘yr wyf yn cyfrif bob peth yn dom, fel yr ynillwyf Grist.’ Y mae yn angenrheidiol gwerthu llawer mewn trefn i enill Crist. Mi fydd y ffarmwyr yma pan yn ymadael a'r hen ffarm yn gwneyd ffair *Auction* ar yr hen *stock* oddentu Calangauaf; ac wedyn, yn Ebrill, yn hel y man settliach i gyd i'w gwerthu yn llwyr cyn troi allan Galanmai. Yr ydwyf fi, mhobol i, yn hyderu yn gryf fod plant y diwygiad yma wedi myn'd trwy y ffair fawr Galangauaf beth bynag; ond y mae yn rhaid gwerthu y cwbl yn llwyr cyn cael cwbl feddiant o'r etifedd-

iaeth anllygredig sydd ynghadw y nefoedd i'r saint. Fechgyn anwyl a ddowch chwi i wneyd ffair ar eich pethau yma heno, yr ydych wedi cael digon o amser i welod na fedrwch chwi ddim myn'd yn mlaen efo'r hen *stock*. Derbyniwch arian y brenin yn eu lle, efo hwnw y cewch chwi fyned i mewn i'r llys. 'Ac y'm ceir ynddo ef, heb fy nghyfiawnder fy hun.' Nid oes dim rhyngot ti a chael crefydd, ond un gair tair llythren, y gall plentyn ei *spelio* fo—h-e-b 'heb fy nghyfiawnder fy hun, a dyna hi yn dy afael di yn union. Pan fo dyn pwysig mewn tre, megys *twrne* neu *doctor*, wedi symud i fyw o'r hen dŷ i dŷ arall, mi fydd 'to be found yn y fan a'r fan' yn cael ei roddi ar y drws. Felly yr oedd Paul yn myn'd o'r hen gyflwr, rhoddodd arno 'Y'm cair ynddo Ef;'—a pha le y mae y Sais hwnw yrwan [un oedd wedi dymuno cael tipyn o Saesoneg ganddo], dyma iddo fo lonaid ei geg o Saesoneg,—'to be found in Him.'"

"Yr oedd Paul, y mhobol i, yn *ffond* iawn o eglwysi y saint; ond yr oedd o yn *ffondiach* o'r Philippiaid na'r un o'r lleill. Yr oedd o yn bur *ffond* o'r Galatiaid, ond yr oedd yr ymgrafu ar eu clustiau nhw, rhyw ysfa ddrwg am wrando athrawiaethau dyeithr."

"Beth ydyw myned a'n hunan gyfiawnder at Grist? Yr un peth ag a fyddai i bobol Sir Feirionydd acw fyn'd i gario glo i Ruabon."

"Y mae y gwragedd yma yn myn'd a'r toes at y tân yn gyffredin, ond y mae llawer yn arfer myn'd a'r lefain i'r bwtri neu rywle digon oer. Y mae crefyddwyr oerion yr un fath yn union, y mae nhwthe fel lefain yn cael eu cadw yn mwtri y cythraul."

Clwb mynydd Seion.—"Nid ydw i mewn unrhyw glwb. Y mae ganddyn' nhw lawer o glybiau yn y byd yma, ac y mae rhyw reolau yn perthyn iddyn' nhw. Ond yr wyf finnau yn meddwl fy mod i yn perthyn i glwb mynydd Seion. A phau af fi yn sâl, ar hwn yr ydw' i yn meddwl byw. Ac y mae yma lawer eraill yn aelodau o'r clwb yma. Edrychwch ati, mhobol i, am gadw'r rheolau;—rheolau y clwb yma ydyw y bymthegfed Salm."

"Gwyliwch golli blas ar bethau yr efengyl. Y mae tafell o fara haidd gydag archwaeth dda, yn well na'r bara gwenith gore heb hyny."

"*Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch*."—"Y mae yma rai na flinent yn ei rhodio, pe caent eu lluchio â chloncwiau."

Trysor wedi ei guddio mewn maes.—"Prynu y maes yma a wnaeth yr hen Sion William o Gynwyd, yn frenin yn Edeyrn-

ion,—mor gyfoethog o sancteiddrwydd nes yr oedd ar annuw-
iolion arswyd yn ei bresenoldeb.”

“Hwyrach mai mewn cyfarfod *teetotal* y cafodd y bachgen o hyd i'r *faen*; wedi iddo gael o hyd i'r wythien, mi gymerodd forthwylion gweddiau, ac ebillion myfyrdodau, i dori twll yn y graig, y mae y powdwr yn cael ei dywallt iddo o gorn iachawd-wriaeth, ac fe ddisgynodd gwreichionen o dân o'r thuser aur oddiar yr allor, nes yr aeth hi yn chwalfa, ac mi wnaeth ei *ffortune* am dragwyddoldeb.”

“Y mae y fath beth a chyrhaedd llawn sicrwydd gobaith yn y byd yma; ond nid yw y cristion yn addas i'w gael o bob amser. Y mae y gwelltyn tua mis Awst yn rhy feddal i ddal y pen melyn main, ond wedi iddo gael ei galedu gan wres Medi, bydd yn ddigon caled i'w ddal o. Y mae llawer o honoch chwithau yma yn rhy weiniaid eto i ddal llawn sicrwydd gobaith, ond wedi i chwi gael eich caledu gan wres profedigaethau a chystuddiau, mi fyddwch cyn hir yn ddigon cryfion i ddal llawn sicrwydd gobaith.”

“Pe caem ni lawn sicrwydd ffydd yma, ar lawer adeg, a golwg ar y gogoniant mawr, mi aem yn *hoits* gyda'r byd yma; ni fydden' ni ddim yn ffit i drin y byd yma wed'yn; ond y mae yn rhaid i ni edrych ar ei ol o tra y byddwn ni ynddo fo.”

“Y mae y cristion yn debyg iawn i arch Noa; fel yr oedd y dyfroedd yn ymgryfhau ar y ddaear, yr oedd yr arch yn nesu at y nefoedd o hyd. Felly fel y mae dyfroedd profedigaethau'r byd yma yn cynyddu i'r cristion, nesaf yn y byd i'r nefoedd y maent yn ei godi o hyd.—‘Ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.’”

Arwyddion yr Haf.—“Y mae arwyddion pur amlwg pan fyddo'r haf yn nesu. A dyna un arwydd fod yr haf yn nesu ydyw y cywion gwyddau a'r ebolion bach. Mi fydd y plant o gwmpas y Bala acw, yn cael difyrwch mawr pan fydd y cywion gwyddau yn dechreu ymddangos. Y mae y cywion gwyddau ar yr helyg yn dangos fod Gŵyl Ifan yn ymyl. Yr un fath y mae arwyddion yn ymddangos yn mhrofiad dyn duwiol. Nid ydyw dechreu haf ddim yn mhell ar lawer un sydd yma. Pa sut y gwyddoch chwi? Wel, y mae yma dipyn o gnapiau o gywion gwyddau ar helig eu profiad, ac y mae golwg *nice* i'w ryfeddu arnynt. Y mae yr haf yn bur agos, a phan ddaw yn Wyl Ifan ffarwel Wyliau Nadolig a'r eira mawr wed'yn; *everlasting sunshine* fydd hi wed'yn. Diolch am ambell i adnod yn y profiad weithiau,—‘Canys ni a wyddom os ein daearol dŷ o'r babell

hon a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd.—Canys nid oes i ni yma ddi-nas barhaus, oblegyd un arall yr ydym yn ei disgwyl.—Y mae'n ddiogel genyf nas gall nac angau, nac einioes . . . ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd.—Beth ydyw y rhai'n? Tipyn o gywion gwyddau ar helyg profiad yr hen chwaer acw, yn dangos fod yr haf yn ymyl, fod Calanmai yn agos iawn. Diolch am dipyn o gywion gwyddau!" [Ar yr adeg hon torodd yn floeddio a gorfoleddu trwy y capel. A gofynai y diweddar Mr. Hughes, Liverpool, i un o'i ysgoleigion yn Ngwrecsam, y gwyddai oedd yn dod o'r ardal hono, "Oeddych chwi yn un o'r rhai hyn y aeth i orfoleddu wrth i Dafydd Rolant son am gywion gwyddau?"]

"*Cyfodaf iddynt hefyd blanhigyn enwog.*"—"Mi glywais i son fod rhyw *sort* o glefydau yn y gwledydd tramor yna, ag y bydd y dyoddefwyr yn cau eu dannedd mor dynion, fel na bydd posibl i neb roi dim yn eu cegau nhw; ond pan y ceir pwysi myrr, ac iddyn' nhw arogl hwnw, y gwnai nhw agoryd eu cegau yn rhwydd.—'Fy Anwylyd, sydd i mi yn bwysi myrr;' pe cai hen bechaduriaid y Bala yma ond un arogliaid ar y 'pwysi myrr' mi agoren' eu cegau yn rhwydd iawn i folianu Duw."

"Os ydych chwi yn gweled rhywbeth yn Iesu Grist yn rhagori ar bawb arall, peidiwch a bod fel tatten—yn llygaid i gyd heb yr un genau i fynegi ei rinweddau."

"Hen ŵr boneddig wedi tori ydyw dyn. Ni wnaeth Duw mo hono i'r clepyn byd yma. Ac os na chaiff o ei hen *stât* yn ei hol, mi fydd wing wang o hyd.—Yr ydym fel pe wedi camddeall dau fyd,—ac mai rhyw bwt ydyw tragwyddoldeb; ond y byd yma ydyw y pwt."

"Pe disgynai yr Ysbryd Glân yn yr odfa yma, mi fydda mor anhawdd i neb gysgu yma, ag a fyddai iddyn' nhw fwyta uwd o geg pottel a myniawyd."

"Y mae pob un sydd a'r gobaith hwn ynddo ef, yn ei buro ei hun megys y mae yntau yn bur." (1 Ioan iii. 3.)—"Y mae y cristion fel y ffynon yn ei buro ei hun. Mi ellwch chwi daflu llaid i'r ffynon, ond y mae hi fel pe wedi myn'd ar ei llŵ y caiff o fyn'd oddiyno, mi prociwch o nes ei brocio fo i ffwrdd. Prociwch chwi y cristion, y mae yn ei buro ei hun fel y ffynon; ond y mae y rhagrithiwr fel y pwll, os prociwch ef, y mae o yn myn'd yn futrach o hyd."

"Mi welaf fi ar unwaith mai pobol a rhyw fath o obaith ydych chwi yn y fan yma; ond meindiwch chwi beth ydyw sylfaen

eich gobaith yn y dyffryn bras yma. Y mae rhai yn gobeithio mewn golud anwadal; os oes yma rai o honoch chwi felly, y mae hi yn siwr o fyn'd yn anhwylyus arnoch chwi; ni fedrwech chwi ddim peidio ag ail farw o ran dim a gewch chwi oddiwrth y pethau yma. Ond 'yr hwn sydd a'r gobaith hwn ynddo ef, y mae yn ei buro ei hun, megys y mae yntau yn bur.' Y mae pob cristion da yn myn'd yn debycach i Grist o hyd. Wel, gan bwy y mae y gobaith hwn? Gan bob perchen fydd. Pe bai hi yn myn'd yn d'w'llwech arnoch chwi yn y byd yma, mhobol i, fe gwyd fydd allan y diwrnod hwnw, pe bai heb lewyrch haul, na lleuad, a'r ser, a'r llathen fair, a'r twr tewtws, a'r cwbl wedi myn'd o'r golwg; fe ddywed gobaith, 'Mi ddof fi gyda thi i ba le bynag yr äi di' ac ni orphwysa hi ddim, nes y bo yn siwr ei bod yn pwysu yn gywir ar yr Hwn a osododd Duw yn Iawn."

"*Yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr trwy yr hwn a'n carodd ni.*"—"Y mae yr apostol yn gryf iawn yn y fan yma; ond tendiwch chwi, 'trwy yr hwn ä'n carodd.' '*Mwy na choncwerwyr,*' trwy ei fod yn siwr o fod yn fuddugoliaethwr cyn dechreu y frwydyr. Y mae gan y cristion lawer o arfau i ryfela ä nhw, ond y cryfaf ydyw *ysbryd gweddi*. Mi welsom fechgyn yn chwareu; ond mi aethon' yn fryntion iawn wrth un o'r plant; ac mi gawsai ei wampio yn iawn oni bai ei fod o yn agos i dÿ ei dad, i alw arno. Pan y bydd y brwydrau boetha' arnat tithau, gristion, anfon air yn union at dy Dad, fe ofala fo am i ti gael chwareu teg, pe na bai dy ysgrifen di ond fel ol traed brain, ond gofala am rodidi enw y Brawd hyna' odditano; ac yr wyt ti yn *right* siwr o gael buddugoliaeth ar y cwbl—"trwy yr hwn a'n carodd ni."

"Y mae llawer o fechgyn Cymru yn myned yn mlaen yn braf, ond heb ystyried mai 'o'r diwedd i ti ochain' fydd hi wrth fyn'd yn mlaen yn ol tuedd lygredig eu natur, ac wrth ddilyn temtasiwnau y diafol. Fe wÿr yn dda pa sut i demtio, y mae o yn newid y bluen at liw y dwr, ond beth fydd y diwedd?—"Ochain' a gwingo wrth y bach."

"Ffordd lydan ydyw ffordd yr annuwiol yn y dechreu, ond y mae hi yn myn'd yn gulach gulach o hyd, ac y mae yn anhwylyus iawn tua'r diwedd, y mae yn arwain i ddistryw; nid clywed swm y gawod ar y to y byddi di os ei di yno, oblegyd '*nid oes do ar ddistryw.*'"

Cloddio am y graig.—"Y mae y rhai sydd yn cloddio am y graig yn *ffond* iawn o gael cwmpeini. Pan yr oeddwn i yn ieuanc, yr oedd yn dda iawn gen i gael rhai i gÿd-gloddio ä

nhw. Ac mi darewais i wrth hen gloddiwrs braf tua Waen y Bala, a'r Bala acw, mhobol i, ac mi'r oedd ganddyn' nhw geibiau da, mi aen' trwy fynyddoedd o hunangyfiawnder fel trwy hen fawnog."

"*Pen ar y pethau a ddywedwyd yw hyn.*"—"Un o ragoriaethau y grefydd Gristionogol ydyw bod pen arni. Nid oedd dim pen ar yr hen oruchwyliaeth, ac os byddai rhyw anifail a phen arno ynddi, yr oedd yn rhaid ei dori o yn union. Ond y mae y grefydd Gristionogol a *phen* arni."

"Pan wel y dyn o dan argyhoeddiad ddrwg pechod, mi fydd bwtsh yn nghog a'r oethraul yn union wed'yn."

"*Gwrthwynebwich ddiabol, ac efe a ffy oddiwrthych.*"—"Cachgi mawr ydyw y diafol, y mae o yr un fath yn union a'r ceiliogydd; diangwch chwi rhag hwnw, mi agoriff ei geg, fel pe bai fo am eich llyncu chwi yn union, bydd ei big yn gafaelu ynoch, ac mi'ch curiff chwi a'i esgyll yn ddiidrugaredd; ond rhedwch ar ei ol o mi ddiengiff rhag blaen. Felly y mae'r diafol; os *yieldiwch* chwi iddo, mi'ch baedda yn ofnadwy; ond 'gwrthwynebwich ddiabol, ac efe a ffy oddiwrthych.'"

"Yr oedd y disgyblion wedi myned i ragofalu yn ormodol am fwyd a dillad. 'Tybed y cawn ni ddigon o fwyd wrth fyn'd ar ol yr Iesu yma, a thybed y cawn ni ddigon o ddillad.' Pa un bynag a oeddyn' nhw yn dweyd hyny mewn geiriau ai peidio, yr oeddyn' nhw yn dweyd yn eu meddyliau, ac yr oedd yr Arglwydd Iesu yn gwybod eu meddyliau nhw. 'Mewn perthynas i'ch bwyd,' meddai, 'ystyriwch y brain yna, pethau llai o lawer o werth na chwi, fy nisgyblion i; a chyda golwg ar eich dillad, edrychwch ar lili y maes, nid yw yn llafurio nac yn nyddu, ac yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn.' Y mae nhw yn dweyd mai peth hardd i'w ryfeddu ydyw y lili pan y bydd hi yn ei *phwmp*, ac felly y mae pob blodeuyn y mae y Brenin Mawr yn ei wneyd; ni fedr dynoliaeth ddim gwneyd pethau cyn hardded; er eu bod nhw yn gwneyd rhyw *artificiens*, nid ydyn' nhw ond carpiâu yn ymyl lili y maes."

"*Yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw, &c.*"—"Tafodd yr Arglwydd Iesu y geiriau yma at ei ddisgyblion, fel meddyginiaeth rhag y peth hwnw sydd yn lladd pobol, sef gofal anghymedrol. Am y gofal yma yr oedd yr Iesu yn siarad; ac nid ydyw hwn yn dyfod a dim i'r dyn byth; nid ydyw yn dyfod a dim i bwynt un amser, o herwydd y mae yn bwrw yn mlaen o hyd, fel dyn yn marchogaeth heb yr un crwper;—*stumble* fydd hi yn y diwedd. Y mae hyny yn *right sound*, y mhobol i, 'Y rhai sydd yn

ewyllysio ymgyfoethogi, sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddynstr a cholledigaeth.' Ond y mae eisieu i chwi ofalu am y byd yma; nid byd i gellwair a fo ydyw; os ei di i gellwair a'r byd, mi dy chwyrlyth di fel topsgwrs. Eiddo Iesu Grist ydyw y ddaear yma a'i thaclau bob tipyn. Ac os oes yma ryw rai yn myn'd yn mlaen i bechu yn erbyn Duw ar bwys ei drugareddau fe fydd bwmbaili'r byd tragwyddol yn cydio yn och chwi rai o'r dyddiau nesaf yma, fel lladron ac yspeilwyr eiddo Iesu o Nazareth. Y ffordd i chwi beidio myn'd i afael hyny, ydyw 'ceisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef; a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg.' Y mae yn dda gen i allu dweyd wrthych chwi, y mhobol i, y gellwch chwi, bod ag un, geisio y pethau hyn yn gyntaf o ran pethau, ond nid o ran amser. Golwg drwm iawn ydyw gweled rhai yn dyfod i foddion gras i wrando pregethau, &c., heb geisio y deyrnas.—Y mae eisio egni mawr i geisio teyrnas. 'Treiswyr sydd yn ei chipio hi,' mhobol i; nid yw cribddeilio teyrnas nefoedd ddim yn ddrwg, y mae hi i gael ei chipio. Fe fydd rhyw larpiau yn ei chipio hi o dan dy drwyn di, os na feindi di. Y mae nhw yn dechreu ei chipio hi ar hyd blaenau Sir Feirionydd acw yrwan; ac y mae hi yn gwneyd ei hol yn fawr ar yr ardaloedd lle y mae hi yn cael ei chipio, y mae yn haws byw yn eu hymyl nhw o'r haner. Mi f'aswn i yn hen ddyn mwyaf rhinclyd yn Waen y Bala, oni bai fy mod i yn ceisio teyrnas Dduw gymaint a allo nghalon i, a thrwy hyny y mae nhw yn fy nghyfrif i yn hen ddyn go lew acw. Ymrowch ati i geisio teyrnas. Meindiwch yr adeg. Ac os na ddowch chwi i'w cheisio, mi welwch ddiwrnod na fedrwech chwi ddim peidio ag ailfarw. 'Ni thycia cyfoeth yn nydd digofaint: ond cyfiawnder a wared rhag angau.' Ond ceisiwch chwi y deyrnas a'r cyfiawnder yma mi fyddwch yn chwerthin yn braf ar eich *bargen*, ac mi gēwch orfoleddu ar ludw yr hen ddaear, fel y dywed awdwr 'Y Cyfamod Disigl;—a gwaeddi 'bendigedig fyddo tommen ludw yr hen ddaear.'"

"Ni ddaw teyrnas Dduw wrth 'sgil neb na dim, y mae yn rhaid iddi hi gael y cyfrwy;—'yn nghynta';' gael y lle blaena'."

"*A Duw pob gras a'ch dyddano.*"—"Ond i ti fyw at dy ddyledswydd, a chael Duw pob gras yn blaid i ti, mi dali y cythraul; er lleted ydyw ei geg o, mi fyddi yn ormod o damaid iddo i dy lyncu."

"*Ei marsiandiaeth hi*"—"Nid oes gan ddyn wedi ei fwrw i'w golli ddim hawl i fasnachu yn y wlad y mae fo yn perthyn iddi; ni all gymaint a gwerthu nod coch; ond iddo fo gael ei wddw yn rhydd, y mae ganddo hawl i fasnachu ac i helaethu ei fas-

nach. Ac felly mewn ystyr ysbrydol; y mae yn rhaid cael y gwddf yn rhydd cyn y gellir myn'd â masnach crefydd yn mlaen; a myned yn gryfach gryfach mewn crefydd a wneir o hyd wed'yn, canys 'gwell yw ei marsiandiaeth hi na marsiandiaeth o arian.'

“Mi ddown innau at grefydd pe bawn i yn gwybod fy mcd i wedi fy ethol.—Taw a dy glongc hefo dy etholedigaeth. Yr wyt ti yn meddwl cael myn'd yn ddigon tal i wel'd dros ysgwydd Duw, be sy yn ei lyfr o. ni chei di ddim; a phe ceit ti wel'd ei lyfr o, ni wyddet ti ddim byd arno fo. Taw a dy glongc am etholedigaeth, a gwna di yr hyn sydd dan dy drwyn di.”

“*Drylliwn eu rhwymau hwynt.*”—“Y mae dyn yn greadur rhesymol, ac yn gyfrifol i Dduw am ei holl ymddygiadau. Ond y mae dyn byth wedi y cwmp yn Eden am daflu pob rhwymau oddiam dano ei hun. Ond y mae yn well i ddyn gael rhyw fath o rwymyn yn ei ben, pe na bai o ond rheffyn pil pabwyr, na bod yn rhydd. Y mae yn anhawdd cael gan ddyn ymgymeryd â rhwymau hyd yn nod pan yn ieuanc, ond pan aiff o yn hen. y mae yn anos fyth; ond yr anhawddaf o bawb ydyw y gwrthgiliwr, a fu yn y gafael unwaith o'r blaen, y mae yn anhawdd iawn myn'd yn agos ato; y mae yn byw mewn *climate* oer iawn, a phlymen o rew o'i gwmpas o, a digon bach ydyw pedoli cathod i allu myned ato.”

“*Megys pren afalau, &c.*” (Can. ii. 3.)—“Y mae llawer o ganu yn y byd yma, ond dyma i chwi Gân y Caniadau, mhobol i. Y mae llawer o ganu gwagedd; da mechgyn i peidiwch a'u prynu nhw, ac os oes genych chwi rai o honynt wedi eu prynu eisoes, taflwch nhw i'r tân, onide mi taflan' nhw chwi i dân uffern. Y mae canu gan natur, ond nid oes dim i'w ddweyd yn erbyn hwn; ond bydd pob canu wedi darfod cyn hir, ond canu Seion.—Y mae nhw yn ceisio dweyd mai canu iddo ei hun ac i ferch Pharaoh yr oedd Solomon yma. Ond choelia i fawr. Pe cawsai y dynion doetha' sydd ar y ddaear heddyw edrych i mewn i ben Solomon ar y ddoethineb oedd yno, mi fuasen' yn hurtio mewn munud. Nid oedd dim rheswm i ddyn o'r fath synwyr a hwn, fyn'd i ganu fel hyn iddo ei hun ac i ferch Pharaoh; ac nid oedd merch Pharaoh yn ateb i'r desgrifiad sydd yma, yn ei gwallt, ei dannedd, ei harleisiau, &c., a bod 'ei thrwyn hi fel tŵr Libanus yn edrych tua Damascus,'—buasai ddigon bach iddi hi, mhobol i, gael gwyneb cymaint ag ochor Berwyn i ddal y fath drwyn.—Ond Crist a'i Eglwys sydd yn cael eu desgrifio yma, a hoffder y naill yn y llall. Y mae Crist fel pren afalau yn gysgod rhag digofaint Duw; ni ddaw yr un dafn o'r digofaint byth i'r fan yma. Y mae yn gysgod rhag mell-

dith y ddeddf; chwareu teg i ddeddf Dduw, ni threia hi byth am dy fywyd yn y fan yma. Nid yw hi ddim yr un fath a'r cythraul; o herwydd gŵyr hi pe bai yn rhoi bwmbaili byd tragywyddol ar dy gefn, na fedri dala hatling byth; ond y mae hi yn eitha' boddlon i ti fod yn y cysgod. Mi fydd yn dda iawn, y mhobol i, ar y crïstion wrth *ddelio* â'r cysgod yma. Y mae arno *ffrwyth* hefyd; y mae ar y pren yma afalau braf, cochion a melusion; yr afal mawr ydyw cyfiawnhad, a dyna un arall melus, 'Gwaed Iesu Grist ei Fab ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod.'—Pwmpiwch y pren, y mhobol i, nes y byddo yr afalau yn disgyn i'ch dwylaw a'ch geneuau."

Adeg y blodau.—"Adeg fywiog iawn, fy mhobol i, ydyw yr adeg pan y bydd y *buds* a'r blodau ar y coed;—adeg brydferth a gobeithiol am *ffrwyth* y flwyddyn hono, ond un noswaith o farig a wywa yr holl flodau prydferth. Ond y mae gan y byddigions yma eu *hot-houses* yn eu gerddi, a dyfal iawn y bydd y garddwr yn edrych tua'r nefoedd, a fydd hi yn debyg o farigo y noson hono; ac os felly fydd, bydd ganddo ryw gerpyn i'w daflu dros y llysiau hyny yn yr *hot-house*. Hen *hot-houses* da, mhobol i, ydyw tŷ yr Arglwydd; mi fu yn dda iawn i mi gael cerpyn o weddi Dafydd Cadwalad i'w daflu drosta i yn yr *hot-house* ar lawer noson farigog, ac mi fu yn dda i John* yma gael cerpyn o weddi Robert Owen, Llanrwst, i'w daflu drosto yn yr *hot-house*. Mi ddaw i farigo eto, mhobol i, ar ol y poethder yma; a'r cyngor goreu allaf fi ei roddi ydyw, deuwch i'r *hot-house*, rhag i'r blodau prydferth sydd arnoch gael eu gwywo gan farig oer y byd."

Ffordd y bywyd.—"Ffordd y bywyd unwaith oedd, 'Gwna hyn a byw fyddi.' Ond yr oedd dyn mewn sefyllfa o brawf y pryd hwnw. 'Wel,' meddai rhywun, 'pa faint o amser barhaodd o ynddi?' Wel ni wn i ddim, ac nid oes neb oddeutu y Bala acw a wyr chwaith. Mi fyddai i yn meddwl mai pwt go fyr oedd o; ac iddyn' nhw golli eu golwg ar sefyllfa prawf, ac na welson' nhw byth gipgolwg arni; er fod rhyw ddynion eto yn son am ryw sefyllfa o brawf, ond ni wn i ddim yn mha le y gwelton' nhw hi. Ac y mae dynion go fawr meddyn' nhw, yn *Ddoctoriaid Divinity* wedi ysgrifenu cyfrolau ar sefyllfa prawf. Ond os gwel rhai o fechgyn y mil blynyddoedd un o'r llyfrau yma, ni wyddai nhw yn y byd beth a wnant a nhw, ac mi cymeran' nhw yr ydw i yn *right* siwr i lapio *copros* a *logwood*. 'Ffordd y bywyd sydd fry.' Ffordd newydd wedi ei dadguddio

* Y Parch. John Jones, Llanllechid, yr hwn oedd yn pregethu gydag ef, yn nechreu y diwygiad diweddaf.

trwy Iesu Grist; ffordd gul yn y cychwyn—cul i gig a gwaed, ond yn arwain i ogoniant er hyny. Ac wedi unwaith *bookio* yn *station* rhad ras, y mae deg *gate* Sinai yn rhydd, wedi eu clirio ar ben Calfaria. A dyna ydyw y gamp, fy mhobol i,—*bookio* i mewn iddi, nid oes dim perygl colli, fel y torodd pont Caer 'stalwm,—unwaith *fall in*, dim perygl *fall out* wed'yn. Er mor hurt y mae dynion wedi myn'd trwy y codwm nid oes dim perygl colli—'a rodio y ffordd, pe byddent ynfydion ni chyfeiliornent.' ”

“ *Gwr yn ymdaith o'i le ei hun, sydd yn debyg i aderyn yn cilio o'i nyth.* ”—“ Y mae yr aderyn wed'yn rhag blaen yn agored i'r *ffowler*, ac nid oes wybod yn y byd pa bryd y bydd yn disgyn i'r fagl. A wyddoch chwi be, mhobol i, y mae Rhagluniaeth fawr y nef wedi pennu'r amseroedd a threfnu trigfa preswylfod pob un o honom; fel pwy bynag sydd wedi ei eni i *rôt* ni wei o byth mo'r *pum ceiniog*. Y mae ambell i *wag* ffroen uchel yn teimlo y rhych y mae Duw wedi ei roi iddo fo yn rhy gyfyng, ac yn bostio dros derfynau Duw; ond rhyw helbul a thrybini aflawen sy'n cyfarfod pawb sydd yn mentro dros y terfyn. Gan hyny, mhobol i, gofynwn am ras i gadw o fewn y cylch, ac am fendith ar gyflawni ein dyledswydd.”

“ *Eto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd; byddaf hyfryd yn Nuw fy Iachawdwriaeth.* ”—“ Yr oedd Habacuc yn gallu gwneyd hyn er colli pethau'r byd hwn. Ac wyddoch chwi be, mhobol i, y mae amal i hen wreigan dduwiol yn cardotta ar hyd eich drysau chwi, yn Sir Fon yma, na wyr hi yn amal ar ol llyncu un pryd, yn mha le y caiff hi y pryd nesaf; ond mi all droi ei chwd cardotta o gwmpas ei phen, a dweyd yr un fath a Habacuc—'Mi a lawenychaf yn yr Arglwydd, byddaf hyfryd yn Nuw fy Iachawdwriaeth.'—Wel, sut y mae hyny yn bod? Wel, y mhobol i, mi ddeuda i y *secret* i chwi,—y mae ei *stât* hi mewn gwlad nad ydyw cyfnewidiadau y clap byd yma lle yr ydym ni yn byw ynddo yn effeithio dim arni; ond yn unig ei bod hi eto heb ddwad i'w hoed i gael cyflawn fwynhâd o honi. Ond mi all yrwan *drwtws* canu yr hen benill hwnw a dweyd—

‘Plant ydym eto dan ein hoed,
Yn disgwyl am y 'stad;
Mae'r etifeddiaeth ini'n dod
Wrth destament ein Tad.’ ”

PENNOD IX.

COFNODION O'I BREGETHAU.

PREGETH I.

“Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu, gan fod arnaf chwant i'm dattod a bod Christ, canys llawer iawn gwell ydyw.”—PHIL. i. 23.

UN selog ryfeddol oedd Paul cyn cael gwir grefydd. Yr oedd ganddo, fel y mae yn drwm dweyd, grefydd i rwystro iddo gael crefydd. Ond fe aeth y grefydd newydd yma a'r hen grefydd oddi-arno. Trwy y ddeddf, a chyn cael y grefydd iawn, yr oedd yn gwneyd llawer o bethau da, ond oddiar egwyddor ddrwg. Ond wedi marw i'r ddeddf, gogoniant Crist oedd ei ddyben penaf. Yr oedd yn meddwl cael ei ferthyru gan Cesar Nero, ond ei iaith y pryd hwnw oedd “Mawryger Crist yn fy nghorff i, pa un bynag ai trwy fywyd, ai trwy farwolaeth.” Dyma le i nin-nau i holi ein hunain—a ydyw gogoniant Duw yn ddyben penaf genym; cyn y bydd hyn, y mae yn rhaid i ni gael y tro rhyfeddol hwnw a gafodd Paul.—“Canys byw i mi yw Crist”—Crist mewn cyfiawnhâd,—Crist mewn sancteiddhâd. Os caf fi fyw, gogoneddu Crist a wnaf. “Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu;”—*Un* tu sydd gan lawer yr oedd gan Paul *ddau* tu; yr ochr yma ydyw cartref llawer. O'r *ddau* tu yma, y cyntaf ydyw, bod yn y cnawd gyda'r eglwys ar y ddaear; yr ail, bod gyda Christ yn nefoedd y gogoniant.

I. AMGYLCHIAD SYDD YN SICR O ODDIWEDDYD PAWB YW Y “DATTOD” YMA.

Yr ydym yn darllen am *ddau*—Enoch ac Elias, aeth i'r nefoedd heb eu dattod; ac fe gaiff y bobl dduwiol fydd ar y ddaear y dydd mawr, fyned at Grist heb eu dattod. Ond am bawb eraill rhaid iddynt ddyoddef eu dattod.

1. *Yn angau fe ddattodir* CORFF ac ENAID,—y pryd hwn caiff pob perthynas sydd rhyngom a'r byd hwn ei dattod. Aiff pobpeth sydd yn y byd o'r ffasiwn. Hwyrach y medr rhywun ddweyd yr undeb sydd rhwng y corff a'r enaid; ond caiff ei ddattod. Y mae dyn yn awr angau yn dyoddef llawer mwy nac un creadur arall. Cyn y dattod y mae i ni ymofyn am undeb â Mab Duw. Fe fydd yn helynt ofnadwy os cei dy dattod yn annuwiol heb undeb rhyngot a Mab Duw.

2. *Caiiff holl achau natur eu tori i gyd.* Nid oes yr un berthynas a saif ond brodyr a chwiorydd yn Nghrist.

II. GWELWCH FOD POBL DDUWIOIOL YN CAEL EU CODI MEWN PROFIAD EFENGYLAIDD MOR UCHEL FEL AG I FOD ARNYNT "CHWANT I YMDDATTOD."

Y mae dirgelwch mawr yn hyn, ac ystyried mai gelyn natur ydyw angau; ond er mai gelyn natur yw ymddattod, y mae Paul wedi ei godi mor uchel fel y mae arno "*chwant i ymddattod.*"

III. Y PETH SYDD YN EU CYMHELL—"BOD GYDA CHRIST."

Yr hyn oedd yn cymhell y chwant yma oedd cael lle mwy cyfeus i fwynhau Duw, "Canys llawer iawn gwell ydyw." A fedri di Paul, sydd mor ddysgedig roi rhyw awgrym pa faint gwell ydyw?—"Llawer iawn." Y mae rhai yma sydd wedi ymbriodi â Mab Duw, a chwant arnynt weithian i ymddattod a a bod gydag ef. Fe glywyd llawer o rai pur annuwiol yn dywedyd "Pe cawn i fy ngollwng yn rhydd i fy ugonid fy ngadael!" Ond yn lle esmwythder, yn uffern y codant eu golwg mewn poen ac o dywyllwch.

IV. YR OEDD PAUL YN ADDFED I YMDDATTOD.

Y mae rhai pobl dduwiol ag arnynt chwant i ymddattod heb fod yn addfed. Anaddfed oedd Êlias, pan oedd Jezebel yn ei erlid; anaddfed oedd Jonah; ond am Paul yr oedd o pan yn dweyd yr adnod hon, a'i chwant wedi addfedu. Ni chai pobl dduwiol mor chwant yma yn anaddfed pe na buasent hwy heb goleddu rhyw eilunod.

Beth sydd i'w feddwl wrth "Fod gyda Christ." (1.) Bod lle y mae Crist: "Y Tad cyfiawn, yr wyf yn ewyllysio lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi." Ni bydd arno ddim cywilydd gweled ei waith ar eu heneidiau. (2.) Ei weled fel y mae. (4.) A bod yn debyg iddo.

PREGETH II.

"Y neb a guddio ei bechodau ni lwydda; ond y neb a'u haddefo ac a'u gadawo, a gaiiff drugaredd."—Diar. xxviii. 13.

Y MAE Llyfr y Diarebion yma fel dinas ardderchog, yn llawn o balasau gwychion, a phob palas ar ei ben ef hun, heb yr un dau dan yr untô, ac heb ffordd i fyned a dyfod o'r naill i'r llall. Felly y mae fy nhestyn innau; nid oes eisieu myn'd yn ol nac ymlaen i fyned iddo.

Y mae yn fy nhestun i ddwy *room*. Y *room* gyntaf ydyw "Y

neb a guddio ei bechodau, ni lwydda;" a'r llall ydyw, "Ond y neb a'u haddefo ac a'u gadawo, a gaiff drugaredd." Gobaith go wael sydd yn fy nhestun i i'r annuwiol ar wely angau am drugaredd; o herwydd y mae eisiau byw i'w haddef ac i'w gadael. Ond sylwaf i ddechreu ar y *room* gyntaf a enwais i—"Y neb a guddio ei bechodau ni lwydda."

I. YR ACHOSION YN HERWYDD PA RAI Y MAE DYNION YN CEISIO CUDDIO EU PECHOD.

1. *O herwydd DIDDUWIAETH EU CALONAU—ymlidier y didduwiaeth yma o'n calonau.*

2. *O herwydd CARIAD AT EU PECHODAU.*

3. *O herwydd GWRTHGILIAD YR ENAID ODDIWRTH DDUW.*

Y mae saint yn eu gwrthgiliadau yn ceisio cuddio eu pechodau. Fe fu Dafydd, peraidd ganiedydd Israel, am flwyddyn mewn gwrthgiliad, a dacw fo yn ceisio cuddio ei bechod, wedi myned âg oenig y gŵr tlawd, pryd yr oedd ganddo ddigon o ŵyn ei hun; dacw fo yn rhoddi llythyr gydag Urias at *Head-Commander-in-chief* y fyddin, ac yn y llythyr yr oedd o yn rhoi Urias o flaen y rhyfelwyr glewaf nes y cafodd ei ladd. Ond fe ddeallodd Nathan, gŵyr anwyl, ac fe ddaeth at Dafydd, ac a ddywedodd ei ddammeg wrtho am y gŵr mawr oedd wedi myned ag oenig y gŵr tlawd oddiarno. "Diau," meddai Dafydd panglywodd hyn, "euog o farwolaeth yw y gŵr a wnaeth hyn." "Wel," meddai Nathan, "ti yw y gŵr." Ni chlywais i ddim *plaenach* dweyd erioed nag a ddywedodd Nathan wrth Dafydd. Fe fuasai yn gryn beth myned at hen wraig ar y plwyf mewn gwrthgiliad i ddweyd fel hyn; ond yr oedd yn fwy peth o lawer ei ddweyd wrth frenin mewn gwrthgiliad. Y mae Nathan fel yn rhoi y lansied (*lancet*) ar y casgliad, nes yr oedd Dafydd ar lawr, yn gwaeddi, "Pechais, gan fradychu gwaed gwirion." Yr oedd yn hwyr i Nathan erbyn hyn ymofyn am eli at y clwy.

4. *O herwydd CALEDU TRWY DWYLL PECHOD.*

II. YR AMRYWIOL DDULLIAU SYDD GAN DDYNION I GEISIO CUDDIO EU PECHODAU.

1. *Trwy Gelwydd.* Yr oedd Gehazi yn *fanufactory* ar gelwydd. Yr oedd arno fo frys mawr am i ddau was Naaman droi yn eu holau, pan ddaethant at y bwlech hwnw. A dyma yr hen brophwyd Eliseus yn gofyn iddo—"O ba le y daethost ti, Gehazi?" "O," meddai yntau cyn sychu ei geg, "nid aeth dy was nac yma na thraw." Mi feddyliodd o am guddio ei bechod â chlwt o gelwydd; ond nid oes modd cuddio â chelwydd, na chuddio celwydd, mi fydd rhyw ben o hono o'r wain o hyd. "Onid aeth fy nghalon gyda thi," meddai Eliseus, "pan drodd y gŵr oddiar ei gerbyd i'th gyfarfod di . . . am hyny gwa-

hanglwyf Naaman a lŷn wrthyt ti, ac wrth dy hâd yn dragywydd.' Er i ti gael dwy *suit* trwy dy gelwydd, dyma i ti *suit* na wisgi di mohoni allan, mi fydd i dy hâd ar dy ol di—"Gwahanglwyf Naaman a lŷn wrthyt ti, ac wrth dy hâd yn dragywydd." Benau teuluoedd, edrychwch ati, rhag eich bod yn gwisgo gwisg a fydd i'ch hâd ar eich ol. Rhyw glongc ryfeddol ar eich ol fydd hwnw—"Iereboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu."

2. *Trwy wneyd esgus drostynt*, fel y darfu i Adda ac Aaron; rhoi y bai ar lygredd natur neu arfaeth Duw; neu fel Saul, dweyd fod y dyben yn dda Nid awn i ddim i'r un cwmpeini at neb os na bydd y dreth fawr yn cael ei thalu yno. Beth ydyw hono?—Treth yr holl fydoedd, a dyma hi—"Rhoddwch fawredd i'n Duw ni." Nid awn i ddim i'w cwmpeini, pe bai nhw yn werth mil o bunnau yn y dydd os na thalent hwy y dreth. Fe ddarf i Herod nacau ei thalu hi, ac fe roes Duw *stroke* iddo at ddiawliaid—"a chan bryfed yn ei ysu efe a drengodd."

3. *Trwy ragrith*; fel Joab a Judas, &c.

4. *Trwy newid eu henwau, a'u paentio*. Y mae cwnstabliaid a bailiaid y nefoedd allan er ys deuddeng mlynedd, heb ddal dim yn yr odfeunon yma, trwy eu bod yn newid eu henwau. Y mae gan bob un ryw glôg i'w rhoddi dros ei bechod. Pan eir i geisio dal y cybydd;—O, nid *cybyddlyd* ond *cynnil* ydyw fo; y mae y cybydd mor laned ei groen, ac mor fyred ei flewyn a'r twrch dacar.—Pan yr eir i geisio dal y meddwyn, "yfed yn uchel" y mae fo.—Pan yr eir i geisio dal y beilchion, "taclus" iawn ydynt hwythau—yn boeth y bo'u taclusrwydd nhw. Ond y mae bwmbaili y nefoedd, angau brenin y dychryniadau, yn dal llawer bob dydd.

5. *Trwy geisio gwneyd iawn drostynt*. Y pwll penaf sydd gan yr annuwiol i'w cuddio, ydyw eu hanghofio trwy geisio gwneyd iawn drostynt a'i dagrau, &c.

III. HYSBYSIAD PENDERFYNIAD—"NI LWYDDA."

IV. RHESYMAU.

1. *Y mae Duw yn Hollwybodol*.

2. *Deffry y gydwybod*. Fe fydd hon yn tystio yn dy erbyn, a gwell i ti dynu pawb yn dy ben na'th gydwybod. Y mae hi yn siarad o hyd, a bydd yn tystio pan y daw angau "mi gwelais i da yn ei wneyd o." Wel, yn siarad yr elo hi yn awr.

Ond dyma ni yn yr ail *room*,—"Y neb a'u haddefo, ac a'u gadawo, a gaiff drugaredd." Ac mi a'ch gadawaf chwi yn hon. Ar y graig yma yr ydwyf fi yn meddwl trafaelio nes cyrhaedd y Gaersalem fry.

PREGETH III.

“Ond pwy bynnag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd.”—IOAN iv. 14.

WN i fawr, fy mhobl i, am *Geography*—rywbeth penmynydd fel y fi; ond mi feddyliwn i fod Samaria rhwng Judea a Galilea, yn debyg iawn fel y mae Sir Feirionydd acw, rhwng Sir Gaernarfon a Sir Drefaldwyn; os bydd ar rywun eisiau myned o Sir Gaernarfon i Sir Drefaldwyn, rhaid iddo fo fyned trwy Sir Feirionydd neu gymeryd llawer iawn o gwmpas. Wel, yr oedd yn rhaid i Grist fyned trwy Samaria, ac yr oedd o yn flin gan y daith, ac mi eisteddodd wrth ffynon; daeth gwraig yno i godi dwfr; y mae yntau yn gofyn am ddiod. “Paham yr wyt ti, a thi yn Iuddew,” gofyna y wraig, “yn gofyn diod genyf fi, a myfi yn wraig o Samaria?” Nid oedd dim cyfeillach, welwch chwi, rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid. Samaria oedd eu tomen ludw nhw, lle y bydden' nhw yn taflu'r *slecks*, a'r *knottos*, a'r *rybets* i gyd; y hi oedd Merthyr Tydfil gwlad Canaan—yr oedd hi yn gybolfa o Iuddewiaeth a Phaganiaeth a phobpeth. Ond y mae yr Iesu yn ei hateb, “Ped adwaenet ti pwy yw yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt, Dyro i mi i yfed; tydi a ofynasit iddo ef, ac efe a roddasai i ti ddwfr bywiol:” ac wedi iddo ddweyd wrthi na sychedai ar ol yfed o hwn. dywedodd y wraig wrtho, “Arglwydd, dyro i mi y dwfr hwn fel na sychedwyf, ac na ddelwyf yma i godi dwfr.” Y mae hi am y llen a'r pethau o hyd. “Pan y bydd arnaf fi eisiau golchi fy nghrys, a phobi fy nhorth, a phethau eraill, y mae yn rhaid i mi ddod i ffynon Jacob o hyd i nol dwr; dyro i mi y dwr bywiol yna, i *safio* i mi y drafferth o ddyfod yma.” “Dos, galw dy ŵr,” meddai yr Iesu. “Nid oes genyf ŵr,” meddai hithau. “Da y dywedaist, nid oes genyf ŵr: canys pump wŷr a fu i ti, a'r hwn sydd genyt yr awrhon nid yw ŵr i ti; hyn a ddywedaist yn wir.” Pe buasai yr Iesu yn dweyd wrthi, “Dos, galw yr hen garp hyll acw sydd gennyt ti”—mi *warrantaf* y buasai yn lluchio ei chylchau yn braf. Ond trwy iddo ddal ei rhinwedd hi i fynu âg un llaw—“hyn a ddywedaist yn wir”—yr oedd yn cael ei thrin a'r llall fel y fynnai. Ac ni welsoch chwi erioed ddyn, ond i chwi ddal ei rinwedd o i fynu ar un llaw, na chewch chwi roi eich bys yn ei dagell o cyn y diwedd, a'i drin a'r llaw arall fel y fynech. Ond mi welaf fi rwyd yr efengyl am danat ti—“Onid hwn yw y Crist?” meddai hi, a dyna hi yn *bwtsh* yn y rhwyd yn union. “Y dwfr a roddwyf iddo a fydd ynddo yn ffynon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol.”

PREGETH IV.

“Am hyny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.”

HEB. VII. 25.

O HERWYDD ei fod o y fath un ag y mae yr Apostol yn dangos ei fod o ddechreu yr Epistol hyd y geiriau hyn. Prif ddyben yr Epistol yma oedd enill yr Hebreaid yn llwyr oddiwrth y cysgodau at y sylwedd—yr Arglwydd Iesu Grist; ac felly bod yn ddianwadal yn eu profes o hono, a'u hymlyniad wrtho, doed yr helynt a ddelo i'w cyfarfod nhw. Ac nid oes dim, wyddoch fy mhobol i, mor effeithiol i gael dyn i adael y fan lle y mae, a chael golwg ar le gwell na fo. Ac yr wyf fi yn siwr yn nechren yr odfa yma, nad oes ar y diafol ddim cymaint o ofon dim ag i bechaduriaid gael dadguddiad o berson y Gwarddwr; oblegyd ni fedd y diafol ddim digon o gadwynau i ddal neb sydd yma, pe ca'i ddadguddiad o'r Arglwydd Iesu Grist—gadawai bobpeth yn union i fyned ar ei ol. Y mae yr Apostol yn son am y pethau mwyaf gogoneddus a greodd Duw, a'r gosodiadau mwyaf gogoneddus a osododd Duw; ond y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn rhagori o ddigon ar y cwbl—“Wedi ei wneuthur o hyny yn well na'r angelion;” nid wyf fi yn meddwl fod neb ar y ddaear all ddweyd i'r eithafion am ogoniant angel a gadwodd ei ddechreuad. Y mae yr angelion yn greaduriaid ofnadwy, a'u cryfder yn ogoneddus. Nid wyf yn meddwl, pe bai Duw yn peri i un o honynt ysgwyd y ddaear yma, nad ysgydwai hi yn hawdd iawn. A phe cait tithau grefydd, pe na bai ond haner llon'd gwniadur o santeiddrwydd, a hwnw yn cael chwareu teg, ni byddai raid i ti ofni yr un cythraul sydd yn uffern. Pa beth am Geidwad pechadur? “Wedi ei wneuthur o hyny yn well na'r angelion, o gymaint ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na hwyntwy.”

Fe roddodd yr Arglwydd ogoniant mawr ar bethau gwael iawn; nid oedd Moses ond clap o bridd fel ninnau; ond wedi iddo fod yn mhresenoldeb Duw yn mynydd Sinai am ddeugain diwrnod a deugain nos, yr oedd yn rhaid iddo roi mwgwd ar ei wyneb pan yr âi i siarad a'r eglwys—yr oedd ei ogoniant yn rhy gryf iddynt allu edrych arno. Ond “fe gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy gogoniant na Moses.” Wel pa faint o barch y mae yn ei gael genym ni?

Ar ol hyn y mae yn dangos ei fod yn rhagori ar Aaron a'i holl frodyr, a'i fod wedi llyncu yr allorau a'r aberthau i gyd yn ei aberth ei hun ar Galfari fryn. Ac oddiar y pethau yna y mae y testun yn dod i mewn—“Am hyny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau.” Y mae Crist yn rhagori ar Aaron.

I. O RAN EI BERSON.

Dyn yn unig oedd Aaron, a dyn a gwaeleddau yn perthyn iddo—dyn pechadurus fel dynion eraill. Yr oedd yn rhaid iddo yn gyntaf offrymu dros ei bechodau ei hun bob amser. Wel, beth am hwn? Y mae hwn yn Dduw ac yn ddyn, ac eto un Person. Ac mi fyddaf fi yn meddwl bob amser y byddaf fi yn darllen yr Epistol hwn, fod yr awdwr yma a'i synwyrâu ar eu llawn *stretch* yn dal uwchben rhyfeddodau Person y Cyfryngwr gan gymaint oeddynt. “Canys y cyfryw Archoffeiriad,”—nid wyf yn meddwl na safodd o oriau wedi ysgrifenu cymaint a hynyna, yn methu gwybod beth i'w roddi i lawr gynta'; ond dyma fo yn dechre' wed'yn—“Sanctaid, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid.” Nid oedd Aaron ddim felly; ond dyma un yn natur pechaduriaid, eto yn didoledig oddiwrth bechaduriaid. “Ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nef-oedd, oedd yn weddus i ni.” A chan ei fod yn rhagori ar Aaron o ran ei berson,—“Efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau.”

II. O RAN URDDIAD.

Ni ddaeth hwn yn ol urdd Aaron, ond yn ol urdd arall, sef urdd Melchisedec. Pa fath un oedd Melchisedec? Un *odd* iawn—“Heb dad, heb fam, heb achau, na dechreu dyddiau, na diwedd einioes.” Y mae darllen yr holl Epistol yma, a'i drysori yn y cof, a chael gronyn o oleuni yr Ysbryd Glân, yn well na'r un esponiad a ellwch chwi gael arno. Y mae yma oleu yn cael ei dalu o'r naill adnod ar y llall heb drafferth. Yr oedd manwl chwilio ar yr achau wrth fyned i'r swydd yma; yr oedd yn berygl iawn myned iddi heb fod o'r achau; pe buasai brenin yn myned i'r swydd yma, heb fod o'r achau, cawsai ei daro â'r gwahanglwyf. Ond dyma un heb achau, fel y mae “yn hysbys mai o lwyth Juda y cyfododd ein Harglwydd.” Nid oedd son am dad, na thaid, na hendaidd i Melchisedec yn y swydd o'i flaen; nac am fab, nac wŷr, na gorwŷr, yn y swydd ar ei ol. Ac y mae yr Archoffeiriad yma heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes arno yn ei swydd, er iddo farw ar Galfari fryn. “A'r rhai hyny, yn wir, llawer sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriad, o herwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhau.” Ond mi ddarfu i hwn farw ar Galfaria heb luddias iddo barhau yn ei swydd—“Am hyny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau.” Mae genyf fi barch mawr i Aaron,—un cywir-galon oedd o, ac mi hoffwn i gael marw yn lled debyg iddo. Rhy lwfr a masw oedd o, a rhyw ofn drwg oedd arno pan y tafodd o y *jewels* hyny i wneyd llo. Ond rhyw farw yn *noble* ddarfu fo. Pan oedd yn myned i fyny i fynydd Hor, yr oedd yn gwybod mai marw a wnai, ac aeth Eliezer gydag ef. Ni hoffwn innau ddim

byw yn y byd yma ddim haner awr wedi tynu fy ngwisgoedd o bregethu yr Arglwydd Iesu Grist; ac er y byddaf yn bur wanaidd yn aml, yn methu cychwyn ar ddydd Sadwrn, hoffwn bellach gyhoeddi Ceidwad tra byddwyf byw; fel yr oedd Mr. Rowland Hill, wedi bod wrthi dros driugain mlynedd, bob tro y clywyd ef yn gweddio y pum mlynedd diweddfaf o'i oes, byddai yn dweyd—"Caffwyf farw yn y tresi;" ac un o'r *favorites* oedd ef; yr oedd yn y pulpud y Sabboth olaf y bu fyw, ac yn y bedd y Sabboth canlynol. Ond nid oedd eisiau yr un Phinēas nac Eliezer i fyned i ben Golgotha. Nid oes dim diwedd einioes i fod ar ein Hoffeiriad ni yn ei swydd. Y mae yma ryw ryfeddodau. A fu Crist farw fel Archoffeiriad? Naddo, onide buasai yn myned o'i swydd pan yn marw. Ac nid rhyfedd i Williams ganu,

"Bydd rhyfedd gan angelion nef
I edrych ar ei angau Ef."

Bydd angau'r groes yn dal yn newydd o hyd. Craffwch chwi ar yr adnodau yma—"Od oes yn ol cyffelybrwydd Melchisedec offeiriad arall yn codi, yr hwn a wnaed, nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol"—sef y ddeddf seremonïol—"eithr yn ol nerth bywyd annherfynol." Y gyfraith sydd yn gwneyd dynion a gwendid ynddynt yn offeiriaid, ond gair y llŵ, a eglurwyd yn y Salmau, sydd yn gwneyd y Mab yn dragywydd heb ddiwedd einioes yn ei swydd. Pa fodd y bu Iesu farw ac heb ddiwedd einioes? Fe offrymodd ei gorff a'i enaid sanctaidd ar allor ei Dduwdod; ac er ysgar rhwng ei gorff a'i enaid a'u gilydd am ran o dridiau a theirnos, ni ysgarwyd rhwng ei gorff a'i enaid â'i Dduwdod yn yr yspaid hwnw. Naddo; tra y bu yn marw ar y groes. Pwy oedd o? "Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo." Pan oedd y ddau ŵr boneddig yn ei dderbyn yn barchus mewn llian main oddiar y groes—Pwy oedd o? Duw yn y cnawd. A phan oedd yn medd newydd Joseph, yr oedd Person y Duwdod yn y bedd. Y mae yn hawdd i chwi ddeall hyny ar yr angelion, yr oeddynt fel yn methu myned adref; er mai rhai hwylus iawn ydynt hwy, yr oedd rhyw beth yn eu dal yno y bore hwnw; yr oeddynt yn sefyll, un wrth ben ac un wrth draed y fan lle y dodasid yr Iesu, ac yn galw ar y gwragedd cynes eu calon ato—"Deuwch gwelwch y fan lle y gorweddodd yr Arglwydd." Pe na buasai ond ei ddynoliaeth wedi bod yno, ni fuasen' nhw ddim yn dweyd felly.

Fe fu Aaron farw, a gadael yr eglwys yn afiach; fe fu Eliezer farw, a'r eglwys yn afiach; ac fe fu Phinēas farw, a'r eglwys heb fendio; ond Seion, fe fydd dy Archoffeiriad di byw nes gweled diwedd ar dy bla, er mor hir y mae dy hen ddyn yn marw, fe fydd dy Iesu yn fyw i'th weled yn gwbl iach.

III. O RAN EI DDULL YN MYNED I'W SWYDD.

Fe aeth i'w swydd trwy llŵ. Nid oedd yr un o'r hen *freed*, er mor anwyl oeddynt, yn werth rhoddi llŵ hefo nhw. Ni allasai Aaron ddweyd y prydawn heddyw—"Os bydd rhai o honoch oddiar ddychryn cydwybod, ag eisiau i mi fyned a'ch achos at Dduw y foru, dŵch chwi ataf fi, ac mi a âf;" ni wyddai pa pryd y byddai farw mwy na dynion eraill. "Ar destament gwell o hynny y gwnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd." Ac yr ydwyf fi yn meddwl fod yma gyfeiriad at y cysgod oedd dan yr hen oruchwyliaeth, o'r eiriolaeth yn y nef. Nid oedd yma ond cysgod unwaith yn y flwyddyn, ond y mae yr Iesu "yn byw bob amser i eiriol." Yr oedd yma gysgod o'r Iesu yn marw yn Israel bob dydd—sef o rod-di iawn. Yr oedd yma oen yn marw bob boreu, ac oen yn marw bob prydawn; dau oen bob boreu Sabboth, a dau y prydawn; ond nid oedd yma ond cysgod o'r eiriolaeth. Ar ŵyl y cymod mi ddarfu i'r Arglwydd orchymyn i Aaron gymeryd llon'd thuser o farwor tanllyd oddiar yr allor bres, a myn'd a hwnw y tu fewn i'r wahanlen a llon'd ei ddwyllaw o arogl-darth peraid, a rhoddi yr arogl-darth ar y marwor tanllyd fel y byddai i'r mwg guddio y Sécina—yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol, a thaenellu y gwaed ar y drugareddfa, &c., fel na byddai farw. Pe buasai Aaron yn myned i'r cysegr sanctaidd heb fwg, ni chlywsid byth mo'r gloch aur yn canu wedi i'r cwbl fyned trosodd. Yr ydym ni yn nesu bob moment i gyfarfod â Duw, a pheth ofnadwy ydyw cyffwrdd â Duw allan o Gyfryngwr. Fe fuasai i arwyddion o'r presenoldeb dwyfol ladd Aaron pe buasai yn beiddio myned yno heb waed a mwg. Ac fe fydd i'r presenoldeb Dwyfol yru'r dyn anmharod i ail farw, heb Gyfryngwr. Ond y priodoliaethau a fuasant yn dy ladd heb Gyfryngwr, fe fyddant yn orfoledd i ti mewn Canolwr; fe fydd cyfiawnder a sancteiddrwydd yn orfoledd i ti mewn Cyfryngwr. Wel, trwyddo Ef y caffom ninnau, rhai yn haeddu ein damnio, ddyfod at i duw.

"Y mae yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy." Pa fodd y mae yn eiriol? Mi feddyliwn y gallwn ateb—ei fod yn ymddangos gerbron Duw yn enw ei eglwys—yn ei lle, "Canys nid i'r cysegr o waith llaw, portreiad y gwir gysegr, yr aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei hun i ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni." Ac y mae hyn yn gysur nid bychan y dyddiau yma. Y mae achos ei bobl yn achos gan yr Arglwydd Iesu Grist ei hunau; a'r ffordd unionaf i ti wybod a ydyw dy achos di ganddo ef ydyw, a yw ei achos ef yn benaf o bob peth genyt ti, yma yn y byd hwn. Y mae rhai wedi rhoddi eu hachos drwg i'r Cyfryngwr, a chymeryd ei achos yntau yn beth anwylaf o ddim yn y byd. Y mae yn dangos ei ufudd-dod a'i angau drud

fel dadl am fywyd ei bobl. Y mae yn cyflwyno eu personau, eu diolch, eu gweddïau, a'u holl wasanaeth crefyddol yn mwg yr aroglarth. Ac yr ydym yn clywed yr Arglwydd Iesu Grist yn yr odfa yma yn gofyn cwestiwn. "I bwy?" I ti yn y fan yna;—cwestiwn mwy ei werth na'r bydoedd;—y cwestiwn a ofynnodd o i'r dyn hwnw wrth lyn Bethesda—"A fyni di dy wneuthur yn iach?" "A wyddoch chwi pa fath un ydw' i?" Ni waeth genyf yn y byd pa fath un wyt ti tra yr wyt ti yn swm efengyl,

"Cymer fi Iesu fel yr wy'
A chuddia fi yn dy farwol glwy."

"Hen wrandäwr pregethau ydwyf fi, wedi tori addunedau trwy y blynyddoedd, a llai ar fy meddwl o lawer nac a fu." Wel, y mae o yn gofyn i ti. Y mae yma ryw wrthgiliwr; y mae y cythraul yn ceisio dy yru i anebaith;—ond y mae o yn gofyn i ti, "A fyni di dy wneuthur yn iach?" Dywed wrtho, "Cymeraf, Iesu mawr." Y mae drws yr *Hospital* yn agored, ac y mae llawer a welsom ynddi wedi mendio o ran eu heneidiau, a byddant wedi mendio yn llwyr erbyn boreu yr adgyfodiad. "*Cwbl* iachau." Y mae yn hyn iachau yr *holl ddyd*, corff ac enaid. Y mae cystal gen' i am y naill a'r llall. Y mae yn cynnwys hefyd iachau oddiwrth bob clefyd; ac yn y fath fodd fel na bydd yno *ddim o ôl y clefyd*. Y mae llawer wedi mendio o glefydau y ddaear yma, ac ôl y creithiau arnynt wed'yn; ond yr ydwyf fi yn meddwl am Seion, gwraig yr Oen, y bydd erbyn yr adgyfodiad y fath fel pe byddai Duw yn dewis creu rhyw *bac* o angelion, na allent wrth edrych arni ddim gwybod ei bod wedi bod yn glaf erioed, oni buasai am ei phenill, "Iddo Ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, y byddo y gogoniant a'r gallu yn oesoedd." Fe fu y rhai hyn yn aflan;—"Ai tybed?" Do fe fuont yn ofni na ddeuent byth yn iach, ond y maent erbyn hyn yn wynach na'r eira yn Salmon. Bydd Seion yn y man yn teyrnasu mewn bywyd yn y lle na ddywed yr un o'i phreswylwyr "Claf ydwyf."

PREGETH V.

"I'r man yr aeth y rhagflaenor drosom ni, sef Iesu, yr hwn a wnaethpwyd yn Archoffeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec."—HEB. VI. 20.

"I'r man"—sef sylwedd y lle sancteiddiolaf, yn y cysegr sancteiddiolaf. "Y rhagflaenor—sef Iesu." Nid aethai neb o hil Adda yno byth, oni buasai i'r Iesu fyned yno yn y modd yr aeth

o. O ba le y tarddodd iachawdwriaeth—ai o angenrheidrwydd natur? Na, na, dyna yr ateb—“Duw yn ewyllysio.” Diolch iddo! Fe allasai ef fod, yr oedd o yn bod, a gallasai barhau i fod yn berffaith ynddo ei hun heb achub neb, ond eu damnio; ni fuasai neb i weled bai arno am hyny; ond nid felly y gwnaeth. O na! “Duw yn ewyllysio.” O ba le y tarddodd trugaredd? Wel “Duw yn ewyllysio.”—“Yn yr hyn Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lŵ.” Fe roes Duw lŵ, nid i wneyd yr addewid yn gryfach, ond gael i ti gael dy wynt yn dy ffwdan. Fe wyddai Duw y byddai anghrediniaeth, fel y gwrthban gwlyb hwnw a roddodd Hazael ar wyneb ei feistr i’w fygyn yn ei glefyd,—i’n mygu ninnau yn nghlefyd codwm Eden; ac fe roddodd Duw lŵ, fel *bwlet*, trwy y gwrthban gwlyb, gael i ti gael dy wynt. Wel, ffieiddio anghrediniaeth y byddom ni. “Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf.” Y mae Duw wedi fforddio i’w bobl “gysur cryf,” nid ydyw yn cadw dim o’r golwg. Y moddion i’r cysur ydynt addewid a llŵ,—“dau beth dianwadal.” Buasai un yn gwneyd y tro, ond er mwyn rhoi ergyd i anghrediniaeth y mae wedi rhoddi dau. “Y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o’n blaen; yr hwn sydd genym ni megys angor yr enaid;”—gobaith ydyw hwn. Y mae arnaf fi awydd bod fel offeryn yn llaw Luw i wneyd osgo at yr annuwiol am ei achub o. “Beth yr ydych chiwi yn myn’ d i’w ddweyd?” Beth ydwyf fi yn myn’ d i’w ddweyd!—Ti, ddyn annuwiol, gwell i ti fod heb enaid, na bod enaid yn dy gorff heb i ti daflu angor. Wel, taflu angor y byddoch, cyn myn’ d trwy y drws yna allan heddyw. Fe allai’r cythraul fyned a chwi i anobaith, oni bai fod Duw yn rhoi *strokes* iddo fo; ond wedi i ti daflu angor, ni fedr y gŵr drwg ddim dy daflu i anobaith. Ni fuost ti ddim yr un fath wedi i ti daflu angor, ag oeddyt ti cyn hyny. Nid ydwyf fi ddim yn dweyd nad aiff y dwfr dros y *deck*, ac na cholli di dy *fastiau*; ond wrth dy angor y byddi di. Fe allai rhywbeth ddod dros dy feddwl heb i ti daflu angor—rhyw hwyl fel ddaeth ar Saul gyda’r prophwydi, ond fe allai mai at y *witch* o Endor yr âi di wed’yn. Ond wedi taflu angor, ni byddi di byth yr un fath. Wel, taflu angor y byddoch chiwi, mhobol i; ac yn angau wed’yn fe fydd y rhaff yn dirwyn at yr angor. Y mae yn berygl i chwi daflu angor i unlle i tu allan i Grist. Os tefli di angor i drugaredd hanfodol Duw, mi lladdiff cyfiawnder di yn y fan, heb fod mewn Cyfryngwr. Mi fyddwn i yn arfer dweyd pan yn dechreu pregethu, wrth son am “daflu angor y tu fewn i’r llen”—y geiriau “taflu angor i’r graig” yn fynych iawn; nes o’r di-

wedd i ryw frawd o longwr fod mor garedig a'm goleno i trwy ddweyd, na bydd neb yn taflu angor i'r graig—mai daear gleilyd a chraig odditani yw y lle *soundia* o un man i angori ynddo. Dyma newydd da i ninnau, mhobol i, y mae gen' i hanes lle iawn i angori ynddo, "Y dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo"—Craig yr oesoedd yn ein natur ni—"Duw a ymddangosodd yn y cnawd"—dyna i ti ddaear *solet* i daflu angor iddi, a hono y tu fewn i'r llen. Wel, ffydd ynddo a gaffoch chwi, mhobol i, ac yna mi ddeil erbyn i *Euroclydon* ddyfod, fe fydd yr angor yn ddigon *sound*,—a nesu ato y byddwn ni yn yr ystorm.

Yr oedd Paul yn *grand* i'w ryfeddu gyda hi pan y dywedodd, "Y mae yn ddiogel genyf"—y mae yn eithaf *sound*—"na all nac angeu"—dyna, y peth y mae arnat ti a minnau fwyaf o'i ofn, y mae o yn ei enwi gyntaf. Yr oedd Paul yma wedi myn'd yn debyg iawn i bottel lawn a'i cheg i lawr, yn tywallt—wb-ylwb-ylwb-dwb—y cwbl, a mwy i fewn nac oedd o le iddo ddod allan;—"nac angelion," cythreuliaid drwg—"na thy-wysogaethau;" y mae gwahaniaeth yn mysg y pethau drwg. Nid yw dy grefydd di yn werth pen bottwm, os na thyn hi yr holl ddiawliaid yn dy ben di—bob math o honynt, du a gwyn, bleiddiaid yn ngwisgoedd defaid a'r cwbl. Wel, crefydd a gaffom ni, mhobol i, a'u tyno nhw i gyd yn ein penau, ac yn y diwedd wed'yn, mi chwyrlii drwyddyn' nhw i gyd—"i'r man yr aeth y Rhagflaenor." Mae Iesu wedi myned a chlirio y ffordd, a gorchfygu pob ellyllon o dy flaen di, ac mi ei dithau yn *safe* i fynwes Abram. "Na meddiannau;" y mae llawer un, a'i grefydd yn methu dal cyfoeth, y mae yn myned yn debycach i barcutan bapyr os caiff dipyn o gyfoeth; nid yw hyn yn dangos fod yno lawer o ras yn ei galon o, ond y mae yn dangos nad oes yno ond ychydig iawn o synwyr yn ei goryn o. Crefydd iawn, bobol a gaffom ni Pwt oedd gweddi y lleidr; ond gwynfyd na byddai yma lawer o bytiau tebyg iddi; ond os nad oedd hi ond pwt, mi wnaeth y tro—"Cofia fi pan ddelych i'th deyrnas." Wyddoch chwi beth, un garw oedd y lleidr yma hefyd, pa faint bynag a gipiodd o yn ei fywyd, mi gipiodd fwy na'r cwbl wrth farw,—mi gipiodd deyrnas ar y groes. "Heddyw," medd Crist, "y byddi gyda mi yn Mharadwys."—Yn ei haeddiant ei hun yr aeth Crist i mewn; ac nid aeth neb erioed, ac nid aiff neb byth yno yn ei haeddiant ei hun, ond Crist. Pe bait ti yn gallu myn'd yno trwy dwll wimbled (*gimlet*), mi lladdai cyfiawnder di yn y fan. Wel, trafaelio y ffordd y byddom ni oll, mhobol i, yn ei haeddiant ef, "i'r man yr aeth y rhagflaenor drosom ni, sef Iesu."

PREGETH VII.

“Ac â gobaith iachawdwriaeth yn lle helm.”—1 THESS. v. 8.

Mi ddarfu y Thessaloniaid gamddeall yr epistol gwerthfawr yma a ysgrifennodd Paul atynt. Y mae yn debyg mai yn ei mabandod yr oedd yr eglwys, ac mi ddarfu iddynt feddwl fod dydd y farn yn agos, nes yr oedd dychryn a helbul arnynt. Ond mi ddarfu i Paul eu helpu a'u dwyn nhw allan o'u dyryswch yn daclus yn ei ail epistol, “Na'ch sigler yn fuan oddiwrth eich meddwl, ac na'ch cynhyrfer, na chan ysbryd, na chan air, na chan lythyr, megys oddiwrthym ni, fel pe bai dydd Crist yn gytagos.” (2 Thes. ii. 2.) “Nid yw dydd yr Arglwydd yn agos;” dywedai fod llawer o bethau i gymeryd lle cyn hyny, ond sydd erbyn hyn wedi cymeryd lle. Y mae yn debyg mai dirywiad oddiwrth yr eglwys apostolaidd ydyw Rhufain babaid;—y bwystfil yna, y mae yn rhaid iddo ddyfod cyn y dydd diweddaf, “Ni ddaw y dydd hwnw hyd oni ddel ymadawiad yn gyntaf, a datguddio y dyn pechod, mab y golledigaeth.” Y mae rhyw ysfa ynom ni ddynion am wybod dirgeledigaethau a phethau sydd dan seliau, heb fawr o zel ynom. Y mae yn well i ni fod heb wybod pa bryd y bydd dydd ein marwolaeth, fel y dywedodd Isaac, “Nis gwn ddydd fy marwolaeth.” Beth wn i nad ydyw y gair hwnw wrth ben llawer un sydd yma, ac nid wn i ddim nad ydyw wrth fy mhen innau, “O fewn y flwyddyn hon y byddi farw.” Pe caem ni ddadguddiad mewn modd gwyrthiol pa bryd y bydd dydd ein marwolaeth, ni wnaem ni yr un *stroke* yn y byd byth wed'yn. Wel yn barod y byddom ni, mhobol i. Pa sut y daw? “Fel lleidr yn y nos.” Ond ni ddaliff o mo blant Duw fel lleidr. Er i angau ddod fel lleidr, mi fyddweh chwi yn ennillwyr arno pan y daw.—Anog i fod yn barod y mae Paul.

Ni wnaiff neb ddim byd o honi hefo unrhyw waith, heb ar-fau; ni wnaiff y morwr fawr iawn o honi hefo morwriaeth heb daclau at hyny, a dysgu *navigation*, ac mi *garrantaf* fi fo y caiff o lawer gwers newydd wedi iddo gychwyn ar ei fordaith. Yr un modd y mae yn rhaid i'r siopwr a'r ffarmwr gael pethau at hyny. Felly hefyd ni wnaiff y *soldier* fawr hefo'i filwriaeth heb daclau addas. Ac y mae y gwir gristion yn cael ei ddangos yn aml yn y Bibl dan yr enw “*milwr*,” a “milwr da i Iesu Grist.” Wel, yn filwyr da gwneler chwi i gyd. Y mae awydd ar fy nghalon i cyn ffarwelio, gael rhoi un cnoc ar y *drum* fawr i '*listio* milwyr i'r Brenin Iesu. “Pa faint yw y *bounty*?”—Mwy nac a gei di gan neb arall;—“Y can' cymaint.” Mi gei di y taclau wedi i ti '*listio*, ac mi gei nerth i ymladd hefyd gan y Brenin hwn, ni chei di mo hyny gan neb arall.

The following is a list of the names of the persons who have been appointed to the various offices of the Board of Education for the year 1872. The names are arranged in alphabetical order.

Board of Education:

- President: J. H. [Name]
- Vice President: [Name]
- Secretary: [Name]
- Treasurer: [Name]
- Members: [List of names]

The following is a list of the names of the persons who have been appointed to the various offices of the Board of Health for the year 1872. The names are arranged in alphabetical order.

- President: [Name]
- Vice President: [Name]
- Secretary: [Name]
- Treasurer: [Name]
- Members: [List of names]

The following is a list of the names of the persons who have been appointed to the various offices of the Board of Fire for the year 1872. The names are arranged in alphabetical order.

- President: [Name]
- Vice President: [Name]
- Secretary: [Name]
- Treasurer: [Name]
- Members: [List of names]

The following is a list of the names of the persons who have been appointed to the various offices of the Board of Police for the year 1872. The names are arranged in alphabetical order.

- President: [Name]
- Vice President: [Name]
- Secretary: [Name]
- Treasurer: [Name]
- Members: [List of names]

The following is a list of the names of the persons who have been appointed to the various offices of the Board of Public Works for the year 1872. The names are arranged in alphabetical order.

- President: [Name]
- Vice President: [Name]
- Secretary: [Name]
- Treasurer: [Name]
- Members: [List of names]

The following is a list of the names of the persons who have been appointed to the various offices of the Board of Public Safety for the year 1872. The names are arranged in alphabetical order.

- President: [Name]
- Vice President: [Name]
- Secretary: [Name]
- Treasurer: [Name]
- Members: [List of names]

The following is a list of the names of the persons who have been appointed to the various offices of the Board of Public Health for the year 1872. The names are arranged in alphabetical order.

- President: [Name]
- Vice President: [Name]
- Secretary: [Name]
- Treasurer: [Name]
- Members: [List of names]

The following is a list of the names of the persons who have been appointed to the various offices of the Board of Public Education for the year 1872. The names are arranged in alphabetical order.

- President: [Name]
- Vice President: [Name]
- Secretary: [Name]
- Treasurer: [Name]
- Members: [List of names]

wyf fi yn ei feio, os ydyw yn ei geisio yn ei le. Wel, y mae yn myned yn hen, yn methu gweled heb *spectol*, a hono yn dweyd wrtho, "Mi ei heb weled dim, ac wed'yn rhaid i ti farw." Yna y mae yn dechreu hel hen *straes* a'r rhei'ny yn myned yn ddi-flas. Yr oedd un yn dweyd yn ei henaint, "Mi f'aswn i yn ymdaro yn o ryfedd oni buasai am y marw diawl yna." Dyna fel y mae yr annuwiol, yn gobeithio ond byth heb fwynhau. Ond y mae crefydd yn gobeithio, ac er ei bod yn wan, os yw yn iawn mi aiff yn *everlasting spring* yn y man. Y mae gwahan-iaeth hefyd yn y mwynhad a ga y duwiol yn y byd yma.

PREGETH VII.

"Pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw."—1 IOAN v. 5.

"NID ydwyf fi," medd ambell un, "*wedi* gorchfygu y byd." Wel, craffa di ar y *text*, nid *wedi* gorchfygu, a ddywedir yma, ond "*yn* gorchfygu." Waterloo boeth ydyw hi eto. Y mae y saint, fel Gedeon a'i dri chan' gŵr, yn ymlid ac yn lluddedig, y maent bron a cholli eu gwynt. Ond pe cait ti olwg newydd ar y gŵr sydd *wedi* gorchfygu y byd, ti gait weled yr holl wersyll a'r gelynyon, a'u llestri yn llanast ar eu holau; ac yn ei goncwest ef y gorchfygi dithau. Os na ddoi di i'r frwydr, ni fydd genyt ti ond careg ddu byth, cofia—"Y rhai sydd yn gorchfygu, sydd yn cael y gareg wen a'r enw newydd." Gafael ar ffydd, y mae yn rhaid cael hon i orchfygu y byd. "Peth mwy na'r byd i orchfygu'r byd?"—Rhaid siwr. Gronyn o'r cariad y sonia'r Apostol am dano, fe weithia trwyddo fo fel mortar poeth. Caru gormod ar y byd ydyw yr achos ei bod mor anhwylyus ar y Cristion yn aml, ac ni wiw i ti ddisgwyl yn amgen. Câr di faint a fynoch di ar y byd, a bydd yn gymaint ffrynd ag a elli di iddo fo, mi wela i ddiwrnod y byddo yn rhoi ffarwel go gwta i ti, ac mi fyddi di ac yntau mor oer at eich gilvdd a dwy gaseg eira.

Ond fe fydd yr Iesu yn para wed'yn. Yr wyt ti dy hunan yn fwy o werth na'r byd. Pam na *chonsidri* di, yr oeddit ti mor ddrud fel nad oedd dim llai a wnai y tro na dwy natur mewn un Person yn dy le, a ffydd yn hwnw a wnaiff y tro i orchfygu y byd. Wnaiff natur ddim, wnaiff rheswm ddim, ond y mae y testun yn son am y ffydd a wnaiff. Fe aiff ffydd i'r nefoedd cyn bydd rheswm *wedi* rhoi ei *gap* am ei ben. Ond y gwrth-ddrych a nodir yma a orchfygir—"y byd."

I. Y BYD NATURIOL.

Nid oes dim drwg yn y byd naturiol ynddo ei hun. Ond y mae dyn heb ffydd yn ei gamgyfleu. Nid oes dim drwg mewn

aur, ac arian, a thiroedd, ynddynt eu hunain ; ond y drwg ydyw fod dynion, heb ffydd, yn eu rhoddi yn lle y Gwardwr ;—yn cymeryd y tyddyn mawr, a'r anifeiliaid lluosog—sydd yn gyfreithlon ynddynt eu hunain, yn rhwystr i fyned i'r wledd. Llefwn am y ffydd yma sydd “yn gorchfygu y byd.”

II. BYD DRWG, SEF Y DIAFOL.

P'le ydyw y lle goreu i ymladd âg ef? Wel, yn ymyl y groes, —dyna'r *spottyn*—mi fyddi yn fwy na chonewerwr yn y fan yma. Y mae y diafol yn cael ei alw yn “dduw y byd hwn.” Y bobol sydd heb y ffydd yma y maent fel y moch, ni welan' nhw ddim ond dan eu trwynau. Pe bai nhw yn edrych yn mlaen, ni chai Satan ganddyn' nhw wneyd yr un swydd iddo fo. Pe bai nhw yn gweled uffern o'u blaen, byddent yn siwr o ffoi rhag myned iddi ; a gweled y nefoedd, nes ymdrechu am ei chyrhaedd. Y mae rhai o honom wedi ei gweled yn y Bibl, trwy ffydd, nes hoffi y lle ; a chael ambell i swp o rawn oddi-yno. Fel hyn ti orchfygi'r byd, fel y darfu Paul ; wedi iddo fo fod yn y nefoedd, nid oedd fawr *scurs* i'w gael a fo wed'yn ar y ddaear—yr oedd arno “chwant i'w ddattod.”

III. “CHWANT Y LLYGAD” TUAG AT Y BYD YMA.

Wel, ffydd a rydd broc yn dy 'swigen di ac mi wasgiff ei pherfedd hi.

IV. TRWY FFYDD DEUI I ORCHFYGU BYD RHAGLUNIAETHAU, YN EI WG AC YN EI WEN.

Deui i weled penarglwyddiaeth Duw yn mhob peth trwy ffydd, fel y darfu i Job, “Yr Arglwydd a roddodd a'r Arg-lwydd a gymerodd ymaith ;” “Y Sabëaid a'r Caldëaid a ddygodd ymaith, Job.” O na, trwy ffydd fe welodd yn glir pwy oedd yn dwyn ymaith. “Wel, mi liciwn i,” meddai'r dyn, “pe caem ni dipyn o adfywiad ar grefydd ; oes dim go-baith am y mil blynyddoedd rhei'ny bellach ?” Ond dy gael di i beidio caru'r byd yn ormodol, bydd yn fil blynyddoedd arnat ti yr wythnos nesaf. “Pe cawn i lonydd gan bobol y byd yma,” meddai'r cristion, “mi fyddai yn well arnaf o lawer.” Tendia di rhag myned o'r llwybr. O herwydd, “Pan fo ffyrdd gâr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd efe a bair i'w elynion fod mewn heddwch ag ef.” Yr oedd y Simeï hwnw wedi cael cenad i regu Dafydd ; ond wedi colli ei le yr oedd o, ac yr oedd o yn gwybod hyny yn dda ei hun hefyd. Felly y cristion, pan aiff o o'i le, y mae cwn uffern yn cael cenad i'w gyfarth o. Yr oedd Abisai, un o gedyrn Dafydd yn flin iawn wrth Simeï am hyn, “Paham y melldithia y ci marw hwn fy arglwydd Frenin ?” Pe cawsai genad mi fuasai yn myned dros yr afon i dori ei ben

o, ac mi fuasai yn dda ganddo gael ei gicio fel pel droed ar hyd y clwt. Ond "Gad iddo," meddai Dafydd, "yr Arglwydd a archodd iddo." Y fi sydd yn y gors ddrwg. Er fy mod i yn lân oddiwrth waed tŷ Saul, mi wn i pwy waed sydd yn gwaeddi; y fi sydd yn y gors ddrwg yn achos gwaed Urias yr Hethiad. Gwaith ei yw cyfarth; mi allasai fy Nhad nefol roi *mwsel* ar ei geg o, pe buasai yn leicio; ond fy hel i adre' i dir sych o'r gors wlyb ydyw'r dyben, "Yr Arglwydd a archodd iddo." Wel, dyna ydyw dyben y gelynyon, y rhuthriadau, a'r duon ragluniaethau, mhobol i.—eich cael chwi i dir caled o'r gors wlyb. Wel, be ddaw o'r cwn?—Y peth a fyddwn ni, yn Waen y Bala acw, yn ei wneyd wedi darfod a'r cwn, ydyw eu crogi nhw bod ag un. Dy gael di i dy le, ydyw y dyben mawr; wedi dy gael di i dy le, ni bydd eisiau dy hanos di wed'yn. Fe fydd "*to be hang*" am y cwn wed'yn bod ag un. Fel hyn y mae ffydd yn gorchfygu y byd yn ei w̄g; y mae hefyd yn ei orchfygu yn ei w̄n; yr oedd Moses yn edrych ar bob cynnygion i adael crefydd, fel *slecs*.

Ond edrychwn ar y wedd y mae perchenog ffydd yn gorchfygu'r byd.

1. *Daw i ddefnyddio'r byd heb ei gamddefnyddio.*

2. *Daw i ddefnyddio'r byd i'r un dyben ag yr oedd Duw wedi bwriadu pan y creodd ddyn—sef i'w ogonedtu.*

3. *Trwy ffydd mi ddoi i demper ac y bydd yn dda genyt ymadael â'r byd hwn i fyd arall*

Y mae y ffydd yma fel rhyw *chain* trwy yr anial, ac y mae yn cyrhaedd dros yr afon i'r ochr draw yn ddiogel. Y mae y *chain* yn eithaf *sound*, wedi i ti fyn'd i'r afon, mi fyddi drwodd yn union yn ddiogel i'r ochr draw. Mi ddoi i ganu yr hen bennill hwnw eto;—

"Rwy'n gwel'd bob dydd,
Mai gwerthfawr yw ffydd,
Pan elwy' i borth angau fy angor i fydd."

PREGETH VIII.

"Yr hwn er nas gwelsoch yr ydych yn ei garu; yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn ei weled ond yn credu, yr ydych yn mawr lawenhau a llawenydd annrhaethadwy a gogoneddus."—1 PETR i. 8.

YR OEDD Petr ei hunan, yr hwn a ysgrifennodd y llythyr yma, wedi gweled Iesu Grist â'i lygaid, wedi ei glywed yn pregethu a'i weled yn gwneuthur gwyrthiau. Yr oedd o yn un o'r tri a welodd Iesu Grist yn ei wedd-newidiad ar fynydd Tabor, a'i gwelodd yn ngardd Gethsemane a'i chwys fel dafnau o waed yn disgyn ar y ddaear; a gwelodd ef vr Iesu yn dechreu codi yn

ddaw i'w garu er ei fwyn ei hun. Y mae yn bosibl caru heb weled, ond nid oes bosibl caru heb adnabod. Yr ydwyf fi yn sier fod rhai yma y gellir dweyd geiriau y testun yma wrthynt. Yr wyf fi yn gwybod yn dda iawn ac yn teimlo fy mod yn caru llawer iawn na welais erioed mo honynt. Ni welais i erioed mo William Gurnal. Ond yr oeddwn innau yn *ffrynd* mawr efo fo, yn nhroed Mynydd Nodol acw; y mae yn dda gan fy nghalon i am dano, a chododd darllen ei lyfr fi o lawer llyn tro yr oeddwn yn myned iddo, a phe buasai fo yn fyw yrwan, mi aethwn yn bost rhag fy mlaen i Lavang-ham (*Lavenham*) i wrando arno. Ni welais i erioed mo John Flavel, ond y mae yn dda gan fy nghalon i am dano; a gallem enwi llawer, a welsom neu y clywsom am danynt, y mae yn dda genym am danynt, er eu bod nhw wedi myned o'r golwg. Ni welsom ni mor duwiolion y mae hanes am danynt yn y Beibl. Ond y mae y saint yn caru eu gilydd, a'r Arglwydd Iesu Grist ydyw pen y cwbl. Yr oedd Evan Ffowc yn *ffrynd* mawr â'r hen batriarchiaid, na welodd o erioed a'i lygaid mo honynt. "Noah acw, i ti," meddai, fel pe buasai fo yn byw rhwng y Llan a'r Pandy. "Abram acw i ti," mi all'sech feddwl arno fo mai yn llofft y Pandy yr oedd o yn byw. "Moses acw i ti," fel pe buasai fo yn byw tua phont y Llan. Mi 'rydw i yn meddwl o hyd, mhobol i, mai lle braf ryfeddol ydyw y nefoedd. Mi gei yno weled y Brenin y clywaist lestri pridd yn dweyd am dano, ac y mentraist tithau dy fywyd iddo. Cei ei weled yn y man fel y mae, a bod yn dragywyddol debyg iddo. Mi feddylw i, yn wirionedd, darllenwch chwi y pedair Efengyl, na fedrwch chwi ddim peidio bod yn ffryndie âg ef. Dyna ein neges ni atoch chwi—bod yn offerynau yn llaw yr Arglwydd i'ch enill, pob un o honoch, i gredu yn ac i garu gwrthddrych na welsoch chwi erioed mo hono. Y mae y cynghorwyr yr ydych yn eu gweled ac yn eu clywed, yn debyg i'w ryfeddu i was Abram yn myned i ymofyn am wraig i fab ei feistr. Bu hwn yn offeryn i ddyfod ag un i briodi, ac i garu un nas gwelodd erioed. A phan ddélo yr hen fraich a barthodd y môr i'r golwg, mi aiff yn briodas wed'yn rhag blaen.

Y mae Abram yn dweyd wrth ei was—Eliezer mae'n debyg, am fyned i ymofyn am wraig i Isaac, i Mesopotamia. Yr oedd ar Abram ofn i Isaac briodi un o ferched Canaan, rhag i ddrain a mieri dyfu ar yr hen allor. Yr oedd arno ofn i Isaac fethu, yn nhrefniad ei deulu i addoli ei Dduw; ac y mae'n debyg mai dyna ddymunai y cythreuliaid fwyaf o ddim,—gweled hen aelwyd lle y bu addoli, heb hyny, a'r allor wedi myned i lawr.—Cychwynodd gwas Abram i Mesopotamia wedi ei dyngheðu, "Wel, beth os na ddaw y wraig, a ddychwelaf fi dy fab yno?" Na, y mae Abram yn rhoi *siars* na ddychwelai mo'i fab i'r wlad

hono. Ond meddyliwn ni yrwan na fedrai gwas Abram mo'r ffordd, a meddyliwn hefyd fod yno waith tua saith niwrnod iddo fyned o Haran i Mesopotamia; ond er y cwbl yr oedd y gwas yn gefnog i gychwyn, oblegyd yr oedd "tad y ffyddloniaid," ar weddi neu rywsut, wedi hysbysu yr anfonai yr Arglwydd ei angel i'w gyfarwyddo; ac i ffwrdd a fo wed'yn; ond yr oedd o yn trwtws gweddio ar hyd y ffordd o hyd. Ac yn mheh tua saith niwrnod, dyma fo, mi debygwn, ar ochor bryn, yn agos i ddinas Nachor, ar y pryd y byddai merched y ddinas yn dyfod i dynu dwfr—nid i'w roddi yn y *tecell*, ond i'w roddi i'r praidd; a gwas Abram wrthi yn gweddio; pe caem ninnau fwy o ysbryd gweddi, mi lwyddem yn well o'r haner. Ac yr oedd o yn *grand* ryfeddol—yr oedd o yn dal arfaeth a rhagluniaeth Duw, ac nid oedd dim hip arno ochor yn y byd—dyledswydd a gras—yr oedd yn dal arfaeth fanol y nef, ac yn dal ar amneidiau rhagluniaeth. "Bydded," meddai wrth Dduw, "mai y llances y dywedwyf wrthi, Gogwydda, attolwg, dy ysten, fel yr yfwyf; os dywaid hi, Yf, a mi a ddiodaf dy gamelod di hefyd;—hono a ddarperaist i'th was Isaac." Yr oedd Rebeccah yn llawer boneddigeiddiach na'r hen lodes o Samaria; ac mi feddyliwn i mai *teetotal crand* oedd gwas Abram. "Nis gwn pa fodd i wneyd os âf oddicartref, na sut y dof adref," meddai llawer un; ond mi ddoit adref yn well o'r haner pe yr yfit ti yr un ddiod a gwas Abram; hwyrach, pe buasai yntau fel arall, na ddeusai adref byth, a cholli y camelod a'r holl anghaffael sydd hefo chelfi'r ddiod yma.—Wel, dyma Rebeccah yn disgyn yr ystên, ac yn ei ddiodi ef a'i gamelod hefyd. Dyma hi yn tywallt y gweddill o'r dwfr i'r cafnau, ac yn rhedeg i nol dwfr wed'yn; nid dweyd wrth y gwas ddarfu hi—"Aed y llanciau yna"—na, yr oedd hi yn un *glyfar* anghyffredin; nid rhyw *ddoli* o beth oedd hi i'w gosod ar y *silff*. Yr ydwyf fi yn siwr, pe buasai y byd yn galw, y buasai hi yn myned i geisio gwellt, ac yn ei falu fo hefyd, neu yn myned i nol cawellaid o fawn, er ei bod yn ferch i dywysog. Dyna was Abram yn tynu y breichledau a'r clust-dlysau, ac yn gofyn—yr oedd o wedi synu mae'n debyg—"Merch i bwy wyt ti?" Hithau yn ddigwmpas a ddywed—"Merch Bethuel, mab Nachor." Cyn saffed! dyna hi wedi dyfod—"A oes acw le i letŷa?" "Oes," meddai, "ac y mae acw wellt ac ebran ddigon, a lle i letŷa." Yna dacw hi yn myned i'r tŷ, ac yn dweyd yr hanes wrth y teulu, a dacw ei brawd yn dyfod at y ffynon; yr ydwyf fi yn siwr fod golwg *venerable* i'w ryfeddu ar was Abram; "Tyred i mewn," meddai wrtho, "fendigedig yr Arglwydd." A dacw fo yn myned i fewn, ac yn dweyd na fwytâi ddim nes traethu ei negesau. A dyna fo yn dweyd—"Gwas Abram ydwyf fi." Wrandawyr! er mai y corn hwrdd cama' a fedd y

Methodistiaid ydwyf fi,—peth rhyfedd na buasent wedi fy rhoi i ar yr hoel cyn hyn,—ond gwas i Iesu Grist ydwyf finnau, wedi dyfod i alw arnoch i ddyfod i mewn. Y mae y gwas yn dweyd fod Duw wedi bendithio Abraham, a rhoddi iddo aur ac arian, a'i fod wedi cael mab o Sara, ac wedi rhoddi y cwbl i hwnw. Y mae y gŵr yr wyf finnau yn galw arnat ti i'w briodi yn gyfoethog iawn—y mae “daear, da, a dyn” yn ei feddiant. A mwy nag a fedd y byd; y mae ganddo arglwyddiaeth ar wlad dywyll angau; doed yr helynt a ddelo, mi fedr wneyd i bob peth gydweithio er daioni. “Os ydych am wneyd trugaredd, a ffyddlondeb a'm harglwydd Abraham,” meddai y gwas, “mynegwch i mi, ac onide, mynegwch i mi, fel y trowyf ar y llaw ddeau, neu ar yr aswy.” “Oddiwrth yr Arglwydd y daeth y peth hyn,” meddynt hwythau, “gwell i ni dewi,—ni ddywedwn ni âdim.” Yna y mae ar was Abram eisiau cychwyn tuag adref;—“Triged y llances ddeng niwrnod o leiaf gyda ni,” meddent hwythau. Yr wyf fi yn siwr, mhobol i, fod satan, enawd, a byd, yn dywedyd, “Na lwyr ymabertha i Iesu Grist, aros am ddeng niwrnod o leiaf gyda ni;” ond gwylia di farw yn ystod y deng niwrnod. Nid oes dim yn myned yn deimladau mor ddwysion trwof fi, na chlywed am gladdu llawer o'n gwrandawyr, a chladdu llawer o fewn deng niwrnod yr oedi. “Gofynwch iddi hi,” meddent wrtho; gofynasant iddi hi, “A âi di gyda'r gŵr hwn?” Yr wyf finnau yn gofyn, “A âi di gyda'r Iesu?” A gwyn fydd na attebech chwithau i gyd gyda Rebecca, “Af;” a'i ddilyn, nes myned ato i fyw dros byth.

PREGETH IX.

“Ac at Iesu, cyfryngwr y testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn llefaru pethau gwell na'r eiddo Abel.”—HEB. xii. 24.

Ni wel neb ogoniant eglwys Crist heb yn gyntaf weled gogoniant ei pherchen hi: ac yr wyf yn meddwl wrth ddarllen y Beibl, na weliff neb olwg deilwng ar eglwys Crist ar y ddaear, na byddant yn siwr o fyned i'r nefoedd. Ac, “oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw;” nid yn unig nid aiff i'r nefoedd; ond ni ddichon iddo weled gogoniant teyrnas Dduw ar y ddaear yn iawn; mi elli weled y tu allan i'r babell; ond rhyw *stwyff* digon gwael oedd i'w weled y tu allan i babell y cyfarfod,—ni welid oddiallan ond y crwyn hyrddod a'r crwyn daearfoc; ond ni weli ddim o bethau y cysegr, heb dy eni o Dduw. “Ond chwi,” meddai'r Apostol, “a ddaethoch i fynydd Seion.” Sylwedd yr hen Seion; dyma y lle tebycaf i'r nefoedd sydd ar y ddaear—“Mynydd Seion, dinas y Duw byw;” ac yn

wir nid oes gan neb gartref gwerth son am dano os nad oes ganddo un yn Seion; dyma “degwch bro, llawenydd yr holl ddaear, yn ystlysau y gogledd, dinas y Brenin mawr.” Pe byddai genyt y cartref mwyaf clud a llawn, heb gartref yn Seion, nid ydyw yn werth son am dano. “Dinas y Duw byw;”—yr Arglwydd Iesu Grist ydyw sylfaen y ddinas; ac y mae Esay yn dweyd mai “Iachawdwriaeth” ydyw caerau a rhagfur y ddinas. Yr oedd Louis Phillippe, brenin Ffrainc, ryw dro yn ddiweddar, pan yn codi o’i wely yn un o’r breninoedd mwyaf yn Ewrop, ac newydd adnewyddu muriau a chaerau Paris, a chanddo gan’ mil o filwyr, yn teimlo ei hunan yn hynod ddyogel; ond pryd-nawn yr un diwrnod, yr oedd yn ffoadur, yn crwydro anialwch heb ffordd, ac yn fuan mewn hen gwch pysgotta, heb yr un crys i’w newid. Ond os cawn ni fod yn frodorion “dinas Duw,” beth bynag a ddaw i’n cyfarfod, bydd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur o’n cwmpas. Pwy na ddymunai o eigion ei galon fod yn un o frodorion “dinas Duw.”—Duw ydyw perchen y ddinas, efe a’i hadeiladodd, ac efe ydyw ei hamddiffynydd. “Yr Arglwydd ardderchog.” medd Esay, “a fydd i ni yno yn fangre afonydd a ffrydian llydain, y rhwyflong nid â trwyddo, a’r llong odidog nid â trosto,”—i gymeryd y ddinas. Yr oedd ymddiried Babilon yn fawr yn ei hafonydd i’w dyogelu, ond cymerwyd hi gan y gelynion. Pa bryd y cymer gelynion Seion “ddinas Duw?” Wel, os medrant hwy rwyfo trwy Dduw ati—“Duw fydd i ni yn fangre afonydd;” a rhaid iddynt rwyfo trwy Anfeidroldeb a Hollalluogrwydd cyn y gallant gymeryd y ddinas. “Y rhwyflong nid â trwyddo, a llong odidog” a gwynt uffern ar ei hol, “nid â trosto.” Ond dyma syndod mwy na’r cwbl,—dyma lle y mae Duw yn gwneyd ei gartref—yn y ddinas yma. Nid oedd ryfedd i Solomon, y doethaf fu yn byd yma erioed, i ofyn mewn syndod ar wyl cysegriad y deml, “Ai gwir yw y preswylia Duw ar y ddaear?” Ië. digon gwir. “A’i babell hefyd sydd yn Salem, a’i drigfa yn Seion.” Wel, pa faint sydd yn dyfod yr un feddwl â Duw, ac a all ddweyd gyda’r Salmydd “Hoffais drigfa dy dŷ, lle preswylfod dy ogoniant.” * * *

PREGETH X.

“Os gwneir hyn yn y pren ir, pa beth a wneir yn y crin?”—LUC xxiii. 31.

AR y ffordd o’r llys a elwir y *Praetorium* i ben Golgotha y llefarodd yr Arglwydd Iesu y geiriau yma; ac y mae y neb a’u llefarodd, a’r amgylchiadau cyfyng yr oedd ynddynt, yn galw am ein sylw difrifolaf arnynt. Hwn oedd y llys olaf y bu yr Iesu

Dyma yr arfau:—"Wedi ymwisgo â dwyfroneg ffydd a chariad" ar y galon: dyma y *plât*, y *brestplât*. Wedi i ti '*listio* mi fydd uffern yn dechreu clecian yn union; ond na hidia monyn' nhw. Y mae yn dawel pan y mae y neuadd yn dawel. Pe byddai'r cythraul yn gwneyd bwledi gymaint a'r hetiau yna, a'u lluchio nhw atat ti, mi fyddant fel cacen dattws ar dy darian di. "Haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw." Tarian *round* bobl! Trafaelio a *marchio* y byddom ni tua'r wlad lonydd. "Ac â gobaith iachawdwriaeth yn lle helm." Dyma i ti *gap* am dy ben. Y mae llanerchi ar ein penau ni yn bur weiniaid o eisiau y *cap* yma. Diolch am obaith iachawdwriaeth yn lle helm!" Dyma ddaliodd Job—nid oedden' nhw ond fel gwellt o'i flaen o: "gobaith iachawdwriaeth yn lle helm." Dyma ddaliodd Daniel a'r bechgyn yn Babilon.—"Nid ydym ni yn *meindio* dim ynot ti am ateb i ti yn y peth hyn," meddai y bechgyn wrth y brenin. Nid oes dim o'u *business* nhw i fyn'di ymyraeth â chydwybodau mewn perthynas i addoliad; ac y mae rhyw ysfa ryfeddol ar bobol fod yn myn'd i *fwcsio Church and State*; nid ydyw fo yn ddim o'u *business* nhw, ac nid ydyw fo yn ddim ond bwcsio yn y diwedd wedi yr holl glonc hefo fo. "Nid ydym ni yn gofalu am ateb i ti yn y peth hyn," oedd ateb y bechgyn. Dyna i chwi "obaith iachawdwriaeth yn lle helm."

"Gobaith iachawdwriaeth sydd wedi gwneyd i mi fyned yn mlaen fel hyn," medd yr annuwiol. O! strud ofnadwy ydyw honyna; a Duw a dy *haltio* di arni! Mi fyddai yn dda genyf fi weled y pechadur gwaethaf yma, yn dod i ddechreu gobeithio am ei hoedl yn ngras Calfaria, ac i edrych a ydyw ei obaith yn iawn. Duw a dy brocio rhag anobeithio! Gobaith iachawdwriaeth—cwbl waredigaeth oddiwrth bechod. Rhaid i obaith gael addewid i bwysu arni; y mae sail i obeithio ar addewid. Pwy ydyw y *manufactory* sydd yn hel y taclau at eu gilydd? Dyna fo—yr Ysbryd Glân. Yma y delo fo heno. Rhaid i obaith gael ffydd, a ffydd gael tystiolaeth, sef addewid. Mi fedr ffydd fyned allan heb na haul, na lloer, na Llathen Fair, na Thwr Tewtws. Y mae ffydd yn credu, "Cadnernid Israel ni ddywed gelwydd." "Myfi yw Duw Hollalluog." dyna y fan lle y mae ffydd yn pwysu. "Mi af fi allan," medd ffydd, "ac mi gredaf yn ei Hollalluogrwydd." "Mi ddeuaf finnau allan gyda thi, yn y fan, am y bendithion," meddai gobaith. Y mae gwahaniaeth mawr yn *mharhad* gobaith iachawdwriaeth Ni welais i erioed olwg mor *felancholaidd* ag ar greadur yn myned trwy'r byd yma heb ymofyn am grefydd—yn gobeithio o hyd ond heb byth ei ddiwallu. Y mae y bachgen pump oed yn *stretchio* am fod yn llanc; yn union wed'yn gobeithia am bleser a chyfoeth, ac y mae yn *stretchio* a'i holl egni am hyny. Nid

wyf fi yn ei feio, os ydyw yn ei geisio yn ei le. Wel, y mae yn myned yn hen, yn methu gweled heb *spectol*, a hono yn dweyd wrtho, “Mi ei heb weled dim, ac wed’yn rhaid i ti farw.” Yna y mae yn dechreu hel hen *straes* a’r rhei’ny yn myned yn ddi-flas. Yr oedd un yn dweyd yn ei henaint, “Mi f’aswn i yn ymdaro yn o ryfedd oni buasai am y marw diawl yna.” Dyna fel y mae yr annuwiol, yn gobeithio ond byth heb fwynhau. Ond y mae crefydd yn gobeithio, ac er ei bod yn wan, os yw yn iawn mi aiff yn *everlasting spring* yn y man. Y mae gwahaniaeth hefyd yn y mwynhad a ga y duwiol yn y byd yma.

PREGETH VII.

“Pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw.”—1 IOAN v. 5.

“NID ydwyf fi,” medd ambell un, “wedi gorchfygu y byd.” Wel, craffa di ar y *text*, nid wedi gorchfygu, a ddywedir yma, ond “yn gorchfygu.” Waterloo boeth ydyw hi eto. Y mae y saint, fel Gedeon a’i dri chan’ gŵr, yn ymlid ac yn lluddedig, y maent bron a cholli eu gwynt. Ond pe cait ti olwg newydd ar y gŵr sydd wedi gorchfygu y byd, ti gait weled yr holl wersyll a’r gelynyon, a’u llestri yn llanast ar eu holau; ac yn ei goncwest ef y gorchfygi dithau. Os na ddoi di i’r frwydr, ni fydd genyt ti ond careg ddu byth, cofia—“Y rhai sydd yn gorchfygu, sydd yn cael y gareg wen a’r enw newydd.” Gafael ar ffydd, y mae yn rhaid cael hon i orchfygu y byd. “Peth mwy na’r byd i orchfygu’r byd?”—Rhaid siwr. Gronyn o’r cariad y sonia’r Apostol am dano, fe weithia trwyddo fo fel mortar poeth. Caru gormod ar y byd ydyw yr achos ei bod mor anhwylyd ar y Cristion yn aml, ac ni wiw i ti ddisgwyl yn amgen. Câr di faint a fynoch di ar y byd, a bydd yn gymaint ffrynd ag a elli di iddo fo, mi wela i ddiwrnod y byddo yn rhoi ffarwel go gwta i ti, ac mi fyddi di ac yntau mor oer at eich gilvdd a dwy gaseg eira.

Ond fe fydd yr Iesu yn para wed’yn. Yr wyt ti dy hunan yn fwy o werth na’r byd. Pam na *chonsidri* di, yr oeddit ti mor ddrud fel nad oedd dim llai a wnai y tro na dwy natur mewn un Person yn dy le, a ffydd yn hwnw a wnaiff y tro i orchfygu y byd. Wnaiff natur ddim, wnaiff rheswm ddim, ond y mae y testun yn son am y ffydd a wnaiff. Fe aiff ffydd i’r nefoedd cyn bydd rheswm wedi rhoi ei *gap* am ei ben. Ond y gwrth-ddrych a nodir yma a orchfygir—“y byd.”

I. Y BYD NATURIOL.

Nid oes dim drwg yn y byd naturiol ynddo ei hun. Ond y mae dyn heb ffydd yn ei gangyfleu. Nid oes dim drwg mewn

aur, ac arian, a throedd, ynddynt eu hunain; ond y drwg ydyw fod dynion, heb ffydd, yn eu rhoddi yn lle y Gwardwr;—yn cymeryd y tyddyn mawr, a'r anifeiliaid lliosog—sydd yn gyfreithlon ynddynt eu hunain, yn rhwystr i fyned i'r wledd. Llefwn am y ffydd yma sydd “yn gorchfygu y byd.”

II. BYD DRWG, SEF Y DIAFOL.

P'le ydyw y lle goreu i ymladd âg ef? Wel, yn ymyl y groes, —dyna'r *spottyn*—mi fyddi yn fwy na chonewerwr yn y fan yma. Y mae y diafol yn cael ei alw yn “dduw y byd hwn.” Y bobol sydd heb y ffydd yma y maent fel y moch, ni welan' nhw ddim ond dan eu trwynau. Pe bai nhw yn edrych yn mlaen, ni chai Satan ganddyn' nhw wneyd yr un swydd iddo fo. Pe bai nhw yn gweled uffern o'u blaen, byddent yn siwr o ffoi rhag myned iddi; a gweled y nefoedd, nes ymdrechu am ei chyrhaedd. Y mae rhai o honom wedi ei gweled yn y Bibl, trwy ffydd, nes hoffi y lle; a chael ambell i swp o rawn oddi-yno. Fel hyn ti orchfygi'r byd, fel y darfu Paul; wedi iddo fo fod yn y nefoedd, nid oedd fawr *scwrs* i'w gael a fo wed'yn ar y ddaear—yr oedd arno “chwant i'w ddattod.”

III. “CHWANT Y LLYGAD” TUAG AT Y BYD YMA.

Wel, ffydd a rydd broc yn dy 'swigen di ac mi wasgiff ei pherfedd hi.

IV. TRWY FFYDD DEUI I ORCHFYGU BYD RHAGLUNIAETHAU, YN EI WG AC YN EI WEN.

Deui i weled penarglwyddiaeth Duw yn mhob peth trwy ffydd, fel y darfu i Job, “Yr Arglwydd a roddodd a'r Arg-lwydd a gymerodd ymaith;” “Y Sabëaid a'r Caldëaid a ddygodd ymaith, Job.” O na, trwy ffydd fe welodd yn glir pwy oedd yn dwyn ymaith. “Wel, mi liciwn i,” meddai'r dyn, “pe caem ni dipyn o adfywiad ar grefydd; oes dim go-baith am y mil blynyddoedd rhei'ny bellach?” Ond dy gael di i beidio caru'r byd yn ormodol, bydd yn fil blynyddoedd arnat ti yr wythnos nesaf. “Pe cawn i lonydd gan bobol y byd yma,” meddai'r cristion, “mi fyddai yn well arnaf o lawer.” Tendia di rhag myned o'r llwybr. O herwydd, “Pan fo ffyrdd gŵr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd efe a bair i'w elynion fod mewn heddwch ag ef.” Yr oedd y Simeï hwnw wedi cael cenad i regu Dafydd; ond wedi colli ei le yr oedd o, ac yr oedd o yn gwybod hyn yn dda ei hun hefyd. Felly y cristion, pan aiff o o'i le, y mae cwn uffern yn cael cenad i'w gyfarth o. Yr oedd Abisai, un o gedyrn Dafydd yn flin iawn wrth Simeï am hyn, “Paham y melldithia y ci marw hwn fy arglwydd Frenin?” Pe cawsai genad mi fuasai yn myned dros yr afon i dori ei ben

o, ac mi fuasai yn dda ganddo gael ei gicio fel pel droed ar hyd y clwt. Ond "Gad iddo," meddai Dafydd, "yr Arglwydd a archodd iddo." Y fi sydd yn y gors ddrwg. Er fy mod i yn lân oddiwrth waed tŷ Saul, mi wn i pwy waed sydd yn gwaeddi; y fi sydd yn y gors ddrwg yn achos gwaed Urias yr Hethiad. Gwaith ei yw cyfarth; mi allasai fy Nhad nefol roi *mwsel* ar ei geg o, pe buasai yn leicio; ond fy hel i adre' i dir sych o'r gors wlyb ydyw'r dyben, "Yr Arglwydd a archodd iddo." Wel, dyna ydyw dyben y gelynon, y rhuthriadau, a'r duon ragluniaethau, mhobol i,—eich cael chwi i dir caled o'r gors wlyb. Wel, be ddaw o'r cwn?—Y peth a fyddwn ni, yn Waen y Bala acw, yn ei wneyd wedi darfod a'r cwn, ydyw eu crogi nhw bod ag un. Dy gael di i dy le, ydyw y dyben mawr; wedi dy gael di i dy le, ni bydd eisiau dy hanos di wed'yn. Fe fydd "*to be hang*" am y cwn wed'yn bod ag un. Fel hyn y mae ffydd yn gorchfygu y byd yn ei w̄g; y mae hefyd yn ei orchfygu yn ei w̄n; yr oedd Moses yn edrych ar bob cynnygion i adael crefydd, fel *slecs*.

Ond edrychwn ar y wedd y mae perchenog ffydd yn gorchfygu'r byd.

1. *Daw i ddefnyddio'r byd heb ei gamddefnyddio.*

2. *Daw i ddefnyddio'r byd i'r un dyben ag yr oedd Duw wedi bwriadu pan y creodd ddyn—sef i'w ogonedtu.*

3. *Trwy ffydd mi ddoi i demper ac y bydd yn dda genyt ymadael â'r byd hwn i fyd arall*

Y mae y ffydd yma fel rhyw *chain* trwy yr anial, ac y mae yn cyrhaedd dros yr afon i'r ochr draw yn ddiogel. Y mae y *chain* yn eithaf *sound*, wedi i ti fyn'd i'r afon, mi fyddi drwodd yn union yn ddiogel i'r ochr draw. Mi ddoi i ganu yr hen bennill hwnw eto;—

"Rwy'n gwel'd bob dydd,
Mai gwerthfawr yw ffydd,
Pan elwy' i borth angau fy angor i fydd."

PREGETH VIII.

"Yr hwn er nas gwelsoch yr ydych yn ei garu; yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn ei weled ond yn credu, yr ydych yn mawr lawenhau a llawenydd annrhaethadwy a gogoneddus."—1 PETR i. 8.

VR OEDD Petr ei hunan, yr hwn a ysgrifennodd y llythyr yma, wedi gweled Iesu Grist â'i lygaid, wedi ei glywed yn pregethu a'i weled yn gwneuthur gwyrthiau. Yr oedd o yn un o'r tri a welodd Iesu Grist yn ei wedd-newidiad ar fynydd Tabor, a'i gwelodd yn ngardd Gethsemane a'i chwys fel dafnau o waed yn disgyn ar y ddaear; a gwelodd ef vr Iesu yn dechreu codi yn

araf deg oddiar fynydd yr Olewydd, pan yn esgyn i'r nef, ac yr oedd yn un o'r rhai oedd yn craffu arno nes yr aeth allan o'u golwg nhw.—Ond am y dyeithriaid oedd ar wasgar ar hyd Pontus a'r gwledydd rhei'ny ni welson' nhw erioed mo ddynoliaeth yr Arglwydd Iesu mwy na ninnau; ond mi glywsont ei bregethu o y mae yn debyg, gan yr apostolion. Ac am wn i nad oeddyn' nhw wedi darllen yn y pedair Efengyl hanes Iesu Grist. Ac yr oedd yn bur hawdd i Petr ysgrifenu geiriau y testun, “Yr hwn er nas gwelsoch yr ydych yn ei garu.” *Ffasiwn* rai oedd y dyeithriaid yma oedd ar wasgar? *Siort* dda ryfeddol oeddyn' nhw, ac mi *leiciwn* i fod yr un fath a nhw. Yr oedd yn well ganddyn' nhw adael eu gwlad, eu tai, a'u meddianau, na gadael eu proffes o Iesu Grist; i'e, yr oedd yn well ganddynt golli eu bywyd yn y byd yma, na gwadu Crist “Wel, wyddoch chwi be, yr oedd crefydd yn costio llawer i'r bobol yma—yr oedd yn ddrud i'w ryfeddu iddynt.” Yr ydwyf fi yn siwr na chawsant ddim erioed a chymaint o newid arno; mi chwerthant lawer am eu *bargen*, ac ni dderfydd iddynt chwerthin byth. Ac ni chostiff i neb ddyodde' ar du dyledswydd; na, bydd digon o newid arni gyda chrefydd. A byddaf fi yn meddwl am bobl dduwiol fydd yn cyfarfod â phrofedigaethau ar lwybr dyledswydd, eu bod yn myned yn gryfach mewn gras a chysuron; ond am bobol dduwiol wedi colli'r ffordd, ac yn cael croes, nid croes Crist mo hono. Yr oedd yn hawdd i'r Apostol ysgrifenu at y rhai'n, “Yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn ei weled, ond yn credu, yr ydych yn mawr lawenhau”—yrwan, yn bresenol, ynghanol y profedigaethau tanllyd.

Y mae y pethau yma i chwi i'w gweled yn amlwg iawn yn y testun:—

I. Y MAE YR ARGLWYDD IESU GRIST YN WRTHDDRYCH ADDAS I GREDU YNDDO, AC I'W GARU.

II. Y MAE CREDU YN, A CHARU YR ARGLWYDD IESU, YN CYNRCHU YN YR ENAID FAWR LAWENHAU A LLAWENYDD ANNHRAETHADWY A GOGONEDDUS.

Cara di y peth a fynot ti arall nid elli ddim dweyd dy fod yn mawr lawenhau,—na bod genyt lawenydd annhraethadwy; y mae yn bur hawdd dweyd beth ydyw maint pob llawenydd arall, ac yn mha le y torir ar dy *sport* di; ond os wyt ti yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, nid oes dim a ddaw i'th gyfarfod a ddi-fydd dy lawenydd, gwna, fe ddeil hwn yn angau ei hunan. Ac onid ydym ni wedi myned yn rhemp o ddwl,—caru pethau na charant mohonom ni. Ac ni welaist ti erioed ffarwel mor gwтта a ront i ti toc—y pethau yr wyt yn eu caru, nad oes dim dedwyddwch i ti i'w gael vnddynt. Ond cara di Iesu Grist, y mae

genyt ti lawenydd annhraethadwy a gogoneddus. Y mae genyt ernes yn awr, ond yn y nefoedd, ni bydd diwedd byth arno. Y mae yn annhraethadwy yn awr. Cara bechod, “yn y diwedd efe a frath fel y sarff ac a biga fel y neidr.” Cara y byd yma, os wyt ti heddyw yn gynhes dy gariad ato, y mae o heddyw yn ddigon oer atat ti. Ond pan âi dithau sydd a’th gariad yn fawr at y byd sydd yn dy rwystro i fynydd Seion—pan yr âi di i nesu at dŷ dy hir gartref, fe fyddwch eich dau fel dwy gaseg eira, yn ddigon a chodi y rhonos ar y neb a’ch gwelo. Ond pe bai hamdden i ofyn i rywun sydd yma yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, pan fyddo chwant yn pallu, &c., “A wyt ti yn ei garu o yrwan?” “O ydwyf yn fwy gwresog nac erioed.”

“Pan syrthio'r ser fel ffigys îr,
Pan ferwo'r môr pan losgo'r tir,
Pan droir yr haul a'r lloer yn ddu,
Pryd hyn mi gara 'Mhrynwr eu.”

Yr ydwyf fi yn disgwyl y bydd cannoedd sydd yma'n dechreu caru'r Iesu, yn ei garu fil o flynyddoedd i heddyw. Y bobol sydd yn dechreu ei garu er's blynyddoedd, chwythed awel o Galfaria i'ch ail-danio eto.

Dyma y ddau beth mwyaf, a'r ddau beth lleiaf mewn crefydd. Ar ryw olwg dyma'r ddau beth mwyaf—credu, a charu yr Arglwydd Iesu Grist; ac ar olwg arall dyma'r ddau beth lleiaf. Y mae yn dda i'w ryfeddu genyf fi y munyd yma, pa mor ddrwg bynag y gall fod llawer un sydd yma—yr wyt yn ymyl y noddfa. Y peth mwyaf mewn bod ydyw credu; wel, ar ryw gyfrif, y peth lleiaf ydyw.—Nid oes neb yn rhy dlawd i dderbyn rhodd, ond fel yr ydym ni wedi myned yn wfft o falch—a dau beth hynod o anhwylyd yn yr un tŷ ydyw balchder a thlodi. Nid ydyw y claf yn rhy wau i bwysu ar ei wely. Nid oes fawr rhyngot a bod yn gadwedig. Pe bait ti yn crogi wrth ben y fflamiau, mi *dreiw*n ddweyd *direcsiwn* Paul i geidwad y carchar i ti—“Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig a fyddi.” A rhagorol fawredd nerth Duw a gaffo ei ddanfôn nes i ti fentro—y dim a'r digon wedi dod i ymyl eu gilydd.

Pe bai un o honom yn myned gyda'r lli, mewn rhyw berygl dirfawr, a rhywun yn ei waredu; y peth lleiaf a all'sit ti ei wneyd fuasai ei garu. Y mae y pechadur yn bur *odd* yn y dechreu; o ran mi ddarfu i ni syrthio i ni ein hunain yn y codwm mawr; ond cwyd yr iachawdwriaeth ni yn ddigon llwyr o honom ein hunain. Y mae y credadyn ar y dechreu er ei fwyn ei hun, yn credu yn Iesu Grist, ac yn ei garu am y mae yn ei wneyd iddo:—“Y mae o yn fy nghadw i rhag y colla i 'mywyd, y mae yn dda gen i am dano.” Ond, bob yn dipyn fe

ddaw i'w garu er ei fwyn ei hun. Y mae yn bosibl caru heb weled, ond nid oes bosibl caru heb adnabod. Yr ydwyf fi yn sier fod rhai yma y gellir dweyd geiriau y testun yma wrthynt. Yr wyf fi yn gwybod yn dda iawn ac yn teimlo fy mod yn caru llawer iawn na welais erioed mo honynt. Ni welais i erioed mo William Gurnal. Ond yr oeddwn innau yn *ffrynd* mawr efo fo, yn nhroed Mynydd Nodol acw; y mae yn dda gan fy nghalon i am dano, a chododd darllen ei lyfr fi o lawer llyn tro yr oeddwn yn myned iddo, a phe buasai fo yn fyw yrwan, mi aethwn yn bost rhag fy mlaen i Lavang-ham (*Lavenham*) i wrando arno. Ni welais i erioed mo John Flavel, ond y mae yn dda gan fy nghalon i am dano; a gallem enwi llawer, a welsom neu y clywsom am danynt, y mae yn dda genym am danynt, er eu bod nhw wedi myned o'r golwg. Ni welsom ni mor duwiolion y mae hanes am danynt yn y Beibl. Ond y mae y saint yn caru eu gilydd, a'r Arglwydd Iesu Grist ydyw pen y cwbl. Yr oedd Evan Ffowc yn *ffrynd* mawr â'r hen batriarchiaid, na welodd o erioed a'i lygaid mo honynt. "Noah acw, i ti," meddai, fel pe buasai fo yn byw rhwng y Llan a'r Pandy. "Abram acw i ti," mi all'sech feddwl arno fo mai yn llofft y Pandy yr oedd o yn byw. "Moses acw i ti," fel pe buasai fo yn byw tua phont y Llan. Mi 'rydw i yn meddwl o hyd, mhobol i, mai lle braf ryfeddol ydyw y nefoedd. Mi gei yno weled y Brenin y clywaist lestri pridd yn dweyd am dano, ac y mentraist tithau dy fywyd iddo. Cei ei weled yn y man fel y mae, a bod yn dragywyddol debyg iddo. Mi feddylw i, yn wirionedd, darllenwch chwi y pedair Eſengyl, na fedrwch chwi ddim peidio bod yn ffryndie âg ef. Dyna ein neges ni atoch chwi—bod yn offerynau yn llaw yr Arglwydd i'ch enill, pob un o honoch, i gredu yn ac i garu gwrthddrych na welsoch chwi erioed mo hono. Y mae y cynghorwyr yr ydych yn eu gweled ac yn eu clywed, yn debygi'w ryfeddu i was Abram yn myned i ymofyn am wraig i fab ei feistr. Bu hwn yn offeryn i ddyfod ag un i briodi, ac i garu un nas gwelodd erioed. A phan ddélo yr hen fraich a barthodd y môr i'r golwg, mi aiff yn briodas wed'yn rhag blaen.

Y mae Abram yn dweyd wrth ei was—Eliezer mae'n debyg, am fyned i ymofyn am wraig i Isaac, i Mesopotamia. Yr oedd ar Abram ofn i Isaac briodi un o ferched Canaan, rhag i ddrain a mēri dyfu ar yr hen allor. Yr oedd arno ofn i Isaac fethu, yn nhrefniad ei deulu i addoli ei Dduw; ac y mae'n debyg mai dyna ddymunai y cythreuliaid fwyaf o adim,—gweled hen aelwyd lle y bu addoli, heb hyny, a'r allor wedi myned i lawr.—Cychwynodd gwas Abram i Mesopotamia wedi ei dynghedu, "Wel, beth os na ddaw y wraig, a ddychwelaf fi dy fab yno?" Na, y mae Abram yn rhoi *siars* na ddychwelai mo'i fab i'r wlad

hono. Ond meddyliwn ni yrwan na fedrai gwas Abram mo'r ffordd, a meddyliwn hefyd fod yno waith tua saith niwrnod iddo fyned o Haran i Mesopotamia; ond er y cwbl yr oedd y gwas yn gefnog i gychwyn, oblegyd yr oedd "tad y ffyddloniaid," ar weddi neu rywsut, wedi hysbysu yr anfonai yr Arglwydd ei angel i'w gyfarwyddo; ac i ffwrdd a fo wed'yn; ond yr oedd o yn trwtws gweddio ar hyd y ffordd o hyd. Ac yn mheh tua saith niwrnod, dyma fo, mi debygwn, ar ochor bryn, yn agos i ddinas Nachor, ar y pryd y byddai merched y ddinas yn dyfod i dynu dwfr—nid i'w roddi yn y *tecell*, ond i'w roddi i'r praidd; a gwas Abram wrthi yn gweddio; pe caem ninnau fwy o ysbryd gweddi, mi lwyddem yn well o'r haner. Ac yr oedd o yn *grand* ryfeddol—yr oedd o yn dal arfaeth a rhagluniaeth Duw, ac nid oedd dim hip arno ochor yn y byd—dyledswydd a gras—yr oedd yn dal arfaeth fanol y nef, ac yn dal ar amneidiau rhagluniaeth. "Bydded," meddai wrth Dduw, "mai y llances y dywedwyf wrthi, Gogwydda, attolwg, dy ysten, fel yr yfwyf; os dywaid hi, Yf, a mi a ddiodaf dy gamelod di hefyd;—hono a ddarperaist i'th was Isaac." Yr oedd Rebeccah yn llawer boneddigeiddiach na'r hen lodes o Samaria; ac mi feddyliwn i mai *teetotal crand* oedd gwas Abram. "Nis gwn pa fodd i wneyd os âf oddicartref, na sut y dof adref," meddai llawer un; ond mi ddoit adref yn well o'r haner pe yr yfit ti yr un ddiod a gwas Abram; hwyrach, pe buasai yntau fel arall, na ddeuasai adref byth, a cholli y camelod a'r holl anghaffael sydd hefo chelfi'r ddiod yma.—Wel, dyma Rebeccah yn disgyn yr ystên, ac yn ei ddiodi ef a'i gamelod hefyd. Dyma hi yn tywallt y gweddill o'r dwfr i'r cafnau, ac yn rhedeg i nol dwfr wed'yn; nid dweyd wrth y gwas ddarfu hi—"Aed y llanciau yna"—na, yr oedd hi yn un *glyfar* anghyffredin; nid rhyw *ddoli* o beth oedd hi i'w gosod ar y *silff*. Yr ydwyf fi yn siwr, pe buasai y byd yn galw, y buasai hi yn myned i geisio gwellt, ac yn ei falu fo hefyd, neu yn myned i nol cawellaid o fawn, er ei bod yn ferch i dywysog. Dyna was Abram yn tynu y breichledau a'r clust-dlysau, ac yn gofyn—yr oedd o wedi synu mae'n debyg—"Merch i bwy wyt ti?" Hithau yn ddigwmpas a ddywed—"Merch Bethuel, mab Nachor." Cyn saffed! dyna hi wedi dyfod—"A oes acw le i letfa?" "Oes," meddai, "ac y mae acw wellt ac ebran ddigon, a lle i letfa." Yna dacw hi yn myned i'r tŷ, ac yn dweyd yr hanes wrth y teulu, a dacw ei brawd yn dyfod at y ffynon; yr ydwyf fi yn siwr fod golwg *venerable* i'w ryfeddu ar was Abram; "Tyred i mewn," meddai wrtho, "fendigedig yr Arglwydd." A dacw fo yn myned i fewn, ac yn dweyd na fwytâi ddim nes traethu ei negesau. A dyna fo yn dweyd—"Gwas Abram ydwyf fi." Wrandawyr! er mai y corn hwrdd cama' a fedd y

Methodistiaid ydwyf fi,—peth rhyfedd na bnasent wedi fy rhoi i ar yr hoel cyn hyn,—ond gwas i Iesu Grist ydwyf finnau, wedi dyfod i alw arnoch i ddyfod i mewn. Y mae y gwas yn dweyd fod Duw wedi bendithio Abraham. a rhoddi iddo aur ac arian, a'i fod wedi cael mab o Sara, ac wedi rhoddi y cwbl i hwnw. Y mae y gŵr yr wyf finnau yn galw arnat ti i'w briodi yn gyfoethog iawn—y mae “daear, da, a dyn” yn ei feddiant. A mwy nag a fedd y byd; y mae ganddo arglwyddiaeth ar wlad dywyll angau; doed yr helynt a ddelo, mi fedr wneyd i bob peth gydweithio er daioni. “Os ydych am wneyd trugaredd, a ffyddlondeb a'm harglwydd Abraham,” meddai y gwas, “mynegwch i mi, ac onide, mynegwch i mi, fel y trowyf ar y llaw ddeau, neu ar yr aswy.” “Oddiwrth yr Arglwydd y daeth y peth hyn,” meddynt hwythau, “gwell i ni dewi,—ni ddywedwn ni ddim.” Yna y mae ar was Abram eisiau cychwyn tuag adref;—“Triged y llances ddeng niwrnod o leiaf gyda ni,” meddent hwythau. Yr wyf fi yn siwr, mhobol i, fod satan, cnawd, a byd, yn dywedyd, “Na lwyr ymabertha i Iesu Grist, aros am ddeng niwrnod o leiaf gyda ni;” ond gwylia di farw yn ystod y deng niwrnod. Nid oes dim yn myned yn deimladau mor ddwysion trwof fi, na chlywed am gladdu llawer o'n gwrandawyr, a chladdu llawer o fewn deng niwrnod yr oedi. “Gofynwch iddi hi,” meddent wrtho; gofynasant iddi hi, “A âi di gyda'r gŵr hwn?” Yr wyf finnau yn gofyn, “A âi di gyda'r Iesu?” A gwyn fyd na attebech chwithau i gyd gyda Rebeccah, “Af;” a'i ddilyn, nes myned ato i fyw dros byth.

PREGETH IX.

“Ac at Iesu, cyfryngwr y testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn llefaru pethau gwell na'r eiddo Abel.”—HEB. xii. 24.

Ni wel neb ogoniant eglwys Crist heb yn gyntaf weled gogoniant ei pherchen hi: ac yr wyf yn meddwl wrth ddarllen y Beibl, na weliff neb olwg deilwng ar eglwys Crist ar y ddaear, na byddant yn siwr o fyned i'r nefoedd. Ac, “oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw;” nid yn unig nid aiff i'r nefoedd; ond ni ddichon iddo weled gogoniant teyrnas Dduw ar y ddaear yn iawn; mi elli weled y tu allan i'r babell; ond rhyw *stwyff* digon gwael oedd i'w weled y tu allan i babell y cyfarfod,—ni welid oddiallan ond y crwyn hyrddod a'r crwyn daearfoch; ond ni weli ddim o bethau y cysegr, heb dy eni o Dduw. “Ond chwi,” meddai'r Apostol, “a ddaethoch i fynydd Seion.” Sylwedd yr hen Seion; dyma y lle tebycaf i'r nefoedd sydd ar y ddaear—“Mynydd Seion, dinas y Duw byw;” ac yn

wir nid oes gan neb gartref gwerth son am dano os nad oes ganddo un yn Seion; dyma “degwch bro, llawenydd yr holl ddaear, yn ystlysau y gogledd, dinas y Brenin mawr.” Pe byddai genyt y cartref mwyaf clud a llawn, heb gartref yn Seion, nid ydyw yn werth son am dano. “Dinas y Duw byw;”—yr Arglwydd Iesu Grist ydyw sylfaen y ddinas; ac y mae Esay yn dweyd mai “Iachawdwriaeth” ydyw caerau a rhagfur y ddinas. Yr oedd Louis Phillippe, brenin Ffrainc, ryw dro yn ddiweddar, pan yn codi o’i wely yn un o’r breninoedd mwyaf yn Ewrop, ac newydd adnewyddu muriau a chaerau Paris, a chanddo gan’ mil o filwyr, yn teimlo ei hunan yn hynod ddyogel; ond pryd-nawn yr un diwrnod, yr oedd yn ffoadur, yn crwydro anialwch heb ffordd, ac yn fuan mewn hen gwch pysgotta, heb yr un crys i’w newid. Ond os cawn ni fod yn frodorion “dinas Duw,” beth bynag a ddaw i’n cyfarfod, bydd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur o’n cwmpas. Pwy na ddymunai o eigion ei galon fod yn un o frodorion “dinas Duw.”—Duw ydyw perchen y ddinas, efe a’i hadeiladodd, ac efe ydyw ei hamddiffynydd. “Yr Arglwydd ardderchog,” medd Esay, “a fydd i ni yno yn fangre afonydd a ffrydian llydain, y rhwyflong nid â trwyddo, a’r llong odidog nid â trosto,”—i gymeryd y ddinas. Yr oedd ymddiried Babilon yn fawr yn ei hafonydd i’w dyogelu, ond cymerwyd hi gan y gelynion. Pa bryd y cymer gelynion Seion “ddinas Duw?” Wel, os medrant hwy rwyfo trwy Dduw ati—“Duw fydd i ni yn fangre afonydd;” a rhaid iddynt rwyfo trwy Anfeidroldeb a Hollalluogrwydd cyn y gallant gymeryd y ddinas. “Y rhwyflong nid â trwyddo, a llong odidog” a gwynt uffern ar ei hol, “nid â trosto.” Ond dyma syndod mwy na’r cwawl,—dyma lle y mae Duw yn gwneyd ei gartref—yn y ddinas yma. Nid oedd ryfedd i Solomon, y doethaf fu yn byd yma erioed, i ofyn mewn syndod ar wyl cysegriad y deml, “Ai gwir yw y preswylia Duw ar y ddaear?” Ië. digon gwir. “A’i babell hefyd sydd yn Salem, a’i drigfa yn Seion.” Wel, pa faint sydd yn dyfod yr un feddwl â Duw, ac a all ddweyd gyda’r Salmydd “Hoffais drigfa dy dŷ, lle preswylfod dy ogoniant.” * * *

PREGETH X.

“Os gwneir hyn yn y pren ir, pa beth a wneir yn y crin?”—LUC xxiii. 31.

AR y ffordd o’r llys a elwir y *Praetorium* i ben Golgotha y llefarodd yr Arglwydd Iesu y geiriau yma; ac y mae y neb a’u llefarodd, a’r amgylchiadau cyfyng yr oedd ynddynt, yn galw am ein sylw difrifolaf arnynt. Hwn oedd y llys olaf y bu yr Iesu

ynddo, lle y traddododd Pilat ef i'w groeshoelio. Yr oedd yn arferiad gan y Rhufeiniad wneyd y groes yn barod i bwy bynag fyddai yn cael ei groeshoelio, ac yr oedd yn cael ei chadw yn y llys hwnw, neu yn agos ato. Ac felly yr oedd croes ein Harglwydd Iesu Grist yn barod. Yr oedd y groes yn bren mwy nac y gallwn ni ei ddirnad, yr oedd yn bren mawr a thrwm iawn. Ac wrth i Pilat, yn groes i'w gydwybod, draddodi yr Iesu i'w groeshoelio, fe andwyodd ei gydwybod ei hun. Y mae llawer yn gwneyd rhywbeth digon tebyg; y maent wrth geisio cynffona i ryw rai o'u cwmpas yn andwyo eu cydwybodau. A phan welodd Cesar, yn y croniclau, hanes *treialon* Iesu o Nazareth, mi *dransportiodd* Pilat i Lyons yn Ffrainc, ac yno y bu farw yn druenus iawn. Yr ydym ni yn clywed pregethu yr Iesu; y mae pob doniau yn ei gyhoeddi yn Geidwad; ac yr ydwyf fi yn siwr fod eich cydwybodau yn dweyd, "Mi ddylwn i gredu ynddo a'i dderbyn;" gwylia wrth aros yn y fan yna drwy y blynyddoedd, orphen andwyo dy hunan, a chael dy *dransportio* i'r gwaeau am byth am ei wrthod. Wedi iddo ei draddodi, rhoddwyd y groes ar ei gefn briw i'w chario i ben Calfaria; ond fe ddaeth rhyw hap hynod o lwcus i Simon o Cyrene, gŵr parchus, mi dybygwn, oedd wedi dyfod yno ar ryw achos, ac yn dychwelyd y ffordd yr oedd Crist yn cario ei groes. Y mae un yn dweyd mai ei gymhell a ddarfu iddynt; a'r llall yn dweyd mai ei ddal a ddarfu iddynt. Ond chwareu teg iddo, mi feddyliwn i iddo fo gymeryd y groes yn bur hawdd. Ond mi debygwn i fod yr Iesu yn cario y pen trymaf, a Simon yn *trotian* o'r tu ol iddo, a mawr oedd ei fraint. A'r achos na ddoit tithau i'w ddilyn, ydyw fod rhywbeth yn ormod o groes genyt ti; o ran yr osgo cyntaf a wnei di i fyned ar ol yr Iesu, rhaid i ti wneyd osgo yr un amser i gario'r groes; a'r profedigaethau a gawn ni yn uniongyrchol wrth ddiilyn yr Iesu, dyna yr adegau mwyaf gwerthfawr yn ein tymhor. Yr oedd yma lawer o bobol a gwragedd yn dilyn yr Iesu, ac yr oedd yma ocheneidio ac wylo y mae yn ddiarnheu genyf. Yr oedd yr Iesu yn gwneyd sylw o honynt yn eu trallod. Pan fo rhyw helynt mawr arnom ni, ni wnaem fawr o sylw o rai eraill yr amser hono; ond nid felly y gwnaeth yr Iesu. Nis gŵn i a oedd pawb ar a oedd yn wylo, yn credu ynddo; y mae yn debyg nad oedd pawb; ac y mae yn ddiarnheu fod rhai. Ond yr oedd gweled un o *garitor* Iesu o Nazareth yn cael y fath driniaeth, yn ddigon i wneyd i'r dymher fwyaf delffaidd fethu a dal. Y mae darllen hanes un o *garitor* yr Iesu yn cael y fath ddirmyg, yn ddigon i beri i ti wylo ambell i waith, pe bait heb gredu ynddo. Ond pe cait olwg arno yn marw yn dy le, hynny a dorai dy gadwynau, fel y dywedit ti. "O'm hachos i y bu y golled fawr hon." * * * *

PREGETH XI.

“A gŵr fydd megys yn ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymhestl; megys afonydd dyfroedd mewn sychdir, megys cysgod craig fawr mewn tir sychedig.”—ESAIAS xxxii. 2.

YR oedd y prophwyd Esay fel pe buasai yn byw yn y blynyddoedd 1848 ac 1849, yn gweled llwyddiant y “Brenin a deyrnasa mewn cyfiawnder.” Y mae yn dangos yn eglur y bydd i'r goleu mawr drechu y nos bob yn dipyn, ac aiff adar y nos i ffwrdd o honynt eu hunain toc rhag cywilydd. Ac ni hoffwn ni ddim byw i weled y mil bynyddoedd, heb gael adfywiad rhyfeddol ar y tipyn crefydd sydd genyf. Mae y prophwyd yn dangos y bydd rhai cywir, uniawn, a gonest yn y llwyddiant mawr; cânt adfywiad mawr ac anghyffredin iawn. “A bydd y llesgaf o honynt y dydd hwnw fel Dafydd; a thŷ Dafydd fydd fel Duw, fel angel yr Arglwydd o’u blaen hwynt. Bydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul, a llewyrch yr haul fydd saith mwy, megys llewyrch saith niwrnod”—fel pe buasai saith o heuliau yn codi o’r dwyrain ar unwaith. Pa fodd y bydd, Esay? “Yna llygaid y rhai a welant ni chaur”—dymunant weled ychwaneg o hyd,—“a chlustiau y rhai a glywant a wrandawant”—yr Ysgrythrau yn cael eu taenu yn Rhufain; “llygaid y rhai a welant ni chaur”—er fod yr hen gardinaliaid yn taflu codau eurych i’w llygaid i’w dallu—“a thafod y rhai bloesg a brysur a lefaru yn eglur.” Wel, *ffasiwn* bobol fydd yn y mil blynyddoedd? “Ni elwir mwy mo’r coegddyn yn foneddig”—mi fyddant yn bobol heb un tipyn o gwnffon—yn gwtta gynhenid i gyd, yn y mil blynyddoedd heb gymaint a bys o gwnffon gan neb. “Ac ni ddywedir am y cybydd”—i *ffalsio* iddo—“Hael yw.” Mi fydd wedi myn’ d mor *blaen*, union, a diragrith, fel na ddewisir neb i swyddi mewn gwlad nac eglwys yn herwydd hyny o diroedd fyddo ganddynt. Beth fydd yn ucha’?—Wel gras, a synwyr, a rhinwedd, dyma fyda y pethau mawrion yn y man; ac, yn wir, nid ydyw pethau y byd yma, mewn gwirionedd, yn rhoddi dim mawredd ar ddyn, creadur tragwyddoldeb; a phwy bynag a elo i deimlo ei hun yn haeddu mwy o barch yn herwydd hyny o aur ac arian sydd ganddo, y mae hyny yn ddigon o brawf fod ei ben o fel meipen wedi cysgu.

“Brenin a deyrnasa mewn cyfiawnder; a gŵr fydd yn ymguddfa rhag y gwynt.” Ni bydd y gŵr yma yn ymguddfa i neb ond i’w ddeiliaid ei hun; nac yn gysgod craig fawr i neb ond a *listia* tan ei faner. Pe bait yn myned i’w gyfarfod mewn barn yn machludiad haul, byddai yn ofnadwy arnat; a phe bawn i

“Pe palech
ddech cyn o

“Mi fydda
nyn'd i breg

“Y peth sy
oedd ydyw fo

“Nid oes
fel yr oedd
ei efengyl t
asai Efe yn

“Sut na b'
yn eu coach
clywed yr e
trvodd erio
er ystalm; n

“Yr oedd
wn y tro e
dd hi yn
almant. O
iddi, rhyf
“Pan
O!

“Yr oed
achawdw
iddyn' nh
rho'id
methu de
pan oedd
Menai, y
or arall
ddau yn
un pow
y daeth
mi cys
tân; l
darfu
ei Fa
ford

dipyn yn y goleu, mi fyddwn yn daer iawn, fel offeryn, yn crefu arnoch *'listio* o dan faner y Brenin hwn. “Beth os caf fi wynt mawr wedi hyny?” O, mi fydd dy Frenin yn dal y gwynt yn ei ddyrnau. “Beth os caf fi *'stormydd*?” Gad di rhyngtho a'r *'stormydd*; llecha yn ei gysgod. Y mae Jonathan Edwards yn dweyd fod yma gyfeiriad at dri o bethau oedd gan Israel, sef y tabernacl, y dwfr o'r graig, a'r golofn niwl a thân. Yr oedd y Salmydd yn cadw cymaint o swm am y babell, mi all'sech feddwl nad oedd ganddo ddim byd arall ond y babell. A'r neb a all ddweyd, “Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny a geisiaf; sef caffael trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml,”—os gelli di ddweyd y gair yna, mi elli ddweyd y gair nesaf hefyd, “Canys yn y dydd blin y'm cuddia o fewn ei babell, ar graig y'm cyfyd i.” Dyma ryfeddodau y bydd synu uwch eu penau am dragywyddoldeb,—gweled y “Dyn a'r Duw-dod ynddo'n trigo,” yn myned i'r dymestl ei hunan; a daliodd nes yr aeth yn hindda arno; chwythodd arno o bob man ar unwaith,—o'r nefoedd, o'r ddaear, ac o uffern; ond yr oedd o yn ddigon o ŵr i ddal y rhuthriadau o bob cyfeiriad; pa fwyaf a chwythai y ddeddf, mwyaf oll a ddaliai yntau; chwythodd y ddeddf gymaint nes cael iawn, chwythodd y ddaear nes cael ffordd o'r ddaear i'r nefoedd; chwythodd uffern nes yr aeth ei thaclau yn *shwtrws*, nad oedd modd eu *mendio*; chwythodd y ddraig nes ysigodd ei siol; a chwythodd angau nes cael ei goncro.

PREGETH XII.

“Y cyfiawn a ddeil ei ffordd, a'r glân ei ddwyllaw a chwanega gryfder.”—JOB xvii. 9.

Mi faswn i yn *leicio*, mhobol i, gael darfod yr odfa wedi canu, ond ni chaf fi ddim pregethu yn gyntaf ganddyn' nhw yrwan, yr ydwyf fi wedi myned yn o hen; ond mi dreiaf ddweyd tipyn wrthych chwi am y cyfiawn yma. Yr oedd Job yn ymwybodol fod ganddo grefydd, fel y dywed yma, er cymaint yr oedd o wedi ei golli yn yr *'storom* fawr; a dyma oedd yn ei ddal o mor gryf yn nghanol yr holl helynt. Nid yn unig nid oedd yn myned yn wanach, ond yr oedd o yn myned yn gryfach bob *stroke*, yn “chwanegu cryfder.” Y mae yn sicr mai dyma a ddyrysodd ei gyfeillion gyda chrefydd Job, ni welsant ac ni chlywsant am neb erioed o'r blaen wedi cyfarfod â'r fath helynt. “At bwy o'r saint,” meddant, “y troi di?” “Trof fi at un sydd yn fwy na'r saint i gyd, trof at Dduw;” a dyma fo yn gallu dweyd wrth Dduw, “Ti a wyddost nad wyf annuwiol:—pa fodd byn-

ag y mae yr holl helynt yma wedi fy nghyfarfod—ti a wyddost nad wyf annuwiol ;” a dyma beth mawr i’w ddweyd. Y mae yn ddiarnheu fod Job wedi oesi yn foreu iawn ; y maent yn dweyd ei fod o yn byw tuag amser Abraham. Ac yr oedd cyfeillion Job yn wŷr mawr iawn yn eu hamser ; yr oedd ganddynt lawer iawn o wybodaeth am y gwir Dduw wedi ei gael mewn rhyw ffordd, ni wn i ddim pa sut. Ni chlywsoch chwi ddim *couns’leriaid* erioed a mwy o ddawn ganddynt, na’r tri yma oedd yn ymosod ar Job ; ac yr oedd yn beth *odd* i’w ryfeddu, bod Job, ynghanol ei gornwydydd a’i helynt i gyd, yn eu gwelltio nhw bob un, ac yn rhy drech iddynt o ddigon. A dyna a’i daliodd o—*crefydd* ; yr oedd fel y mae y testun yn ei ddarlunio, “ yn chwanegu cryfder.” Galleid meddwl bod *nerves* Job wedi myned yn wan iawn yn nghanol yr holl *hurricane* fawr, rhwng ei gornwydydd, a’r diafol wedi cael bwlch yn ei amgylchiadau, a phob peth, ond yr oeddyn’ nhw yn gryfach na dim gwiaill dur a welsoch chwi erioed ; mi ddaliodd i’r holl ergydio fu arno. Saethws da oedd y tri chyfaill, ond yr oeddynt yn methu y *mark* yn arw bod ag un. Yr oeddyn’ nhw yn saethu at Job ar dir y rhagrithiwr ; ond nid oedd Job i’w gael yno ; yr oedd o wedi cilio yn ddigon pell o’r clwt hwnw, fel nad oedd eu saethau nhw yn gwneyd dim niwed iddo. Y mae yn sicr fod cyfeillion Job yn dweyd y gwir am y rhagrithiwr, a’r annuwiol ; y mae yn ddigon i wneyd i gnawd Cymro grynu am ei esgryn wrth ddarllen yr holl drybini a ddaw ar yr annuwiol. Ond yr oedd Job wedi dianc o’r lle ofnadwy hwnw. Ac y mae yn debyg mai Moses a fu yn offeryn yn llaw Ysbryd Duw i gasgiu yr hanes rhyfedd yma, pan oedd o yn gorphen ei *college* yn nhir Midian ; nid oedd *college* yr Aipht ddim yn ddigon iddo i fyned i arwain Israel, yr oedd yn rhaid ei anfon i’r *college* ger Horeb. Ond beth bynag am hyny, y mae dwyfoldeb ar wedd llyfr Job ; mae yn ddigon i daro y gydwbybod galetaf wrth ei wrando fod yr hanes yn ddwyfol.—Y mae yn dechreu yn *glyfar* iawn,—hanes crefydd Job ; dyna y peth goreu am danom oll,—a hanes ei blant, a hanes y byd yma. Pe buasai rhywun cnawdol yn ei ysgrifenu, hanes y byd yma fuasai yn gyntaf, a’r plant wedi hyny,—un yn *Dwrne*, a’r llall yn Berson, neu rywbeth ; a’r grefydd fach wrth eu cwt nhw i gyd, ond “ Yr oedd gŵr yn ngwlad Us a’i enw Job ”—beth am dano ? “ Ac yr oedd y gŵr hwnw yn berffaith, ac yn uniawn, ac yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni.” Ni waeth pa hanes fydd am danom yn y byd yma, os heb hyn ; buasai yn well bod yn rhyw greadur na bod yn ddyn, a myned o’r byd heb hyn. Wel, yr oedd cyfeillion Job yn synu ; mi fuont yn hir yn eistedd ar y ddaear heb ddweyd dim. Wel dyma y geiriau nesaf at y testun, “ Y rhai uniawn a synant am hyn ; a’r diniwed a ymgyfyd yn

erbyn y rhagrithiwr." Y mae troion Duw yn ei ragluniaeth yn hynod o ddyfnion a dirgelaidd; ond gŵyr Duw ei hun beth yw ei ddyben. Ein doethineb ni mewn llawer o bethau ydyw tewi, a synu heb ddweyd dim; ond y mae Duw yn siwr o ddod a phobpeth o gwmpas yn y modd goreu. Gellwch gyfarfod â'r dynion goreu yn cyfarfod â throion chwerwon, a'r dyn annuwiol a haul llwyddiant yn tywynu ar ei babell; yr hyn sydd argoel o gyfiawn farn Duw, pryd y bydd *settle* y cwbl. Ac y mae yn hawdd gweled yma, mai peth mawr i ddyn wedi iddo gael ei *startio* nes y mae o yn synu, ydyw iddo beidio a dyrysu; ond ni ddyrysiff hwn ddim—"Yr uniawn a synent am hyn."—"Y cyfiawn a ddeil ei ffordd." Pe byddai Duw yn gwgu arno yn ei ragluniaeth, daŵ at ei ddyledswydd a wna fo, ac y mae gol-euni yn sicr o godi ar y cyfiawn. "Y cyfiawn a ddeil ei ffordd." Y mae gan "y cyfiawn" "ei ffordd," ac y mae hwn yn "dal ei ffordd."

I. Y TEITL AR BA UN YR ENWIR Y CREFYDDWR YN YR ADNOD YMA—"Y CYFIAWN."

Dyma'r *caritor* uchaf y gallwn ni ei gael yn y byd yma,— "Cyfiawn." Y mae yn ddiamheu y cynnwys yr enw yma, cyfiawn mewn ystyr efengylaidd. Y mae yma ymadroddion yn llyfr Job mor efengylaidd ag sydd yn efengyl Ioan. Ac wrth son am "y cyfiawn," y mae Job yn ddiamheu yn meddwl y dyn duwiol; "Yr uniawn," meddai, "a ymresymai ag ef;"—fy Mhrynwr byw:—"Fy Mhrynwr;"—ni fedraf fi ddim gwyn-ebu y gyfraith; ond yr wyf wedi rhoddi fy achos i'm Prynwr byw, fel fy *Nghounsellor* o flaen fy Marnwr, ac felly mi a ddi-angaf byth gan fy Marnwr.

Y mae hwn yn "gyfiawn yn ei *ymarferiadau* hefyd; ni wnaiff gam ar farn, ar lathen, nac ar bwys. Dyna fel y mae Ioan yn dweyd—"Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn." Ai am ei fod yn gwneyd cyfiawnder y mae yn gyfiawn? Nage, ond am ei fod yn gyfiawn y mae yn gwneyd cyfiawnder. Y mae ganddo gyfiawnder cyfrifol a chyfiawnder egwyddorol, ac y mae yn gyfiawn ymarferol. Y mae cyfiawnder ymarferol yn tarddu o'i gyfiawnder egwyddorol, a'r ddau yn tarddu o gyfiawnder cyfrifol. Y mae egwyddor gyfiawn yn llywodraethu ei enaid.

II. Y MAE GAN Y CYFIAWN "EI FFORDD."

1. Y mae ganddo "ei ffordd" i gael heddwch â Duw—yr *Arglwydd Iesu Grist*;—ei ffordd i ffafr, cymdeithas, a delw Duw.

2. Y mae ganddo "ei ffordd" i gysylltu ei ddyledswyddau, a gorchfygu ei elynion, a chael marw yn elw yn y diwedd. "Myfi,"

meddai Iesu Grist, “yw y ffordd, y gwirionedd, a’r bywyd.”—Y mae yma ryw beth nas gallaf fi ei ddangos yn hwylus. Os wyt ti yn credu yn Mab Duw, y mae yn “ffordd” i ti—y mae yn eiddo i ti; gelli wneyd yn hyf ar y ffordd; os credi di yn Mab Duw, dy ffordd di fydd o wed’yn; ffordd Duw i gael y gogoniant mwyaf i’w briodoliaethau, a’i gyfraith; a’th ffordd dithau i gael y dewyddwch a’r dyogelwch mwyaf. “Ffordd” y cyfiawn i ymddwyn tuag ato ei hunan, tuag at eraill, a thuag at Dduw ydyw y deg gorchymyn; “Ffordd dy orchymynion a redaf, pan eangech fy nghalon;”—eangu y galon trwy dynu y draen damniol o’r gydwybod yn y cyfiawnhad. Y bobol sydd yn credu yn Mab Duw, y maent a’u holl galon am ddilyn ei esiampl ef,—“Efe a roddes i ni esiampl fel y canlynech ei ol ef.”

III. UN YDYW Y CYFIAWN “A DDEIL” EI FFORDD.

Fe ddeil y cyfiawn ei ffordd yn gyson, diwyd, ffyddlon, a hyd y diwedd. Nid wyf yn dweyd na chyferfydd o â rhwystrau; ac na chaiff o ei *guro* yn ol ganwaith, ond ni *thyniff* o byth yn ol. Ac yn y diwedd mi gaiff y cythraul weled y buasai yn well iddo fo adael llonydd i’r rhai’n; os syrthia y cyfiawn, mi syrthiff ar ei hyd tua’r nefoedd, y mae yn enill ei hyd bob tro y syrth o. “Seithwaith y syrth y cyfiawn, ond Duw a’i cyfyd ef.” Un *odd* iawn ydyw y cyfiawn,—“A ddeil ei ffordd.” Goreu ganddo fo pa oreu fyddo pawb, ond nid aiff o ddim i ryw ffwti ffati gyda nhw, os na ddeua’ nhw hefo fo, mi roiff glec ar ei fawd a ffwrdd a fo yn ei flaen; y mae yn gallu sefyll ar ei *ffootin* ei hunan. Gyda *matter* ac nid gyda phobol y mae fo yn *votio*. Rhai o’r *sort* yma oedd y tri llanc yn Babilon; ni wnaent ddim ymostwng i’r brenin mawr a balch i fradychu eu cydwybodau; yr oedd yn well ganddynt fyned i’r ffwrn dân, a dal eu ffordd i addoli y gwir Dduw, na myned gyda’r lliaws i wneyd rhyw agweddau o flaen y ddelw fawr; ac wedi myned i’r ffwrn dân, yr oedd “dull y pedwerydd” yno. Ni wnaeth y tân ddim niwed i’r un o honynt; ond fe losgodd eu rhwymau. Yr oedd yn well gan Daniel fyned i ffau y llewod, a dal ei ffordd, nag ymostwng i’r brenin. “Daniel, y mae yma ryw gyfraith ryfeddol yn cael ei gwneyd yrwan—i fwrw i ffau’r llewod pwy bynag na ufuddhao iddi—pa beth a wnei di?” “Fel o’r blaen.” Ni wnaiff y cyfiawn ddim cynffona i neb—i’r brenin mwy nac i’r *beggar*. Wel, i’r ffau y cafodd o fyned. Ond fe gafodd Daniel hyfrytach lle gyda’r llewod, nac a gafodd y brenin yn ei lys; yr oedd y brenin yn methu cysgu trwy y nos. Ond boreu dranoeth yn bur foreu, dyma y brenin yn dyfod at y ffau, ac yn gwaeddi ar Daniel—a gwyn fyd na baem yn gallu cyfarch pob un sydd yma fel y cyfarchodd y brenin Daniel—“Daniel, gwasanaethwr

y Llaw byw, a all dy Dduw di fy gadw rhag y llewod? Ni welais ti erioed noswaith mor annifyr a getais i neithiwr, ni chysgais i yr an hunell trwy'r nos— a all dy Dduw di, yr hwn yr wyt yn ei addoli, fy gadw rhag y llewod?" Ond ni choilodd i aniel mo'i *gemoiments*—"O frenin, bydd fyw byth!"—dyna ateb *nice* i'w rylleddu: se buasai yno lawer an yn ei le fo, ni fuasai yn ei aiw yn rhyw hen enw trwg, byliach na'i gily id—ond nid felly Daniel—na, "O frenin, bydd fyw byth! Mae fy Nrv i wedi anfon ei angel a chau safnau y llewod, o herwydd pur-edd a gaed ynof ger bron Llaw." Yr oedd e yn ymwybodol, fel J. H. ei fod yn ddarwyl—"A ddarfa'r llewod idim asio eu danedd arnat ti, Daniel, fch niweidic?"—"O, naddo, ni welais i ddim danedd ganddyn' nhw, yr oedd eu gweilan mawr ar eu traws nhw yn eu cuddio o'r goiwz." Fe roed gorchymyn yn union i godi Daniel o'r ffau, ac fe roddwyd y pethau cynffonog oedd wedi achwyn arno yno yn ei le i lawr, ond yr oeddyn' nhw cyn fâned a siwrwd mawr cyn myned haner y ffordd i waelod y ffau:—"A ddeil ei ffordd—ac a chwanege gryfder." Y mae fo yn myned yn gryfach ac yn wydnaach o hyd. Yr ydwyf fannau yn ddigon llipa hefo'r pregetha yma yn aml, ond yr ydwyf fi yn myned yn wydnaach o hyd hefo hi, fel yr ydwyf fi yn nesu i'r pen:—"Ac a chwanege gryfder."—"A ddeil ei ffordd":—

1. Oblegyd y mae mewn undeb a digon o fodd i ddal; y mae ganddo egwyddor i ddal; y mae y ddadl mewn perthynas i wirionedd, gwerth, a phleserau crefydd wedi eu llwyr dori. Gall y rhai hyn ddweyd, "Rhoddaist lawenydd yn ein calon, mwy na phan yr amhâdd eu hÿd a'u gwin hwynt." Cawsom fwy o lawenydd yn y lafar yma nac mewn dim yn y byd yma: "A ddeil ei ffordd." Myned adref y mae—y mae ganddo *gumpains feind*. Y mae mewn undeb a digon o fodd i ddal. Ni chaiff o ond tipyn o arian traul yma; gwell ydyw hyny ar ei les; ond y mae pob un o honyn' nhw mewn undeb a'r "anchwiliadwy olud,"—"ac o'i gyflawnder ef," meddant, "y derbyniasom ni oll, a gras am ras." A dyna paham yr ydym ni yn eloddio tipyn o lÿnan, i ni fyned o nerth i nerth. Pa beth ydyw dyben y darllen y Beibl yma ar ein penau ein hunain, y gweddio yn y dirgel, yr addoliaid teninaidd? Yr ydym yn cael ynddyn' nhw ryw help i "ddal eu ffordd." Yn y cyfarfod gweddi a'r ysgol Sul a'r cwbl, yr ydym am wersyllu o amgylch Golgotha.

2. Y mae gen y cyflawn hefyd *egwyddor* a *metel* i ddal ynddi. "Y dwfr a roddwyf fi iddo a fydd ynddo, yn ffynon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol." Nid cael ei yru y mae hwn gan ail-achosion, fel pe byddai un yn ceisio taffu careg i fyny yn nerth ei fraich; a hyny o nerth a rydd y dyn a aiff i fyny, ond i lawr y daw y gareg wed'yn. Ond am yr egwyddor sydd yn

“y cyfiawn” yma, o’r nefoedd y mae hi wedi dyfod, ac yno y mae yn myned. Gwelsoch ar wlaw, lawer gwaith, riw ridis yn cadw twrw garw iawn mewn manau na bydd yno ddim dwfr ar amserau eraill—y dwfr yn rhedeg, a’r ceryg yn curo eu gilydd. Ond ni chodiff neb yn ei *sense* gymaint a melin eithin yn agos ato. Ond am egwyddor dduwiol, “Nid ydyw Duw yn annghyfiaw’n fel yr annghofio eich gwaith, a’r llafurus gariad a ddangosoch tuag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i’r saint.”—“Wel, ië, rhyw weini yn rhyfeddol am ryw *blwc* yr oeddyn’ nhw,”—na mwy,—“ac ydych yn gweini.” Dyma y “pethau gwell a’r pethau ynglyn wrth iachawdwriaeth,”—sydd yn para o hyd gyda chrefydd. Dyma un o’r arwyddion goreu fod ganddynt rym duwioldeb—eu bod yn “dal eu ffordd.” Y mae yn fwy na “phrofi y rhodd nefol a nerthoedd y byd a ddaw.”

3. Y mae y ddadl hefyd mewn perthynas i wirionedd crefydd, i werth crefydd, ac i bleserau crefydd, wedi ei llwyr dori. Mi gychwyhodd Orpah o wlad Moab, ond yn llipa iawn; ond mi aeth yn ei hol. Cychwynodd Ruth a’r ddadl wedi ei thori am y gwir Dduw a’i achos. Dacw Orpah yn troi yn ei hol; a dyna Naomi yn codi Ruth i’r gwynt:—“Ruth, dychwel i’th wlad gyda’th chwaer ynghyfraith,” meddai Naomi wrth Ruth; “nac erfyn arnaf fi i ymadaw â thi,” meddai hi, “i gilio oddiar dy ol di; canys pa le bynag yr elych di yr af finnau; ac yn mha le bynag y lletyech di y lletyaf finnau; dy bobl di fydd fy mhobl i, a’th Dduw di fydd fy Nuw innau.”—A welwch chwi mewn difrif, nid aethai hi ddim yn ei hol, pe buasai y cythraul yn gafael yn ei thrwyn hi.—Ni wel y cyfiawn bellach byth ddigon i wneyd bargaen am dano gyda’i grefydd. “A ddeil ei ffordd.” “Myned adref,” ydyw yr ebwch cyntaf, y mae y “y cyfiawn” yn ei roddi gyda chrefydd. Taflodd ei angor y tu fewn i’r llen; ac ar ol ei angori tu mewn i’r llen y mae yntau yn myned. Y mae gwahaniaeth—er nad wn i fawr iawn am y morio yma—ond yr ydwyf fi yn meddwl nad yw y cristion ddim yr un fath yn union a’r morwr. Y mae y morwr yn dewis taflu angor i dir cleilyd; a pho mwyaf fydd y tywydd *soundia* yn y byd y mae hi yn myned; ac wedi i’r tywydd garw fyned trosodd, codi ei angor i’r *deck* y bydd ef. Ond pan y bydd y cristion yn darfod, myned uwch ben ei angor y mae ef. Yn adgyfodiad y meirw, bydd ei gorff, gyda’i enaid, yn cael ei wneyd yn gyffelyb i’w gorff gogoneddus ef. Ac nid oes a’u cwyd yn gysurus i gyfarfod ag angau ond y grefydd yma. Y mae yn rhywbeth *odd* iawn fod cymaint o iasiau yn myned trwyddai i wrth feddwl am y marw yma, a minnau wedi bod mor hir gyda chrefydd. Mi fyddaf fi yn meddwl yn amal am yr hen bobol yn canu,

“Mae, mae
Yr amser hyfryd yn nesáu.”

Pe y gofynwn i i Williams—"Pa amser ydyw yr 'amser hyfryd' yma?"—yr ateb ydyw

"Pan gaffo'm henaid ei ryddhau,
O'm tŷ o glai fyn'd tu a'm gwlad,
Nid yma mae 'ngorphwysfa i,
Mae hono fry yn nhŷ fy Nhad."

—yr amser y bydd yr enaid a'r corff yn myned i ymadael â'u gilydd—yr amser pan y bydd y *doctor* yn rhoddi i fyny ac yn troi ei gefn—dyna yr "amser hyfryd" y cenir wrth ddisgwyl am dano. Pa beth a wna effeithio hyn?—Cael gafael yn y grefydd yma, "Y cyfiawn a ddeil ei ffordd; a'r glân ei ddwy-law a chwanega gryfder."

PREGETH XIII.

"Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder; canys hwy a ddiwellir."—MAT. v. 6.

"Dw wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab." A Dw yn ei Fab a lefarodd y geiriau hyn, yn ei bregeth ryfedd ar y mynydd. Efe oedd y pregethwr cyntaf, ac efe oedd y pregethwr goreu.—"Dechreuwyd traethu yr iachawdwriaeth gan yr Arglwydd, a sicrhawyd hi i ni gan y rhai a'i clywsant ef,"—yr apostolion. Ac nid oedd ryfedd i Paul ddywedyd—"Edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru." Yr oedd yr Arglwydd Iesu Grist yn pregethu y bregeth yma i bregethwyr, ac i gynulleidfa fawr oedd wedi ymgynull ynghyd i wrando ar y Dysgawdwr mawr. Dengys Luc i ni fod yr Iesu wedi bod yn gweddio trwy y nos tan y boreu cyn pregethu y bregeth hon, fel y darfu fo hefyd o flaen neillduo yr apostolion i'w swydd; yr hyn sydd yn dangos mai y peth mwyaf yn y byd ydyw pregethu yr efengyl; a phe byddem ninnau yn gweddio mwy, a phe gweddiech chwithau fwy, cyn dyfod yma, byddai mwy o fendith i ni i'w gael wedi dyfod yma. Arwyddion amlwg o galedwch, ydyw difaterwch mewn gwlad am weddio. Wedi i'r Iesu fod yn gweddio trwy y nos, fe ddaeth i waered yn y boreu i'r gwastadedd; a chyda'r dydd yr oedd o yn bwrw cythreuliaid allan nes yr oeddyn' nhw yn chwyrlio. Ac yr oedd cynulleidfa fawr iawn yn ei ganlyn o. Ciliodd yr Arglwydd Iesu, i ryw ddyben doeth, yn ol drachefn i'r mynydd. Y mae bendithion fyrdd yn yr holl hanes am y Gwardwr mawr. Ciliodd i'r mynydd; ac fe gafodd yr Iesu ryw dapiau uwchlaw y bobol, ac eisteddodd yn ol dull y Rabbis Iuddewig,—y rhai a godent i fyny i ddarllen, ac a eisteddent i esbonio. Dyrchafodd

yr Athraw mawr ei lygaid, ac agorodd ei enau; ac y mae yma bob gwreichionen fel oddiwrth y gof aur. Ni bu neb erioed yn agoryd ei enau, a chymaint o *warehouse* y tu ol iddo—a chymaint o drysorau a'r Iesu o Nazareth. Mewn cregyn malwod y dylid rhoddi y rhai hyny a ddywedent er's tipyn yn ol, fod pregethwyr mwy na fo wedi codi ar ei ol o; y rhyfyg mwyaf ydyw dweyd dim o'r fath beth. Yr oedd mwy yma na Dr Chalmers. Yr oedd trysorau doethineb a gwybodaeth yn drysoredig yn ei Berson; yr oedd "holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorfforol" ynddo. Ac nid oedd (fel y mae y brophwydoliaeth yn dangos) yn "dryllio corsen ysig, nac yn diffodd llin yn mygu." Un tirion anghyffredin oedd yr Arglwydd Iesu wrth gywirdeb, er y byddai yno lawer iawn o waeledd; ond byddai yn ei dweyd yn hallt ofnadwy wrth bobol y *paint* a'r *whitewash*—cyhoeddai y gwaeau mwyaf ofnadwy uwchben y *siort* yma, ond "ni ddrylliai gorsen ysig, ac ni ddiffoddai llin yn mygu." Gall y gwanaf, a'r gwaelaf o'i ddisgyblion yma wybod os wyt o rifedi y bobol wynfydedig, tyr'd di i wyneb y bregeth yma, "Gwyn eu byd y tlodion yn yr Ysbryd," meddai, "canys eiddynt yw teyrnas nefoedd." "Gwyn fy myd," meddai llawer un, "na chawn i ddigon o grefydd i gau pen fy mwdwl;" byddai hyny yn ddigon ar unwaith i ddangos nad wyt ti ddim wedi dechreu—nad ydyw y wana gyntaf wedi ei dechreu eto. Mi ddylid fod ar *dot* yn ymofyn am gardod i dy enaid yn mhob peth ar hyd dy oes, pe cait ti fyw cyhyd a Methuselah. Ond gwyn dy fyd os wyt yn cardota.—os wyt yn gwel'd dy angen, ac yn gweddio drosot dy hun, a thros dy frodyr; dyma fel y mae y saint. Ac yn y testun, "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder, canys hwy a ddiwellir." Yr ydwyf fi yn siwr na chauiff neb yma mo'i lygaid, os ydyw y newyn yma arno. "Gwyn fy myd," meddai ryw un "pe gallwn i ddweyd fod cyfiawnder Crist yn eiddo i mi;" na gwyn dy fyd di, os oes arnat ti newyn a syched am ei gael. "Gwyn fy myd os ydyw delw Crist arnaf fi,"—na gwyn dy fyd di os oes arnat ti newyn a syched am ei chael—os oes yna hiraeth a dymuniad am fod yn sanctaidd yn y byd a ddaw. Hiraethu sydd yma, yn y byd a ddaw y mae y diwallu. Byddi wedi dy ddiwallu yno, ond ni byddi fawr uwchlaw dymuno yma. Pa bryd y caf fi fy niwallu? Bydd dy enaid wedi ei ddiwallu, cyn gynted ag yr âi di i'r nefoedd; ac yn moreu yr adgyfodiad bydd y corff hefyd wedi ei ddiwallu. Y bobol sydd a newyn a syched arnynt am gyfoeth, ni ddiwellir byth mo honyn' nhw; y bobol sydd a newyn a syched arnynt am barch y byd—y ffroth salaf ydyw hwnnw, ni ddigoniff o neb byth; y neb sydd yn sychedu am bleserau y byd, ni wnaiff y rhai hyny ond codi gwanc ar dy

gorff a'th enaid. Ond oes yma newyn a syched am gyfiawnder, fe gai dy ddiwallu.

Y mae gŵr mawr iawn mewn duwioldeb a dysgeidiaeth—John Calvin—yn dweyd fod yr Arglwydd Iesu a'i olwg yn neillduol yn y fan yma ar yr apostolion; fel pe buasai yn dweyd wrthynt—"Cewch lawer o anghyfiawnder yn y byd yma; cewch eich dwyn o flaen swyddogion gwladol, eich camgyhuddo a chamdystiolaethu yn eich erbyn; bydd ynoch newyn a syched am gyfiawnder y pryd hwnw, ac am i mi ddyfod i godi pen y diniwed; a byddaf yn dyfod â thân fflamlyd, gan roddi dial ar y sawl nid adwaenent Dduw." Y mae diwrnod *just* yn ymyl, y caiff pawb chwareu teg ynddo, a bydd Duw yn codi pen y diniwed, ac yn rhoddi yr annuwiol yn y wasgfa, na ddeuant byth oddiyno.

Un o'r barnedigaethau trymaf yn y byd yma, mewn ystyr naturiol, ydyw "newyn." Y mae marw o newyn yn cael ei osod allan yn y Beibl, fel peth mwy ofnadwy na marw trwy y cleddyf. Ond un o'r barnau trymaf yn ysbrydol yn ngwiad efengyl ydyw bod *heb* y newyn yma y mae y testun yn son am dano. Clywed trwy ein hoes am y cyfiawnder a weryd rhag angau, y caet ynddo ddigon o fodd i sefyll o flaen gorsedd Duw, a myned o bob odfa heb ei gael,—y mae hyn yn beth trwm iawn. Ac nid oes dim rhwng yr un sydd yma a chael gafael ar ddigon am amser ac am dragywyddoldeb, ond dyfod i'r teimlad yma.

I. PA BETH YDYW Y CYFIAWNDER YMA Y MAE Y SAINT YN NEWYNU AM DANO.

Cyfiawnder cyfrifol yr Arglwydd Iesu Grist—y cyfiawnder y mae Jehofah farnwr yn ei roddi o blaid pechadur mewn barn i wynebu ei orsedd pan y credo y pechadur yn Mab Duw. Cynwys hyn sancteiddrwydd natur Crist (Heb. vii. 26.), ufudd-dod ei fuchedd (Phil. ii. 8.), a loesion ei angau.

II. PA BETH SYDD YN CODI Y NEWYN YMA?

Y mae yn codi oddiar wir argyhoeddiad o bedwar peth:—

1. Yr angen sydd arnat am y cyfiawnder yma i sefyll ger bron gorsedd Duw cyfiawn. Un o ddeiliaid llywodraeth gyfiawn Duw wyt ti, a'r farn a fydd. Y mae a wnelo Duw cyfiawn a phob un o honom; a rhaid i gyfiawnder gael ei foddioni, neu byddwn heb ein hachub byth. "Y mae Duw wedi gosod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder trwy y gŵr a ordeiniodd efe."

2. Na thâl un peth a feddi di dy hun yn gyfiawnder;—na thâl dy ddiwygio, na'th weddio, na'th broffes. "Wel," meddi, "nid yw yn *ddigon*, ond y mae o yn rhywbeth"—na nid yw yn *dim* yn y cyfiawnder yma; ac wedi dy oleuo cyfrifi y cwbl yn

dom ac yn golled; mi gei weled wed'yn nad ydyw dy holl gyfiawnderau ond fel papur llwyd rhyngot ti a thân ddigofaint Duw.

3. Dy oleuo am ogoniant y cyfiawnder yma; ar ol hyn dyna fyddai genyt tithau o hyd fel Paul—"Y'm cair ynddo ef." Y mae son yn y Beibl yma "am farw i'r ddeddf trwy y ddeddf;" gorfod marw, *ffuelio* byw; "Marw i'r ddeddf trwy gorff Crist;" dewis marw yn yr olwg ar ogoniant y gwaith a wnaeth Crist ar bren y groes. Ond i ti unwaith weled gogoniant y gwaith a wnaeth ef, gollyngi dy afael o bob peth arall yn naturiol yn yr olwg arno. "Yr wyf fi," meddai Paul, "trwy y ddeddf, wedi marw i'r ddeddf;"—ac mewn man arall, "Chwychwi ydych wedi meirw i'r ddeddf trwy gorff Crist." Golwg ar Grist yn marw ar ben Calvaria, a wna i ti ollwng dy afael o bobpeth; a dyna fydd dy iaith trwy dy oes wed'yn—"Y'm cair ynddo ef, heb fy nghyfiawnder fy hun."

4. Dy oleuo am y dull y mae yr efengyl yn gosod hwn allan. "Ei gyfrif i bawb ac ar bawb a gredant, canys nid oes gwahan-iaeth.—Dedwydd yw y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd."

III. GWEITHREDIAD YR ENAID YN Y NEWYN.

1. Y mae yn beth teimladwy. Nid rhywbeth cyffredin ydyw newyn, y mae rhywbeth anghyffredin ynddo. "Fel y brefa yr hÿdd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat ti o Dduw. Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw." Rhaid i bawb gael yr un peth neu fod byth yn golledig.

2. Y mae y newyn yma yn dyfod â dyn i ddibrisio pobpeth mewn cyferbyniad i'r peth a wnaiff ei dori. Daw dyn i ollwng ei afael o bob peth am damaid o fara.—Dyma fel yr oedd yn Nghanaan gynt. Pan glywodd Jacob fod yd yn yr Aipht dywedodd wrth ei feibion, "Paham yr edrychwch ar eich gilydd? Wele, clywais fod yd yn yr Aipht, ewch i waered yno a phrynwch i ni oddiyno, fel y byddom fyw, ac na byddom feirw." A dacw ddeng mab Jacob yn cychwyn; a phan oeddyn' nhw yn dyfod tua'r Aipht, a thua *storehouses* Joseph,—bychan y gwydden' nhw mai bachgen y siaced traith oedd y *Prime minister*. Nid oeddyn' yn ei adnabod o ar y cyntaf, ond mi ddaeth y newyn a nhw i'w adnabod o cyn y diwedd. Mi ymddygodd Joseph yn galed tuag atynt am ryw dymhor;—"Ysbiwyr ydych chi," meddai, "i edrych noethder y wlad y daethoch." "Diau," medden' nhwythau o'r diwedd, "diau bechu o honom yn erbyn ein brawd; oblegyd gweled a wnaethom gyfyngder ei enaid pan ymbiliodd efe â ni, ac ni wrandawsom arno ef; am hyny y daeth y cyfyngder hwn arnom ni." "Y mae yn agos i ugain mlynedd er pan y darfu i chwi werthu Joseph." "Oes,

ond y mae mor *blaen* o *flaen* ein llygaid ni yn awr a phe buasai ger ein bron. Yr ydym fel pe yn gweled ei ddwyllaw bach a'i wyneb gwelw, pan oedd yn nwyllaw yr Ismaeliaid."—Pan ddaw yr hen *driciau* i'r golwg, mi fydd yn waeau ofnadwy. Peth garw ydyw i'r gydwybod ddechreu cyhuddo.—“O,” medden' nhwythau wrth Joseph, “gwŷr cywir ydym ni.” “Wel,” meddai Joseph, “rhoddaf Simeon yn ngharchar, a deuwch chwithau a'ch brawd Benjamin gyda chwi.” A dyma fo yn eu gollwng nhw yn rhydd i fyned adref. Wedi cyrhaedd adref, a dweyd yr hanes i'w tad, mi effeithiodd yn fawr ar yr hen batriarch; a dyna fo yn tori allan ac yn dweyd, “Joseph nid yw fyw”—dyna gelwydd Jacob—“a Simeon yntau nid yw fyw,”—dyna gelwydd eto—“Yn fy erbyn i mae hyn ol,”—anwiredd bob gair; a glywch chwi mewn difrif ar yr hen batriarch yn palu celwydd dan ei ddwyllaw. “Nid â fy mab i i waered gyda chwi,” meddai yn benderfynol, gan daro'i droed yn llawr; ni wyddost ti pa un Jacob. Paham? Y mae yr hen feistr mawr wedi dyfod yma—newyn. Y mae dynion yn hoffech o'u pechodau nag oedd Jacob o Benjamin,—“Ni wnaiff o byth eu gollwng nhw;” ni wn i pa un. Os daw y newyn yma yna, mi ollyngi dy afael o honynt yn lled fuan.—“Hen wrthgiliwr ydwyf fi, nid af fi byth yn ol i dŷ Dduw;”—na, mi *drottiet* tuag yno yr wytanos yma pe bai'r newyn yma yn dod arnat; mi ddoi i dŷ Dduw wedi yn ar draws pobpeth.—Wel, mi ddarfu yr ŷd oedd wedi dyfod yn y sachau o'r Aipht i gyd, a dyna y meistr mawr yn *commandio*.—“Ewch eilwaith,” meddai yr hen batriarch; “a phrynwch i ni ychydig luniaeth;” a dyma nhwythau yn dweyd wrtho,—“Y mae y gwŷr boneddig wedi dweyd, ‘Nac edrychwch yn fy wyneb oni bydd eich brawd gyda chwi,’ ac nid awn ni ddim yno hebddo.” Yr oedd amrantaau yr hen ŵr erbyn hyn wedi crychu tipyn, ac, meddai, “Pwy achos i chwi, yr hen dafodau llib genych, ddweyd fod genych chwi frawd; pam na fuasech chwi yn gwneyd eich *business* fel pobol eraill efo ‘hwda di a moes i minnau,’ heb fyned i hel eich *petigrees* yn y fan hono?”—“Wel yr oedd o yn ein holi ni—‘Ai byw eich tad eto;’ ac er ei fod o yn bur bigog, yr oeddym ni yn cael lletty am ddim, ac ŷd am ddim.” Yr oedd yr Aiphtiaid yn gallu masnachu efo ‘hwda di a moes i minnau,’ ond nid felly ei frodyr. Y mae rhywbeth y tu ol—wedi i ti oedi cyhyd o flynyddoedd, a Duw wedi estyn ei law atat dros gynifer o flynyddoedd, ni chei di ddim llonydd eto; hwyrach mai rhyw *Newfoundland dog*—rhyw glefyd dyeithr, y *Typhus* neu y *Scarlet fever* a'th wared di; fel y canodd yr hen brydydd

“Er cymaint o rwystrau gadd hon
Grym arfaeth a'i gyrodd ymlaen,”

—Parodd Jacob i'w feibion gymeryd dewis ffrwythau y wlad yn eu llestri a dwyn yn anrheg i'r gŵr ychydig falm, ac ychydig fêl. llyisiau a myrr, cnau ac almonau, a chymaint arall o arian rhag mai amryfusedd a fu;—a dyma yr hen ŵr yn ymwingo pan yn dweyd, “Hefyd cymerwch eich brawd, a chyfodwch, ewch eilwaith at y gŵr.” “A wyt ti yn *gildio*?”—“Wel, beth a wnaif fi, onid ydyw marw o newyn yn gwynebu arnom ni?”

3. Y mae rhyw ddymuniadau tanllyd iawn lle y mae y newyn yma.

4. Y mae yno hefyd ymdrech mawr.

5. Peth rhyfedd ydyw newyn am wneyd i ddyn *fentro*.

Nid aiff i wneyd esgusodion gyda'r peth yma a'r peth arall. Y mae o yn debyg fel yr oedd y pedwar gŵr gwahanglwyfus hyny yn mhorth Samaria; “Paham,” meddent, “yr aroswn ni yma nes ein meirw. Os awn ni i mewn i'r ddinas, marw sydd yno, os aroswn ni yma, marw sydd yma. Y mae hi yn galed iawn yn y ddinas, y mae pen asyn yn costio pedwar ugain siel o arian,”—neu, dros wyth bunt; neu yn ol y cyfrif lleiaf, tair punt a chweigain o'n harian ni,—“Y mae yn galed iawn yn y ddinas; paham yr ydym ni yn aros yma nes ein meirw?”—Yr wyt tithau yn aros ar wastadedd gwrando yn unig—dywed yn awr, “Paham yr arosaf fi yma nes fy marw?” Yr wyt ti yn disgwyl, hwyrach, am rywbeth mawr, ac hwyrach na chei di ddim cymaint peth ag a gefaist o'r blaen.—“Am hyny deuwch yn awr, ac awn i wersyll yr Assyriaid, o chadwant ni yn fyw, byw a fyddwn.” Ac wedi *mentro* mi aethant i ganol digon. Gwyn fyd na ddywedai pob un yma fel y pedwar gwahanglwyfus, “Awn i wersyll yr Assyriaid.” Y mae yn well genyf fi golli wedi *treio*, na cholli heb *dreio*; *treia* er yn llawn o waeledd, *treia* yn gywir, ac yr wyt ti yn sicr o gael gafael ar ddigon. Yr ydwyf fi yn dy wahodd di i le y byddi yn sicr o gael digon.—Y mae genyf fi well lle i'ch galw chw i iddo na gweryll yr Assyriaid—at Iesu, ac i wersyll y saint; y mae yr Iesu a'i freichiau ar led yn dywedyd, “Yr hwn a ddel attaf fi nis bwriaf ef allan ddim.”

IV. BETH SYDD YN Y CYFAWNDER YMA SYDD YN PERI I'R ENAID FOD MOR ANGERDDOL AM EI GAEL.

Y mae pob temtasiwn i anobaith yn cael ei symud, ond gwel- ed dy sefyllfa yn wyneb deddf Duw, mi ait ar dy ben i anobaith pe heb y cyfiawnder yma. “Ni thycia cyfoeth yn nydd digof- aint, ond cyfiawnder a weryd rhag angau.”—Y mae yn gwneyd i fyny am yr holl gam a wnaed â Duw. Y mae cyfiawnder wedi

ei wneyd gan y Meichiau—"Crist yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un sydd yn credu." Y mae yma fodd i ti sefyll yn ddigryn o flaen yr orsedd; dyma wisg a'th alluoga i sefyll o flaen y fainc yn ngwyneb y farn. Ac wedi i'r mab afradlon ddyfod adref, a'i wisgo â'r wisg oren, dyna y pryd y dechreuasant fod yn llawen. Ac wedi cael y cyfiawnder yma, mi elli ganu—

"Heb oleu ac heb lewyrch,
Ond dy gyfiawnder glân."

CASGLIADAU.

1. Gochelwn gymysgu dim â chyfiawnder Crist, nid oes yma ddim eisiau dy ysto na dy anwe.
2. Gochel gysuron heb hwn yn wreiddyn iddynt; ar y *trap door* yr wyt ti o hyd hebdo.
3. Gochel reswm anianol, gelyn ffydd. Mi aiff ffydd i'r nef-oedd tra y bydd rheswm yn rhoi ei *gap* am ei ben.
4. Gochel benrhyddid: gwylia droi gras Duw yn drythyllwch.

PREGETH XLV.

"Ac nid hyny yn unig eithr gorfoleddu yr ydym hefyd yn Nuw. trwy ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn yr awrtho'n y derbyniasom y cymmod."—RHUF. v. 11.

GALLESID meddwl fod Paul wedi dweyd digon yma am gadernid trefu yr iachawdwriaeth i achub pechadur tlawd; ond buasai y cwbl yn rhy fach i godi dyn i'w ddyben penaf, heb air sydd yn adnod y testun. Dyma y dyben, sef gogoneddu Duw a'i fwynhau,—“Ac nid hyny yn unig;” yr oedd o wedi son am lawer o bethau o'r blaen, ond yr oedd y cwbl yn rhy fach—“Eithr gorfoleddu yr ydym hefyd yn Nuw trwy ein Harglwydd Iesu Grist.” Yr oedd Paul yn ysgrifenu y bennod hon fel pe buasai fo ar fôr mawr yr iachawdwriaeth, a'r naill dôn yn hyrddio ar ol y llall:—“Ac nid hyny yn unig”—“mwy o lawer.” Y mae y Cristion o ran ei deimlad ar ei lawn hwda, ond yn nhrefn Duw gall glecian ei fawd ar bobpeth. Nid rhyfedd i Williams ganu

"Mae'r iachawdwriaeth fel y môr,
Yn chwyddo byth i'r lân;”

felly y mae y bennod hon. Y mae yn ddiamheu y caiff Duw fwy o ogoniant trwy ein Harglwydd Iesu Grist yn iachawdwriaeth pechadur, na phe buasai dyben penaf dyn yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y dyn cyntaf oedd o'r ddaear yn ddaearol; ac y caiff, mewn undeb a'r "Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo," ei wneyd yn gryfach o lawer i ddal mwy o ogoniant,—y mae yn myned fel rhyw seraph ynddo Ef.

Dyma beth yn y testun os cewch chwi ddechreu ei brofi, y gellwch ffarwelio âg uffern am byth. Dyma beth nas gŵyr y dyn annuwiol ddim byd am dano,—“Gorfoleddu yn Nuw.” Dyma beth na wŷr y rhagrithiwr ddim am dano, pa faint bynag ei ddoniau a'i wybodaeth. Gellwch freuddwydio am nefoedd â'ch dychymyg trwy eich hoes, heb fyned yno byth. Gellwch ofni uffern—cydwybod euog yn cnoi, yn eich cyhuddo am eich pechodau, a myned yno wedi hyny, a dweyd, “Yr hyn a fawr ofnais a ddaeth i mi.” Ond dyma allaf ei ddweyd wrthyt ti, gristion, os oes arnat ofn, nad ai i'r nefoedd, yno *yr ai di*, os wyt ti wedi dechreu gorfoleddu yn Nuw.

Ond i fyned at y breintiau yma sydd “yn chwyddo byth i'r lan.” “Gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd,”—dyma *stât* na bu 'rïoed *'siwn* beth; dyma *stât*,—doed a ddelo i'n cyfarfod—os gallwn ddweyd y gair yma, gallwn fyned trwy y cwbl,—“y mae genym heddwch tuag at Dduw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist; trwy yr hwn hefyd y cawsom ddyfoufa trwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll, ac yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw.” Mi feddyliwn i mai dyma ydyw y meddwl yma—gorfoleddu mewn gobaith bod yn y wlad lle y mae Duw yn egluro mwyaf o'i ogoniant ynddi—yn y drydedd nef;—bod yno wedi ein perffeithio ar ddelw Duw. Dyna berffeithrwydd dyn—delw Duw. Dyma a'n gwna ni yn wŷr mawr; ni chyfyd y byd yma yr un dyn i sefyllfa ag y gall o ryw hoetio llawer ynddi. Ond dyma ogoniant dyn—delw Duw. Wel, ystyriwn a ydym ni mewn gobaith cael gorphen gwisgo delw Duw, a rhoddi yr holl ogoniant i'r Drindod sanctaidd yn yr Undod am drefn fawr yr iachawdwriaeth i'n haichub ni!

A dyma dôn yn hyrddio yrwan:—“Ac nid felly yn unig, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau, gan wybod fod gorthrymder yn peri dyoddefgarwch.” Ystyriwch chwi yrwan, mi feddyliwn i mai dyma yr ystyr yma;—y mae angen am fod yn ddyoddefgar pan y bydd pethau anhawdd i'w dyoddef yn ein cyfarfod; a pha fwyaf a weithredwch chwi ar amn-edd, cryfaf yn y byd aiff hi; ond os ai di i gicio'r stent, a rhedeg y *car*, gwaethaf yn y byd fydd hi arnat ti.—“A dyoddefgarwch brofiad”—mi gei brofiad o beth nas cefais o'r blaen—profiad o ffyddlondeb Duw i'w addewidion na ddarfu i ti erioed eu teimlo o'r

blaen. Yr oedd yr adnod hono genyt mewn addewid o'r blaen—“A chadernid Israel ni ddywed gelwydd;” a “Pan elych trwy'r dysrceidd myfi a fyddaf gyda thi,” a chei brofiad o honi—“pan rodiech trwy'r tân ni'th losgir,”—mi ai trwy hwnw yn *saff*. Yr wyt ti yn darogan, pan y daw rhywbeth i dy gyfarfod, mai syrthio dan draed y gelynyon fydd y diwedd, ond “haiarn a phres fydd dan dy esgid di;” ni waeth i ti bwn mawr na phwn bach, ond cael nerth yn ol y dydd; mi gei brofiad, a phrofiad nes myned o sŵn gofidiau'r byd yma, a phrofiad o beth ynot dy hunan na ddarfu i ti feddwl am dano o'r blaen.—“Cyfaill cywir yn yr ing y'i gwelir.” Y mae mwy o *friendship* rhyngot ti a'r Iesu, nac a wyddost dy hunan,—“Pe yr ai yn ferthyru eto yn y wlad yma fe wadai mwy na'n haner ni Iesu Grist,”—na, hwyrach y daliai mwy nac a feddyliech chwi.

Wel dyma y don fawr, geiriau y testun:—“Ac nid hyny yn unig, ond gorfoleddu yr ydym yn Nuw”—yn Nuw ei hunan. Mi fyddwn ni, mhobol i, cyn pen ychydig iawn yn gorfoleddu yn Nuw, neu ynte yn gwaeo ein geni, wedi credu ei fod a theimlo ei lid: fe orfydd i'r dyn y mae annuwiaeth wedi duo ei enaid gredu ei fod, a daw Duw i lenwi ei gynheddfau yn ei lid. Beth y mae y duwiolion yn ei wneyd yn awr yn y nefoedd? Gorfoleddu yn Nuw;—ac felly y byddant yn mhen miloedd o flynyddoedd. Dyma beth na fedd neb mo hono ond y bobol dduwiol—y *step* gyntaf yn iachawdwriaeth pechadur, ac y mae yn myn'd i fyny yn uwch o hyd nes myned i'r *settled fair* cyn diweddu.—Nodaf rai o arwyddion y gras hwn.

I. GALARU AR OL DUW A HIRAETHU AM DDUW.

Arwydd dda am dy gadwedigaeth ydyw fod hiraeth yn dy enaid am l duw, fel yr oedd Israel yn galaru ar ol yr Arglwydd. Ac os oes yma blant afradlon yn dechreu blino ar wlad y cibau, —a ydych chwi ddim yn dechreu dweyd bellach—ar ol llenwi eich boliau a'r cibau a fwytai y moch—mae'n ddigon hawdd i chwi wybod nad ydyn' nhw ddim yn gymhwys i chwi, na chwi-thau iddyn' nhwythau—“Nid arosaf yn ddim hwy yn wir yn ngwlad y cibau yma, mi a godaf ac a uf at fy nhad.” Ac mi feddyliwn i fod ei dad wedi anfon wythnos yn ol am i neb beidio rhoi dim iddo, mai elusen oedd peidio rhoddi dim iddo. “Y mae yn rhaid i mi gael y Duw a gollais i yn ol, onide ni byddaf fi ddim yn ddedwydd byth.”—Yr oedd rhyw ddyn annuwiol cyhoeddus yn un o chwarelau Sir Gaernarfon; byddai yn arfer dyfod i foddion gras; ond rhyw nos Sabboth yn yr odfa, mi ddaeth Duw i lenwi ei feddwl o; “nid oedd Duw yn ei holl feddyliau” o'r blaen; ac ar ol iddo fyned adref, yr oedd

ei wraig fel y mae Bunyan yn son, yn meddwl ei fod yn dechreu myned o'i gof; nid oedd yr un fath mewn dim; yr oedd pob peth wedi newid. Mi aeth at ei waith boreu dydd Llun, a dyna fo yn dyfod adref min nos; mi gredodd ei wraig y pryd hwnw ei fod o wedi colli ei synwrau. "Wel," meddai wrthi, "ni threuliais i yr un diwrnod yr un fath yn y chwarel erioed o'r blaen. Nid oeddwn yn clywed y dynion yn siarad, nac yn gweled mo'r creigiau yno." "Wel, beth oedd arnoch chwi?" "Duw oedd yn llenwi fy meddwl i; ac nid oedd dim a'i tawelodd nes syrthio wrth ei draed i ofyn am drugaredd a maddeuant, ac hefyd gael lle yn mhlith ei bobol o."

II. YMDDIRIED YN NUW PAN FYDD HI YN DYWYLL AR-NAT TI.

Pan fyddi mewn ofnau—ymddiried yn Nuw. "Y dydd yr ofnwyf," meddai y Salmydd, "yr ymddiriedaf ynot." Gallai fod yma rai o'r bobol y mae Esay yn son am danynt, "Pwv sydd yn eich plith yn ofni yr Arglwydd, ac yn gwrando ar lais ei was?" Y mae yma rai nad oes neb arall yn meddwl nad ydych yn ofni yr Arglwydd, ond yr ydych yn ofni eich hunain. "Y mae yn dywyll fel y fagddu weithiau." Wel, ni wiw rhoddi dim cynghor iddynt ond "Ymddiriedwch yn yr Arglwydd, ac yn iachawdwriaeth Duw." "Pe lladdai efe fi," meddai Job, "eto mi a obeithiwn ynddo." "Ymddiriedwn yn yr Arglwydd byth, o herwydd yn yr Arglwydd Dduw y mae cadernid tragywyddol." Y mae cael meddwl mawr am Dduw yn ddigon i wywo pob peth isel o'n cwmpas ni.

III. DYMA WEITHREDIAD UCHAF Y MEDDWL DYNOL—"GORFOLEDDU YN NUW."

Y mae geiriau y testun yn felus i'w ryfeddu, "Trwy ein Harglwydd Iesu Grist." Y mae Duw yn ei hanfod, ei bersonau, a'i briodoliaethau yn ddychryn i'r annuwiol allan o Grist. Y mae yn ddychryn iddo ei fod yn gyfiawn, oblegyd y mae ei gleddyf yn cael ei hogi ato ef. Y mae yn ddychryn iddo feddwl ei fod yn Dduw y gwirionedd, o ran y mae fo wedi dweyd, "Oni ddychwel yr annuwiol efe a hoga ei gleddyf,"—ac fe saif at ei air. Ond y mae lle i ti droi oddiar ei ffordd heddyw,—y mae drws y noddfa yn agored yn awr. A fedrwch chwi ddweyd gyda'r Salmydd, "Bydd melus fy myfyrdod am dano?" Yn Iesu Grist, y mae yn felus myfyrdod y saint am gyfiawnder, sancteiddrwydd, ffyddlondeb, hollalluogrwydd, hollbresenoldeb, a hollwybodaeth Duw. Y mae yn dda gan y dyn gonest fod

Daw yn hollwrthodol. Trwy ffordd y cyngodau yr weli y diw-
 elion tan y Hen Testament yn gorfodolau yn Nuw. Yna yr
 âf at alor Daw, meddai y Salmwr. "at Daw, iwyf iwyfch fy
 gorfoledd."—*Pethau Daw yr ydych chi'n ti:* "na, Daw ei hun-
 an. Y mae yn ddiffrwch genyt i edrych ar bethau Daw, ond
 efe ei sun ydyw gwrthych fy ngorfodolau. "Pan edrychwyt
 ar y nefoedd, gwach dy ffrwyd, y loer a'r ser y rhai a ardein-
 iast." Y mae yn rhaid fod Daw yn rhywun mawr gan ei fod
 wedi rhoi i y foch gwrthych. Ond yn Nuw ei hun y mae fy
 hyfrydwch i. "Canaf i ti a'r delyn, O Daw, fy Naw." Ni
 chawsit ti ddim piesser yn y byd yma a ddi son am dda, heb or-
 foleddu yn Nuw: na chwa piesser yn dy deun heb eu magu i
 fydaw: na am iddynt gael ei gymmod yn aberth y groes,
 onde ni fydd yn ddychryn i ti eu cyfarfod nhw. "Trwy ein
 Harglwyd Iesu Grist,"—efe a gafodd iawn. Ni chawsit ti
 byth orfoleddu yn Nuw oni buasai iddo Ef gael iawn: "Efe a
 lawrhodd y gyfraith ac a'i gwnaeth yn anrhydeddus." Ynddo
 Ef y mae holl briodoliaethau y Duwdod yn dysgleirio yn iach-
 awdwriaeth pechadar; "trwy yr hwn yr awrhon y derbyni-
 om y cymmod." Pa faint sydd rhwng y dyn a chael cymmod
 â Daw? Dim ond ei dderbyn. Pe buasai rhyw â'r mawr yn
 anfon rhodd i ddyn tlawd yn y dref, buasai yn rhaid iddo ei
 derbyn, cyn y galleid dweyd ei bod yn eiddo iddo. Y mae
 Iaw Dad wedi derbyn yr iawn gan y "Dyn a'r Duwdod yn-
 ddo'n trigo;" derbyn dithau Iesu Grist, fel y mae yn cael ei
 gynyg i ti, byddi wedi derbyn y cymmod; ac mi elli orfoleddu
 yn hanfod y Duwdod,—yn mhersonau y l rindod,—yn mhriod-
 oliaethau Daw,—a'r cwbl trwy Iesu Grist; gelli orfoleddu yn
 Nuw Dad fel Trefnwr,—yn Nuw Fab fel Gwneuthurwr ac Awd-
 wr iachawdwriaeth, ac yn Nuw Ysbryd Glân fel y Cymhwyswr
 o honi. Nid mewn gallu dyn ac ewyllys rydd y mae iachawd-
 wriaeth dyn; ond mewn "gorfoleddu yn Nuw;" ac wedi hyn
 cânt gysuron fel yr afon; cânt eu llawn ddigoni â brasder ei dŷ,
 a'u diodi âg afon ei hyfrydweh.

Wel, gwelwn anfeidrol werth Iesu Grist, trwy yr hwn y mae
 yr holl fendithion yn dyfod yn eiddo i ni. Pa fodd y caf faddeu
 fy holl bechodau mawr?—Wel, i hwn y mae yr holl brophwydi
 yn dwyn tystiolaeth y derbyn pwy bynag a gredo ynddo fadd-
 euant pechodau. Pa fodd y caf fi nerth i gyflawni fy nyled-
 swyddau—i orchfygu fy nhemtasiynau, ac i fyned trwy fy
 mhrofedigaethau? Pa fodd yr âf fi i'r nefoedd—gwlad ddyeithr
 iawn i mi? Ni buasai wiw i ni ddangos ein hwynebau ynô heb
 duabod Iesu Grist. Wel, ynddo Ef y mae y cwbl; a chawn
 i fwy na choncwerwyr trwy yr hwn a'n carodd ni.

PREGETH XV.

“A’th gynghor y’*m* harweini, ac wedi hyny y’*m* cymmeri i ogoniant.”
PSALM lxxiii. 24.

YR oedd cyfansoddydd y Salm yma yn edrych yn ol, ac yn sylwi ar yr adeg bresenol, ac y mae yn y testun yn edrych yn mlaen i’r sefyllfa ddyfodol. Creaduriaid ydym ni sydd yn rhaid i ni edrych yn ol. Y mae pob creadur rhesymol yn gyfrifol i Dduw; ac ni bydd dim cysur i’w gael wrth edrych yn ol heb grefydd iawn; bydd yn ofnadwy edrych yn ol wedi byw yn annuwiol; ond bydd yn ddifyr iawn edrych tua’r blaned yma wedi byw yn dduwiol—wedi y cynal a’r dyddanu a gefaist ar y daith. Yr oedd y Salmydd yn craffu ar yr adeg bresenol. Pa fodd y daw hi arnat ti eto? Wel, “A’th gynghor y’*m* harweini.” Beth ddaw o honot ti wed’yn, wedi iddi fyned i’r pen arnat ti? “Wedi hyny y’*m* cymmeri i ogoniant.” Ni raid i Dduw ddim gofyn cenad neb i fyned a’i bobol, wedi iddynt orphen addfedu, i wlad well. Y mae pawb o honom yn addfedu i’w le ei hunan; y mae yn hawdd gweled hyny wrth sylwi ar bobol yn y byd yma. Y mae yn *odd* iawn genyf fi, sydd yn ddyn annysgedig, fod dysgedigion yn breuddwydio nad ydyw sefyllfa ddyfodol yn eglur yn yr Hen Destament. Y mae hi yn siwr o fod yn eglur iawn yno; fel y gallwn ni brofi o lawer iawn o fanau heblaw yn y testun. Y mae nhw yn ceisio rhyw spwbio gyda’r geiriau hyny a ddywedodd Job—“Canys myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear; ac er ar ol fy nghroen i bryfaid ddyfetha y corff hwn, eto caf weled Duw yn fy nghnawd,”—trwy ddweyd mai rhyw adnewyddiad yn y byd hwn a feddylir. Ond ni choelia fi fawr; mi fyddai mor hawdd genyf fi feddwl y gallai rhai o’r hen wragedd yma roi Cader Idris mewn *cannister tea*, a meddwl nad oedd gan Job ddim byd ond rhyw lwyddiant bydol oedd o’i flaen yn y byd yma, mewn golwg wrth son am bethau mor fawr. Nid oes dim ond crefydd a rydd gysur i ni wrth edrych yn ol ac yn mlaen hefyd. Y mae crefydd iawn yn rhoi cysur i ni i edrych yn mlaen. Pa le y byddi di fil o flynyddoedd i heddyw? Byddi wedi myned “i ogoniant,” ac iddo y byddi yn myned o hyd—“Dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd”—bydd y gair yna o’r tu ol i ti o hyd. Bu iâsiau ynom wrth ddechreu ein crefydd, wrth feddwl ein bod i fyw byth; ond daw yn hoff genyt ti, fel y byddi byw gyda chrefydd, feddwl mai creadur i fyw byth wyt ti, i roddi clod i Iesu Grist yr hwn a’th garodd ac a’th brynodd. Yr oedd y

Salmydd yn edrych yn ol; yr oedd yn cofio rhyw sdeg bur lipa arno—"braidd na lithrodd fy mhroed;" yr oedd wedi cymeryd hynny yn brofedigaeth—cenfigenu wrth y rhai ynfyd. Y mae yn eu galw yn ynfyd, ac y mae yn galw ei hun yn ynfyd hefyd; am ymudwyn fel y darfu fo—"Anifail oeddwn o'th flaen di." meddai; "hyd onid aethum i gysegr Duw."—yr oedd y lampau tragwyddol yn goleuo yno—"yma y deallais eu diwedd hwynt." Pwy a genfigenai wrthynt wedi yn? Pwy fyth a fuasai yn cenfigenu wrth yr annuwiol, a thragwyddoldeb o rincian dannedd o'i flaen, er iddo gael pob peth a ddymunai ei galon yn y byd yma. A thithau a phrofedigaethau yn dy gyfarfod bob dydd, ond pwy a gwynai i ti, tra y mae tragwyddoldeb o ddedwyddwch yn dy aros yn y pen draw?—"Am hynny y dychwel ei bobl ef yma, ac y gwesgir iddynt ddwfr phiol lawn." Y mae llawer o'r dysgedigion wrth fyned at yr adnod yma, a'u pinau ysgrifenu yn sefyll ac yn methu myned yn mlaen; ond mi feddylw'n i fod y meddwl wedi dyfod allan gan Archddiacon Meirionydd—

"Y rhai o'r bobl mewn drwgchwant,
Ymchwelant i'r un yrfa;
A dwfr llwyddiant llawn o'r tir
A wesgir iddynt yma."

—wrth geisio dynwared yr annuwiol. Byddai yn well iddynt *dreio* dynwared y *Bank of England* pan oeddynt yn crogi dynion am *forgio*. Y mae yn beryglus i'w bobl ef ddychwelyd i'r un yrfa. Yr oedd yn edrych yn ol, yn cofio fod Duw wedi ei gadw yn yr adeg hono; "Eto," meddai, "yr wyf yn wastad gyda thi;"—yr oeddit ti gyda mi yn dy drugaredd yn fy amddiffyn; mi fuaswn i wedi myn'd i lawr oni buasai hynny.—Wel, pa fodd y mae hi arnat ti yn awr?—"Ymeflaist yn fy llaw ddehau;" y mae yr afael sicraf fry. Mi ymeflais innau ynot tithau. Wel, yn y testun, y mae o yn edrych yn mlaen; "A'th gynghor y'm harweini," a derbyni fi "i ogoniant" wedi i'r gwaith da gael ei orphen arnaf fi.

Y mae yr Arglwydd yn arwain ei bobl. Y maent yn sefyll mewn angen am arweinydd; ac wedi eu harwain trwy anialwch y byd, "y'm cymmeri i ogoniant." Y mae y praidd yn sefyll mewn angen am fugail; mae y pererinion yn sefyll mewn angen am arweinydd; rhyw lwybrau dyrus cul yr ydym yn ymlwybro ar hyd-ddynt; a sylwch chwi ar gynghor yr Arweinydd yma, ac mi deimlwch ar eich calon roddi eich hunain iddo.

Y mae yn angenrheidiol i arweinydd fod yn gwybod y ffordd; wel dyma un sydd yn gwybod yr hyn oedd o'r dechreuad, a'r hyn ni wnaed eto. Y mae yn caru y rhai y mae yn eu harwain, "a chariad tragwyddol y'th gerais, am hynny y'th dynais a

thrugaredd.” Y mae hefyd yn Arweinydd doeth, galluog, cyfoethog, ac amyneddgar, fel yr oedd Joseph gyda'r praidd. Yr oedd yno rai, os aid i yru arnynt un diwrnod yn fwy na'r llall a aent i fethu cerdded dim. “Yr hwn a dosturia wrthynt, ac a'u harwain wrth ffynonau dyfroedd;—arweiniodd ef o amgylch,” a sylwch chwi ar y gair nesaf, “Cadwodd ef fel canwyll ei lygaid.”—“A'th gynghor y'm harweini” :—

I. A'TH RAGLUNIAETH Y'M HARWEINI.

“Cyfarwyddaf di a dysgaf di yn y ffordd yr elych, a'm llygaid arnat y'th gynghoraf.” Y mae eisiau i ninnau ddal ar amneidiau rhagluniaeth; a phaid di a myned ddim o'i blaen hi, a phaid hefyd a bod fel Leah yn colli dim ar ei hol chwaith.

II. A'TH AIR Y'M HARWEINI.

“Cymerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth,” meddai y Salmydd, “a'th dystiolaethau oeddynt fy hyfrydwch a'm cynghorwyr.” Pa ddyben dysgu gair yr Arglwydd a'i ddarllen heb ei gymeryd i'ch arwain? Beth wnei di yn dyfod i'r odfeun bob Sabboth a Duw yn dweyd wrthyt ti ar ddiwedd dy yrfa—“Ni fynech ddim o'm cynghor i?” Os myned yn mlaen a wnei di dan wrthod cynghor Duw, cofia, dy gynghor dy hunan a'th fwrw di i lawr. Y mae heb dy fwrw di i lawr eto i dân tragwyddol; ond y mae yn siwr o dy fwrw di i lawr yn fuan i ddynstr tragwyddol. O hyn allan dywedwn, “A'th gynghor y'm harweini,”—dilyn di y golofn, a byddi yn siwr o gyrhaedd Canaan.

III. A'TH YSBRYD Y'M HARWEINI.

Y mae yn rhaid i ti flino ar y fan lle yr wyt, ac ystyried na fedri di ddim dyfod oddiyno dy hunan. Hefyd y mae yn rhaid i ti gael tuedd am wlad well, a graddau o adnabyddiaeth o'r Arweinydd. “Trwy fydd, Abraham, pan alwyd, a ufuddhodd;” daeth allan o'r wlad heb wybod *i ba le* yr oedd yn myned; ond gwyddai yn eithaf da *gyda phwy* yr oedd yn myned. “Y mae arnaf eisiau gwybod,” meddi, “a ydwyf fi wedi fy ethol;” taw a dy glonc hefo'r etholedigaeth; cymer rywbeth sydd dan dy drwyn, a gad y pethau sydd yn perthyn i Dduw iddo ef ei hunan; mi fydd y pethau yna yn fwyd rhy gryf vn nhragwyddoldeb, fel y dywedodd Anne Griffiths—

“Ethol Meichiau cyn bod dyled,
Trefnu Meddyg cyn bod clwy’.”

“Mi fyddaf yn dymuno dweyd hyny wrth farw—‘Arglwydd Iesu, derbyn fy Ysbryd,’”—ond ni thâl hi ddim byd i ti ddweyd

hyny, ac wedi bod yn dilyn dy chwantau drwg ar hyd dy oes. “Y nos hon,” meddai'r Arglwydd Iesu yn y ddammeg, “y gofynant dy enaid oddiwrthyt.” Mi fydd y cythreuliaid yn gofyn yn haerllug am yr annuwiolion fydd wedi treulio eu hoes yn eu gwasanaeth. Graddau o adnabyddiaeth o'r Arweinydd a'th ddygai i roi dy hunan i'w ofal yn awr. Dyma y sail oreu dy fod di wedi dy arwain i gychwyn o'r Aipht,—dy fod yn dymuno yr Arweinydd ar hyd y daith, ac yn teimlo gyda Williams—

“Ni cherddâ i 'n gywir hanner cam
Oni byddi di o fy mlaen.”

“Na wrthod fi mewn henaint a phenllwydni ;” ac yn y Salm hon, “Pallodd fy nghnawd a'm calon, ond nerth fy nghalon am rhan yw Duw yn dragywydd.” Bydd mwy o angen am Arweinydd pan awn ni i rosydd Moab, ac i'r Iorddonen, nac mewn un man. Mi fydd yn dda i'w ryfeddu cael yr Arweinydd y pryd hwnw ; bydd pob peth wedi dyrysu tua marw, ond aiff yr Arweinydd mawr a thi yn mlaen yn eithaf dyogel i'r tragywyddoldeb maith. Y mae yn gystal i'r cristion cryfaf ag ydyw i'r gwanaf gael arweinydd ar wely marw. Yr oedd yn gystal i Dr. Chalmers—yr oedd o yn gwybod yn bur dda am drefn y rhôd, ond yr oedd yn llawn cystal iddo yntau gael arweinydd i'r nefoedd, a'r cristion gwanaf. “A'm cymmeri”—angau fydd yma?—Nage, Iesu Grist ei hun. Gwas i Iesu Grist ydyw angau. Y mae angau ryw sut wedi dyfod i'r *inventory* hefo *phroperty* arall y cristion. “Y mae pob peth yn dyfod yn eiddoch chwi.” Gwas du ydyw angau. Y mae gwŷr mawr iawn, yn arferol o gadw gwas du i *dendio'r* bwrdd. Felly gwas du Iesu Grist ydyw angau. Y mae y gosodiad yma heb ei newid eto : am wn i mai peth o benarglwyddiaeth Duw ydyw fod y saint yn marw ; o herwydd y mae Iesu Grist wedi diddymu angau, ac wedi dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni.—Mi ddarfu i'r brenin *signio* y papur i'r Iuddewon bob un gael eu lladd ar y trydydd ar ddeg o fis Adar. Wel, mi leddir pob un ? Na wneir ; mi roddodd y brenin genad wedi hyny iddynt sefyll am eu hoedel, ac yn nhrefn y nefoedd y mae y dydd yn ddydd gwledd iddynt. Ond y mae mwy nac i ti sefyll am dy einioes ; y mae Duw yn galw am i ti sefyll am dy einioes, trwy edrych ar y gŵr a brynodd dy fywyd di. Er fod marw wedi ei osod, tyr'd di i sefyll am dy einioes, a rho dy einioes i'w wasanaethu ef—mi elli ddweyd wed'yn—“A'm cymmeri i ogoniant”—i'r drydedd nef, lle y mae Duw yn amlygu mwyaf o'i ogoniant. Gogoniant dyn ydyw delw Duw ; a gwaith Duw wedi ei orphen ar dy enaid a'th gorff, a rydd y gogoniant mwyaf i Dduw am dragywyddoldeb.

PREGETH XVI.*

“Atto ef y deuir; a chywilyddir pawb a ddigiant wrtho.”—**ESAIAH XLV. 24.**

Y tro ffolaf a all neb wneyd yw digio wrth Iesu Grist. Fe ddarfu i ni rwystro cymaint yn yr Adda cyntaf, nes yr aethom i gyflwr hollol anobeithiol o'n rhan ein hunain: ac os digiwn ni wrth yr ail Adda, ni ddaw neb byth i bregethu trydydd i ni, ond byddwn wedi ein cloi i fyny mewn anobaith trag'wyddol. Ni wnaeth Crist achos erioed i neb ddigio wrtho. Pe bae rhywun wedi gwneyd tro cas âg un o honoch chwi, mhobol i, byddai yn beth difantais iawn i hwnw fyned i'w gŵd a digio; ond byddai yn beth aflawen yn wir i neb ddigio heb achos. “Yr hwn a ddigio heb achos cymmoded heb iawn,”—meddai yr hen air. Ond mi ddymunwn i i bawb a ddaeth yma heno ddyfod at Grist, yn lle digio wrtho.

Mi wyddai y prophwyd **Esaiah**, er fod yr Arglwydd Iesu yn decach na meibion dynion, y byddai efe “yn faen tramgwydd, ac yn graig rhwystr i ddau dŷ Israel, yn fagl ac yn rhwyd i breswylwyr Jerusalem.” Gwyddai, er fod yr Iesu yn wŷn ac yn wridog, ac yn rhagori ar ddeng mil, y byddai efe fel gwreiddyn o dir sych yn ngolwg llawer, heb bryd na thegwch iddo pan edrychent arno. Ond y mae yma, er hyny, ryw wirionedd rhyfedd yn nechreu y testun—“Ato ef y deuir.” Ac y mae y pahan am hyny yn nechreu yr adnod—“Yn ddiau yn yr Arglwydd (medd un), y mae i mi gyfiawnder a nerth.” Y mae yr “un” yma, yn cynwys rhifedi *di-rifedi*—tyrfa fawr na ddi-chon neb ei rhifo—yr holl saint; y maent yn un i gyd yn y pwnc yma. Y mae pobol dduwiol yn methu cydweled a'u gilydd mewn pethau nad oes rhyw lawer iawn o bwys ynddynt. Ond mae yr holl bobol dduwiol o bob *sect* yn un yn y mater yma. “Yn yr Arglwydd (medd un), y mae i mi gyfiawnder a nerth.” Y mae gwahanol gyfansoddiadau dynion yn peri na fedrant ddyfod at yr un mesurau yn mhob peth. Mae ambeH un yn gryf iawn ei synwyr, a'r llall a'i ddeall yn wan; un yn gryf mewn gras, a'r llall yn wan yn y ffydd; ac y mae gwahanol ddygiad i fyny yn effeithio yn fawr ar blant dynion. Ond nid oes dim yn effeithio ar y pwnc yma. Y mae holl bobol Dduw yn dyfod i'r un farn am drefn cyfiawnhad trwy ffydd. Yr oedd **Abraham**, tad y ffyddloniaid, ac **Abram** y Ceunant, o ymyl y **Bala**, yn cydgyfarfod yn y pwnc yma; ac felly **Dr. Owen** a **John Bunyan**; ac am wn i, **John Calvin** a **John Wesley**.

* O'r 'DRYSORFA,' am Mai, 1859.

“Ato ef y deir; a chywilyddir pawb a ddigiant wrtho.” Yn y testun dyma ddau ymddygiad at yr Arglwydd Iesu yn cael eu nodi—“*digio wrtho*” a “*dyfod ato*.” Dymunwn wasgu atoch chwi yma—Pa un ydyw eich ymddygiad chwi at Iesu Grist? Pwy bynag a ddigio wrtho fo, i gywilydd y daw hwnw; a phwy bynag a ddelo ato, ni chywilyddir mo hono ef. Y dyn mwyaf moesol—y glana’ ei *goat* yn y wlad, a ddigio wrth Grist, i gywilydd y daw; ond y pechadur aflawena’ a ddelo ato, ni chywilyddir mo hono byth.

Y MAE LLAWER YN DIGIO WRTH GRIST.

Y mae rhai yn digio wrtho, am na chânt mo hono fo a’u pechodau hefyd. Dyma yr achos paham y mae cymaint sydd yn dytod i’n nodfeunon yn troi eu cefnau arno, ac na fynant mo hono; mynent gael Crist a phechod hefyd. A chan na chânt y y naill na’r llall, ymlynu wrth eu chwantau wnant, fel y rhai hyny gynt oedd yn dewis Barabbas yn ei le. Pe gwelech chwi radd o ogoniant Crist, y mhobol i, mi fyddech fel y wraig o Samaria yn anghofio ei dyfrlestr, ac a adawech bob peth i fyned ar ei ol. Wel, i garu Crist ac i ffræo â phechod y delom ni.

Y mae y Sociniaid wedi digio wrth fawredd ei Berson. Am na fedrant amgyffred “y Duwdod yn y dyn” y maent yn digio wrtho. Ond y mae yn dda gan fy enaid i er’s blynyddoedd na fedra’ i mo’i amgyffred; mi gaf felly ddigon o waith yn y byd mawr y bydda’ i ynddo fo yn fuan—

“Pan b’wy’n rhyfeddu un peth
Peth arall ddaw i ’mryd;
O! iachawdwriaeth rasol
Rhyfeddol wyt i gyd!”

Y mae eraill wedi digio, ac yn digio *still* wrtho, o herwydd iselder ei ganlynwyr. Y mae nhw yn trangwyddo wrtho am mai pobol dlodion hyd yn hyn yw y rhan fwyaf o’i ganlynwyr. Pysgodwyr tlodion o Galilea a welsant ei ogoniant, ac a aethant ar ei ol, tra nad adnabu neb o dywysogion y byd hwn mo hono. Mi fyddaf fi yn meddwl fod aml i *scrap* ar gydwylodau yr Ysgrifenyddion a’r Phariseaid; wrth weled Crist yn gwneyd y fath wyrthiau, yr oedd yno ryw beth yn dweyd yn eu meddwl mai oddiwrth Dduw y daethai; ond er hyny ni chyffesasant ef. Sut na wnaethen’ nhw? “Yr oeddynt yn caru gogoniant dynion yn fwy na gogoniant Duw.” “A gredodd neb o’r penaethiaid ynddo ef?”

Y mae eraill yn digio wrtho, nid yn unig o herwydd iselder ei ganlynwyr yn y dull yna, ond o herwydd y gwaeleddau, y

diffygion, a'r anmherffeithrwydd sydd yn perthyn iddynt. Nid oes dyn na dynes dduwiol ar y ddaear heb waeleddau yn perthyn iddynt, tra y byddant yma. Nid yw o ddim *use* i ti, gan hyny, ddigio wrth Iesu Grist ar y cyfrif hwn. Ac, yn wir, y mae yn dda i ni, gan ein bod fel yr ydym, mai dyma fel y mae yn y byd yma, gan fod derbyniad i ni gyda'n gwendidau a'n gwaeleddau, i'n hymgeleddu a'n glanhau. Y mae yn dda gan yr holl deulu am y ffynon. A chofier na bu eglwys Dduw erioed heb ragrithwyr o'i mewn. Ni bu erioed wenith heb ũs. Ni chyfrifid mo hwnw yn ben llathen, a ddigia i wrth *sovereign* dda, oblegyd fod rhai drwg yn bod. Os wyt yn ffwdro oblegyd gwaeleddau crefyddwyr, dyma a ddywed yr Iesu wrthyt—“Beth yw hyny i ti? canlyn di fyfi.” Pe byddit ti yn dy le, yn lle aros yna i feio ar eraill, fe geid dy weled yn *stripio* ati hi, ac yn *treio* crefyddu yn well na nhw i gyd.

Y mae rhai pobol yn digio wrth Grist fel Archoffeiriad. Y mae yn flin ganddyn' nhw na chant ddyfod â dim o'u heiddo eu hunain fel defnydd cyfiawnhad—dim edafedd o'u heiddo nhw yn y wisg oreu. Dangoswch i mi ddyn hawdd ei ddigio, a minnau a ddangosaf i chwithau ddyn balch. Dyna wreiddyn y drwg—balchder. Mi aethom yn rhemp o dlawd yn yr Adda cyntaf; ond yr ydym yn llawn balchder; a dau anhwylyd iawn i gyd-fyw yn yr un tŷ ydyw tlodi a balchder. Trueni fod neb yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain oddiar fod yn rhy falch i ymostwng i gyfiawnder Duw. O! am i ni ddyfod i lawr, i waeddi fel Paul, “Ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun.”

Y mae rhai yn digio wrtho fel Prophwyd. Ni fynant ei athrawiaeth, am ei fod yn rhy ysbrydol. Felly yr oedd dysgyblion y torthau. Pan ddywedodd Crist—“Fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddiod yn wir,” dyma nhw yn brochi ac yn digio wrth ei athrawiaeth;—“Caled yw yr ymadrodd hwn,” medden' nhw; ac ni welwyd mo honyn' nhw mwyach yn rhodio gydag ef. Y maent yn digio wrth ei gynghorion; y maent yn rhy fanwl a sanctaidd ganddynt; er eu gwranddo, ni wnant mo honyn' nhw. Yr oedd llawer o bethau hoff yn y gŵr ieuanc, yn yr e'fengyl; ond yr oedd cynghor yr Iesu iddo yn gwasgu yn rhy galed ar gnawd; “ac efe a aeth ymaith yn athrist.” Duw y nefoedd a dosturio wrth y *sort* yna!

Y mae rhai yn ymddigio wrtho fel Brenin; ni chymerant ei iau arnynt; ni fynant ymostwng i gyfraith ei dŷ. Ond y mae genyf air i'w ddweyd yn nghlust y neb sydd yma o'r teulu yna, Cofia di os wyt ti yn awr yn digio wrtho ef fel Brenin, ac yn nacâu ymrestru i'w filwriaeth, y cei yntau yn digio wrthyt titheu yn angau—“Gŵr y tŷ wedi digio”—ac felly ni chei fyned

i fyw yn *hensiaer* ato. Yr oeddwn i, yr wythnos ddiweddaraf, wedi myned i edrych am hen bererin sydd yn awr ar *port* gwlad Canaan : ac meddai fo wrthyf—“ Mi gaf fyned i fyw yn *hensiaer* toe.” “ Beth sydd y *pension* ? ” meddwn i’nna. “ Bywyd tragwyddol ” atchaf ynta. Y mae y *drum* lawr yn curu heno ; mae arnom eisiau *ascio* milwyr i filwrtaeth ein Hargiwydd. Mentra yn mlaen enaid : o herwyd yn wir os digi di wrtha, ni chei, pan y pallo dy gnawd a’th galon, fyned i fyw yn *hensiaer* ar olud ei deyrnaa.

OND NID YW PAWB YN DIGIO WRTH IESU CRIST : Y MAE RHAI YN DYFOD ATO, AC Y MAE LLAWER MWY ETO I DDYFOD. “ Ato ef y deuir.”

Yr un peth yw dyfod ato, a chredu ynddo. Gwahanol ymadroddion ydynt am yr un peth. “ Yr hwn sydd yn dyfod ataf fi,” medd Iesu Grist, “ ni newyna ; a’r hwn sydd yn creda ynof fi, ni sycheda un amser.” Y fynydd y credo pechadur yn Mab Duw, dyna fo mewn undeb na bydd gwahanu arno am dragwyddoldeb. Y mae hwnw yn ddyfodiad sydd yn sierhan y bywyd am byth. Ond y mae gan yr enaid lawer o waith dyfod wedi hyny. “ Ato ef y deuir,” nid am unwaith, ond trwy yr holl oes. I wybod ein dyledswydd, ac am nerth i’w chyflawni, “ ato ef y deuir.” Am gymhorth i fyned trwy yr holl brofedigaethau, ac i orchfygu yr holl elynion “ ato ef y deuir ” o hyd. (Iwyddai Jacob yn dda nad oedd wiw iddo fo a’i feibion fyned at y sachau oedd wedi bod yn *storehouse* y gŵr boneddig yn yr Aipht, i edrych am ychwaneg o ŷd. Na ; “ Eweh eilwaith at y gŵr.” Eweh a’ch sachau gweigion ato drachefn.

I ddyfod at Grist, rhaid i’r pechadur gael ei argyhoeddi o’i sefyllfa enog a damniol ger bron Duw. Dyna y peth cyntaf y mae yr Ysbryd Glân yn ei wneyd—argyhoeddi o bechod. Y mae pob un sydd yn yr odfa yma wedi dyfod ato ef, wedi bod yn nhywydd hen *jailer* Philippi—yn yr olwg ar y golledigaeth, yn gwaeddi yn ddychrynedig—“ Beth a wna’ fel y byddwyf gadwedig ? ” Mi ddoi dithau, y diofal, i weled y peryg yn rhywle ; ond gobeithio y deui i’w weled mewn pryd, cyn i ddrws y noddfa gael ei gau. Ni ddaeth neb at Grist ond am ei fywyd. Heb weled dy hun ond wedi rhyw frifo tipyn, mi elli aros i lyfu dy glwyfau yn y fan lle yr wyt ti ; ond y rhai ar ddarfod am danynt. “ ato ef ” y deuan’ nhw.

I ddyfod ato, rhaid cael dadguddiad o hono trwy y gair a’r Ysbryd. Y mae yr Ysbryd Glân yn dyfod i’r enaid yn “ \sbryd dadguddiad, trwy ei adnabod ef ; ” y mae yn amlygu iddo ogoniant Person Crist fel Duw-ddyn, nes y bydd penderfyniad *uysgog* yn yr enaid am y gwrthrych i ddyfod ato. Y mae yn

debyg pe y gofynwn i yrwan yn *blwmp* i ambell un yma sydd wedi dyfod er's blynyddoedd at Grist—"A wyt ti wedi dyfod?"—y byddai rhywbeth yn ddigon tebyg i attal dweyd arno fo. Ond pe gofynwn i, "A oes penderfyniad yn dy feddwl pwy yw y gwrthrych i ddyfod ato?" fe atebai yn ddifloesgni ei fod yn siwr o hyny er ystalwm. Wel, dilyn at dy bwynt. "Ato ef y deuir." Ni bydd *warpio* byth ar benderfyniad y meddwl am y Gŵr i ddyfod ato, wedi unwaith weled ei ogoniant. A ydych chiwi yn cofio am y wraig hono a fuasai mewn gwendid mawr ddeuddeng mlynedd? Yr oedd hi wedi *treio* hyny o feddygon ag y gwyddai am danynt, ac wedi gwario cymaint ag oedd ar ei helw wrth dalu eu *biliau*; ond drwg ei helynt oedd hi wedi'r cwbl; myned yn waeth waeth yr oedd hi o hyd. Ond mi glywaf benderfyniad cryfach na'r Wyddfa mewn lle gwan iawn; "Os câf yn unig gyffwrdd a'i wisg ef, iach fyddaf." Yr oedd hi can waned fel y gallasech ei tharo hi i lawr â brwynen; ac yr oedd tyrfa fawr rhyngddi â'r Iesu. Ond wele ynddi benderfyniad cryf, ac mi ddechreuodd gaffio trwy y dyrfa, ac ar ryw gaff neu gilydd, hi a gafodd afael ynddo, ac mi aeth yn iach. "Pwy yw a gyffyrddodd â mi?" Y dyrfa sydd yn dy wasgu di, Iesu mawr. Na, mae yma ryw gyffwrdd hoedel, ryw afael bywyd, wedi bod rhwng rhyw un â mi.—A oes rhywbeth mwy mewn dyfod at Grist na gwybod am dano? O oes. Yr ydych chiwi yn gwasgu yr athraw gyda'r egwyddor yma; ond O! am ddyfod ato nes cael rhinwedd bywyd o hono.

Tuag at ddwyn yr enaid ato, y mae yr Ysbryd Glân yn rhoddi dadguddiad hefyd o ddwyfol osodiad y Person mawr, ac addasrwydd ei swyddau cyfryngol. Bechadur! y mae Duw yn dewis i ti wneyd yn hyf ar ei Fab. "Hwn a osododd Duw yn iawn." Y mae wedi ei osod yn fan bywyd i ti. Pe buasech yn edrych ar y llofrudd gynt yn myned i'r ddinas noddfa, buasai yn hawdd i chiwi wybod fod rhyw beryg' mawr o'i ôl. Pa'm yr wyt ti yn ffoi tua'r fan acw? Mi gaiff amser i ymddyddan â chiwi wedi myned i'r noddfa. Dacw'r fan am fywyd. Nid ei ddull yn rhedeg oedd yn ei achub, ond ei waith yn dyfod i'r noddfa. Bechadur! nid edifeirwch, na gweddi, na dim fel yna, a geidw dy fywyd; ond dyfod i'r noddfa. "Ato ef y deuir." Y mae yn haws gan bechadur, ryw sut, fyned i bob man nag ato Ef. Wedi ei ymlid o heolydd amlwg distryw, y mae yn dueddol i feddwl mai digon iddo fydd cymeryd tŷ yn heol moesoldeb, neu gadw o fewn ffiniau rhyw *sect* o grefyddwyr. Ond, enaid anwyl! fe ddaw y digofaint ar dy ol di yna; paid a *stopio* gyda dim nes dytod at Grist.

Y mae yr Ysbryd yn rhoddi dadguddiad hefyd o'r anchwil-iadwy olud sydd yn Nghrist ar gyfer angen pechaduriaid. A

raid i mi ddyfod a dim hefo mi ato fo? Dim ond y *carp* pechadur—dim ond dyfod fel yr wyt. Yr oedd digon yn nghelloedd yr arch ar gyfer pob creadur a ddeuai iddi. Y mae digon yn Nghrist ar gyfer holl eisiau y sawl a gredo ynddo. Heb geisio helpu na thrwsio dy hun, tyr'd ato ef fel yr wyt; nis gwaeth dy fod di heb ddim; y mae digon ynddo ef.

Y mae gallu Duw yn cydfyned â'r dyfodiad hwn. Y mae "rhagorol fawredd ei nerth ef" yn gweithredu tuag atynt hwy y rhai sydd yn credu.

Y mae gorchymyn Duw yn erchi ac yn cefnogi y dyfodiad. "Hyn yw ei orchymyn ef, gredw o honom yn enw ei Fab ef, Iesu Grist." "Mi wn i lle yr haeddais i fyn'd," meddi di; mi wn innau lle y dylit ddyfod. Tyred at Iesu Grist, a'i haeddiant ef a'th achub rhag dy haeddiant dy hun.

Y mae pob croesaw i bechadur ddyfod ato ef. "Yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." Tyred, bechadur! y mae croesaw i ti ddyfod heno; ond, wn i ddim na bydd *warehouse* fawr yr efengyl yn cael ei chau am byth ar ol yr odfa yma, i'r enaid acw sydd yn aros yn nhir yr oedi. Ato ef yn awr!

"O dowch o fawr i fan,
Cyn delo'r diluw tau,
I'r arch mewn pryd,
Fe lysg y byd yn lan."

Os deui ato ef, bydd bywyd, angau, pethau presenol, pethau i ddyfod,—pob peth yn eiddo i ti; bydd y cwbul byth o'th du.

Os deui ato ef, ti a adewi dy bechod. Os deui ato ef, ti a ddeui i'w dŷ, at ei waith, dan ei iau, i ddilyn ei esiampl, ac i ufuddhan i'w reolau. Ysbryd yr Arglwydd a ddangoso werth a rhagoriaeth Crist i'n meddyliau, ac yna nis gallwn beidio dyfod ato.

Hughes & Son's Catalogue of Books.

ARLUNIAU.

	<i>Drwy y Post.</i>	s.	c.
CENADON HEDD, 8s., . . .		8	6
PARCH. J. ELIAS, 2s. . . .		2	6
PARCH. J. HUGHES,		1	0
OWAIN ALAW		1	0



HYSBYSIAD.

Os na bydd Llyfrwerthydd mewn cymydogeath, gellir cael unrhyw lyfr heb fod dan Swllt o bris, yn ddiraul drwy y Post, ar dderbyniad ei werth mewn Postage Stamps gyda'r Order Anfonir Catalogue ar dderbyniad Stamp.

Agents for—CLARK'S FOREIGN THEOLOGICAL LIBRARY.
 NICHOL'S STANDARD DIVINES. GILFILLAN'S BRITISH POETS.
 A CHYMDEITHAS Y TRAETHODAU CREFYDDOL.

LLYFRAU NEWYDDION.

- Coll Gwynfa; gan I. D. Ffraidd. 5s.
 Anianyddiaeth Sefyllfa Ddyfodol: gan Dr. Dick: argraffiad newydd. 3s. 6c.
 Elias ar Gyflawnhad: argraffiad newydd. Yn y wasg.
 Traethawd o'r Cristionogaidd Wirionedd: gan y Parch. W. Chamberlain. 5s.
 Caneuon Gwladgarol Cymru: gan Derfel. *Amlen 1s., Llian 1s. 6c.*
 Y Bardda'r Cerddor: gan Ceiriog. *Amlen 6c.*
 Gwaith Glanmor. *Amlen 1s., Llian 1s. 6c.*
 Cathlau Byrion: gan Tydfilyn. *Amlen 1s.*
 Traethawd a'r Swper yr Arglwydd, gan Dr. King. *Amlen 2s., Llian 2s. 6c.*
 Traethodau Bacon. *Amlen 1s.*
 Gweithrediadau Cymanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfnaidd, 1864. *Amlen 6c.*
 Etholedigaeth a Galwad yr Efengyl, gan y Parch. R. Thomas, Bangor. *Amlen 1s.*
 Fy Nhad, gan y Parch. R. Thomas, Bangor. *Amlen 3c.*
 Duwinyddiaeth i Blant, gan y Parch. J. Todd. *Amlen 6c.*
 Dirgelion y Bibl, gan y Parch. J. M'Cosh. *Amlen 6c.*
 Yr Anthemydd, gan Owain Alaw. *Llian 6s.*
 Y Canigydd, gan Owain Alaw. *Llian 5s.*
 Y Motett Buddugol Eisteddfod Abertawe, 1863. *Amlen 1s.*
 Gwarchae Harlech, Cantawd Gadeiriol yr Eisteddfod 1863. *Amlen 2s.*
 Llawlyfr Caniadaeth Tonic Sol-fa, gan E. Roberts, Liverpool. *Pris 1s.*
 Hymnau a Thonau Tonic Sol-fa, at wasanaeth yr Ysgol Sabbothol. *Amlen 2c.*
 Yr Eisteddfod, cyhoeddiad Chwarterol y Sefydliad Genedlaethol. Yn Rhanau Swllt yr un.
 Hanes Bywyd Dafydd Rolant, Llidiardau, Bala. 1s. 6c.
 Tonau yr Ysgol Sabbothol, gyda geiriau priodol. Y Gyfres Gyntaf. 6c.

Y GYFRES GYMRAEG.

- Y Sabboth yn Etifeddiaeth Dyn: gyda Sylwadau chwanegol. Gan y diweddar Barch. J. Hughes, Liverpool. *Mewn amlen 1s.*
 Perffaith Gyfraith Rhyddid: gan y Parch. D. Jones, Treborth. *Amlen 2s.*
 Yr Eglwys: gan y Parch. D. C. Davies, M.A. *Mewn amlen 1s.*

Yn y wasg—Llyfr VII.

Yr Efengylau, gan y Parch. G. Parry, Llanwrst.

AMRYWIAETH

TATTH Y PERERIN DARLUNLADOL gyda NODIADAU: addurnir ef â 110 o ddarluniau ysblenydd. y rhai y da y goss i'w arddebu a'u cerffunio yn £1,200. *Llian gomeych joreurestig 10s. 6s.*

GRAMADeg AREITHYDDIARTH: yn cynnwys Rheolau a Chyfarwyddiadau i gyraedd rhwyddineb a chywirdeb yn y jelfyddyd bwysig o Siarad yn gyhoeddus. Gan y Parch. THOMAS THOMAS. *Amien*.

CYFANSODDIADAU BUDDUGOL EISTEDDOD GEMEDLARTHOL CONWY: yn cynnwys hanes cyflawn o weithrediadau yr Eisteddfod, hanes Eisteddfodau ar y cyfnod borenaf gan Gwalchmai, y cyfansoddiadau buidingol, y beirniadaethau, &c., &c. 362 o dudalenau. *Amien 2s. 6s., Llian 3s. 6s.*

GWNEWCH Y GOREU O HONO: neu Gyfarwyddiadau i lawr ddefnyddio gwahanol fanteision, ac ymweillau arwy wahanol ddygwyddiadau bywyd. Gan y Parch. JOHN PUGH, B.A. *Amien 6s.*

Y GWASANAETH PRIODASOL: Ffurf i'w ddefnyddio mewn Gwasanaeth Priodasol, wedi ei threfnu yn unol â gofymon y Westirest Ied William IV., yn Gymraeg a Saesoneg. *Llian*.

MORDATH BYWYD: gan y Parch. W. ANTON. *Amien Ceiniog a dimm.*

Y GELYN A'R FRWYDR: gan y Parch. W. ANTON. Cydwynedig i wre lensainc o ddeuddeg i ddennaw oed. *Amien 2s.*

Y TREFNIEDYDD CYFRETHIOL: neu, Law-lyfr ar wneuthuriad Ewyllysiau. *Amien 6s.; Llian 1s.*

YR ATHRAWYDD PAROD: sef, hyfforddwr i ddarllen, ysgrifennu, &c., &c. Argraffiad newydd gydag ychwanegiadau. *Amien 6s., drwy y post 7s.*

THE READY INSTRUCTOR in reading and penmanship, or the art of writing and reading manuscript, acquired without the aid of a master. *Price 6d.*

MAKE THE BEST OF IT: or practical suggestions on the means, manner, and occasions of improvement: by the Rev. J. PUGH, B.A. *Price 6d.*

Y PASGEDAID FLODAC: Chwedl i Iestennid. Cyfieithiad gan John Evans (*Rhydderchfab*). Dyna'r unig Argraffiad cyflawn yn Gymraeg. *Amien 1s.*

KYFYRDODAC Esgob Hall ar ranau hanesiol y Test. Newydd. *Llian 4s. 6s.*

RHEBYMEG: Traethawd ar Resurrexer. gan Huw TEGAN. *Amien 6s.*

CHWEDLAC neu DDAWRMEGRON ESOB. Wedi ei cyfieithu o'r argraffiadau goreu yn yr iaith Seisonig a'u cyfaddasu i'r Gymraeg. *Byrdiau 1s.*

TWM O'R NANT: dethollion o weithiau Thomas Edwards o'r Nant. *Amien 1s.*

CYMRU FU: yn cynnwys hanesion, traddodiadau, &c. Rhan I a 2, 1s. yr un.

YR ARWEINYDD RHIFYDDOL: 2s., trwy y post 3s.

HANES Y DUC WELLINGTON fel milwr, o'i gychwyniad allan hyd Frwydr lawr Waterloo, &c., &c. *Byrdiau 1s. 6s.*

HANES SIENCYN PENEYDD: neu, Hanes Bywyd Mr. Jenkin Thomas, Peneydd, Morganwg. Gan y Parch. E. MATTHEWS, *Ewenny. Amien 1s.*

HANES BYWYD DAFYDD ROLANT, *Llidiardau*: casgliad gan y Parch. Robert Thomas, Llidiardau, ac O. Jones, B.A., Bala. *Amien*

YR YSGOL SABOTHOL A'R OES: neu draethawd ar y moddion cymhwysaf i wneyd yr Ysgol Sabbothol yn effeithiol dan amgylchiadau presennol Cymru, wrth ei chymharu â'r hyn ydoedd ar ei chychwyniad. *Mewn amien 1s.*

LLYFRAC YSGOLION SABOTHOL:—A, B, C, ar Bapur glâs cryf, ½c.

LLYFR CYNTAF i ddysgu sillabu a darllen, 1c.

EGWYDDORIG—Rhan I.—8s. y cant—Un arall, 11s. y cant.

" " Rhan II.—8s. " —Un arall, 11s. "

RHOED MAX Fw phlentyn, &c. **RHOED TAD**, 2c.

LLYFRAC CYFRIFON i gadw llafur yr Ysgol Sabbothol, &c., &c.

CRONICL YR EGLWYSI: sef, Llyfr i gadw holl Gyfrifon eglwysig. Gan J. J. J. *Wedi ei rwyng yn gryf pris 6s.*

YR EISTEDDLEOEDD: llyfr wedi ei ddarparu Fw casglu. *Pris 1s.*

wedi ei linellu i roddi Tonau i lawr. *Pris 6s., 1s., 1s. 6s.*

ei linellu i ysgrifenu Pregethan, &c. *Pris 6s. y quire.*

BARDDONIAETH.

CANT O GANEUON: gan J. CEIRIOG HUGHES. Yn cynnwys y gyfres gyntaf o eiriau ar Alawon Cymreig. *Amlen 1s.; llian gilt edges 2s.*

ORIAU'R HWYR: gan J. CEIRIOG HUGHES. *Amlen 1s.*

ORIAU'R BORE: gan J. CEIRIOG HUGHES. *Amlen 1s.*

EOS CEIRIOG: sef casgliad o ber Ganiadau yr hen fardd Huw MORUS; o gynnulliad a diwygiad y diweddar GWALLTER MECHAIN. *Y ddwy gyfrol yn un am 6s*

Y RHOSYN: barddoniaeth ar Agar ac Ismael; ad-daliad caredigrwydd at Grist marwolaeth yr anfyddiwr; cyngor i ddwy ferch ieuaine; i'r Comet; myfyrdod am gyflwr dyfodol; myfyrdod am y farn ddiweddaf; ar foreu Sabboth; tawelwch y bedd; creulondeb angeu; emyn Nadolig; bedd y meddwyn; Iachawdwriaeth; yr Enfys; myfyrdod mewn darfodedigaeth; y Ffordd newydd a bywiol. *Amlen 2c.*

Y LILI: barddoniaeth ar Heliwch y blodau; yr Eneth fach a'r pigyn; y gwllithyn; beth ddywed yr aderyn; y gwynt yn diffodd y seren; pa le mae Duw? pethau nad ydynt byth yn marw; dagrau mam; cyngfan y gwllaw; blwyddyn newydd Elen; angelion y twthyn; dim ond disgwyl; a gafodd E' fyned i mewn; pethau bychain; croesgyniad; y geiriau ddywedodd Iesu; emynau Pant-y-celyn; y wers anhawdd; y fam a'i phlentyn. *Amlen*

EHEIDIADAU BYRION: sef cynnulliad cyfawn o holl Gyfansoddiadau GLAN ALUN mewn Barddoniaeth a Rhyddiaith. *Amlen 1s. 6c.; llian 2s. 6c.*

BLODEUR GAN: gan Huw DERFEL HUGHES. *Amlen 1s.*

Y DYDD HWNW: neu Goffadwriaeth am y 2000 Gweinidogion a droisant eu cefnau ar yr Eglwys Sefydledig. *Amlen 1s.*

EMMANUEL: gan y Parch. W. REES. *Llian 4s.*

CANIADAU MIN Y FFORDD: gan J. R. DERFEL. *Amlen 1s.*

IEUAN GLAN GEIRIONYDD: sef Awdl er coffadwriaeth am y diweddar Ieuan Glan Geirionydd: gan HWFA MON. *Amlen 6c.*

YR ADGYFODIAD: Pryddest fuddugol a chadeiriol Eisteddfod genedlaethol Rhuddlan: gan y diweddar Ieuan Glan Geirionydd. *Amlen 6c.*

HYNT Y MEDDWYN: gan y diweddar Ieuan Glan Geirionydd. *Amlen 1s.*

Y TLWS ARIAN: gan John Phillips (*Tegidon*). *Amlen 4c.*

HOSANNA: Emynau i blant yr Ysgol Sabbothol. *Amlen 2c.*

TELYN SEION: sef hymnau a phennillion: gan D. Jones. *Mewn amlen 4c.*

CERDDORIAETH.

Y GYFRES GERDDOROL GYMRAEG: dan olygiad OWAIN ALAW, *Pencerdd*. Yn cynnwys cerddoriaeth wreiddiol a detholedig: anthemau, motets, cydganau, glees, a chaneuon, &c., o natur grefyddol a moesol. *Yn rhanau Swllt.*

ALAWON Y BKYNIAU: sef holl gyfansoddiadau J. D. JONES, *Rhuthyn*, a ymddangosasant yn y "*Gyfras Gerddorol*." *Yn un gyfrol hardd mewn llian, 9s.*

PRINCE OF WALES PRIZE CANTATA: Cantawd Fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon: gan OWAIN ALAW, *Pencerdd*,—y Geiriau gan J. Ceiriog Hughes,—cyfieithiedig i'r Saesoneg, gan Ellis Wynn o Wyrfa. *Mewn byrddau 8s. 6c.; llian, gydag ymylon goreuredig 5s.*

CHORUSES Y GANTATA: *mewn amlen 1s.*

CYDYMAITH Y CERDDOR: yn cynnwys tŷnau moesol a difyrus at wasanaeth teuluoedd, cyfarfodydd llenyddol, &c., &c. Gan J. D. JONES, *Rhuthyn*. *Argraffiad newydd gyda Chymdeithranau: mewn byrddau 4s.*

CAROLAU NADOLIG gyda Chymdeithranau: dan olygiad J. D. JONES, *Rhuthyn*. *Mewn amlen 1s.*

CANIGAU BISHOP: dan olygiad OWAIN ALAW: y Geiriau gan J. Ceiriog Hughes. *Pris o 2c. ac uchod.*

TONAU YR YSGOL SABBOTHOL: dan olygiad Owain Alaw. *Amlen 1s.*

ANTHEM FUDDUGOL DDIRWESTOL, gyda Chyfseiniadaeth i'r Organ neu'r Harmonium, gan OWAIN ALAW,—y Geiriau gan y diweddar EBEN FARD. *Amlen 6c.*

ANTHEM FUDDUGOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CONWY, 1861, ar eiriau Psalm lxxvii.: gan HUGH JERMAN, *Kerry*. *Amlen 6c.*

LLYFR TONAU at wasanaeth y cysegr: gan Ieuan Gwyllt. *Pris 3s.*

[*Parhad Cerddoriaeth.*]

YR ARWEINYDD CERDDOROL: yn cynnwys, eglurhad cyflawn ar holl elfennau cerddoriaeth, tónau ac anthemau cysegredig, ynghydag amrywiol gyfanboddiaidau o natur foesol a difyrus. Gan y diweddar RICHARD MILLS. *Llian 5s.*

CYFANSODDIADAU BUDDUGOL Eisteddfod Cymdeithas Gerddorol Ddiw westol Aberdâr: yn cynnwys 42 o dudalenau o Gerddoriaeth. *Pris 1s. 6c.*

Eisteddfod Aberdâr, 1860. *Pris 1s. 6c.*

LLYFR TONIC SOL FA: gan Ienan Gwyllt. *Llian 2s. 6c.*

GRAMADEG CERDDOROL: yn cynnwys eglurhad cyflawn o elfennau Cerddoriaeth: gan David Roberts (*Alawydd*). *Llian 2s. 6c.*

DUWINYDDIAETH.

CORPH O DDUWINYDDIAETH: yn cynnwys eglurhad a phrawf o amrywiol gangenau yr athrawiaeth sydd yn ol Duwioldeb: gan y diweddar Dr. Lewis. Gyda thraethawd ar HANES DUWINYDDIAETH y gwahanol oesoedd (180 o dualen.): gan y Parch. L. Edwards, M.A., Bala. *Llian 7s. 6c.; hanner rhwym 8s. 6c.*

CORPH O DDUWINYDDIAETH: sef, agoriad helaeth ar Gatecism Byraf y Gymanfa: gan y diweddar Barch. John Brown. *Llian 8s. 6c.*

CHARNOCKE AR Y PRIODOLIAETHAU: Traethawd ar y Bôd o Dduwa'i Briodoliaethau; atheistiaeth ymarferol; mai ysbryd yw Duw; addoliad ysbrydol; trwyddoldeb Duw; anghyfnewidioldeb Duw; hollbresennoldeb Duw; hollwybod-aeth Duw: gan y diweddar Stephan Charnocke, B.D. *Llian 6s.*

ATHRONIAETH TREFN IACHAWDWRIAETH: gan y Parch. J. B. Walker *Amlen 1s.; Llian 1s. 6c.*

ATHRONIAETH Y GWEITHREDIAD DWYFOL yn Mhrynedigaeth Dyn: (sef yr ail gyfrol o "Athroniaeth Trefn Iachawdwriaeth") gan yr un Awdwr *Amlen 1s. 6c.; Llian 2s.; y ddau lyfr yn un gyfrol 8s.*

Y PREGETHWR A'R GWRANDAWR: sef, Calfiniaeth a Ffwleriaeth yn cael eu hystyried ar ddull ymddyddan rhwng dau gyfaill; gan y diweddar Barch. R. Williams, *Liverpool*. Argraffiad newydd gyda CHOFIANT' o'r Awdwr. *Llian 8s. 6c.*

LLAW-LYFR Y BIBL: yn cynnwys pennodau ar burdeb yr Ysgrythyrau. gwirionedd ac awdurdod yr Ysgrythyr; nodwedd neillduol y Bibl fel dadguddiad oddiwrth Dduw: dehongli yr Ysgrythyrau; myfyrdod rheolaidd ac addysgiadol o'r Ysgrythyrau; egwyddorion a rheolau yn cael eu hegluro yn nyfyniadau y Testament Newydd o'r Hen, ac yn cael eu cymhwyso at ddad-ddyrysiad anhawsderau Ysgrythyrol; darlenniad addysgiadol ac ymarferol o'r Bibl; llyfrau yr Hen Testament yn ddisbarthol; hanes wladol a moesol yr Iuddewon o Malachi hyd Ioan Fedyddiwr; ar Lyfrau y Testament Newydd yn ddisbarthol: gan J. Angus, D.D. *Hanner rhwym 8s. 6c. (Yn Saesoneg gan Gymdeithas y Traethodau.)*

CYDYMAITH YR YSGRYTHYR: sef sylwadau ar ddilysrwydd ac awdureiddiad yr Ysgrythyr. Mae y gyfrol hon wedi ei haddurno â cherfluninu o Jerusalem, Tyrus, Sidon, a Nablurus, Ephesus, a Phatmos: gan y diweddar Barchedig John Hughes, *Liverpool*. *Llian 4s. 6c.*

AMSERYDDIAETH YSGRYTHYROL: yn cynnwys hanesyddiaeth yr Hen Testament a'r Newydd mewn saith dosbarth, o greadigaeth y byd fl. hyd y 98ain o O.C.; ynghyda hanesyddiaeth y pedair ymerodraeth fawr yn y cyn oesoedd: hefyd, daearyddiaeth gwlad Canaan a'r gwledydd cymydogoethol; at yr hyn y rhwanegir cysondeb byr o'r Pedwar Efengylwr, gyda sylwadau eglurol: gan y diweddar Barchedig Simon Lloyd, B.A., Bala. *Llian 8s. gyda Mapiau.*

DRYCH PROPHWYDOLIAETH: neu, sylwadau helaeth ar wiredd, dyben, a deongliad prophwydoliaethau yr Ysgrythyrau Sanctaidd: argraffiad newydd gyda Nodiadau chwangel: addurnedig â cherfluniau o Sion, Samaria, Babilon, Hebron, Ninefe, Sardis: gan y diweddar Barch. J. Hughes. *Liverpool*. *Llian 8s. 6c.*

Y PROFIEDYDD YSGRYTHYROL: neu Eirlyfr cryno o faterion ysgrythyrol: gan y diweddar Barch. J. Hughes, *Liverpool*. *Papur 2s.; Llian 2s. 6c.*

Y COFIADUR YSGRYTHYROL: sef, dosraniad manwl o'r holl Fibl; yn cynnwys dygwyddiadau hynod wedi eu gosod yn ol y drefn ysgrythyrol; iaith gysgodol a threfn amseryddol y prophwydi; rhifyddiaeth ysgrythyrol; agoriad i'r addewidion; crynodeb o ddaearyddiaeth yr Ysgrythyr, neillduolrwydd yr Efengyl; gwyrthiau Crist a'r lleoedd eu cyflawnwyd; teithiau yr apostol Paul; esboniadau tywyll; darlenniadau diwygiedig, &c. &c. *Amlen 2s.; Llian 2s. 6c.*

[*Parhad Duwinyddiaeth.*]

- DAMMEG Y MAB AFRADLON** gan W. Rowland, America. *Rhwym 5s.*
- PREGETHAU a CHOFIANT** y diweddar Barch. J. Hughes, Liverpool: dan olygiad y Parchedigion J. Hughes, Everton, a R. Edwards, Wyddgrug. *Rhanau 1s.*
- PREGETHAU** y diweddar Barch. David Charles, Caerfyrddin, gyda Chofiant o hono: yr Ail-gyfres o bregethau newyddion. *Llian 2s. 6c.*
- PREGETHAU** gan y diweddar Barch. John Elias, Môn. *Llian 3s.*
- PREGETHAU** gan y Parch. D. Roberts, Caernarfon. *Llian 3s. 6c. a 3s. 9c.*
- GWEINIDOGAETH YR EFENGYL:** Traethawd arobryn ar Weinidogaeth yr Efenfyl; y ddyledswydd a'r fraint o'i chynnal: gan J. D. Wylie, LL.D. *Amlen 1s.*
- CATECISM COLQUHOUN:** Catecism er addysg i Gymunwyr ieuainc; at yr hyn y chwanegir golygiad byr ar broffes ac ammod bedydd, yr hyn y dylai pobl ieuainc yn bwriadu dyfod i'r cymun ei adnewyddu cyn eu derbyn y tro cyntaf at fwrdd yr Arglwydd: gan John Colquhoun, D.D. *Amlen 6c.*
- YR HYFFORDDWR:** neu Holwyddoreg ar egwyddorion sylfaenol y Grefydd Gristionogol: gan y diweddar Barch. T. Charles, B.A., Bala. *Mewn amlen 4c. a 6c.*
- CYFFES FFYDD:** yn cynnwys hanes Methodistiaeth Galfinaidd Gymrïg, ei rheolau dysgyblaethol, cyfansoddiad, a chyffes fydd gydag adnodau cyfeiriol pwysicaf ar bob pwnc yn llawn. *Argraffiad newydd, amlen 6c.: arall 4c.*
- CONFESSION OF FAITH:** the history, constitution, rules of discipline, and confession of faith, of the Calvinistic Methodists in Wales: drawn up by their own associated ministers. The Fourth English edition, corrected. *Cloth 1s.*
- BEDYDD LYDIA:** Traethawd ar Fedyddiad Lydia a'i theulu: yn cynnwys ychwanegiadau at yr Argraffiad cyntaf, ac atebion i'r gwrthddadleuon a ymddangosasant yu ei erbyn yn y "Greal," ac mewn llyfryn o'r enw "Adolygiad ar Fedyddiad Lydia a'i Theulu:" gan y Parch. John Prichard, Amlwch. *Amlen 6c.*
- YR AELOD CYFLAWN:** neu eglurhad ar wirioneddau Cristionogaeth: gan y Parch. Thomas Davies. *Llian 2s. 8c.*
- ARWEINYDD GWR IEUANC:** Cyfaill ac Arweinydd Gwr ieuanc trwy fywyd i anfarwoldeb. Yn cynnwys, y Gwr Ieuanc yn parotol ar gyfer bywyd; yn dechreu ar fywyd; yn amhenderfynol yn ei gymeriad crefyddol; yn meddiannu addfwynder diffygiol; mewn dyryswch gan ddadleuon crefyddol; yn cael ei gymhell i ystyried cymeriad Joseph; yn cael ei gynghori i fyfyrio Llyfr y Diarebion; yn methu neu yn llwyddo yn nghychwyniad bywyd; yn ymfudo i wlad dramor; yn siomi neu yn sylweddoli gobeithion ei rieni; yn ystyriol o bwysigrwydd yr oes; yn marw yn fore neu yn byw i adolygu bywyd mewn henaint. Gan y diweddar Barchedig J. A. JAMES, Birmingham. *Llian 3s. 6c.*
- CYFALL PECHADUR.** *Mewn amlen 3c., neu 2s. y dwstn.*
- BETH YW CRISTIONOGAETH?** Sylwadau ar Gristionogaeth, ei neillduolion a'i hathrawiaethau: gan y Gwir Barch. T. V. Short, D.D. *Amlen 1s.; Llian 1s. 6c.*
- Y DWYFOL ORACLAU:** sef ysbrydoliaeth Prophwydoliaethau yr Hen Testament: gan y Parch. Morris Williams, M.A. *Llian 3s. 6c.*
- LLYFR Y JUBILI:** yn cynnwys, *Rhan I. Y Bibl*—ei Ysbrydoliaeth, ei Awdurdod ddwyfol, Barnau enwogion am dano, y Cyfieithiadau Cymreig o hono, ynghyda Bywgraffiadau y prif gyfieithwyr. *Rhan II. Y Fibl Gymdeithas*—ei Dechreuad, Bywgraffiad rhai o'i sylfaenwyr, ei Hamcan, ac angen y cyfryw gymdeithas. *Rhan III. Gweithrediadau y Gymdeithas. Rhan IV. Bibl Gludiaeth. Rhan V. Effeithiau y Bibl a'r Fibl Gymdeithas. Rhan VI. Jubili y Gymdeithas. Rhan VII. Barddoniaeth y Jubili. Attodiad.* Gan y Parch. Thomas Phillips, Ysgrifenydd y Jubili. *Llian 3s. 6c.*
- Y TABERNAEL** yn yr Anialwch: sef, sylwadau eglurhaol ar wasanaeth y Tabernacl, ynghydag amryw ddarluniau yn dangos ei wahanol ddefodau: gan J. Dillworth. *Amlen 6c.*
- Y CYFARFOD GWEDDI:** Darlith ar Zech. viii. 18—23. *Mewn amlen 2c.*
- CATECISM ATHRAWIAETHOL** ac Ymarferol: gan y diweddar Barchedig George Lewis, D.D. *Mewn amlen 1c.*
- ORIAU OLAF IESU GRIST,** gan y diweddar Barch. L. Jones, Bala. *Pris 4c.*
- CATECISM** y diweddar Barch. Thomas Charles, B.A., Bala, yn Saesoneg *Mewn amlen 2q.; un arall 3c.*
- CATECISM** ar y DEG GORCHYMYN, gan y diweddar Barch. Thomas Charles, B.A., Bala. *Mewn amlen 3c.*

ESBONIADAU.

Y BIBL DARLUNIADOL—Y TESTAMENT NEWYDD gan J. K'ito, D.D., F.S.A. Gyda Laws o Nodiadau chwanelog, gan y Parch. O. Thomas, Llundain. Addurnedig ag oddentia 200 o Gerffuriau ysplenydd, a 2 Fap ar ddur. *Rhanau 1s.*

ESBONIAD Dr. Lewis ar y Testament Newydd, ar y llyfrau hyn—	s. c.
Ioan a'r Actau yn un llyfr (848 o dudalenau)	5 0
Ephesiaid, Philipiaid, Colosiaid, 1 a'r 2 Thessaloniaid, 1 a'r 2 Timotheus, Titus, a Philemon, un llyfr (836 o dudalenau)	5 0
Hebreaid, Iago, 1 a'r 2 Petr, 1, 2, a'r 3 Ioan, a Judas yn un llyfr, (700 o dudalenau)	4 6
Y Datguddiad gydag Atodiad (ros 100 o dudalenau, yn cyn- nwys amryw Dafeni buiddiol, yn un llyfr, 380 o dudalenau)	2 6

Y Pedair Cyfrol am 13s.

ESBONIAD Henry a Scott, o Genesis hyd i ddiwedd Esther, gyda Sylwadau a Nodiadau o weithiau 68 o wahanol awdwr yr eraill. *Y ddwy gyfrol yn un am 6s.; (pris cyntefig 12s.)*

ESBONIAD ar Lyfr y Datguddiad: gan y diweddar Barch. S. Lloyd, B.A., Bala. *Mewn llian 3s. 6c. (yn lle 5s. 6c.)* Wedi ei gydwymio ag **ESBONIAD** Dr. Lewis ar y Datguddiad. *Mewn llian 6s.*

Y BIBL TEULUAIDD o Genesis hyd i ddiwedd Malachi, gyda chyfeiriadau a nodau allan o waith Scott a Henry. *Rhanau 10s.; rhwym 17s. (Pris cyntefig 42s.)*

BIBL PETER WILLIAMS; yn cynnwys, Sylwadau eglurhaol. *Mewn 21 o rifys-
au 1s. Rhwym 28s.*

GEIRIADURON:

Y GEIRIADUR YSGRYTHYROL: yn cynnwys hanesiaeth, duwinyddiaeth, athroniaeth, a beirniadaeth ysgrythyrol: gan y diweddar Barch. T. Charles, B.A., Bala. *Yn Rhanau Seith.*

GEIRIADUR YSGRYTHYROL: yn cynnwys hanes personau, disgrifiad lleoedd, ac hefyd eglurhad o'r amrywiol eiriau, athrawiaethau, cyfreithiau, gorchymion, deddfau, gosodiadau, a chyffelybiaethau yn yr Oraclau Sanctaidd: wedi ei gasglu o waith Calmet, Brown, Newton, Hurd, Charles, &c. *Y ddwy gyfrol wedi eu rhwymo yn un 8s. (pris cyntefig 16s.)*

A POCKET ENGLISH—WELSH DICTIONARY: By W. RICHARDS, LL.D. a new Edition revised, corrected, and much enlarged. *Cloth 8s.*

GEIRIADUR CYMRAEG A SAESONEG: Gan W. RICHARDS, LL.D. Argraffiad newydd wedi ei ddiwygio a'i helaethu. *Llian 2s. 6c.*

Y Geiriadur Saesoneg a'r un Cymraeg wedi eu rhwymo yn un llyfr 5s.

HANESIAETH.

PRYDAIN FAWR: ei chyfodiad, ei chynnydd, a'i mawredd; ynghyda bras-
lun o'i chyfansoddiad, ei llywodraeth, a'i chyfreithiau. Gan T. LEVI. *Llian 6s.*

METHODISTIAETH CYMRU; sef, hanes cyfodiad, cynnydd, a llwyddiant Methodistiaeth Galfinaidd Cymru o ddechreuad y Cyfundeb; gydag arlun cywir o'r awdwr. Gan y Parch. J. Hughes, Liverpool. *Yn dair cyfrol, llian 7s. 6c. yr un; hanner-rhwymiad croen llo 8s. 6c.*

HANESIAETH YSGRYTHYROL: Holwyddoreg ar Hanesiaeth ysgrythyrol; wedi ei chyfaddasu i wasanaeth Ysgolion Sabbothol ac addysg deuluaidd: gan y diweddar Barch. J. Hughes, Liverpool. *Pris 1s.; llian gyda Mapiau 1s. 6c.*

Y Profiedydd, yr Holwyddoreg, yr Hyfforddwr, a'r Cyffes Ffydd: y pedwar llyfr wedi eu rhwymo yn un gyfrol, *Hanner-rhwymiad lledr 4s. 6c.*

Y Profiedydd, yr Hyfforddwr, a'r Cyffes Ffydd: y tri llyfr wedi eu rhwymo yn un gyfrol. *Hanner-rhwymiad lledr 3s. 6c.*

Yr Hyfforddwr, yr Holwyddoreg, a'r Cyffes Ffydd: y tri llyfr yn un gyfrol—
dyma un o'r llyfrau rhataf yn yr iaith. *Mewn llian 2s.*

Yr Hyfforddwr, Catecism Colquhoun, a'r Cyffes Ffydd: y tri llyfr yn un gyf-
rol. *Mewn llian 1s. 6c.*

Yr Hyfforddwr, Catecism Dr. Lewis, ac Hosanna yn un gyfrol. *Mewn llian 1s.*

Yr Hyfforddwr, Catecism Dr. Lewis, ac Hosanna yn un llyfr. *Llian 9c.*

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN HUGHES AND SON, WREXHAM.

Amrywiaeth.

	s. o.
Anlanydd Cristionogol, rhwym	6 0
Anianyddiaeth Sefyllia Ddyfodol, Dr. Dick	3 6
Amddiffyniad yr Iaith Gymraeg	0 6
Armagedon, mewn papur	0 6
Attodiad i Armagedon, mewn papur	0 3
Arweinydd Llysieuol, Dr. Coffin	4 0
Awyriad Anneddau, gan Spurrel	0 2
Bardd Cwsg	1s. a 1 6
Bara Beunyddiol	0 6
Byw i Bwrpas	1s. a 1 6
Caban F'ewythr Twm, mewn llian	3 0
Cerbyd Aur, gan A. Shadrach	2 0
Cydymaith y Rhieni, &c.	1 0
Cydymaith Teuluaid, &c.	0 6
Cyfarwyddwr Teuluaid	0 6
Cyfarwyddwr Meddygol Teuluaid, 3s. a	4 0
Cyffes Ffydd y Methodistiaid Calvinaidd, 4c.	0 6
" " Saesoneg	0 6
Duoglott Letter-writer	8c. a 1 0
Elfenau Daearyddiaeth, Cyf. I. a II.	14 6
Fy Chwaer, papur 1s., mewn llian	1 6
Gweithrediadau Cymanfa Gyffiedinol y } Methodistiaid Calvinaidd }	0 6
Gweddillion John Mason	0 6
Gwyliau ac Ymprydiau yr Eglwys	0 4
Hunan-gyfarwyddyd i ddsygu Saesneg	1 0
Hyfforddwr yr Etrydydd	3 0
Huw Huws—Novel, Llew Llwyfo	0 6
Llewelyn Parry, gan Llew Llwyfo	1 0
Lyfr Cogiaeth	2 0
Llyfr y Merthyron, mewn llian	5 6
Llysieu-lyfr	4 6
Meddyg Rhad	0 8
Meddyg Anifeiliaid	3 6
Moes-lyfr, neu Ddefodau Moesgarwch	0 6
Prif Physicwriaeth, mewn llian	1 0
Palas y Brenin Mawr, gan y Parch. Hollis Read o America	3 6
Rhesymeg, gan Tegai	0 6
Rhifyddiaeth Gymraeg	2c. a 1 0
Rhodd Meistr i'w Brentis	1 0
Rhyfeddodau Natur a Chelfyddyd	5 0
Swyddogaeth Barn a Darfelydd	2 0
Siars y Parch. T. Richards	0 2
Sut i gael Gwr, &c.	0 6
Tafol y Beirdd, gan R. Ellis, Sirhowy	2 0
Taith y Pererin	1s. 6c., a 2 0
Teithiau Mills yn Palestine, rhwym	7 0
Teithiau Dr. Livingstone	0 6
Traethawd ar Olyniaeth Apostolaidd	0 6
Traethodan Gwladol a Moesol, gan } Arglwydd Bacon }	1 0
Traethodau, gan Derfel	2 6
Traethodau y Parch. J. Thomas, Lerpwl	4 6
Tri Wyr o Sodom	0 6
Thirza	0 6
Yr Eglwys a'r Wladwriaeth, Noel	5 0
Trysoria yr Athrawon	1 6
Vocabulary—English and Welsh	0 8
Y Briwfwyd	0 4

Parhad Amrywiaeth.

	s. o.
Y Brython	0 0
Y Ceffyl, gan D. Jones, Gwynfa	1 0
Y Darluniadydd Anianyddol, Mills	5 0
Y Ffermwr	1 6
Y Garddwr	1 0
Y Gwyddoniadur, yn Rhanau	0 0
Y Gwladgarwr	1 0
Y Llenor Diwylliedig	2s. a 2 6
Jerusalem fel yr oedd ac fel y mae	1 6
Yr Eisteddfod, Rhanau	1 0
Y Dwysen, gan Gwilym Gwenffrwd	0 2

Barddoniaeth.

Adgoffon amy Parch. J. Hughes, Lerpwl.	0 2
Dwy farwnad eto	0 2
Adgyfodiad—Pryddest gan E. Evans	0 6
Aeron Afan, Cyfansoddiadau Buddugol	2 0
Blwch o Bleser i Ieuencyd Cymru	0 6
Brydr Maes Bosworth,	0 6
Caneuon crefyddol a moesol, R. E.	0 6
Cathlau Byrion, gan Tydfilyn	0 6
Caneuon Gwladgarol Cymru, Derfel	1 0
Cell Awen, John Hughes	1 6
Gwaith Glanmor	1 0
Golwg ar Deyrnas Crist, gan W. W.	1 6
Gwaith Barddonol Edward Richards	0 4
Hymnau, 2c., 6c., 8c., 2s. 6c., 2s. 9c., a	3 6
Hymnau y Deheudir	2s. 9c., 3 0
Hynt y meddwyn, gan E. Evans	1 0
Gwaith Prydyddol Edward Jones	2 6
Pryddest Fuddugol er Coffadwriaeth am E. Jones, M. Howells, &c.	0 6
Salmau Dafydd, gan W. Middleton	1 6
Saith o Farwnadau, gan W. W.	0 6
Telyn Seion	0 4
Tlysau Barddoniaeth	2 6
Y Tlws Arian a'r Milfwyddiant	0 4
Y Cantor	0 6
Aelwŷd y Fam	0 2

Bywgraffiaeth.

Yr Athrawes o Ddisfrif	2 0
Cofiant Howell Harris, yn Saesoneg	3 0
" Daniel Rowlands, Llangeitho	2 0
" John Parry, Caerlleon	1 0
" John Elias, Mon	4 0
" John Thomas, Abertifi	1 6
" Moses Parry, Dinbych	1 0
" John Davies Nantglyn	1 0
" John Evans, Llwynffortun	1 0
" Daniel Jones, Caernarfon	0 6
" Ann Griffiths	0 6
Cenadon Hedd; hanes 13 o Bregethwyr,	0 6
Cofiant y Barch. J. Hughes, Lerpwl	5 0
Cofiant y Barch. Dafydd Rolant y Bala	2 0
" Merch y Llaethwr	0 6
" Joseph, gan Mac Gowan	1 2
" Napoleon Bonaparte	0 6
" Admiral Lord Nelson	0 6
" Jane Faeh	0 6

